
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Powys Teaching Health Board

# Adroddiad Blynyddol

## 2020 - 2021



## Rhagair – Datganiad y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd

Mae hon wedi bod yn flwyddyn eithriadol. Mae'r pandemig byd-eang wedi troi bywydau pob un ohonom â'u hwyneb i waered ac wedi gwneud i ni fyw a gweithio'n wahanol iawn. Mae hyn yn wir am y ffordd y mae gofal iechyd wedi'i ddatblygu a'i gyflenwi.

Mae wedi bod yn hollbwysig canolbwyntio ar ofal brys ac argyfwng, yn cynnwys y rheini â feirws Covid-19, gan alluogi gwasanaethau hanfodol i barhau i weithredu a newid rhai ohonynt i sicrhau diogelwch mewn amgylchedd Covid a sefydlu gwasanaethau newydd fel y gwasanaeth profi ac olrhain a'r gwasanaeth brechu.

Mae cyflawniad gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cyhoeddus, gwirfoddol a'r trydydd sector eraill dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn anhygoel; gyda phartneriaeth aruthrol a chryfder y gymuned yn cefnogi ac yn tanategu hyn.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn wahanol i rai mewn blynyddoedd blaenorol gan ei fod wedi'i osod yng nghyd-destun y profiad eithriadol hwn i'r bwrdd iechyd, ei bartneriaid a'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu. Mae'n adlewyrchu'r heriau sylweddol a wynebwyd yn ystod 2020-21, ac sy'n parhau i mewn i 2021-22, ond mae hefyd yn adlewyrchu'r don o arloesi sydd wedi'i gweld mewn ymateb.

Er bod y flwyddyn wedi bod yn un heriol ac er bod y staff wedi wynebu gorflinder a galwadau emosiynol a chorfforol eithriadol, gwelwyd cydweithredu, penderfynoldeb a chymhelliant hynod ar draws pob tîm. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi lle amlwg i'r unigolion a'r gwasanaethau sydd wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyl i ddarparu gofal iechyd eleni.

Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o ffyrdd y mae gwasanaethau wedi addasu a bod yn hyblyg i ddiwallu anghenion eu cleifion, trwy batrymau gweithio gwahanol, newidiadau i amgylcheddau ffisegol, mathau newydd o offer a rheoli haint a thrwy ddefnyddio dulliau digidol a dulliau eraill i gadw clinigau a gwasanaethau'n agored. Mae'r adroddiad yn disgrifio sut y parhawyd i ddarparu gofal iechyd hanfodol gan ddefnyddio ffyrdd newydd ac amgen o weithio.

Mae hefyd yn cynnwys ymdrechion hynod llwyddiannus i gyflenwi gwasanaethau iechyd ar ffurfiau hollol newydd - sefydlu gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys a rhaglen Frechu Covid-19. Mae'r ddau hyn wedi bod yn gamau hollbwysig ymlaen i leihau trosglwyddo'r feirws a lleihau'r risg o glefyd difrifol a marwolaeth ohono. Rydym yn falch o fod wedi perfformio'n hynod dda i gyflenwi'r gwasanaethau newydd hyn eleni.

Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod y bu amharu ar wasanaethau gydol y pandemig a bu angen i staff a chleifion/ defnyddwyr gwasanaeth fod yn hyblyg ac amyneddgar. Er bod defnyddio technoleg ddigidol, mynediad a darpariaeth dros y ffôn a thrwy e-bost wedi cynyddu gallu'r gwasanaeth iechyd i gefnogi cleifion, mae gwasanaethau 'wyneb yn wyneb' wedi gorfod newid i gyflawni'r mesurau diogelu gofynnol. Mae hyn wedi golygu bod niferoedd y bobl sy'n cael eu gweld wedi bod yn fwy cyfyngedig, gan weithiau arwain at amseroedd aros hirach a'i gwneud yn fwy anodd cael gafael mewn gofal a chefnogaeth. Mae'n bosibl bod yna hefyd rhai pobl sydd heb ddod ymlaen i gael cyngor pan y maent wedi cael symptomau sy'n peri gofid y byddent, mewn amseroedd 'arferol', wedi bod yn llai petrus ceisio cefnogaeth ar eu cyfer.

Mae'r holl faterion hyn yn hollbwysig ac mae ein dull o fynd ati i liniaru'r risgiau hyn trwy'r flwyddyn, gan weithio'n agos â phartneriaid yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, wedi'i ddisgrifio yn yr adroddiad hwn. Mae'r adran rhagolwg yn

manylu ar y cynllunio parhaus ar gyfer ein blaenoriaethau hanfodol wrth symud ymlaen a fydd yn cael yr effaith fwyaf positif ar gyfer pobl Powys. Mae'r Adroddiad hwn wedi'i seilio ar fyfyrio trylwyr ar yr hyn y mae'r bwrdd iechyd wedi'i ddysgu yn ystod y pandemig hyd yma, lle y bu meysydd datblygu positif a lle y mae angen gwella. Mae'n rhannu'r gwaith a ddechreuwyd yn 2020 ac y parhawyd ag ef i 2021 i ddeall yn llawn yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar boblogaeth Powys ac ymateb i hyn. Mae yna anghenion wirioneddol anferthol wedi'u nodi'n fyd-eang o ganlyniad i'r pandemig ac mae'r adroddiad hwn yn manylu ar rywfaint o'r gwaith rydym eisoes wedi'i ddechrau i ddeall beth y mae hynny wedi'i olygu yn ystod 2020 ac wrth symud ymlaen ar gyfer ein cymunedau ein hunain.

Mae'r flwyddyn hefyd wedi gweld cryn dipyn o arloesi a dyma yw'r sylfaen ar gyfer ein hadferiad o'r pandemig ac adnewyddu ein gwasanaethau a'n rhaglenni trawsnewid. Mae cymaint wedi'i ddysgu yn ystod y flwyddyn, rhywfaint ohono'n syfrdanol, yn hynod werthfawr ac i'w gofleidio. Mae'r gwasanaeth iechyd gyda phartneriaid ac, yn benodol, gyda chleifion/ defnyddwyr gwasanaeth/ gofalwyr/ dinasyddion a chymunedau wedi datblygu ffyrdd gwell o sicrhau bod gofal iechyd o ansawdd uchel ar gael gan, mewn llawer o achosion, ddarparu cefnogaeth yn gyflymach a ffocws ar gartrefi a bywydau pobl eu hunain yn hytrach nag ar gyfyngiadau gwasanaethau ac adeiladau, a dygir sylw at y rhain yn yr adroddiad hwn drwyddo draw.

Mae'r ystwythder a'r egni y mae'r gwasanaeth iechyd a'i bartneriaid wedi'u dangos wedi bod yn rhyfeddol ond i lawer iawn o bobl, yn enwedig staff y GIG, mae'n rhaid bod heriau'r flwyddyn ddiwethaf a'r disgwyliad o ran y gwaith sydd ei angen i adfer ac adnewyddu yn edrych yn llafurus. Mae staff ar draws y GIG a, heb amheuaeth, mewn sectorau eraill sy'n bartneriaid wedi blino'n lân. Mae'r gwaith hael, mewn amgylchiadau hynod anodd, wedi arwain at fwy o angen nag erioed o'r blaen i roi llesiant wrth galon gallu adfer ac adnewyddu. Er ein bod, fel Cadeirydd a Phrif Weithredwr, wedi manteisio ar y cyfle sawl tro i ddiolch i'r staff ar draws gwasanaethau iechyd lleol, rydym hefyd yn rhannu cynifer o nodiadau o werthfawrogiad â phosibl yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys 'galw enwau' staff sydd wedi ennill gwobrau trwy'r flwyddyn.

Er y gohiriwyd rhai prosesau, fel y gofyniad am Gynlluniau Tymor Canolig Integredig, i ymateb i'r pandemig fel gwlad, roedd ein Gwerthoedd a'n Hegwyddorion craidd, a ddatblygwyd gan ein gweithlu a'n rhanddeiliaid, yn atseinio'n gryfach nag erioed.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio sut y mae'r strategaeth iechyd a gofal tymor hir, sef 'Powys Iach a Gofalgar', a ddatblygwyd gyda phobl Powys, wedi parhau i fod yn angor pwysig i ni eleni ac mae'n golygu ein bod mewn sefyllfa hynod dda wrth symud ymlaen.

Os ydych chi'n darllen yr adroddiad hwn, fel aelod o staff neu gydweithiwr mewn sefydliad sy'n bartner, trigolyn, claf, gofalwr, gwirfoddolwr, busnes lleol neu gyfuniad o'r rhain, diolch yn fawr am bopeth rydych wedi'i wneud ac rwyf yn gobeithio bod yr adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar yr ymdrechion rhyfeddol rydych wedi'u gwneud ar gyfer Powys eleni.



Professor Vivienne Harpwood (Chair)



Carol Shillabeer (Chief Executive)

www.facebook.com/PTHBhealth @PTHBhealth www.youtube.com/PowysTHB

# TABL CYNNWYS


Rhagair – Datganiad y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd .................................... 2
Ynglŷn â'r Adroddiad hwn .................................... 5
ADRAN UN: YR ADRODDIAD AR BERFFORMIAD .................................... 6
GOFYNION A CHYD-DESTUN .................................... 8
Gofynion ar gyfer 2020-21 .................................... 8
Powys a'i Phoblogaeth .................................... 8
Rôl y Bwrdd Iechyd .................................... 11
Fframwaith Cynllunio a Chyflenwi 2020-21 .................................... 13
Dull Perfformiad Integredig o Weithredu .................................... 15
TROSOLWG O BERFFORMIAD .................................... 17
Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaethau Diogel, Effeithiol o Ansawdd ar gyfer Gofal COVID-19 .................................... 17
Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaethau Diogel, Effeithiol o Ansawdd ar gyfer Gofal Heblaw am COVID-19/ Cyflenwi Gwasanaethau Hanfodol .................................... 24
Meysydd Allweddol Perfformiad yn Erbyn Fframwaith Canlyniadau'r GIG ... 31
Ansawdd a Phrofiad y Claf .................................... 42
Cyfathrebu ac Ymgysylltu .................................... 46
Cydraddoldebau a'r Iaith Gymraeg .................................... 48
Y Gweithlu .................................... 49
Digidol .................................... 53
Amgylcheddau Arloesol .................................... 56
Cynaliadwyedd a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol .................................... 57
Partneriaeth .................................... 62
Rhagolwg 2021/22 .................................... 64
'Galw Enwau' Gwerthfawrogi Staff .................................... 67
ADRAN DAU: YR ADRODDIAD ATEBOLRWYDD .................................... 70
RHAN A: ADRODDIAD AR LYWODRAETHU CORFFORAETHOL .................................... 74
1. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR AR GYFER 2020-21 .................................... 75
2. DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG ATEBOL: 2020-21 .................................... 81
3. DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU CYFARWYDDWYR O RAN Y CYFRIFON AR GYFER 2020-21 .................................... 83
4. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL .................................... 85
PART B: ADRODDIAD AR DALIADAU A STAFF .................................... 167
RHAN C: ADRODDIAD ATEBOLRWYDD AC ARCHWILIO SENEDDOL .................................... 180
ADRAN TRI: Y DATGANIADAU ARIANNOL .................................... 188

## Ynglŷn â'r Adroddiad hwn

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021. Mae'n ofynnol bod holl gyrff y GIG yng Nghymru'n cynhyrchu'r adroddiad hwn ac yn cyhoeddi'r wybodaeth hon. Mae copïau o'r adroddiad hwn ac adroddiad y flwyddyn flaenorol ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd.

Mae'r adroddiad yn cynnwys tair adran:

### Adran 1 – Yr Adroddiad ar Berfformiad

Mae'r adran hon yn darparu:

- Disgrifiad o sut y mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni yn erbyn y Fframwaith Cynllunio, Cyflenwi a Pherfformiad, a sut y mae wedi addasu mewn ymateb i'r pandemig.
- Trosolwg o boblogaeth Powys, a rôl y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r pandemig.
- Dadansoddiad o berfformiad ar gyfer 2020-21 yn erbyn meysydd allweddol Fframwaith Canlyniadau'r GIG.
- Ansawdd a Phrofiad Cleifion.
- Rhagolwg i'r Cynllun Blynyddol Drafft ar gyfer 2021/22.

### Adran 2 – Yr Adroddiad ar Atebolrwydd

Mae'r adran hon yn darparu:

- Gwybodaeth am sut y mae'r sefydliad yn cael ei lywodraethu – ei 'lywodraethu corfforaethol'.
- Gwybodaeth am daliadau a staffio.
- Adroddiad ar Atebolrwydd ac Archwiliad Seneddol.

### Adran 3 – Y Datganiadau Ariannol

Mae'r adran hon yn cynnwys y Cyfrifon Blynyddol Archwiliedig.

*Os hoffech chi gael yr adroddiad hwn mewn fformat arall, yna cysylltwch ag:*

Ysgrifennydd y Bwrdd, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Pencadlys Corfforaethol, Tŷ Glasbury, Ysbyty Bronllys, Bronllys, Aberhonddu, Powys, LD3 0LU.
Neu ewch i'n gwefan yn https://biap.gig.cymru/

# ADRAN UN: YR ADRODDIAD AR BERFFORMIAD

# ADRODDIAD AR BERFFORMIAD: 2020-21




**LLOFNODWYD GAN:** **DYDDIAD: 10 MEHEFIN 21**

**CAROL SHILLABEER**

**[PRIF WEITHREDWR]**

## GOFYNION A CHYD-DESTUN

### Gofynion ar gyfer 2020-21

Diben yr adran o'r Adroddiad Blynyddol hwn ar Berfformiad fel y manylir arno yn y canllawiau a ddarparwyd yn Llawlyfr 2020-21 GIG Cymru ar gyfer Cyfrifon yw darparu gwybodaeth am Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, ei brif amcanion a strategaethau a'r prif risgiau y mae'n eu hwynebu.

Mae'r gofynion wedi'u seilio ar y materion y mae gofyn delio â nhw fel y manylir arnynt ym Mhennod 4A Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006, fel y'u mabwysiadwyd yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol a Llawlyfr Canllawiau GIG Cymru.

Mewn ymateb i'r pandemig COVID-19, mae'r gofynion adrodd wedi'u hadolygu a'u symleiddio ond gan sicrhau bod yr holl faterion rheoleiddiol yn cael eu bodloni a bod yr adroddiad yn darparu gwybodaeth i adlewyrchu sefyllfa'r corff GIG o fewn y gymuned a darparu atebolrwydd cyhoeddus. Nid oes gofyn cyflwyno adran dadansoddi perfformiad, adroddiad cynaliadwyedd neu Ddatganiad Ansawdd Blynyddol ar wahân ar gyfer 2020-21. Fodd bynnag, darperir gwybodaeth os yw ar gael yn y trosolwg o berfformiad.

Ar gyfer 2020-21, mae gofyn cael Adroddiad ar Berfformiad i ddarparu trosolwg yn unol â'r dull diwygiedig a argymhellwyd ac y manylwyd arno yn Atodiad 7 canllawiau GIG Cymru, gan adlewyrchu'r angen i ymateb i'r pandemig COVID-19 gyda ffocws clir ar ansawdd, arfer arloesol ac arweinyddiaeth glinigol wrth wynebu'r heriau.

Mae prif nodweddion yr adroddiad yn llifo o Fframwaith Cynllunio, Cyflenwi a Pherfformiad y sefydliad ac yn dangos sut y mae'r sefydliad wedi cyflawni yn erbyn y fframwaith hwnnw a sut yr addasodd y sefydliad yn ystod y flwyddyn i ymateb i'r pandemig.

### Powys a'i Phoblogaeth

Mae'r bwrdd iechyd yn datblygu ei gynlluniau ar sail asesiad o anghenion poblogaeth Powys sy'n ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd a rôl y bwrdd iechyd yn ei gymuned.

Powys yw un o'r siroedd mwyaf gwledig yn y DU. Er bod y sir yn fawr, yn cwmpasu oddeutu 25% o dirfas Cymru, dim ond 5% o'r boblogaeth sydd yno. Mae yna rwydwaith cryf o drefi a phentrefi bychain â chryn dipyn o ymrwymiad cymdeithasol, a sector gwirfoddol cryf yn y sir.

Mae diweithdra'n isel; fodd bynnag, mae gan Bowys economi incwm isel gydag enillion cyfartalog isel a phrisiau tai sy'n uchel o'u cymharu ag enillion a phrisiau tai ardaloedd eraill yng Nghymru. Mae pum ardal (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is) ymysg y 30% mwyaf amddifad yng Nghymru, wedi'u clystyru o gwmpas y prif drefi marchnad â phoblogaethau preswyl uwch.

Ar y cyfan, mae yna ddeilliannau iechyd da yn y Sir ac mae pobl yn byw yn hirach ac yn treulio mwy o flynyddoedd mewn iechyd da na'r cyfartaledd cenedlaethol, yn bwyta diet iachach ac yn fwy egnïol yn gorfforol.

Gwnaeth Asesiad Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys, a gynhaliwyd cyn y pandemig, adrodd ar synnwyr cryf o gymuned a boddhad â bywyd, gyda

83% yn dweud eu bod yn teimlo’u bod yn perthyn i’w hardal leol, o’i gymharu â 75% yng Nghymru gyfan. *Gwelwch Asesiad Lles Powys i gael manylion pellach a ffynonellau* https://cy.powys.gov.uk/article/7602/Dadansoddiad-llawn-or-asesiad-lles

Fodd bynnag, er bod iechyd cyffredinol yn dda, mae yna faterion sydd wedi darparu sail ar gyfer ein strategaeth tymor hir cyn y pandemig ac nawr mae effaith y pandemig ei hun i’w hystyried.

Mae poblogaeth Powys yn hŷn o’i gymharu â gweddill Cymru, gyda 13% o’r boblogaeth gyfan dros 75 oed ac mae cyfran y bobl hŷn yn tyfu. Rhagwelir y bydd yna 26,348 o bobl dros 75 oed erbyn 2043, sef cynnydd o 10,000 dros y 25 mlynedd nesaf (o’i gymharu â llinell sylfaen o 16,166 yn 2018).

Mae’r boblogaeth oedolion o oedran gweithio yn llai o’i chymharu â phoblogaeth Cymru a rhagwelir y bydd nifer y bobl ifanc ac oedolion o oedran gweithio’n gostwng, tra bydd nifer y bobl hŷn yn cynyddu. Rhagwelir gostyngiad o 8% ym mhoblogaeth Powys erbyn 2039.

Dangosodd yr asesiad diweddaraf o’r boblogaeth fod 1 o bob 5 o bobl yn dal i ysmygu, 1 o bob 4 plentyn yn ordrwm neu’n ordew wrth ddechrau’r ysgol a 6 o bob 10 oedolyn yn ordrwm neu’n ordew. Mae anghydraddoldebau iechyd ymysg pobl sy’n byw yn ardaloedd mwyaf amddifad Powys yn sylweddol; mae plentyn a enir yn yr ardal fwyaf amddifad yn byw oddeutu 10 mlynedd (bechgyn) i 14 mlynedd (merched) yn llai na phlentyn a enir yn yr ardal leiaf amddifad.

Mae’r dystiolaeth ddiweddaraf ynglŷn ag effaith y pandemig COVID-19 (uniongyrchol ac anuniongyrchol) ar y boblogaeth yn dangos y bydd yr effeithiau i’w teimlo mewn cymdeithas am flynyddoedd lawer i ddod, bydd anghydraddoldebau iechyd yn ehangu, oni bai y bydd y risg hon yn cael ei lliniaru, ac mae yna dystiolaeth o effaith gymhleth ar ymddygiad iechyd, gydag effaith bositif a negyddol.

Mae yna dystiolaeth yn dod i’r fei y bydd yr effaith yn arbennig o sylweddol ar y rheini sy’n byw mewn ardaloedd gwledig mwy anghysbell, fel a nodir mewn ymchwil gan Ymddiriedolaeth Nuffield (2020) ‘Gwledig, anghysbell ac mewn risg: pam fod gwasanaethau iechyd gwledig yn wynebu dringfa serth i adfer o COVID-19’. https://www.nuffieldtrust.org.uk/research/rural-remote-and-at-risk

Mae’r dystiolaeth hefyd yn awgrymu’r effeithiau gwahanol sydd wedi digwydd rhwng grwpiau poblogaeth, gyda phobl sydd eisoes wedi bod dan anfantais yn profi effeithiau mwy, o ran y clefyd ei hun ac oherwydd materion cymdeithasol ac economaidd ehangach.

Mae’r rhain yn newidiadau sydd wedi dechrau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ond a fydd ag effeithiau ar gyfer dyfodol Powys yn y tymor byr a’r tymor hir. Ceir crynodeb o’r meysydd effaith allweddol isod ac mae gwybodaeth bellach wedi’i chynnwys yn yr adran Rhagolwg ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Byddai disgwyl i salwch hirsefydlog gynyddu’n raddol gyda diweithdra cynyddol neu estynedig, a fydd â goblygiadau i wasanaethau gofal iechyd. Rhagolygir y gallai hyn arwain at ryw 900,000 yn fwy o oedolion o oedran gweithio yn y DU yn datblygu cyflyrau iechyd cronig.

Ar sail ragolygon presennol ynglŷn â diweithdra, mae yna dystiolaeth bod disgwyl y bydd canran yr oedolion o oedran gweithio â chyflyrau iechyd cronig

yn cynyddu yn sgil y pandemig hyd at ddiwedd 2022/23, gyda chynyddiad uwch ar gyfer problemau iechyd meddwl a phroblemau endocrin/ metabolig:

- Y rhagamcan yw y bydd cyfran yr oedolion o oedran gweithio y bydd salwch hirhoedlog yn cyfyngu'n sylweddol arnynt yn cynyddu o 18.1% yn 2019/20, i 24.4% yn 2022/23. *I Bowys, mae hyn yn 4,719 yn fwy o oedolion.*
- Y rhagamcan yw y bydd cyfran yr oedolion o oedran gweithio â phroblemau cyhyrysgerbydol yn cynyddu o 17.1% yn 2019/20, i 19.4% yn 2022/23. *I Bowys, mae hyn yn 1,723 yn fwy o oedolion.*
- Y rhagamcan yw y bydd cyfran yr oedolion o oedran gweithio â phroblemau â'r galon a chylchrediad y gwaed yn cynyddu o 12.8% yn 2019/20, i 15.5% yn 2022/23. *I Bowys, mae hyn yn 2,023 yn fwy o oedolion.*
- Y rhagamcan yw y bydd cyfran yr oedolion o oedran gweithio â phroblemau anadlu'n cynyddu o 8.2% yn 2019/20, i 10.6% yn 2022/23. *I Bowys, mae hyn yn 1,797 yn fwy o oedolion.*
- Y rhagamcan yw y bydd cyfran yr oedolion o oedran gweithio â phroblemau endocrin a metabolig yn cynyddu o 7.9% yn 2019/20, i 10.9% yn 2022/23. *I Bowys, mae hyn yn 2,247 yn fwy o oedolion.*
- Y rhagamcan yw y bydd cyfran yr oedolion o oedran gweithio â phroblemau iechyd meddwl yn cynyddu o 8.8% yn 2019/20, i 11.9% yn 2022/23. *I Bowys, mae hyn yn 2,322 yn fwy o oedolion.*

Ffynhonnell: Planning Ahead: Evidence Relating to the Impact of the Pandemic (Catherine Woodward, Chwefror 2021, Adroddiad a gomisiynwyd gan BIAP)

Mae model yn cael ei greu o oblygiadau galwadau ychwanegol o'r fath ond maent yn debygol o fod yn sylweddol ac yn ychwanegol at y newidiadau demograffig yn y boblogaeth a nodir uchod, gan gynnwys poblogaeth gynyddol hŷn.

Mae ffynonellau amrywiol yn cyfeirio at effaith 'syndemig', sy'n golygu bod yna effaith gronnol i'r rheini sydd â chyflyrau iechyd yn barod a graddiant cymdeithasol yn y profiad o hyn. Mae ymchwil yn awgrymu effeithiau penodol ar blant a phobl ifanc a grwpiau agored i niwed, a chydberthynas ar draws anghydraddoldebau, gan gynnwys ethnigrwydd, rhyw, oedran a rhywedd.

Manylodd yr adroddiad 'Gosod tegwch iechyd wrth wraidd ymateb ac adferiad cynaliadwy COVID-19' (Adroddiad ar Statws Tegwch Iechyd Cymru, 2021) ar yr effaith economaidd-gymdeithasol ehangach yng Nghymru. Mae'n manylu ar effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol mawr ar boblogaeth Cymru, yn amrywio o golli incwm, problemau o ran tai a chyflogaeth, allgáu digidol a thrawma, a fydd yn waeth fyth i'r rheini mewn grwpiau difreintiedig, grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phlant a phobl ifanc. Mae'n disgrifio sioc ddwfn i'r GIG a'r system gofal cymdeithasol gyda gostyngiadau yn nifer y bobl a fydd yn mynd i'r ysbyty mewn argyfwng neu ar gyfer triniaeth ddewisol yng Nghymru ac effeithiau ar iechyd meddwl staff, gyda chynnydd mewn gorbryder ac iselder a fydd yn cael effaith hirdymor ar ansawdd bywyd. Mae'r adroddiad yn pwysleisio'r gyd-ddibyniaeth ddofn rhwng llesiant y boblogaeth a'r gymuned a'r cyfle i gyflymu â dulliau newydd o drin y nod o gael pobl, cymdeithasau ac economïau iachach a chryfach.

Mae Cronfa'r Brenin wedi nodi mewnwelediadau o waith adfer o drychineb yn fyd-eang. Maent yn nodi y bydd adfer yn rhychwantu 10 i 15 mlynedd ac na fydd yn llinellol. Un darganfyddiad allweddol yw y dylai adfer ganolbwyntio ar

ddeall beth sydd ei angen ar unigolion a chymunedau i ymdopi ag effeithiau trychineb, ac i fod mewn gwell sefyllfa i wrthsefyll yr un nesaf. Mae yna bedwar maes blaenoriaeth: Iechyd meddwl; Angen y gymuned; Gadael neb ar ôl; Cydweithio.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi awgrymu y bydd yna wahanol gyfnodau o effeithiau ar boblogaethau yn sgil y pandemig ac mae yna dystiolaeth yn dod i'r fei yn barhaus ynglŷn â llesiant y boblogaeth.

Mae'r dystiolaeth hon sy'n dod i'r fei wedi bod yn ffynhonnell bwysig o ddysgu a gwybodaeth gydol y flwyddyn ac mae'n parhau i ddarparu sail ar gyfer Cynllun Blynyddol y bwrdd iechyd ar gyfer 2021-22. Bydd yn ystyried yr Asesiad o Boblogaeth Powys a fydd yn digwydd yn y flwyddyn nesaf.

## Rôl y Bwrdd Iechyd

Mae gan y Bwrdd Iechyd rôl unigryw fel comisiynydd a hefyd fel darparwr uniongyrchol gofal iechyd i drigolion Powys.

Mae cyllideb y bwrdd iechyd yn rhyw £360 miliwn y flwyddyn, sy'n cael ei gwario ar wasanaethau rydym yn eu comisiynu; gwasanaethau rydym yn eu darparu'n uniongyrchol; gofal sylfaenol trwy gontractwyr gan gynnwys 16 o Bractisau Cyffredinol a gwasanaethau y Tu Allan i Oriau; 22 o Bractisau Deintyddol a 5 o wasanaethau deintyddol gofal sylfaenol y bwrdd iechyd yn ogystal â Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol wedi'u lleoli ledled Powys fel rhan o wasanaethau cymunedol; 23 o Fferyllfeydd ac 16 o Optometryddion; a gwasanaethau a ddarperir trwy gytundebau â'r Trydydd Sector.

Mae BIAP yn darparu gwasanaethau gofal iechyd yn uniongyrchol trwy ei rwydwaith o wasanaethau cymunedol ac ysbytai cymunedol, gydag ystod o sesiynau cleifion allanol dan arweiniad ymgynghorwyr, nyrsys a therapyddion, theatr dydd a diagnosteg mewn cyfleusterau cymunedol.

Roedd y Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) ar gyfer 2019/20 (a ddatblygwyd cyn dechrau'r pandemig COVID-19) wedi'i osod yng nghyd-destun Strategaeth Iechyd a Gofal tymor hir ar gyfer Powys, sef 'Powys Iach a Gofalgar', a set o amcanion llesiant a ddatblygwyd trwy ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, rhanddeiliaid a staff.

Mae Powys Iach a Gofalgar wedi'i lunio o amgylch cyd-amcanion llesiant:
Amcanion llesiant craidd:

- Canolbwyntio ar Lesiant
- Help a Chefnogaeth Gynnar
- Gofal Cydgysylltiedig
- Mynd i'r Afael â'r Pedwar Mawr
- Digidol yn Gyntaf
- Dyfodol y Gweithlu
- Amgylcheddau Arloesol
- Trawsnewid mewn Partneriaeth

Amcanion galluogi:

Er bod sefyllfa ddigynsail y pandemig COVID-19 wedi arwain at rai newidiadau yn y fframwaith cynllunio a chyflenwi ar gyfer 2020-21 (y manylir arno yn yr adran ddilynol), mae'r strategaeth iechyd a gofal tymor hir a'r amcanion llesiant a nodwyd uchod yn parhau i ddarparu'r sylfaen ar gyfer cynlluniau tymor canolig a thymor hir y bwrdd iechyd.




Mae'r bwrdd iechyd wedi ddiffinio'r Gwerthoedd sydd wrth wraidd strwythur, prosesau, pobl a diwylliant y sefydliad.
Pobl sy'n gweithio i'r bwrdd iechyd a'i randdeiliaid sydd wedi datblygu'r rhain.

Roeddent yn fwy perthnasol fyth yn ystod 2020-21 a byddant yn rhan o lesiant a datblygiad sefydliadol ar gyfer 2021/2022 a thu hwnt.


Datblygwyd set o egwyddorion hefyd gyda staff, partneriaid, cleifion, gofalwyr a rhanddeiliaid fel rhan o'r Strategaeth Iechyd a Gofal. Daeth y rhain hefyd i'r amlwg yn ystod 2020-21, gan osod y paramedrau ar gyfer cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ac wrth gytuno ar flaenoriaethau ystyrlon wrth symud ymlaen.




Fe fyddwn ni'n canolbwyntio ar beth sy'n bwysig i bobl. Fe fyddwn ni'n cydweithio i gynllunio gofal a chymorth wedi'i bersonoli, gan ganolbwyntio ar y canlyniadau sy'n bwysig i'r unigolyn.





Fe fyddwn ni'n canolbwyntio adnoddau ar y rheini sydd â'r angen mwyaf am help a chefnogaeth, mewn ffordd sy'n edrych ymlaen i genedlaethau'r dyfodol.





Fe fyddwn ni'n darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar beth sy'n gweithio, ar sail tystiolaeth, gwerthusiad ac adborth. Fe fyddwn ni'n cael sgyrsiau onest ynglŷn â sut rydyn ni'n defnyddio adnoddau.



Fe fyddwn ni'n sicrhau bod gofal arbenigol a thriniaethau a thechnolegau newydd o fewn cyrraedd teg, gan helpu i gyflawni Powys fwy cyfartal a chydnabod heriau gwledig.




Fe fyddwn ni'n defnyddio adnoddau cyhoeddus yn deg fel bod gwasanaethau iechyd a gofal dim ond yn gwneud y pethau mai dim ond y nhw sy'n gallu eu gwneud ac y dylen nhw eu gwneud, gan gefnogi pobl i fod yn bartneriaid cyfartal a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd a'u gofal.




Fe fyddwn ni'n gweithio gydag unigolion a chymunedau i ddefnyddio'u holl gryfderau mewn ffordd sy'n sicrhau'r iechyd a'r gofal gorau posibl i bawb, gan ganolbwyntio ar bob cam o fywyd—Dechrau Da, Byw'n Dda a Heneiddio'n Dda.

## Fframwaith Cynllunio a Chyflenwi 2020-21

Ymateb i effaith y pandemig COVID-19

Datblygwyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) ar gyfer 2019/20 cyn dechrau'r pandemig COVID-19, ond yn dilyn hynny gohiriodd Llywodraeth Cymru yr angen am Gynlluniau Tymor Canolig Integredig ym mis Mawrth 2020 oherwydd y pandemig COVID-19 a gwneud cynllunio chwarterol yn ofynnol yn ei le.

Roedd y Cynlluniau Chwarterol y gwnaeth y bwrdd iechyd eu datblygu a'u rhoi ar waith yn ystod 2020 - 2021 yn canolbwyntio ar yr ymateb i COVID-19 ac ar gynnal gofal iechyd hanfodol, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chanllawiau oddi wrth Sefydliad Iechyd y Byd a chyrff clinigol yn y cyd-destun hwn.

Sefydlwyd Grŵp Aur Strategol, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr, ym mis Mawrth 2020 i reoli'r ymateb i'r pandemig Covid-19. Roedd hyn yn cynnwys datblygu Model Ymateb Clinigol a Model Gwasanaethau Cymorth COVID-19 fel cydrannau craidd ar gyfer y Fframwaith Cynllunio a Chyflenwi yn Chwarter 1 (mis Ebrill i fis Mehefin 2020).

Lluniwyd hwn o gwmpas y dull 'Pum Cam' gan gefnogi unigolion i weithredu trwy aros adref ac achub bywydau; hunanofal a chefnogaeth teulu/ cymuned; darparu gofal sylfaenol a chymunedol hanfodol gan gynnwys y model ysbytai cymunedol a gofal acíwt ac arbenigol.



Roedd hyn yn adlewyrchu amgylchiadau unigryw Powys fel darparwr a sefydliad sy'n comisiynu ac roedd yn ymateb i ofynion Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru yn y cyd-destun hwnnw.

Darparodd hyn y sylfaen ar gyfer Cynllun Cyfnod 2 yn Chwarter 2 a ganolbwyntiodd ar gyflenwi yn y cyfnod o fis Gorffennaf i fis Medi 2020. Cymerodd y cynllun hwn hefyd olwg ar bethau yn y tymor hir, ar yr adferiad ar ôl y pandemig ac ar symud ymlaen â'r strategaeth iechyd a gofal tymor hir a rennir â phartneriaid ledled Powys. Yn ogystal â'r blaenoriaethau a ddisgrifiwyd o'r newydd ar gyfer ymateb ar unwaith i COVID-19, roedd yn disgrifio'r gwaith a oedd yn ailddechrau ar flaenoriaethau strategol allweddol gan gynnwys ail-lunio Rhaglen Llesiant Gogledd Powys; yr ymateb i agor Ysbyty'r Faenor a ddaeth, yn ei dro, yn Rhaglen De Powys a pharhau i weithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y trydydd sector a byrddau iechyd a systemau eraill yn GIG Cymru a GIG Lloegr.

Trwy gydol 2020 – 2021, gosodwyd y cynlluniau chwarterol yng nghyd-destun yr effeithiau ehangach posibl a oedd yn digwydd yn ystod y pandemig. Seiliodd BIAP ei ddarpariaeth gofal iechyd yn y cyfnod hwn o gwmpas y 'Pedwar Niwed' roedd Llywodraeth Cymru wedi manylu arnynt yng nghyd-destun y pandemig:

- Niwed o'r pandemig COVID-19 ei hun
- Niwed o leihad mewn gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â COVID-19
- Niwed o system iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi'i gorlethu
- Niwed o gyfyngiadau symud neu gamau cymdeithasol ehangach

Roedd hyn yn adlewyrchu'r dull llwybr deuol o weithredu a argymhellwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd, ar sail egwyddor o 'fwrw ymlaen gan bwyll', gan barhau i fod yn barod i ddarparu'r gofal sydd ei angen i atal, gwneud diagnosis, ynysu a thrin COVID-19 (Llwybr 1) a mynd i'r afael â'r galw cynyddol gan wasanaethau a gafodd eu hatal er mwyn lleihau'r siawns o'i ddal ac i ddarparu gofal yn ystod y cyfnodau pan fo'r achosion ar eu hanterth (Llwybr 2).

Wrth wraidd hyn oedd yr egwyddorion cyflenwi a ddiffinnir yng Ngorchymyn Aur Strategol BIAP:

- Defnyddio cynllunio ystwyth i ymateb i COVID-19 – mae hwn yn ddull mwy ymatebol a hyblyg o weithredu wedi'i seilio ar gylchredau 30, 60 a 90 diwrnod.
- Gwybodaeth gadarn gan gynnwys data am achosion a chyfraddau haint ('gwerth R') COVID-19 a rhybuddion cynnar am frigiadau mewn achosion
- Dull llwybr deuol o weithredu – adolygu ac asesu parhaus i gydbwyso cyflenwi gofal iechyd COVID-19 a gofal iechyd arall.
- Dull cydweithredol o weithredu gan adeiladu ar weithio rhanbarthol ledled Powys, gan gynnwys y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, strwythurau Gorchymyn Arian trawsffiniol, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys.
- Dull o weithredu seiliedig ar dystiolaeth, gan ddefnyddio dysgu, polisi ac arfer cenedlaethol a rhyngwladol yn ogystal â'n hymarfer 'Dysgu ar gyfer y Dyfodol' ein hunain.

Mae fframwaith cynllunio a chyflenwi'r bwrdd iechyd wedi'i adeiladu ar

bartneriaethau cadarn â Chyngor Sir Powys a phartneriaid allweddol eraill mewn fforymau cydnerthedd rhanbarthol ledled Dyfed Powys, Sir Amwythig a Telford & Wrekin a Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Roedd y cydweithredu â'r trydydd sector hefyd yn allweddol bwysig a daethant yn llinell ymateb a chefnogaeth gyntaf i lawer o bobl ledled Powys, yn enwedig pobl a oedd yn ynysu neu'n cael eu gwarchod.

Sicrhaodd hyn fod y ffocws presennol ar lesiant, penderfynyddion ehangach iechyd a phwyslais clir ar ansawdd gofal yn cael ei gynnal yn null y bwrdd iechyd o weithredu yn ystod blwyddyn heriol.

Galluogodd hefyd i ni gynnal adolygiad ac ailwerthusiad blaengar o'r effeithiau, heriau a chyfleoedd ehangach, fel rhan o'r cylchred cynllunio a chyflenwi.

Roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth ddatblygu Cynllun Diogelu'r Gaeaf a oedd yn cwmpasu cyfnod Chwarter 3 a Chwarter 4 o fis Hydref 2020 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021. Roedd hwn yn canolbwyntio'n fwy ar adferiad, dysgu o'r arloesi eang ei wasgariad a fabwysiadwyd yn ystod yr ymateb cychwynnol i'r pandemig, a sut y byddai hyn yn cyfrannu at yr uchelgais tymor hir o 'Bowys Iach a Gofalgar'.

Roedd yna enghreifftiau o weithredoedd caredig gydol y flwyddyn, o du'r gymuned i'r staff ac o du'r staff eu hunain.
Eleni, yn lle eu Santa Dirgel arferol, gwnaeth yr Adran Gofal Sylfaenol rodd o'u harian i lenwi troli ar gyfer banc bwyd Llandrindod.



Roedd ganddynt hefyd arian dros ben sydd wedi'i roi i 'Helping our Homeless Wales' tuag at gostau pod cysgu ar gyfer rhywun digartref.

Gwnaeth busnesau lleol ddangos eu cefnogaeth mewn sawl ffordd. Bu




Primrose yn Nhalgarth yn helpu i hybu'r cynnig SilverCloud i bobl ym Mhowys er mwyn cefnogi llesiant meddwl trwy ei gynnwys yn eu ffenestr Nadolig.
Gwnaeth rhoddion gydol y flwyddyn roi hwb i dimau, fel y tîm Tesco yn Llandrindod a wnaeth rodd o Fasgedaid o Ffrwythau i Fydwragedd Powys i gydnabod eu cefnogaeth i deuluoedd Powys yn ystod y flwyddyn.

## Dull Perfformiad Integredig o Weithredu

Addaswyd hefyd y modd o fesur perfformiad yn 2020/2021 yn unol â'r newidiadau i'r fframwaith cenedlaethol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19.
Daliwyd i weithredu mewn dull integredig gyda chydrannau sylweddol newydd i gyflawni'r wybodaeth ac arolygaeth angenrheidiol a oedd yn ofynnol yn ôl y Gorchymyn Aur Strategol a oedd newydd ei sefydlu.
Roedd hyn yn cynnwys Dangosfwrdd o'r sefyllfa ynglŷn â'r pandemig

COVID-19 ac ymateb y system iechyd a gofal.
Gohiriwyd fframwaith Perfformiad GIG Cymru yn Chwarter un, ond parhaodd BIAP i roi trosolwg o'r dangosyddion perfformiad allweddol yn erbyn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol lle roedd y wybodaeth ar gael (sef set o fesurau canlyniadau sy'n ffurfio rhan o Fframwaith Perfformiad GIG Cymru).
Defnyddiwyd Cynllun Gweithredu wedi'i oruchwylio yn y Grŵp Aur Strategol i gadw llygad ar gyflawniad yn erbyn cynlluniau chwarterol. Roedd hyn yn olrhain y camau gweithredu allweddol ym mhob un o feysydd y 'Pedwar Niwed' a chyflawniad o'r model Pum Cam a'i ffrydiau gwaith allweddol.

Cyflwynwyd elfen newydd o adrodd yn ôl i olrhain cyflawni gofal iechyd hanfodol ledled y gwasanaethau y mae BIAP yn eu darparu a'r gwasanaethau y mae'n eu comisiynu a, thrwy gydol 2020/2021, cadwyd cofnod o newidiadau yn y gwasanaeth oherwydd y pandemig ac mae'n parhau i gael ei ddefnyddio yn 2021/2022.
Roedd y system hon o adrodd yn ôl ac adolygu'n parhau i ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol i Bwyllgorau'r Bwrdd a'r Bwrdd ynglŷn ag ansawdd a diogelwch y gwasanaethau, mynediad at ofal, gwella a chyflawni yn erbyn amcanion strategol y bwrdd, mewn amgylchedd gweithredol cymhleth a newydd.

## TROSOLWG O BERFFORMIAD

### Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaethau Diogel, Effeithiol o Ansawdd ar gyfer Gofal COVID-19

Model Ymateb Clinigol a Model Gwasanaethau Cymorth
Yn ystod y cyfnod cyntaf o'r ymateb i COVID-19, bu'r bwrdd iechyd yn gweithio'n gyflym i addasu ei gynllunio a chyflenwi ar gyfer gwasanaethau hanfodol i fywyd a chritigol i fywyd, a chyhoeddodd Model Ymateb Clinigol a Model Gwasanaethau Cymorth fel rhan o'r cynllun diwygiedig ar gyfer Chwarter 1. Roedd hwn yn parhau i ddarparu'r sail i gynllunio a chyflenwi gwasanaethau diogel, effeithiol o ansawdd ar gyfer gofal COVID-19 trwy gydol 2020/21. Ymhlith y prif gyflawniadau mae:

- Datblygu a gweithredu model ymateb clinigol cyffredinol a siartiau llif ategol ar gyfer pob un o'r pum cam:
    - Cefnogi unigolion i weithredu trwy aros adref ac achub bywydau
    - Hunanofal / Cefnogaeth Teulu a Chymuned
    - Gofal Sylfaenol
    - Model Gofal Cymunedol ac Ysbytai Cymunedol
    - Gofal Acíwt ac Arbenigol

- Datblygu Model Gwasanaethau Cymorth gan ymgorffori:
    - Cynllunio
    - Comisiynu Strategol
    - Ymgysylltu a Chyfathrebu
    - Ystadau
    - Cyfleusterau/ Gwasanaethau Cymorth
    - Cyllid
    - Gwybodaeth a Chodio Clinigol
    - Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)
    - Gweithlu
    - Llywodraethu Corfforaethol
    - Cyfarpar a Chaffael

- Cymerodd y bwrdd iechyd ran yn nhrefniadau cydnerthedd systemau ar draws Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys a threfniadau ar gyfer argyfyngau sifil a chydnerthedd systemau yn Sir Amwythig, Telford a Wrekin, Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon, a GIG Cymru'n ehangach.
- Cyflawnwyd gwaith adolygu ac adfywio cynlluniau gweithredol a thactegol wrth i ganllawiau a gofynion cenedlaethol newid, gan gynnwys cyfarwyddebau clinigol a newidiadau yn y cyfarwyddyd i gefnogi'r rheini mewn risg / sy'n cael eu gwarchod / sy'n agored i niwed clinigol.
- Defnyddio modelau gwybodaeth cenedlaethol a gwybodaeth leol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer senarios ymchwydd. Roedd y paratoadau ar gyfer y cyfnodau cychwynnol yn cynnwys ystyried darparu ysbytai maes a pharatoadau rhagarweiniol; cadarnhaodd gwybodaeth ac

adolygu dilynol fod cynlluniau ymchwydd yn ddichonol o fewn capasiti BIAP.

Darparodd Iechyd Cyhoeddus Cymru wybodaeth modelu cenedlaethol gan dynnu ar ffynonellau gwybodaeth cenedlaethol a rhyngwladol a'i chyflwyno ar sail amrywiaeth o senarios posibl.

Rhoddwyd modelu gweithgarwch ar gyfer cyflawni gwasanaeth a'r model gwelyau ysbyty cymunedol ar brawf yn barhaus a'u mireinio yn erbyn y senarios cenedlaethol a gwybodaeth leol.

## Cynllun Atal ac Ymateb i COVID-19

Datblygwyd Cynllun Atal ac Ymateb i COVID-19 ym mis Awst 2020 a chaiff hwn ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd nawr i sicrhau bod unrhyw newidiadau o ran polisi cenedlaethol sy'n ymwneud â'r ymateb i COVID-19 yn cael eu rhoi ar waith. Roedd yn cwmpasu:

- Negeseuon a gweithgareddau atal ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol.
- Negeseuon atal, cefnogaeth a gorfodi mewn amgylcheddau risg uchel fel lletygarwch, gweithgynhyrchu, trin gwallt a phrosesu bwyd.
- Gweithgareddau yn ymwneud ag Atal ac Ymateb mewn cartrefi gofal, ysbytai cymunedol, ysgolion a lleoliadau caeedig eraill.
- Profion COVID-19
- Olrhain Cysylltiadau COVID-19
- Brechu Torfol COVID-19
- Rheoli Digwyddiadau

Sicrhaodd y cynllun fod mesurau wedi'u cymryd ym Mhowys i atal lledaeniad o'r feirws trwy negeseuon cyhoeddus a thrwy dynnu ar dystiolaeth o ardaloedd â risg trosglwyddo uchel. Darparodd hyn fframwaith ar gyfer rheoli gwaith nodi ac ymateb i achosion a chlystyrau lleol.

Mae hyn wedi golygu sicrhau bod trigolion yn gallu cael profion fel rhan o weithdrefnau cyn llawdriniaeth mewn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth ac ysbytai cymunedol a bod dulliau ychwanegol o gael prawf yn cael eu mabwysiadu'n lleol wrth iddynt ddod i'r fei, fel cyflwyno profion i staff asymptomatig gyda dyfeisiau llif unffordd a chlinigau profion serolegol am wrthgyrff.


Cadwyd ffocws penodol ar amgylcheddau allweddol, gan gynnwys ysgolion, cartrefi gofal, ysbytai cymunedol, byw â chymorth, tai gofal ychwanegol ac achosion cymunedol cymhleth.

## Profi, Olrhain a Diogelu

Datblygodd BIAP y Rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu mewn Partneriaeth â Chyngor Sir Powys ym mis Mehefin 2020 ac mae'n parhau yn 2021/2022. Roedd maint yr her yn sylweddol, a sefydlwyd y Gwasanaeth mewn cyfnod byr iawn o amser.

Mae Uned Olrhain Cysylltiadau Powys wedi bod ymhlith y timau sy'n perfformio orau yng Nghymru'n gyson, hyd yn oed pan oedd pethau ar eu hanterth yn y Gaeaf. Mae'r darlun isod yn dwyn sylw at raddfa'r gwasanaeth a gyflawnwyd ar gyfer trigolion Powys:


*Gwybodaeth a ddarparwyd gan Dîm Profi, Olrhain Diogelu*




*'Achosion cyfeirio': person sydd wedi'i nodi o'r newydd â COVID-19 wedi'i gadarnhau mewn labordy*

*'Achosion cyswllt': rhywun mewn cyswllt agos ag achos o COVID-19 wedi'i gadarnhau*

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd camau dilynol wedi'u cymryd mewn 99.8% o Achosion Cyfeirio a 100% o Achosion Cyswllt:


Contact Tracing Unit Performance 1st June 2020 – 1st March 2021)

| | Cases | Eligible for Follow Up | Followed Up | Percentage Followed Up |
|---|---|---|---|---|
| Index Cases | 4,114 | 3,454 | 3,447 | 99.8% |
| Contact Cases | 12,259 | 11,115 | 11,115 | 100% |



Cyflawniadau allweddol yn 2020/21:

- Sefydlu partneriaeth gan gynnwys Grŵp Goruchwylio Strategol, Cyd-grŵp Rheolwyr Gweithredol, Ffrydiau Gwaith Profi ac Olrhain
- Cwblhau modelu galw a chapasiti lleol

- Datblygu a gweithredu cynllun a llwybr profi, system hysbysu am ganlyniadau ac olrhain metrics
- Cydgytundeb ar gyfer rheoli staff a pholisi gweithredol
- Sefydlu gweithlu a hyb gweinyddu profi COVID-19
- Rhoi polisi profi a newidiadau o ran y meini prawf cymhwysedd ar waith
- Pontio rhwng y lluoedd arfog a chontractwyr ar gyfer yr Unedau Profi Torfol
- Rhoi adnodd ar waith â'r gymysgedd sgiliau cywir ar gyfer rôl olrhain cysylltiadau
- Creu Dangosfwrdd Adrodd ar Olrhain Cysylltiadau Lleol
- Rhoi caledwedd a meddalwedd Technoleg Gwybodaeth ar gyfer y gwasanaethau profi ac olrhain cysylltiadau ar waith; gosod seilwaith ar gyfer Rhwydwaith Powys a Band Eang
- Cryfhau'r wybodaeth o ran profi trigolion Powys a marwolaethau'n ymwneud â COVID-19
- Roedd tîm Powys yn un o'r prif gefnogwyr i'r Tîm Ymchwydd cenedlaethol ar gyfer olrhain yn ystod gaeaf 2020
- Ar 31ain Mawrth 2021, mae Uned Olrhain Cysylltiadau Powys wedi cynorthwyo â'r ymdrech genedlaethol trwy gwblhau 1455 o Achosion Cyfeirio (pobl sydd â COVID-19) ac 813 o Achosion Cyswllt (pobl mewn cysylltiad â'r rheini y nodwyd eu bod â COVID-19)

## Rhaglen Frechu COVID-19




Sefydlodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ei raglen frechu COVID-19 yn gyflym ac yn helaeth, gan ei rhoi ar waith mewn Canolfannau Brechu Torfol ym mis Rhagfyr 2020. Roedd hyn yn bosibl oherwydd ymdrech enfawr y partneriaid a'r cymunedau ym Mhowys a gyda chymorth y lluoedd arfog, y trydydd sector, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys, Cyngor Sir Powys, busnesau lleol ac ymdrechion eithriadol staff a gwirfoddolwyr.

Agorwyd y ganolfan gyntaf ym Mronllys yn Ne Powys gyda'r Drenewydd a Llanfair-ym-muallt yn dilyn ac yna'r holl feddygfeydd ledled y Sir.


Rhoddwyd brechu symudol ar waith hefyd ar gyfer cartrefi gofal a'r rheini a oedd yn methu â gadael eu cartrefi, a datblygwyd y safle brechu dros dro cyntaf yn Ystradgynlais.

Mae'r bwrdd iechyd wedi cael perfformiad cyson dda o ran cyflawni'r brechu, gyda'r cyfraddau uchaf yng Nghymru a Lloegr am y dos cyntaf a'r ail.





Ar ddiwedd mis Mawrth 2021, roedd 93% o bobl yn y Grwpiau â Blaenoriaeth 1-9 wedi derbyn eu dos cyntaf. Mae hyn yn cynrychioli 72% o'r boblogaeth gyfan sy'n oedolion.

Ceir y dadansoddiad o'r grwpiau sydd wedi derbyn dosau ar ddiwedd mis Mawrth 2021 yn y graffiau a ganlyn, mewn niferoedd ac yna mewn canrannau:




Powys COVID Vaccination - midnight on 31 March 2021
(source: IFOR Power BI/WIS/NWIS)




Powys COVID Vaccination - midnight on 31 March 2021
(source: IFOR Power BI/WIS/NWIS)

Mae pob un o breswylwyr cartrefi gofal ar gyfer oedolion hŷn, a holl gleifion mewnol BIAP wedi cael cynnig brechiad. Mae ail ddos o'r brechiad wedi'i roi i 78% o breswylwyr cartrefi gofal.

Mae Powys wedi cyrraedd yr holl gerrig milltir allweddol yn Rhaglen Frechu COVID-19 GIG Cymru hyd yma ac mae ar y trywydd iawn i gyflawni'r gweddill.

Grwpiau â Blaenoriaeth 1-4 – erbyn canol mis Chwefror: **CYFLAWNWYD**
Grwpiau â Blaenoriaeth 5-9 – erbyn canol mis Ebrill: **CYFLAWNWYD**
Gweddill y boblogaeth sy'n oedolion – erbyn 31 Gorffennaf: **AR Y TRYWYDD IAWN**

**Dug Caergrawnt yn rhannu neges o ddiolch i staff BIAP**

Yn ystod pandemig y coronafeirws, mae Ei Uchelder Brenhinol Dug Caergrawnt wedi bod yn cynnal "ymweliadau rhithwir" â'r GIG ledled y wlad trwy wneud galwadau ffôn i staff y GIG sydd a wnelo â'r ymateb i COVID-19. Derbyniodd y Prif Fferyllydd, Jacqui Seaton alwad o Balas Buckingham ddydd Iau 18 Chwefror, a chafodd ei rhoi trwodd i'r Dug am sgwrs un-i-un. Meddai Jacqui: "Roedd ganddo wir ddiddordeb yn lles y staff ac roedd eisiau gwybod am forâl y staff. Gwnaethon ni siarad am yr emosiynau'n mynd i fyny ac i lawr a sut roedd pawb yn cefnogi ei gilydd. Roedd Jacqui'n gallu rhannu'r cynnydd a'r heriau wrth gyflenwi'r rhaglen frechu mewn ardal wledig fel Powys, a dwyn sylw at yr ymdrech tîm go iawn. "Roedd hyn yn gymaint o fraint ac yn rhywbeth a fydd yn aros efo fi am byth," meddai Jacqui, "ac roedd y Dug eisiau i mi wneud yn siŵr fy mod i'n rhannu ei ddiolch â phawb sy'n gysylltiedig â'r rhaglen frechu ym Mhowys."

**Arwyr Brechu: Gwirfoddolwyr PAVO**





Mae yna nifer anferthol o bobl sydd wedi cyfrannu at ein cael i gyrraedd y sefyllfa rydym ynddi erbyn hyn, gyda byddin fach o wirfoddolwyr yn helpu i sicrhau bod y rheini sy'n dod am frechlyn yn gwybod lle y maent yn mynd, beth sydd angen iddynt ei wneud ac, yn gyffredinol, yn helpu i sicrhau bod y broses o frechu cannoedd o bobl bob dydd yma ym Mhowys mor llyfn â phosibl. Mae Gail a Gavin yn ddau yn unig o'r gwirfoddolwyr rhyfeddol, wedi'u trefnu gan PAVO, "Rydyn ni eisiau symud trwy hyn mor gyflym â phosibl fel ein bod ni'n gallu mynd yn ôl i fywyd arferol. Po fwyaf o bobl sy'n gallu helpu i wneud i hynny ddigwydd, gorau oll. Mae pawb yn hynod bositif ac maen nhw wrth eu boddau ein bod ni wedi cyrraedd y sefyllfa rydyn ni ynddi." Mae Gavin wedi bod yn helpu i sicrhau bod pobl yn cyrraedd ac yn parcio yn y lle iawn. "Mae pawb wedi bod yn gyfeillgar iawn; mae hi wedi bod yn bleser mawr gallu helpu."

## Adfer ac Adsefydlu ar ôl COVID-19

Mae'r bwrdd iechyd wedi chwarae rôl allweddol yn datblygu cymorth i bobl sy'n gwella o COVID-19, mor agos at gartref â phosibl, ac wedi'i lunio'n arbennig i ddiwallu anghenion penodol unigolyn. Mae hyn yn cael ei gyflawni trwy ddarparu gwasanaethau adsefydlu integredig ar gyfer effeithiau tymor hir fel blinder, bod yn fyr o wynt, y galon, effeithiau seicolegol neu gorfforol, boed o ganlyniad i COVID-19 neu gyflyrau eraill a oedd eisoes yn bodoli.



Mae'r gwasanaeth Syndrom Ôl-COVID-19 ar waith ers mis Ionawr 2021 gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Rheoli Poen a Blinder. Yn ogystal â'r tîm amlddisgyblaeth sydd eisoes wedi'i sefydlu mae'n cynnwys mewnbwn gan Feddyg Teulu ac Uwch-ymarferydd i gefnogi'r gofal a ddarperir.

Mae'r Gwasanaeth wedi datblygu adnoddau amrywiol gan gynnwys tudalen we sy'n cysylltu ag Ap Adferiad COVID-19 GIG Cymru a modiwl ar gyfer y gwasanaeth Buddsoddi yn Eich Iechyd yn benodol ar Reoli Diffyg Anadl.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn allweddol i ddatblygu gwasanaethau ledled Cymru ac mae wedi cael ei gynrychioli mewn nifer o grwpiau cenedlaethol, gan gynnwys Grŵp Gweithredol Adferiad COVID-19 Cymru Gyfan.

Mae Owen Hughes, Pennaeth Rheoli Poen a Blinder, wedi gwneud cyflwyniadau mewn nifer o gynadleddau a digwyddiadau ar effaith COVID ac adfer ohono, gan gynnwys Uwchgynhadledd Ryngwladol Rithwir Poen Cronig 2020 ym mis Mehefin 2020.

## Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaethau Diogel, Effeithiol o Ansawdd ar gyfer Gofal Heblaw am COVID-19/ Cyflenwi Gwasanaethau Hanfodol

Roedd y cyfnod cyntaf o'r ymateb i COVID-19 ar yr un pryd â dechrau blwyddyn yr adroddiad hwn (o fis Mawrth 2020). Bu'r bwrdd iechyd yn gweithio'n gyflym i addasu sut roedd yn cyflenwi gwasanaethau i sicrhau bod yna wasanaethau hanfodol i fywyd a chritigol i fywyd.
Rhoddwyd cynllun ar gyfer y gwasanaethau Hanfodol ar waith yn unol â gofynion cenedlaethol a chysylltwyd y diffiniadau o flaenoriaethau gwasanaeth â'r ddarpariaeth leol. Mabwysiadwyd dull o wneud penderfyniadau'n lleol, gyda Llywodraeth Cymru / Llywodraeth y DU a chyrff clinigol yn cyhoeddi canllaw clinigol hanfodol ar gyfer mapio ac asesiadau risg a system olrhain ar gyfer rheoli cleifion.

Darparodd Powys **wasanaethau hanfodol**, wedi'u cynnal yn unol â chanllawiau cenedlaethol fel y nodwyd yn yr Adroddiad Diwedd y Flwyddyn ar Berfformiad ym mis Mawrth 2021:

Nid oes unrhyw wasanaethau hanfodol darparwyr Powys sydd ddim ar gael neu wedi'u gohirio.

Gwasanaethau gofal sylfaenol a oedd ar gael

- Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol
- Gwasanaethau fferyllfeydd cymunedol
- Gwasanaethau deintyddol brys/ argyfwng rhybudd coch
- Gwasanaethau optometreg
- Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol/ Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
- 111/Y Tu Allan i Oriau (Shropdoc)

Triniaethau canser brys

Yr holl apwyntiadau diagnosteg ac apwyntiadau cleifion allanol cyntaf ar gael.

Gwasanaethau Meddygol i Achub Bywyd

- Gofal Strôc (Gwasanaeth Adsefydlu ar ôl Strôc)
- Gofal Diabetig (tîm nyrsio arbenigol)
- Gofal Diabetig (Gwasanaethau podiatreg brys)
- Cyflyrau niwrolegol
- Adsefydlu (Ffisiotherapi Cymunedol a Therapi Galwedigaethol)

Gwasanaethau pediatrig i achub bywyd neu effeithio ar fywyd

- Imiwneiddio a brechu
- Sgrinio (Smotyn Gwaed / Clyw / Newydd-anedig)
- Sgrinio (archwiliad 6 wythnos)
- Gwasanaeth Pediatrig Cymunedol i blant ag anghenion gofal iechyd ychwanegol / parhaus

Terfynu Beichiogrwydd

Wedi'i ddarparu gan Wasanaeth Ymgynghorol Beichiogrwydd Prydain (BPAS)

Gwasanaethau Mamolaeth

Bydwreigiaeth gymunedol ac uwchsain obstetrig

Cyflyrau heintus eraill (rhywiol/ nad ydynt yn rhywiol)

Bu Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cefnogi'r profi; Gwasanaethau brys i gleifion

Gwasanaeth Iechyd Meddwl, Anabledd Dysgu a Chamddefnyddio Sylweddau

- Gwasanaethau cleifion mewnol ag aciwtedd ar lefelau amrywiol
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol
- Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau i gadw'r claf yn sefydlog

Gofal arennol-dialysis

Wedi'i ddarparu gan wasanaethau'r Rhwydwaith Arennol

Cyflenwi meddyginiaethau a chyflenwadau brys

Yn cynnwys y rheini roedd eu hangen ar gyfer rheoli clefydau cronig/ iechyd meddwl yn barhaus

Gwasanaethau Gwaed a Thrawsblaniadau

Parhaodd gwasanaeth y darparwr i brofi a thrallwyso gwaed.

Gofal Lliniarol

Cymunedol/ gofal cleifion mewnol

Diagnosteg

Gwasanaethau diagnostig ar gyfer Profion pelydr-x, Uwchsain gan gynnwys Obstetrig ac Ecocardiograffeg Gardiaidd, Endosgopi, Fflebotomi a phrofion Wrodynamig

Therapïau

Therapïau hanfodol, gan gynnwys therapi galwedigaethol, ffisiotherapi, deieteg, podiatreg a therapi lleferydd ac iaith

Hefyd, roedd Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Anabledd Dysgu'r GIG a'r Gwasanaethau Argyfwng Camddefnyddio Sylweddau'n rhedeg fel arfer

Yn ôl Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, roedd y Gwasanaethau Ambiwlans Brys hefyd yn rhedeg fel arfer

Gofal Sylfaenol a Chymunedol

Parhawyd i roi gofal iechyd hanfodol yn achos gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol, gan ddefnyddio ffyrdd newydd ac amgen o weithio i wrthsefyll y ffaith bod llai o le a chapasiti oherwydd mesurau rheoli haint COVID-19 ac i gynnig darparu gwasanaethau o bell/ yn rhithwir.

Newidiwyd mynediad at ofal sylfaenol a chymunedol yng nghyfnod cyntaf yr ymateb ac addaswyd pethau trwy gydol y flwyddyn. Mae'r adran flaenorol yn disgrifio'r Model Ymateb Clinigol a ddefnyddiwyd i fframio cyflenwi'r gwasanaethau ar yr adeg honno ac i roi gwybod i gleifion am y newidiadau.

Roedd Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn ganolog i gyflawni'r Model Cymorth Clinigol ac addaswyd gwasanaethau'n gyflym i gyfeirio adnoddau er mwyn sicrhau bod gofal hanfodol i fywyd a chritigol i fywyd yn cael eu blaenoriaethu.

Adleoliwyd cryn dipyn o'r staff er mwyn cyflawni'r Model Ymateb Clinigol ac i wneud gwaith sylweddol ar fesurau ansawdd, diogelwch a rheoli haint, gan gynnwys darparu a defnyddio cyfarpar diogelu personol, addasiadau amgylcheddol ac addasiadau i'r ystadau i sicrhau pellter cymdeithasol ac i rwystro lledaeniad nosocomiaidd.

- Addasodd pob un o'r contractwyr gofal sylfaenol eu dull o gyflenwi gwasanaeth a'u ffyrdd o weithio er mwyn i gleifion allu cael mynediad; er enghraifft:
    - Parhaodd Meddygfeydd ar agor trwy gydol y flwyddyn a chyflwynwyd gwasanaeth brysbennu cyflawn fel pwynt cyswllt cyntaf i gleifion. Roedd hyn yn defnyddio technoleg i gefnogi rhith-ymgynghoriadau fel Attend Anywhere a Consultant Connect â gofal eilaidd i fanteisio ar gyngor arbenigol lle bo angen. Cynigwyd ymgynghoriadau wyneb yn wyneb ar sail barn glinigol a blaenoriaethu clinigol.
    - Parhaodd pob Practis Deintyddol Cyffredinol ar agor gan gynyddu'r hyn a oedd ar gael bob yn dipyn, yn amrywio o gyngor ac asesiad i ymgymryd â Gweithdrefnau sy'n Cynhyrchu Erosol, er enghraifft tynnu a llenwi dannedd. Roedd yna lai o gleifion yn dod i mewn i'r practisau ond roedd y mwyafrif o bractisau Powys yn cynnig apwyntiadau brys i gleifion newydd a oedd yn methu â chael gafael mewn deintydd. Mae cyflwyno Attend Anywhere yn cefnogi cynghori a gwneud asesiadau.
    - Roedd Optometreg yn cynnig adolygiadau dros y ffôn neu fideo i benderfynu ar statws COVID-19 a lefel y gofal llygad yr oedd ei angen. Ystyriwyd blaenoriaethu a threfnu apwyntiadau yn erbyn yr angen clinigol a'r symptomau o'i gymharu â'r perygl o golli golwg a niwed i'r claf. Yn fwy diweddar, mae pob gwasanaeth yn cael ei gynnig, yn unol â blaenoriaethu rheoli apwyntiadau hanfodol a brys.
    - Roedd gan y Fferyllfeydd rôl hollbwysig trwy'r flwyddyn gan eu bod yn wasanaeth hanfodol ac yn bwynt mynediad ar gyfer cyngor a meddyginiaeth yn ymwneud â COVID-19 ac â chyflyrau eraill. Yn ddiweddar, mae'r tîm fferylliaeth hefyd wedi bod yn ganolog i ddatblygu a chyflenwi Rhaglen Frechu COVID-19 yn llwyddiannus.

Cyrhaeddodd Dr Rafia Jamil rownd derfynol Gwobrau Fferylliaeth Cymru 2020 am Reoli Diabetes mewn Arfer Meddygon Teulu a Fferylliaeth Gymunedol, fel rhan o Dîm Fferylliaeth Clwstwr Canolbarth Powys.

WELSH PHARMACY
AWARDS 2020
FINALIST

- Mae gan y bwrdd iechyd hefyd rôl allweddol o ran llif cleifion ar draws rhwydwaith cymhleth y systemau gofal iechyd yng Nghymru a Lloegr a llwyddwyd i gynnal ymateb da i gefnogi llif y system trwy gyfnod heriol y gaeaf trwy gyflawni Cynllun Diogelu'r Gaeaf. Roedd hwn yn cwmpasu'r ethos cartref yn gyntaf a ffyrdd o weithio a oedd yn arbennig o bwysig yn ystod y pandemig, gyda ffocws ar ryddhau i adfer ac asesu a'r model ysbyty rhithwir yn ogystal â'r gwelyau cymunedol a oedd ar gael eisoes.
- Datblygwyd cynlluniau cefnogi ar gyfer cartrefi gofal gan gynnwys profi, mewnbwn gofal sylfaenol a therapi â ffocws penodol ar gefnogi anghenion anadlu, rheoli trefniadau Adran 33 a rhoi'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu ar waith.
- Ail-ddyluniwyd ystadau a chyfarpar; roedd y gwelliannau'n cynnwys datblygu a gosod cyflenwad ocsigen a systemau cymorth anadlu gwell yn unol â'r model ysbytai cymunedol.
- Cafodd y newidiadau i wasanaethau fel darparwr a chomisiynydd eu olrhain trwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod unrhyw newid i wasanaeth neu lwybr yn cael ei gofnodi a threfniadau'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer trigolion Powys i sicrhau bod y rhain yn cael eu cyfathrebu a'u deall.
- Roedd hyn yn cynnwys cyfathrebu rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys briffio â'r Cyngor Iechyd Cymuned a gwleidyddion lleol, aelodau o'r cabinet a sefydliadau sy'n bartneriaid a gwybodaeth ychwanegol i'r cyhoedd gan gynnwys y ganolfan gyswllt gwasanaethau cleifion.
- Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol yn fwy helaeth i gefnogi mynediad at ofal iechyd ar gyfer achosion yn hytrach na rhai COVID-19 yn ogystal â hybu cefnogaeth yn ymwneud â COVID-19.




Bu staff Gwasanaethau Cleifion/ y Ganolfan Gyswllt yn sefydlu ac yn gweithredu llinell archebu ar gyfer brechu torfol yn ystod mis Ionawr 2021.

Gwnaethant ateb 1000oedd o alwadau ac ymholiadau o wythnos gyntaf ei rhedeg, gan sicrhau bod y rhaglen frechu'n cael ei lansio'n llwyddiannus.

Bu Gwasanaethau Cleifion ar draws y bwrdd iechyd yn gweithio'n galed iawn yn ystod y pandemig i gynorthwyo ag ymholiadau o du'r cyhoedd a chleifion ac i gyfeirio pobl at gymorth.

- Datblygwyd rhaglenni ar-lein a deunydd fideo fel Byw yn Dda â Phoen a Blinder; adsefydlu cleifion yr ysgyfaint yn rhithwir a chelf a chrefft digidol.
- Cafwyd arloesi ar draws timau Therapïau a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd:
    - Darparwyd gofal a chymorth adsefydlu ac adfer i'r rheini â COVID-19 hir gan ddatblygu llwybr penodol ar gyfer hyn
    - Cafodd y gwasanaeth Podiatreg ar ei newydd wedd ei gymeradwyo fis Awst 2020 ac roedd yn canolbwyntio ar gael y defnyddwyr i gymryd rhan weithredol mewn gofalu am eu traed eu hunain, addasu clinigau ar gyfer cyfyngiadau COVID-19 a system archebu a chofnodi newydd
    - Llwyddodd y Tîm Adsefydlu Cleifion yr Ysgyfaint i roi technoleg rithwir ar waith i gyflenwi eu gwasanaeth i gleifion, gan arwain at ddeilliannau llwyddiannus a phrofiad positif i'r claf:

        Roedd 86% o gleifion a fynychodd y rhaglen rithwir yn teimlo'i bod wedi'u galluogi i deimlo'n fwy hyderus ynglŷn â sut i reoli eu cyflwr a byddai 100% yn ei argymell i bobl eraill.

    - Bu'r tîm Awdioleg yn gweithredu gwasanaeth trwy'r post ar gyfer trwsio cymhorthion clyw a gafodd dderbyniad cynnes fel gwasanaeth prydlon, effeithlon a gofalgar ac maent wedi cyflwyno sesiynau rhithwir ac addasu amgylcheddau clinigau:

        "Diolch am anfon cymorth clyw newydd ata' i! Am wasanaeth prydlon iawn – dwi'n gwerthfawrogi'n fawr"

    - Defnyddiodd y Tîm Ffisiotherapi Cyhyrysgerbydol a CMATs (Asesiad a Thriniaeth Cyhyrysgerbydol Cymunedol) Attend Anywhere a galwadau ffôn i roi cyngor a chefnogaeth i gleifion a thudalen we gyda dolenni i dechnegau hunan-reoli
    - Defnyddiodd Dieteteg Attend Anywhere a chofnodion electronig cleifion a buont yn gweithio'n galed i adfer eu hamseroedd aros i lefelau gwasanaeth arferol
    - Defnyddiodd Therapi Lleferydd ac Iaith Attend Anywhere ac addasu clinigau i weld cleifion a oedd angen cefnogaeth wyneb yn wyneb a chyflwyno gwasanaeth Cyfathrebu Cynyddol neu Amgen
    - Sicrhaodd y tîm Radioleg amgylchedd diogel a gweithio'n hyblyg i sicrhau bod y gwasanaeth ar gael ac i adfer pethau i fusnes fel arfer
    - Rhoddwyd gweithio 7 diwrnod a system ar alw ar brawf i gefnogi adsefydlu
- Adferwyd y ddarpariaeth ar gyfer llesiant plant gan gynnwys rhaglen Plentyn Iach Cymru, Ymwelwyr Iechyd, gwasanaethau pediatrig a fflebotomi a rhaglen partneriaeth ehangach 'Dechrau Da'.

Mae casgliad unigryw o Becynnau Syrcas wedi'i ddatblygu ar gyfer Ysgolion Powys, yn sgil llwyddiant prosiect Cyfnod Sylfaen Bach a Iach yng ngogledd Powys, gyda chefnogaeth Cyllid Trawsnewid Llywodraeth Cymru. Mae sesiynau ymarferol ar-lein wedi'u cyflenwi i sicrhau bod cefnogaeth yn parhau.



## Ysbytai Cyffredinol Dosbarth a Gofal Arbenigol

Roedd 2020/21 yn heriol o ran y gwasanaethau a gomisiynir gan fod llawer o newidiadau i'r llwybrau'n digwydd mewn ymateb i'r pandemig; roedd llai o gapasiti o ran gofal Ysbytai Cyffredinol Dosbarth gan atal gofal dewisol nad oedd yn hanfodol dros dro tra bo gofal brys ar gyfer COVID-19 yn cynyddu ledled yr holl ysbytai, yn enwedig yn y cyfnodau pan roedd ar ei anterth.

Roedd cymryd rhan mewn trefniadau trawsffiniol yn cynnwys strwythurau ymateb a chydnerthedd system yn Sir Amwythig, Telford a Wrekin a Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon i sicrhau bod anghenion trigolion Powys wedi'u cynnwys yn y cynlluniau ac yn rhan o fodelu'r galw am ddarparwyr Ysbytai Cyffredinol Dosbarth.

Diwygiwyd Cytundebau Tymor Hir / Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn sgil y pandemig a chynlluniau ar gyfer argyfyngau sifil; ailgyflwynwyd yn raddol trefniadau comisiynu gan gynnwys y Fframwaith Sicrwydd Comisiynu, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrwydd mamolaeth – a fyddai'n parhau fel rhan o'r Cynllun Blynyddol Drafft ar gyfer 2021/2022.

Cafodd y Fframwaith Sicrwydd Comisiynu ei atal dros dro yn ystod anterth cyntaf COVID-19, ond gwnaed gwaith trwy gydol y flwyddyn i adfer y dull hwn o weithredu fesul cam. Ymgymerwyd ag asesiad cynhwysfawr o ofal iechyd hanfodol mewn gwasanaethau a gomisiynwyd trwy gydol y flwyddyn, a rhoddir y ciplun diweddaraf isod.

| Statws Gwasanaeth | Cod |
|---|---|
| Ddim yn darparu neu'n comisiynu'r gwasanaeth hwn | 0 |
| Wedi methu â gallu cynnal gwasanaethau hanfodol | 1 |
| Gwasanaethau hanfodol wedi'u cynnal (yn unol â chanllawiau) | 2 |
| Wedi gallu cyflenwi gwasanaethau canolraddol | 3 |
| Gwasanaethau arferol yn parhau | 4 |

| Maes Gwasanaeth Hanfodol | BIPBA | BIPCTM | BIPCaF | BIPAB | Felindre | ICC | SaTH | WVT | RJAH |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Sylfaenol | | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Diogelu | 3 | 2 | 2 | 3 | 0 | 2 | 0 | 4 | 0 |
| Gofal Llygaid Brys | 3 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 2 | 4 | 0 |
| Llawdriniaeth Frys | 2 | 1 | 2 | 2 | 0 | 0 | 2 | 2 | 2 |
| Triniaethau Canser Brys | 2 | 1 | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Gwasanaethau Meddygol i Achub Bywyd | | | | | | | | | |
| Cardioleg Ymyriadol | 2 | 2 | 2 | 3 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 |
| Syndromau Coronaidd Acíwt | 2 | 2 | 2 | 4 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 |
| Gastroenteroleg | 4 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 |
| Gofal Strôc | 3 | 3 | 2 | 3 | 0 | 0 | 2 | 4 | 0 |
| Gofal Diabetig | 3 | 3 | 2 | 3 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 |
| Gofal Diabetig (Diagnosis cleifion newydd) | 3 | 3 | 2 | 3 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 |
| Gofal Diabetig (Cetoasidosis Diabetig/ cyflwr hyperglycemig hyperosmolar) | 3 | 3 | 2 | 4 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 |
| Gofal Diabetig (Hypoglycemia difrifol) | 3 | 3 | 2 | 4 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 |
| Gofal Diabetig (Cleifion sydd newydd gael diagnosis, yn enwedig lle bo'n broblem rheoli inswlin) | 3 | 3 | 2 | 3 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 |
| Gofal Diabetig (Retinopatheg diabetig a macwlopathi diabetig) | 2 | 3 | 2 | 2 | 0 | 2 | 2 | 2 | 0 |
| Gofal Diabetig (Gwasanaethau podiatreg brys) | 3 | 3 | 2 | 2 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 |
| Cyflyrau Niwrolegol | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| Adsefydlu | 3 | 4 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Gwasanaethau pediatrig i achub bywyd neu effeithio ar fywyd | | | | | | | | | |
| Imiwneiddio a Brechu | 2 | 2 | 4 | 4 | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 |
| Sgrinio (Smotyn gwaed) | 2 | 2 | 4 | 4 | 0 | 2 | 2 | 2 | 0 |
| Sgrinio (Clyw) | 2 | 2 | 4 | 4 | 0 | 2 | 2 | 2 | 0 |
| Sgrinio (Newydd-anedig) | 2 | 2 | 4 | 4 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 |
| Sgrinio (archwiliad corfforol 6 wythnos) | 2 | 2 | 3 | 4 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 |
| Gwasanaethau pediatrig cymunedol i blant | 3 | 2 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |

| Maes Gwasanaeth Hanfodol | BIPBA | BIPCTM | BIPCaF | BIPAB | Felindre | ICC | SaTH | WVT | RJAH |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Terfynu Beichiogrwydd | | | | | | | | | |
| Terfynu Beichiogrwydd | 3 | 2 | 4 | 3 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| Cyflyrau heintus eraill (rhywiol/ nad ydynt yn rhywiol) | | | | | | | | | |
| Cyflyrau heintus eraill (rhywiol/ nad ydynt yn rhywiol) | 4 | 2 | 2 | 3 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau heintus brys i gleifion | 2 | 2 | 2 | 3 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau mamolaeth | | | | | | | | | |
| Gwasanaethau mamolaeth | 4 | 4 | 3 | 3 | 4 | 0 | 2 | 4 | 0 |
| Gwasanaeth Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau ac Anabledd Dysgu'r GIG | | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Argyfwng Iechyd Meddwl, gan gynnwys gofal amenedigol | 2 | 2 | 3 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl | 4 | 2 | 3 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol | 2 | 2 | 3 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau | 2 | 2 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyflenwad meddyginiaethau brys | | | | | | | | | |
| Cyflenwad meddyginiaethau brys | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Gwaed a Thrawsblaniadau | | | | | | | | | |
| Gwaed a chydrannau gwaed | 4 | 0 | 2 | 0 | 3 | 0 | 0 | 4 | 0 |
| Gofal Lliniarol | | | | | | | | | |
| Gofal Lliniarol | 2 | 3 | 3 | 3 | 3 | 0 | 0 | 4 | 0 |

Darperir crynodeb byr o'r meysydd allweddol y canolbwyntiwyd arnynt yn ystod 2020 yn yr adroddiad hwn ac mae yna fanylion pellach am feysydd gwaith parhaus yng Nghynllun Blynyddol BIAP 2021/22:

<u>Rhaglen De Powys</u>

Sefydlodd BIAP raglen waith sylweddol yn gyflym i baratoi ar gyfer agoriad cynnar Ysbyty Prifysgol y Faenor a'r newidiadau cysylltiedig yn Ysbyty Nevill Hall ym mis Tachwedd 2020 gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Bu BIAP yn gweithio'n galed i sicrhau newid diogel mewn llif cleifion brys yn unol â Rhaglen De Cymru lle cydnabuwyd bod Ysbyty'r Tywysog Siarl o bwys strategol ar gyfer De Powys fel Ysbyty Cyffredinol Dosbarth.

<u>Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford (SaTH)</u>

Fe barhaodd hyn i fod yn flaenoriaeth ar lefel y Bwrdd yn ystod yr ymateb i COVID-19, gan fod yr Ymddiriedolaeth yn dal i fod yn destun mesurau arbennig gan y Comisiwn Ansawdd Gofal gyda Hysbysiadau Adran 31 yn gosod amodau ar y gweithgareddau a reoleiddir. Mae gwaith hefyd wedi'i wneud trwy'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn cael yr holl wybodaeth am feysydd a chamau allweddol ar gyfer rheoli risg, gan gynnwys Sicrwydd Mamolaeth.

Ymunodd yr Ymddiriedolaeth â Chynghrair Gwella gydag Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbytai Prifysgol Birmingham (UMB) a rhoi cynllun gwella "Getting to Good" ar waith yn canolbwyntio ar ansawdd a phrofiad cleifion, llywodraethu a diwylliant. Sefydlwyd pwyllgor i hyrwyddo camau gweithredu'n codi yn sgil cyhoeddi *"Emerging Findings and Recommendations from the Independent Review of Maternity Services at the Shrewsbury and Telford Hospital NHS Trust"* (o'r enw "Adroddiad Ockenden") ym mis Rhagfyr 2020. Mae BIAP yn aelod o'r Pwyllgor hwn ac mae'r gwaith yn parhau i 2021/22.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM)

Gwnaed gwasanaethau mamolaeth BIPCTM yn destun mesurau arbennig yn dilyn cyhoeddi adolygiad a gynhaliwyd gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwragedd ym mis Ebrill 2019.

Mae BIAP wedi cryfhau ei fonitro o'r gwasanaethau mamolaeth trwy Fframwaith Sicrwydd Mamolaeth ac mae yna gyswllt cryfach wedi bod ynglŷn â chynnydd. Cyfarfu Prif Weithredwr a gweithredwyr allweddol BIAP â'r cadeirydd ac aelodau o'r Panel Goruchwylio Gwasanaethau Mamolaeth Annibynnol (IMSOP) ym mis Ionawr 2021 i drafod y cynnydd a oedd yn cael ei wneud.

Cyhoeddwyd adroddiad diweddaraf IMSOP ar 25 Ionawr 2021 (sef yr adroddiad cyntaf o'r Rhaglen Adolygu Clinigol a'r cyntaf o dri adroddiad thematig). Mae'r Panel wedi cydnabod bod BIPCTM wedi bod yn agored, yn dryloyw ac yn dosturiol, gan nodi hefyd bod gwelliannau sylweddol wedi'u cyflawni dros y ddwy flynedd ddiwethaf a chynnydd wedi'i wneud yn erbyn y 70 argymhelliad o adroddiad gwreiddiol Coleg Brenhinol y Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwragedd.

Gofal Arbenigol

Bu'r bwrdd iechyd yn gweithio'n agos â Phwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (WHSSC) i sicrhau mynediad at wasanaethau arbenigol hanfodol ac ar ddatblygu'r Cynllun Comisiynu Integredig ar gyfer 2021/22. Gwasanaethau arbenigol yw'r rheini sy'n cael eu darparu ar gyfer pobl ag anghenion gofal iechyd mwy arbenigol eu natur, gan ddarparwyr ag arbenigedd mewn cyflyrau a chlefydau penodol. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i https://pgiac.gig.cymru/.

Eglurwyd a chynhaliwyd trefniadau ar gyfer grwpiau agored i niwed gan gynnwys y rheini sy'n glinigol agored i niwed a phlant y tu allan i'r sir â chyswllt cadarn trwy drefniadau'r system fel y nodwyd uchod.

Gadael yr UE

Gwnaed paratoadau a chymerwyd camau gweithredu helaeth ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd yn unol â chynllunio a gofynion cenedlaethol.

Cynhaliwyd asesiad risg cynhwysfawr trwy gydol 2020 a rhoddwyd cyfarwyddiadau ar waith mewn gwasanaethau penodol yn barod ar gyfer gadael.

Roedd hyn yn cynnwys cadw stoc cyfartalog uchel a chamau gweithredu i sicrhau bod y cyflenwad nwyddau a gweithlu'n cael eu cynnal yn unol â chyfarwyddebau cenedlaethol.

Cafodd cynlluniau wrth gefn eu hadolygu'n barhaus a'u mireinio wrth i senarios gadael symud ymlaen a dod yn derfynol.

## Meysydd Allweddol Perfformiad yn Erbyn Fframwaith Canlyniadau'r GIG

Sylwch fod cryn oedi â rhai mesurau oherwydd y data a oedd ar gael neu'r math o ddata. Mae'r wybodaeth a ddarperir wedi'i seilio ar y diweddaraf a oedd ar gael ym mis Mai 2021. Mae'r pwyntiau a ddarperir o dan y tabl yn canolbwyntio ar yr amrywiannau allweddol sy'n cael eu dangos mewn coch yn y tabl.

*Nod Pedwarplyg 1: Mae gan bobl yng Nghymru well iechyd a llesiant ac maent yn atal a hunan-reoli hyn yn well.*

| Crynodeb o Fframwaith Canlyniadau GIG 2020/21 – Mesurau Allweddol – Darparwr | | | | Perfformiad | | | Meincnodi Llywodraeth Cymru (*ar ei hôl hi) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Enw Mesur Talfyredig** | **Targed** | **Y Diweddaraf Ar Gael** | **12 Mis Blaenorol** | **Cyfnod Blaenorol** | **Cyfredol** | **Safle** | **Cymru Gyfan** |
| 1 | Canran y babanod sy'n cael eu bwydo ar y fron yn unig yn 10 diwrnod oed | Gwelliant Blynyddol | 2019/20 | 49.8% | | 52.4% | 1st | 35.3% |
| 2 | Brechlyn '6 mewn 1' erbyn 1 oed | 95% | Q3 20/21 | 96.2% | 98.5% | 95.8% | 4th | 95.2% |
| 3 | 2 ddos o frechlyn MMR erbyn 5 oed | 95% | Q3 20/21 | 91.8% | 94.4% | 91.3% | 5th | 92.1% |
| 4 | Wedi ceisio rhoi'r gorau i ysmygu – Cronnol | 5% | Q2 20/21 | 1.58% | | 1.44% | 6th | 1.65% |
| 5 | Rhoi'r gorau wedi'i gyd-ddilysu ar ôl 4 wythnos - Cronnol | 40% | Q4 19/20 | 36.4% | 42.3% | 37.7% | 6th | 41.6% |
| 6 | Cyfradd safonedig priodoli alcohol i dderbyniadau ysbyty | Tuedd gostwng dros 4 chwarter | Q3 20/21 | 517.8 | 278.5 | 348.0 | 5th | 349.6 |
| 7 | Canran y bobl sydd wedi'u hatgyfeirio i wasanaethau'r bwrdd iechyd sydd wedi cwblhau triniaeth ar gyfer camddefnyddio alcohol | Tuedd gwella dros 4 chwarter | Q3 20/21 | 69.8% | 48.6% | 71.4% | 2nd | 64.0% |
| 8a | Brechlynnau'r Ffliw – 65+ | 75% | 2019/20 | 65.5% | | 67.1% | 6th | 69.4% |
| 8b | Brechlynnau'r Ffliw – 65+ mewn risg | 55% | 2019/20 | 43.1% | | 44.3% | 3rd | 44.1% |
| 8c | Brechlynnau'r Ffliw – Menywod Beichiog | 75% | 2019/20 | 85.7% | | 93.3% | 1st | 78.5% |
| 8d | Brechlynnau'r Ffliw – Gweithwyr Gofal Iechyd | 60% | 2019/20 | 64.3% | | 64.3% | 3rd | 58.7% |
| 9a | Y rhai yn manteisio ar sgrinio am ganser ar gyfer: y coluddyn | 60% | 2018/19 | 56.2% | | 58.3% | 1st | 57.3% |
| 9b | Y rhai yn manteisio ar sgrinio am ganser ar gyfer: y fron | 70% | 2018/19 | 73.7% | | 69.1% | 7th | 72.8% |
| 9c | Y rhai yn manteisio ar sgrinio am ganser ar gyfer: ceg y groth | 80% | 2018/19 | | | 76.1% | 1st | 73.2% |
| 10a | Iechyd Meddwl Rhan 2 - % y trigolion â chynllun triniaeth a gofal <18 | 90% | Maw-21 | 100% | 92.0% | 100% | 3rd* | 82.3% |
| 10b | Iechyd Meddwl Rhan 2 - % y trigolion â chynllun triniaeth a gofal 18+ | 90% | Maw-21 | 92.5% | 91.0% | 91.3% | 2nd* | 85.5% |
| 11 | % y bobl 64+ oed y mae diagnosis meddyg teulu'n amcangyfrif bod ganddynt dementia | Gwelliant blynyddol | 2019/20 | 44.7% | | 42.4% | 7th | 53.1% |

- Yn ystod 2020/21, bu cryn gydymffurfio â mesurau brechu plant. Mae nifer y plant sy'n derbyn eu brechiad '6 mewn 1' erbyn eu bod yn un oed wedi parhau i ragori ar y targed cenedlaethol, ac yn aros o fewn y lefelau cydymffurfiad a ragfynegwyd. Yn achos plant yn derbyn 2 ddos o frechiad y frech goch, clwy'r pennau a rwbela (MMR) erbyn eu bod yn bump oed, mae'r perfformiad yn dal i fod yn her, er eu bod yn adrodd am lefelau uwch o gydymffurfio ar gyfer dau allan o'r tri chwarter yn 2020/21 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yng nghyd-destun yr heriau yn sgil y pandemig ac adleoli'r rheini sy'n brechu i Raglen Frechu COVID-19. Hefyd, mae yna niferoedd isel o bobl yn cael eu cyfrif ar gyfer y mesurau hyn sy'n achosi i'r amrywiannau ymddangos yn anghymesur o fawr pan ystyrir nhw fel canran o'r grŵp cyfan.
- Mae data'r gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu wedi bod yn gyfyngedig yn ystod y pandemig gan fod fferyllfeydd wedi methu â gwneud y gwaith sy'n ofynnol ar gyfer y mesur 'Cyd-ddilysu'. O'r wybodaeth sydd ar gael ar gyfer 2020/21, mae nifer y rheini a fanteisiodd ar y gwasanaeth a gofnodwyd ar gyfer y trigolion hynny sy'n ceisio rhoi'r gorau i ysmygu hyd at ddiwedd

mis Medi 2021 yn is (1.44%) nag am yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (1.58%).

- Wrth adolygu nifer y rheini a fanteisiodd ar frechiad y ffliw ym Mhowys ar ddiwedd 2019/20, gallwn weld yn glir y bu cynnydd yn nifer y rheini a fanteisiodd ar gyfer pob mesur ar wahân i weithwyr gofal iechyd, sydd wedi aros yn gyson ar 64.3%. Disgwylir bod hyn yn gysylltiedig â'r ymgyrch a'r ymwybyddiaeth genedlaethol o'r risg a'r atal yn ymwneud â COVID-19. Lle na fodlonwyd y targed cenedlaethol ar gyfer pobl +65 oed a phobl <65 oed mewn risg, rydym wedi ein meincnodi'n agos at y cyfartaledd cenedlaethol neu ychydig yn uwch. Roedd nifer y menywod beichiog a staff a fanteisiodd ar y brechlyn yn dda iawn o'i gymharu â'r nifer yn genedlaethol.
- Dylid nodi bod y mesurau sgrinio ar gyfer canser sydd wedi'u cynnwys yn y tabl uchod wedi'u seilio ar y data hanesyddol oedd ar gael ar adeg yr adroddiad ac ni ddylid ei ystyried fel y sefyllfa ddiweddaraf. Mae'r data yn y tabl yn cyfeirio at 2018/19 pan roedd gan y bwrdd iechyd niferoedd tebyg yn manteisio ar y sgrinio i'r darlun cenedlaethol. Fodd bynnag, dyma'r sefyllfa cyn y pandemig COVID-19 ac mae gwaith yn cael ei wneud fel rhan o'r broses gynllunio flynyddol i archwilio effaith y pandemig ar draws pob arbenigedd a bydd y manylion yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Blynyddol BIAP ar gyfer 2021/2022.
- Mae nifer y cleifion yr amcangyfrifir eu bod â dementia dros 64 oed, gyda diagnosis gan Feddyg Teulu, wedi gostwng ym Mhowys i 42.4%. Mae hyn yn cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 53.1%, ac mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn 7$^{fed}$ yn gyffredinol yng Nghymru.

Trwy gymorth dwys, sy'n canolbwyntio ar y person, mae'r Tîm Trin Dementia yn y Cartref wedi llwyddo i gwtogi'n sylweddol ar nifer yr oedolion hŷn sy'n cael eu derbyn fel cleifion mewnol iechyd meddwl i'r ysbyty ac wedi gwella ansawdd bywyd y rheini sy'n byw â dementia a'u gofalwyr. Gwnaethant gyflwyniad yng Nghynhadledd Ryngwladol Dementia Cymru ym mis Chwefror 2021 i rannu sut roedd y tîm wedi cynnal gwasanaeth y mae anghenion yn ei arwain trwy gydol y pandemig, fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Dementia. Gan ddarparu gwasanaethau hyblyg, ar gyfer unigolion, mae'r unigolion hynny'n gallu aros yn y lle y mae'n well ganddynt fyw, gyda phwyslais ar gymryd risgiau positif ac ar yr arfer lleiaf cyfyngol.



- Mae'r mesur Iechyd Meddwl Rhan 2 yn canolbwyntio ar gydymffurfiad y Cynllun Triniaeth a Gofal ar gyfer cleifion y bwrdd iechyd. Mae perfformiadau misol yn y categori oedolion dros 18 oed wedi parhau i gyrraedd y targed ym mis Ionawr 2021 (92.3%). Yn achos y mesur yn ymwneud â'r rheini dan 18 oed, mae'r bwrdd iechyd wedi cyrraedd y targed cenedlaethol gyda chydymffurfiad o 95.2% ym mis Ionawr. Mae BIAP wedi gwella'i safle gan ddod yn 3ydd yn achos y rhai dros 18 oed ac yn 2il yn achos y rhai dan 18 oed.

*Nod Pedwarplyg 2: Mae gan bobl yng Nghymru wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd gwell a mwy hygyrch y mae dulliau digidol yn eu galluogi ac ymgysylltiad yn eu cefnogi.*

| Crynodeb o Fframwaith Canlyniadau GIG 2020/21 – Mesurau Allweddol – Darparwr | | | | Perfformiad | | | Meincnodi Llywodraeth Cymru (*ar ei hôl hi) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Enw Mesur Talfyredig** | **Targed** | **Y Diweddaraf Ar Gael** | **12 Mis Blaenorol** | **Cyfnod Blaenorol** | **Cyfredol** | **Safle** | **Cymru Gyfan** |
| 17 | % y Practisau Meddygon Teulu sydd wedi cyflawni'r holl safonau sydd wedi'u gosod yn y Safonau Mynediad Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol yn ystod oriau agor | 100% | 2019/20 | | | 56.3% | 5th | 59.70% |
| 18 | Canran y plant sy'n defnyddio gofal deintyddol sylfaenol y GIG yn rheolaidd o fewn 24 mis | Tuedd gwella dros 4 chwarter | Q2 20/21 | 62.8% | 60.5% | 57.9% | 6th | 63.8% |
| 20 | Canran yr ymatebion brys i alwadau coch sy'n cyrraedd mewn 8 munud neu lai | 65% | Maw-21 | 56.6% | 70.1% | 57.9% | 5th | 62.5% |
| 22 | % y cleifion mewn Uned Mân Anafiadau fu'n aros <4 awr | 95% | Maw-21 | 100.0% | 99.8% | 100.0% | 1st* | 74.2% |
| 23 | Y cleifion mewn Uned Mân Anafiadau fu'n aros 12+ awr | 0 | Maw-21 | 0 | 0 | 0 | 1st* | 4,768 |
| 32 | Nifer yr achosion diagnostig y methwyd â'u gwneud o fewn 8 wythnos | 0 | Maw-21 | 22 | 160 | 181 | 1st* | 48,136 |
| 33 | Nifer yr achosion therapi a y methwyd â'u gwneud o fewn 14 wythnos | 0 | Maw-21 | 6 | 59 | 30 | 1st* | 4,129 |
| 34 | Nifer y cleifion yn aros llai na 26 wythnos o'r atgyfeiriad i'r driniaeth (heb gynnwys D&T) | 95% | Maw-21 | 95.9% | 66.1% | 71.4% | 1st* | 51.6% |
| 35 | Nifer y cleifion yn aros dros 36 wythnos o'r atgyfeiriad i'r driniaeth (heb gynnwys D&T) | 0 | Maw-21 | 0 | 863 | 690 | 1st** | 217,655 |
| 36 | Nifer y cleifion yn aros am apwyntiad dilynol fel claf allanol | < = 5581 | Maw-21 | 7173 | 6250 | 6705 | 1st* | 748,769 |
| 37 | Nifer y cleifion y bu oedi mwy na 100% â'u hapwyntiad dilynol fel claf allanol | < 290 | Maw-21 | 293 | 480 | 510 | 1st* | 199,704 |
| 38 | Canran y cleifion R1 offthalmoleg sy'n aros o fewn eu dyddiad targed clinigol (+25%) | 95% | Maw-21 | 94.2% | 61.1% | 64.7% | 1st* | 43.5% |
| Lleol | Canran y llwybrau cleifion heb ffactor risg iechyd | < = 2.0% | Maw-21 | 2.7% | 0.4% | 0.6% | | |
| 39 | Cyfradd derbyniadau i'r ysbyty gydag unrhyw sôn am hunan-niweidio o blith plant a phobl ifanc fesul 1k | Gostyngiad Blynyddol | 2019/21 | 4.45 | | 4.86 | 5th | 4 |
| 40 | Canran CAMHS yn aros <28 diwrnod am OPA | 80% | Maw-21 | 93.5% | 71.9% | 93.8% | | |
| 41a | Iechyd Meddwl Rhan 1 – Asesiadau <28 diwrnod <18 | 80% | Chwe-21 | 93.3% | 97.1% | 97.3% | 2nd | Nid oedd unrhyw ffigur cydymffurfio cenedlaethol ar gael |
| 41b | Iechyd Meddwl Rhan 1 – Asesiadau <28 diwrnod 18+ | 80% | Chwe-21 | 87.8% | 96.6% | 99.1% | 1st | |
| 42a | Iechyd Meddwl Rhan 1 – Ymyriadau <28 diwrnod <18 | 80% | Chwe-21 | 95.7% | 89.3% | 96.2% | 2nd | |
| 42b | Iechyd Meddwl Rhan 1 – Ymyriadau <28 diwrnod 18+ | 80% | Chwe-21 | 56.6% | 76.6% | 88.5% | 5th | |
| 43 | Arosiadau niwroddatblygiadol Plant/ Pobl Ifanc | 80% | Maw-21 | 93.4% | 61.4% | 66.5% | 2nd* | 29.7% |
| 44 | Oedolion yn aros <26 wythnos am therapi seicolegol | 80% | Maw-21 | 97.9% | 95.3% | 96.4% | 2nd* | 60.0% |
| 45a | Nifer achosion y bwrdd iechyd lle ceir oedi wrth drosglwyddo gofal ar gyfer: Achosion Iechyd Meddwl | 12m ↓ | Chwe-20 | 6 | <5 | <5 | 2nd | 63 |
| 45b | Nifer achosion y bwrdd iechyd lle ceir oedi wrth drosglwyddo gofal ar gyfer: Achosion yn hytrach na rhai Iechyd Meddwl | 12m ↓ | Chwe-20 | 29 | 15 | 20 | 1st | 20 |
| 46a | Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd – E.coli fesul 100k o'r boblogaeth – Cronnol | TBC | Maw-21 | | | 3.78 | Nid yw BIAP yn cael ei feincnodi'n genedlaethol ar gyfer cyfraddau heintiau | |
| 46b | Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd - S.aureus bacteraemia (MRSA ac MSSA) fesul 100k o'r boblogaeth – Cronnol | TBC | Maw-21 | | | 0.76 | | |
| 46c | Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd – C.difficile fesul 100k o'r boblogaeth – Cronnol | TBC | Maw-21 | | | 5.29 | | |
| 47a | Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd – Klebsiella sp fesul 100k o'r boblogaeth – Cronnol | TBC | Maw-21 | | | 1.51 | | |
| 47b | Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd – Aeurginosa fesul 100k o'r boblogaeth – Cronnol | TBC | Maw-21 | | | 0.76 | | |
| 48 | Nifer yr achosion o thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty y gellid bod wedi'u hosgoi | Tuedd gostwng dros 4 chwarter | Q2 2020/21 | | | 0 | 1st | 6 |
| *Meincnod a ddarparwyd gan gyfnod blaenorol (meincnod cenedlaethol wedi dyddio) | | | | | | | | |
| **Rancio am RAaT cenedlaethol yn cynnwys Arbenigeddau DaP | | | | | | | | |


Gofal Heb Ei Drefnu

- Mae cydymffurfio o ran hygyrchedd Unedau Mân Anafiadau yn parhau yn ardderchog ac mae Powys yn darparu gwasanaeth cyflym a chynhwysfawr yn gyson trwy ei Unedau Mân Anafiadau.
- Mae adrodd ar Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal Cenedlaethol yn dal i fod wedi'i atal dros dro, ond mae'r bwrdd iechyd yn parhau i olrhain perfformiad yn lleol ac mae yna ffocws gweithredol cryf ar reoli llif. Cymerir ciplun o gapasiti bob wythnos a'i anfon at Llywodraeth Cymru.

- Ni lwyddodd yr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i gyrraedd y targed ar gyfer amseroedd ymateb y gwasanaeth ambiwlans o 8 munud am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ac roedd y perfformiad yn 57.2% o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 62.5% ym mis Mawrth 2021, yn ei osod yn 5ed ar y rhestr yng Nghymru. Mae effaith COVID-19 ynghyd â heriau daearyddiaeth wledig ac effaith amseroedd trosglwyddo hirach yn yr Unedau Damweiniau ac Achosion Brys wedi arwain at ddirywiad mewn perfformiad ar gyfartaledd. Mae amrywiad niferoedd isel hefyd yn gallu achosi anwadaliadau yn erbyn y targed ym Mhowys.


Gofal Cynlluniedig

- Cafodd y pandemig COVID-19, a'r newidiadau a'r atal gwasanaethau dros dro a ddaeth yn ei sgil yn ystod 2020/21, effaith fawr ar ofal cynlluniedig. Mae hwn yn ffocws canolog i waith y bwrdd iechyd wrth symud ymlaen ac mae rhagor o wybodaeth i'w chael yng Nghynllun Blynyddol BIAP 2021/22.
- Fel darparwr, wynebodd y bwrdd iechyd yr heriau hyn yn achos diagnosteg a rhoddwyd mecanweithiau ar waith i alluogi adfer diagnosteg o gyfnod yr haf 2020 a oedd yn cynnwys cymryd camau ar unwaith i gywiro'r sefyllfa ac ymgysylltu mewn rhaglenni gwaith tymor hir yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Roedd y camau brys yn cynnwys defnyddio asesiadau risg a blaenoriaethu clinigol ar gyfer y rheini a oedd yn aros am ddiagnosteg a gofal.




Mae un o brosiectau Powys, 'Creu ateb digidol i wella effeithiolrwydd clinigol a gwella deilliannau cleifion' wedi derbyn 'Cymeradwyaeth Uchel' yng Ngwobrau Enwresis y Bledren a'r Coluddyn Cenedlaethol y DU eleni. Roedd y dull o fynd ati i gydgynhyrchu Ap Iechyd symudol newydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â phroblemau â'r Bledren a'r Coluddyn wedi gwneud argraff ar y beirniaid. Mae hyn yn cynnwys platfform digidol i gleifion a'u teuluoedd fanteisio ar gymorth diagnostig, mae'n helpu plant a phobl ifanc i adnabod eu symptomau eu hunain ac yn eu tywys tuag at hunanreoli eu cyflwr.

- Mae'r bwrdd iechyd yn wynebu heriau parhaus i'r gwasanaethau Endosgopi a Radioleg (uwchsain anobstetrig). Mae'r rhain yn cynnwys breuder y darparwyr gwasanaeth mewngymorth, cyfyngiadau parhaus ar gapasiti oherwydd gofynion diogelwch COVID-19 a chapasiti staff. Mae yna heriau parhaus o ran gofal arferol er bod holl lwybrau brys, gan gynnwys amheuon o ganser, yn bodloni canllawiau arfer gorau.
- Ataliwyd dros dro yr holl therapïau arferol mewn arbenigeddau yn unol â gofynion cenedlaethol yn ystod Chwarter Un (mis Ebrill i fis Mehefin 2020). Arweiniodd hyn at ôl-groniad sylweddol yn ystod misoedd yr haf ac ar ei anterth roedd yn golygu bod 986 o gleifion yn aros 14 wythnos neu fwy.
- Er mwyn sicrhau gofal diogel, rhoddwyd mecanweithiau ar waith i gyflenwi'r gwasanaethau therapïau yn y cyd-destun heriol hwn, gan gynnwys haenu risg atgyfeiriadau, system frysbennu podiatreg newydd, dilysu rhestrau aros, defnyddio staff dros dro i chwyddo capasiti a defnyddio dulliau amgen o gyflenwi gwasanaethau, gan gynnwys datrysiadau digidol.
- Roedd yna ffactorau a oedd yn lleihau'r rhestr aros gyffredinol am therapïau, er enghraifft gostyngiad yn yr atgyfeiriadau cyhyrysgerbydol sy'n debygol o fod yn rhan o effaith ehangach y pandemig, er enghraifft llai o anafiadau o chwaraeon.
- Fel y gellir gweld yn y tabl isod, mae adfer y gwasanaethau Therapïau wedi bod yn llwyddiannus. Ar ddiwedd mis Mawrth 2021, dim ond 30 claf oedd yn aros yn hirach na'r targed.



O’r Atgyfeirio i’r Driniaeth

- Mae llwybrau gofal iechyd Powys yn gymhleth, gyda darparwyr yng Nghymru a Lloegr yn darparu gofal acíwt ac arbenigol. Mae’r bwrdd iechyd yn comisiynu gofal acíwt ar gyfer y boblogaeth ac mae gofal arbenigol yn cael ei gomisiynu trwy drefniadau cydweithredol yng Nghymru a Lloegr. (Gofal a ddarperir i bobl ag anghenion iechyd arbenigol eu natur yw gofal arbenigol / ‘gwasanaethau arbenigol’ neu ‘wasanaethau trydyddol’; ewch i https://pgiac.gig.cymru/ i gael rhagor o fanylion).
- Er enghraifft, mae 63% o holl weithgarwch cleifion allanol yn cael ei gynnal mewn gwasanaethau darparwyr a gomisiynir yn Lloegr, 16% mewn gwasanaethau a gomisiynir yng Nghymru, ac 20% arall mewn gwasanaethau a ddarperir gan Bowys.
- Bu holl ddarparwyr iechyd gofal y GIG yn wynebu heriau sylweddol oherwydd y pandemig COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys lleihau’r gwasanaethau nad oeddent yn hanfodol a’u hatal dros dro er mwyn creu’r ymateb gorau posibl i COVID-19 a’r newidiadau i’r modd o gael mynediad at wasanaethau ledled gofal sylfaenol, gwasanaethau cymunedol, gofal acíwt ac arbenigol.
- Roedd yna gryn dipyn yn llai o atgyfeiriadau at ddarparwyr gofal eilaidd yn chwarter cyntaf y flwyddyn, o fis Ebrill i fis Mehefin 2020. Mae’r graff isod yn dangos cyfanswm yr atgyfeiriadau ar gyfer gofal a ddarperir yn uniongyrchol ac a gomisiynir. Nid yw’r galw wedi dychwelyd i’r cyfartaleddau cyn COVID-19 a daw risg o angen cudd yn ei sgil a rhoddir sylw manylach i hyn yn y dadansoddiad a chynllunio ymlaen llaw yng Nghynllun Blynyddol BIAP 2021/2022.




- Oherwydd lleihau ac atal gwasanaethau dros dro o chwarter cyntaf 2020/21, cafwyd ôl-groniad sylweddol o bobl yn aros ac mae’r rhain wedi gorfod aros yn hirach na’r arfer gan nad oedd modd osgoi hyn. Mae carfan fawr yn aros y tu hwnt i’r targed arfer gorau cenedlaethol, er enghraifft y

targed o 95% ar gyfer y rheini sydd dan 26 wythnos a'r targed nad oes unrhyw glaf yn aros yn hirach na 36 wythnos.

- Fel y nodwyd ar gyfer diagnosteg a therapïau, rhoddwyd mecanweithiau ar waith i reoli a chadw'r niwed i gleifion mor fach â phosibl, gan gynnwys sicrhau bod yr holl restrau aros yn haenu risg er mwyn sicrhau bod y cleifion â'r blaenoriaethau clinigol mwyaf yn cael eu trin yn y ffrâm amser orau bosibl.
- Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad yn erbyn y targedau cenedlaethol a'r gwelliannau a wnaed yn ystod Chwarter 3 a Chwarter 4. Mae'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn dangos bod 77.4% o gleifion wedi aros llai na 26 wythnos a nifer y cleifion a oedd wedi aros 36 wythnos neu fwy wedi cael ei leihau i 690.

Tabl – Perfformiad o'r atgyfeirio i'r driniaeth yn erbyn targedau cenedlaethol yn fisol – Ffynhonnell Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)

| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (heb gynnwys D&T) - Ffynhonnell IGDC | Ebr - 20 | Mai - 20 | Meh - 20 | Gorff -20 | Awst -20 | Medi -20 | Hyd - 20 | Tach -20 | Rhag -20 | Ion - 21 | Chwe -21 | Maw -21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran y cleifion yn aros > 26 wythnos am driniaeth | 90.5 % | 79.8 % | 71.1 % | 60.0 % | 48.6 % | 43.3 % | 49.4 % | 55.8 % | 58.8 % | 63.2 % | 66.1 % | 71.4 % |
| Nifer y cleifion yn aros am 36 wythnos neu fwy | 24 | 86 | 239 | 512 | 867 | 1060 | 1356 | 1478 | 1337 | 1063 | 863 | 690 |
| Cyfanswm y cleifion yn aros | 3545 | 3572 | 3622 | 3714 | 3865 | 3910 | 3892 | 3742 | 3747 | 3586 | 3362 | 3419 |

Tabl – Bandiau aros o'r atgyfeirio i'r driniaeth yn ôl arbenigeddau Mawrth 2021 – Ffynhonnell IGDC

| Snapshot Month: Mar-2021 | Powys Provider RTT - Waits Open Pathway (exc. D&T) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Specialty | 0 to 26 Weeks | 26 to 35 Weeks | 36 to 52 Weeks | 53 to 76 Weeks | 77 to 104 Weeks | Grand Total |
| 100 - GENERAL SURGERY | 274 | 34 | 4 | 55 | 3 | 370 |
| 101 - UROLOGY | 90 | 16 | 15 | 5 | | 126 |
| 110 - TRAUMA & ORTHOPAEDICS | 367 | 59 | 47 | 170 | 7 | 650 |
| 120 - ENT | 316 | 45 | 40 | 17 | | 418 |
| 130 - OPHTHALMOLOGY | 640 | 63 | 14 | 18 | | 735 |
| 140 - ORAL SURGERY | 128 | 27 | 12 | 160 | 12 | 339 |
| 143 - ORTHODONTICS | 17 | 4 | | 27 | 5 | 53 |
| 191 - PAIN MANAGEMENT | 68 | | | | | 68 |
| 300 - GENERAL MEDICINE | 68 | 5 | 2 | 1 | | 76 |
| 320 - CARDIOLOGY | 82 | 10 | 10 | 9 | | 111 |
| 330 - DERMATOLOGY | 21 | | | | | 21 |
| 410 - RHEUMATOLOGY | 77 | 8 | 2 | 1 | | 88 |
| 420 - PAEDIATRICS | 11 | | | | | 11 |
| 430 - GERIATRIC MEDICINE | 47 | 5 | 6 | 38 | 2 | 98 |
| 502 - GYNAECOLOGY | 234 | 13 | 2 | 4 | 2 | 255 |
| Grand Total | 2440 | 289 | 154 | 505 | 31 | 3419 |


- I drigolion Powys yn y gwasanaethau a gomisiynir, mae'r sefyllfa o'r atgyfeirio i'r driniaeth yn adlewyrchu'r her leol. Roedd darparwyr gofal acíwt wedi gorfod dargyfeirio adnoddau sylweddol i ofal brys a dwys yn ystod y brigiad cyntaf a'r ail frigiad o'r pandemig, gan gynnwys capasiti ystâd ffisegol a staffio. O ganlyniad, mae eu hôl-groniadau'n sylweddol ac mae perygl hefyd o orfod wynebu galw nad yw'n cael ei ddiwallu yn 2021/22.
- Mae'r tabl isod yn crynhoi'r perfformiad ar gyfer trigolion sy'n aros o fewn gwasanaethau darparwyr gofal iechyd yng Nghymru a Lloegr.

Tabl – Amseroedd aros o'r atgyfeirio i'r driniaeth yn ôl darparwyr a gomisiynir – Ffynhonnell IGDC

| Commissioned RTT - Waits Open Pathway Snapshot March 2021 (exc. D&T) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Source DHCW | % < 26 weeks | Patients waiting by band | | | | | | |
| Main Welsh Providers | | 0 to 26 Weeks | 26 to 35 Weeks | 36 to 52 Weeks | 53 to 76 Weeks | 77 to 104 Weeks | Over 104 Weeks | Grand Total |
| Aneurin Bevan Local Health Board | 56.4% | 1055 | 179 | 136 | 379 | 120 | 2 | 1871 |
| Betsi Cadwaladr University Local Health Board | 44.0% | 224 | 36 | 42 | 143 | 53 | 11 | 509 |
| Cardiff & Vale University Local Health Board | 52.8% | 191 | 26 | 34 | 82 | 27 | 2 | 362 |
| Cwm Taf Morgannwg University Local Health Board | 40.5% | 168 | 44 | 34 | 117 | 45 | 7 | 415 |
| Hywel Dda Local Health Board | 57.3% | 728 | 143 | 82 | 237 | 76 | 4 | 1270 |
| Swansea Bay University Local Health Board | 44.8% | 721 | 176 | 115 | 403 | 135 | 61 | 1611 |
| **Grand Total** | **51.1%** | **3087** | **604** | **443** | **1361** | **456** | **87** | **6038** |

| Commissioned RTT - Waits Open Pathway Snapshot February 2021 (exc. D&T) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Source DHCW | % < 26 weeks | Patients waiting by band | | | | | | |
| Main English Provider Groups | | 0 to 26 Weeks | 26 to 35 Weeks | 36 to 52 Weeks | 53 to 76 Weeks | 77 to 104 Weeks | Over 104 Weeks | Grand Total |
| English Other | 76.5% | 166 | 11 | 19 | 18 | 3 | | 217 |
| Robert Jones & Agnes Hunt Orthopaedic & District Trust | 64.6% | 1344 | 179 | 225 | 291 | 42 | | 2081 |
| Shrewsbury & Telford Hospital NHS Trust | 69.9% | 1872 | 245 | 172 | 356 | 32 | | 2677 |
| Wye Valley NHS Trust | 65.8% | 1748 | 330 | 275 | 256 | 46 | 2 | 2657 |
| **Grand Total** | **67.2%** | **5130** | **765** | **691** | **921** | **123** | **2** | **7632** |

- Mae'r graff isod yn darparu ciplun o nifer y bobl sy'n aros mewn categorïau amser ar draws yr holl ddarparwyr a chaiff hyn ei gymharu â'r un sefyllfa yn 2019/20.
- Mae'r ôl-groniad a achoswyd yn Chwarter Un 2020/21 i'w weld yn amlwg ar 40+ wythnos, gan gynnwys cleifion rheolaidd yn aros am driniaeth yn bennaf.




- O ganlyniad i'r gwaith adfer cymhleth, dechreuodd y gwasanaethau ddangos gostyngiad yn y nifer oedd yn aros am amser hir erbyn diwedd y flwyddyn (Mawrth 2021), ac mae'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021/22 yn darparu dadansoddiad a manylion pellach o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r heriau parhaus hyn.

Camau Dilynol (Cleifion Allanol)

- Mae cleifion sy'n aros am apwyntiad dilynol hefyd wedi wynebu oedi oherwydd effaith y pandemig ar ofal cynlluniedig a nodwyd uchod, o ganlyniad i leihau ac atal y gwasanaethau dros dro yn 2020/21.
- Mae'r bwrdd iechyd felly wedi methu â chyrraedd targedau Llywodraeth Cymru yn ystod 2020/21, a osodwyd cyn y pandemig.
- Fodd bynnag, mae'r bwrdd iechyd wedi rheoli cyfanswm ei gleifion yn llwyddiannus gyda lefelau cymharol dda o weithgarwch trwy gael cyswllt heb fod wyneb yn wyneb, a mecanweithiau ar gyfer dilysu rhestrau aros yn helpu i leihau cyfanswm y rheini oedd yn aros. Ond mae yna heriau o hyd gyda chyfyngiadau parhaus ar gapasiti ac mae blaenoriaethu yn parhau i fod yn allweddol ar gyfer unrhyw gleifion sydd mewn risg.
- Er y bu cynnydd yn nifer y cleifion sydd ar Lwybr Dilynol ym mis Mawrth 2021, mae gwelliant cyffredinol wedi bod ar gyfer y 12 mis diwethaf ac yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

Mae'r bwrdd iechyd yn ymgysylltu â'r rhaglenni cenedlaethol ar gyfer gwahanol wasanaethau hanfodol ac yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i bennu cwmpas cynlluniau trawsnewid i foderneiddio llwybrau cleifion ac i'w mabwysiadu.

Gofal Llygaid

Parhawyd â chyflenwi gofal Llygaid ym Mhowys fel gwasanaeth hanfodol ac felly mae perfformiad wedi parhau yn gadarn yn ystod 2020/21, ac mae'n cymharu'n bositif â sefyllfa Cymru Gyfan. Mae yna lai o gapasiti mewn offthalmoleg o ganlyniad i'r newidiadau oherwydd y pandemig ac mae'r effaith

wedi parhau trwodd hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021. Fodd bynnag, gwellodd cydymffurfiad i 64.7% ym mis Mawrth 2021, sef y 1af ar y rhestr yng Nghymru.

Fel darparwr gofal llygaid, rydym wedi cynnal perfformiad ffactorau risg iechyd ardderchog gan sicrhau bod cleifion yn cael eu hasesu'n glinigol a gwnaethom barhau i gynnal gweithdrefnau cataract, gan arwain yng Nghymru yn hyn o beth.


Mae Attend Anywhere (offeryn ar gyfer cyflawni ymgynghoriadau digidol yn lle ymgynghoriadau ar safleoedd gofal iechyd) nawr ar waith ym maes Optometreg Cymunedol ac mae'n cael ei gyflwyno fesul cam ar hyn o bryd ar gyfer Optometreg Ysbyty a'r gwasanaeth Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid (a gyflenwir ar y cyd â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall).

<u>Canser</u>

Mae effaith y pandemig yn parhau i herio'r gwasanaethau canser o ddifrif ledled Cymru; mae'r amhariad hwn yn ymwneud â'r gostyngiad mewn capasiti ar gyfer cleifion allanol, diagnosteg, llawdriniaeth a thriniaeth. I drigolion Powys, mae hyn yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol a'r gwasanaethau a gomisiynir. Mae gwaith helaeth wedi'i wneud yn genedlaethol ac yn lleol i achosi cyn lleied â phosibl o niwed i gleifion.

Fel darparwr diagnosteg endosgopi, mae'r bwrdd iechyd wedi sicrhau nad oes unrhyw ôl-groniad. Er nad yw BIAP yn cynnal triniaethau gofal acíwt rydym yn dal i fod yn gyfrifol am adrodd ar ein rhan yn y llwybr canser fel y cytunwyd â Llywodraeth Cymru.

Mae'r siart isod yn dangos nifer yr atgyfeiriadau llwybr canser sengl i Bowys fel darparwr ac mae'n dangos gostyngiad o ran atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu, gan adlewyrchu'r darlun cenedlaethol. Mae'r cyfartaledd cymedrig yn dal i fod yn saith y mis yn is na lefelau cyn COVID-19. Ni adroddwyd am unrhyw achosion o bryder arbennig yn Chwarter 4.



Adroddir ar berfformiad y darparwyr a gomisiynir gan y darparwyr gofal acíwt perthnasol yng Nghymru a Lloegr. Mae perfformiad darparwyr o Loegr wedi parhau yn gadarn gyda niferoedd y methiannau'n isel. Nid oedd data ar gyfer gwasanaethau yng Nghymru ar gael ar adeg yr adrodd. Disgwylir i 'Iechyd a Gofal Digidol Cymru' ddarparu'r set ddata canser ar gyfer GIG Cymru yn 2021/22.

Lansiwyd rhaglen Gwella'r Siwrnai Canser ym Mhowys, sef rhaglen mewn partneriaeth rhwng Macmillan, Cyngor Sir Powys a'r bwrdd iechyd. Ei nod yw datblygu model iechyd a gofal cymunedol cynaliadwy, integredig i bobl sy'n byw â chanser ym Mhowys. Wrth galon y rhaglen mae asesiad o anghenion holistaidd y rheini sy'n cael triniaeth ar gyfer canser a'u gofalwyr, i gael gwell dealltwriaeth ac i ddiwallu anghenion. Mae'n cael ei hyrwyddo gyda Rhwydwaith Canser Cymru a sefydliadau cyfagos yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys y trydydd sector, y GIG ac awdurdodau lleol. GWELLA'R SIWRNAI CANSER YM MHOWYS.

<u>Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Niwroddatblygiad</u>

- Ar y cyfan, llwyddwyd i gynnal gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu ym Mhowys ac mae perfformiad Iechyd Meddwl wedi parhau yn gadarn yn 2020/21. Mae mesurau Rhan 1 ar gyfer asesiadau wedi cyrraedd y targed yn gyson. (Felly hefyd mesurau Rhan 2 a nodwyd yn yr adran flaenorol).
- Mae ymyriadau i'r rheini sy'n iau nag 18 oed wedi cydymffurfio yn erbyn y targed o 80%, ond mae ymyriadau i'r rheini sy'n hŷn nag 18 oed wedi codi a gostwng gan fethu'r targed ym mis Ionawr ar 76.7% ac mae gwelliannau'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â hyn.
- Yn ôl y disgwyl, cynyddodd atgyfeiriadau at y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Sylfaenol yn unol â'r lefelau straen cenedlaethol a gofnodwyd trwy'r pandemig.
- Cynyddodd yr atgyfeiriadau ar draws y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i gyd yn sylweddol.
- Mae wardiau cleifion mewnol wedi gweithredu'n effeithiol trwy gydol y pandemig. Parhaodd y gwasanaethau i weld cleifion mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb lle bo'n briodol, gyda sgyrsiau dros y ffôn a fideo-gynadledda yn cefnogi hyn. Mae'r gwasanaeth seicoleg a therapïau siarad eraill wedi parhau dros y ffôn ac, ar ben hyn, mae Attend Anywhere wedi cychwyn. Dosbarthwyd llythyrau i bob claf i ddwyn sylw at y ffaith bod gwasanaethau ar agor fel arfer gydag ambell newid. Dyfeisiwyd set o bosteri a thaflenni gan ddefnyddio ffeithluniau hawdd i'w darllen i danategu'r negeseuon a'u rhannu â phartneriaid ar draws y sectorau a'r cyfryngau cymdeithasol.
- Datblygodd y gwasanaethau iechyd meddwl ddull rhagweithiol o fynd ati i reoli pryderon, trwy gysylltiad cynnar â phobl er mwyn deall y problemau a sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cymryd ar unwaith a bod dysgu'n cael ei rannu.

- *Trwy gydol mis Chwefror a mis Mawrth 2021, bu Swyddogion Cyfranogiad Partneriaeth Iechyd Meddwl yn cefnogi'r sesiynau 'Ymwybyddiaeth o Hunan-niweidio' gyda staff iechyd meddwl a'r uned mân anafiadau i ddysgu gan arbenigwr trwy brofiad.*
- Parhawyd i roi blaenoriaeth i wella gwasanaethau i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau ac yn dioddef o salwch meddwl, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Cynllunio Ardal.
- Mae'r aros am wasanaeth niwroddatblygiadol (plant a phobl ifanc) wedi gwella i gydymffurfiad o 60% yn dilyn rhoi cynllun gwella cadarn ar waith, yn well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru Gyfan.

Bu Saundra Lloyd a Catherine Davies o'r tîm anableddau dysgu'n gweithio gyda phartneriaid yn Gwelliant Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i ddatblygu Pecyn Hyfforddiant Gofal Sylfaenol. Adnodd yw hwn ar gyfer y rheini mewn gwasanaethau sylfaenol sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu. "Dechreuodd hyn ar ffurf pecyn hyfforddiant i bractisau meddygon teulu, ond gwnaethon ni sylweddoli y byddai hefyd o fudd i wasanaethau sgrinio iechyd, practisau deintyddol ac adrannau cleifion allanol."

Nursing Times Awards 2020 30 YEAR ANNIVERSARY FINALIST

## Ansawdd a Phrofiad y Claf

Mae ansawdd wedi bod yn egwyddor graidd trwy gydol blwyddyn anghyffredin iawn ac yn ganolog i'r ymdrechion i ymateb i'r pandemig.

Dylid darllen yr Adroddiad Blynyddol hwn fel cyfanwaith er mwyn deall y cyd-destun llawn a'r hyn y mae 'Ansawdd' yn ei olygu mewn blwyddyn lle roedd yn anochel bod profiad claf yn sylweddol wahanol.

Mae ansawdd yn integredig yn yr adroddiad trwyddo draw, er enghraifft:

- Mae Powys a'i Phoblogaeth (tudalennau 8-11) yn manylu ar yr asesiad o anghenion gyda throsolwg ar sut y mae'r pandemig wedi effeithio ar lesiant pobl. Mae hwn yn gyd-destun pwysig ar gyfer deall yr hyn y mae ansawdd yn ei olygu i boblogaeth Powys a'r bwrdd iechyd.
- Mae'r Fframwaith Cynllunio a Chyflenwi (tudalennau 13-15) yn disgrifio sut yr ymatebodd y bwrdd iechyd i'r pandemig, gyda strwythurau a mecanweithiau diwygiedig i ddarparu gofal diogel o ansawdd mewn cyfnod anghyffredin iawn.
- Mae Cynllunio a Chyflenwi gwasanaethau Diogel, Effeithiol o Ansawdd ar gyfer Gofal COVID-19 (tudalennau 17-23) yn manylu ar ddatblygu'r Model Ymateb Clinigol a'r ddarpariaeth gofal yn benodol ar gyfer COVID-19.
- Mae Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaethau Diogel, Effeithiol o Ansawdd ar gyfer Gofal Heblaw am COVID-19 (tudalennau 24-30) yn manylu ar y trefniadau a wnaed i gyflenwi gwasanaethau hanfodol ledled gofal sylfaenol, gofal cymunedol, gofal acíwt ac arbenigol.

- Hefyd, rhoddir crynodeb o waith mewn meysydd allweddol yn 2020 yn yr adran uchod pan y maent yn arbennig o bwysig i ansawdd a phrofiad y claf. Mae'r rhain yn cynnwys:
    - Rhaglen De Powys mewn ymateb i agor Ysbyty Prifysgol y Faenor;
    - gwaith sicrwydd yn ymwneud â'r darparwyr hynny sy'n destun mesurau arbennig, gan gynnwys Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
    - datblygu fframwaith sicrwydd comisiynu i ddarparwyr mewnol, ynghyd â fframwaith ar gyfer cartrefi gofal, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys.
- Mae rhoi Fframwaith Ansawdd Clinigol BIAP ar waith yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac mae'n ymddangos yng Nghynllun Blynyddol BIAP 2021/22.

Mae'r adran nesaf yn darparu <u>data technegol</u> ychwanegol i fodloni gofynion penodol Canllawiau Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2020/21.

Mae hwn yn cynnwys crynodeb o brofiadau cleifion a'u pryderon, cwynion, digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch cleifion, digwyddiadau difrifol a hawliadau, gan gynnwys tueddiadau, dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i adrodd am lefelau isel o achosion ar gyfer y mesurau diogelwch ac ansawdd yn ymwneud â rheoli haint.

<u>Adrodd ar ddigwyddiadau</u>

Diffinnir 'digwyddiad' fel rhywbeth sy'n digwydd mewn perthynas â gwasanaethau a gofal y mae'r GIG yn eu hariannu sy'n arwain at farwolaeth annisgwyl neu un y gellir ei osgoi, niwed neu anaf i glaf, gofalwr, staff neu ymwelydd. Adroddodd y bwrdd iechyd ar 3623 o ddigwyddiadau yn ystod 2020 – 2021 ar draws yr holl wasanaethau a ddarperir.

Mae dadansoddiad o'r digwyddiadau'n galluogi nodi themâu ac roedd y rhain yn cynnwys ymddygiad cleifion sy'n gallu bod yn ddifrïol, yn dreisgar, yn aflonyddol neu'n hunan-niweidiol, mynediad, apwyntiadau, derbyn i ysbytai, trosglwyddo, trefniadau rhyddhau, damweiniau gan gynnwys codymau, monitro gofal gan gynnwys wlserau pwyso.

Y diffiniad o ddigwyddiad difrifol yw rhywbeth a ddigwyddodd pan roedd gofal iechyd sydd wedi'i ariannu gan y GIG yn cael ei ddarparu. Yn ystod 2020-21, cofnododd y bwrdd iechyd 56 o ddigwyddiadau difrifol.

Cryfhaodd y bwrdd iechyd ei ffocws ar reoli digwyddiadau difrifol yn 2020, i sicrhau ymateb effeithiol ac effeithlon, gyda threfniadau cadarn o fewn pob grŵp gwasanaeth, gan alluogi adolygiadau amlddisgyblaeth a dysgu ar y cyd. Mae dull o'r enw model 'heidio' hefyd yn cael ei roi ar waith mewn perthynas ag achosion o gleifion mewnol yn cwympo a briwiau pwyso, er mwyn gwella amseroldeb a chadernid ymchwiliadau a dysgu.

Mae'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch yn craffu'n wythnosol ar berfformiad y sefydliadau o ran rheoli digwyddiadau difrifol.

Pryderon

Mae pryderon anffurfiol, y cyfeirir atynt fel pryderon 'yn y fan a'r lle', fel rheol yn ymwneud â materion sy'n gymharol hawdd i fynd i'r afael â nhw ac y mae'n bosibl eu datrys yn gyflym ac, yn ddelfrydol, erbyn y diwrnod gweithio nesaf. Rhaid cydnabod pob pryder, anffurfiol a ffurfiol, o fewn dau ddiwrnod gwaith. Ein targed mewnol ar gyfer cydnabod pryderon anffurfiol yw 100%.

Yn ystod 2020-2021, derbyniodd y bwrdd iechyd 234 o gwynion ffurfiol, y rhan fwyaf yn ymwneud â chael mynediad at wasanaethau, cyfathrebu ac agwedd, yn ogystal â gofal a thriniaeth. Mae'r duedd wedi dangos bod yna welliant o ran rheoli amserol, gan sicrhau cydymffurfio 69.4% â'r targed 30-diwrnod, o'i gymharu â chydymffurfio 28.2% yn y 12 mis blaenorol.

Canmoliaeth

Mae'r bwrdd iechyd yn derbyn ac yn cofnodi canmoliaeth a ddaw mewn nifer o fformatau, gan gynnwys cardiau, llythyrau a chanmoliaeth ar lafar. Cofnodwyd cyfanswm o 281 enghraifft o ganmoliaeth yn y flwyddyn ond dylid nodi nad dyma'r darlun cyfan gan eu bod yn aml yn anffurfiol eu natur. Mae'r adroddiad drwyddo draw yn dwyn sylw at gyflawniadau allweddol i enghreifftio rhai o'r meysydd adborth ac arfer da.

Dysgu a Gwella

Mae'r broses o'r enw 'Gweithio i Wella' yn un lle mae trigolion Powys yn gallu codi pryderon a gwybod bod rhywun yn gwrando arnynt a bod eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif.  Sail y broses yw'r egwyddorion o 'fod yn agored' a manylir ar hyn ym mholisi'r bwrdd iechyd, gyda deddfwriaeth, rheoliadau a safonau wrth wraidd y polisi hwn.

Os yw claf yn parhau i fod yn anfodlon ag ymateb i bryder sy'n destun ymchwiliad gan y bwrdd iechyd, mae gan yr achwynydd yr hawl i godi'r mater ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n penderfynu a ddylid mynd ar drywydd ymchwiliad llawn ai peidio. Yn ystod y cyfnod o fis Ebrill 2020 i 28 Chwefror 2021, mae'r bwrdd iechyd wedi derbyn 7 ymholiad ombwdsmon ac wedi ymateb i 7 o'r argymhellion a wnaed, gyda 7 ymholiad arall yn cael gwybod na fyddant yn cael eu harchwilio.

Cyhoeddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Adroddiad Arbennig i'r bwrdd iechyd ym mis Hydref 2020, o ganlyniad i drin cwynion yn wael wrth ddelio â chŵyn a wnaed. Mae'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ogystal â gwefan y bwrdd iechyd. Cynhaliwyd adolygiad annibynnol yn dilyn yr adroddiad, ynghylch gallu a chapasiti i ymdrin â chwynion mewn ffordd amserol ac effeithiol, gan gynnwys p'un a ddylid ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol ai peidio. Mae hwn yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod y ffocws ar wella yn un go iawn a bod hwnnw'n newid parhaol ac yn cydymffurfio'n well.

Manteisir ar gyfleoedd i rannu gwersi a hybu dysgu ehangach hefyd trwy gyfrwng y 'Grŵp Dysgu o Brofiad', sef y Grŵp Llywio Profiad Cleifion ac fe'u rhennir trwy gyhoeddiadau Powys ar system diweddaru'r hyn a ddysgir o COVID-19, sef CoRSEL Cymru Gyfan. Mae hyfforddiant mewn dadansoddi

gwraidd y broblem wedi'i ddefnyddio i danategu 'sut olwg sydd ar wasanaeth da' o ran ymholi, archwilio a dadansoddi proffesiynol. Cynyddodd y ffocws ar ddysgu yn ystod y flwyddyn fel y gwelir mewn adroddiadau a gynhyrchwyd i'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch a'r bwriad i gael archwiliad clinigol.

Mae Tîm Bydwreigiaeth BIAP wedi partneru â Mind Aberhonddu a'r Cylch i ymchwilio i anghenion dynion i ddod yn rhieni. Roedd astudiaeth wedi'i hariannu â Chyllid Gofal Integredig yn edrych ar sut y mae dynion yn pontio a pha newidiadau sy'n dod i'w rhan a ph'un a ydynt yn teimlo bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Mae'r themâu sy'n dod i'r fei wedi darparu sail ar gyfer cynllunio cefnogaeth, o gael eu cynnwys mewn addysg gynenedigol i gefnogaeth iechyd meddwl benodol. Mae argymhellion ynglŷn â 'Dod yn Dad' wedi'u rhannu â darparwyr gwasanaethau mamolaeth ac ymwelwyr iechyd i hybu cynnwys tadau.




## <u>Cydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016</u>

Mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar bob bwrdd iechyd i ddarparu digon o nyrsys i ofalu am gleifion yn sensitif ym mhob maes y maent yn eu darparu neu'n eu comisiynu.

Ffurfiwyd Grŵp Deddf Lefelau Staff Nyrsio i oruchwylio'r gwaith hwn a bydd hwn yn goruchwylio gweithredu dulliau Cymru Gyfan, adolygiadau o nifer y staff, dangosyddion ansawdd a sicrwydd bod staffio yn y gwasanaethau a gomisiynir yn cydymffurfio.

Mae'r camau a roddir ar waith i sicrhau bod digon o nyrsys i ofalu am gleifion yn sensitif yn unol â'r Ddeddf yn cwmpasu:

- Uwch arweinyddiaeth nyrsio gref, gyson, weledol trwy'r Pennaeth Nyrsio Proffesiynol a'r tîm.
- Adolygiadau rheolaidd o lefelau staffio gan ddefnyddio barn broffesiynol, wedi'i thriongli â metrigau nyrsio, er enghraifft cyfradd wlserau pwyso, codymau, camgymeriadau'n digwydd wrth roi meddyginiaethau, atgyfeiriadau diogelu, profiad cleifion a staff, wedi'u mynegi trwy adrodd ar ddigwyddiadau, pryderon, arolwg staff a gwybodaeth feddal, er enghraifft, morâl.
- Llunio rhestrau dyletswyddau effeithiol gan ystyried anghenion acíwt a chymhleth cleifion, ynghyd â rheoli absenoldebau'n effeithiol, yn rhagweithiol o ran gwyliau blynyddol ac yn adweithiol o ran salwch, ac adolygu lefelau staffio o leiaf unwaith y dydd.
- Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn arwain rhaglenni recriwtio ac effeithlonrwydd y gweithlu.

Bu Ward y Bannau yn Ysbyty Coffa Rhyfel Brycheiniog yn cymryd rhan yn y rhaglen beilot ar gyfer digideiddio nodiadau cleifion fel rhan o Gofnod Gofal Nyrsio Cymru ym mis Chwefror 2021. Mae'r gwaith hwn, sydd wedi ennill gwobrau, yn trawsnewid y ddogfennaeth y mae nyrsys yn ei defnyddio a bydd yr hyn sydd wedi'i ddysgu'n cael ei gyflwyno fesul cam ar draws ein hysbytai ym Mhowys.




<u>Diogelu</u>

Rhoddwyd cefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer diogelu ar waith hefyd eleni, gan gydnabod y risg fwy yn gysylltiedig â'r pandemig a'r cyfyngiadau ar fywyd teuluol a chymdeithasol.

Mae hyn wedi cynnwys sefydlu grŵp gweithredol a chwblhau'r Offeryn Hunanasesu Matrics Aeddfedrwydd Diogelu; diweddaru polisïau diogelu yn unol â'r Gweithdrefnau Cymru Gyfan diweddaraf; hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth; canolbwyntio ar gam-drin domestig mewn prosesau atgyfeirio a'r gweithlu; adnoddau ar-lein ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

## Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Mae pwysigrwydd cyfathrebu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hon yn cael ei nodi yn yr adroddiad hwn trwyddo draw, fel rhan sylfaenol o waith y bwrdd iechyd. Roedd yn rhaid i'r ymateb i COVID-19 fod yn gyflym ac yn deinamig ac integreiddiwyd ymdrechion i gyfathrebu'r newidiadau mewn gwasanaethau ar bob cam o'r ffordd.

Er enghraifft, cyfathrebwyd 'Dull Pum Cam' yng nghyfnod cychwynnol yr ymateb i COVID-19, i roi darlun clir o'r Model Ymateb Clinigol a sut i gael mynediad at wasanaethau yn ystod ton gyntaf y pandemig.

Mewn cyfnodau dilynol, roedd yna fwy o ffocws ar annog defnyddio'r gwasanaethau iechyd, yn dilyn gostyngiad mewn atgyfeiriadau a thystiolaeth yn dod i'r fei am ymddygiad y boblogaeth wrth defnyddio gwasanaethau.

Dyluniwyd ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol i annog y rheini a oedd angen cefnogaeth i barhau i fanteisio ar y gefnogaeth hon trwy'r llwybrau priodol – manylir ymhellach ar hyn yn yr adran flaenorol wrth i bob gwasanaeth ymgysylltu â'u defnyddwyr eu hunain i sicrhau eu bod yn deall beth oedd wedi newid ac i roi sicrwydd ynglŷn â'r gefnogaeth a oedd yn dal i fod ar gael ar gyfer gofal hanfodol.

Roedd ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid yn hanfodol a rhoddwyd trefniadau newydd ar waith yn gyflym, er mwyn sicrhau bod y bwrdd iechyd wedi'i gysylltu â systemau iechyd gofal ledled Cymru a Lloegr, i sicrhau bod anghenion trigolion Powys yn cael eu hystyried yn llawn.

Sefydlwyd cyswllt cryfach ac amlach â'r Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) a addasodd yn gyflym hefyd ac a ddarparodd adborth hanfodol a safbwynt annibynnol mewn amgylchedd a oedd yn newid yn gyflym. Cyflawnodd y CIC ddarnau allweddol o ddadansoddi mewn perthynas â gofal a phrofiad cleifion ledled y gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yn lleol a chenedlaethol – mae rhagor o fanylion am y rhain ar wefan y CIC ac yng Nghynllun Blynyddol BIAP 2021/22.







Dyma enghreifftiau o fecanweithiau penodol a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn:

- Hybu negeseuon ac ymgyrchoedd allweddol COVID-19: Aros Gartref, Achub Bywydau, Cadw Pellter Cymdeithasol, Hylendid Dwylo, Diogelu Cymru.
- Cynllun ymgysylltu a chyfathrebu ynglŷn â brechiadau COVID-19
- Cynllun ymgysylltu a chyfathrebu ynglŷn â Phrofi, Olrhain a Diogelu
- Datblygu cyfarwyddiadur ar-lein o Wasanaethau Hanfodol BIAP
- Hybu cynnig SilverCloud Cymru Gyfan
- Datblygu a chyflenwi rhaglen leol o ymgysylltu a chyfathrebu ar gyfer y newidiadau i wasanaethau ysbytai yng Ngwent ac agor Ysbyty'r Faenor yn gynnar (Prosiect De Powys).

- Cwblhau'r gwaith o fudo gwefan y bwrdd iechyd, gan sicrhau y cydymffurfir â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff y Sector Cyhoeddus (Rhif 2)(Gwefannau a Rhaglenni Symudol) 2018.
- Dechrau rhaglen ar gyfer mudo'r fewnrwyd, i ddarparu llwyfan newydd yn barod ar gyfer rhoi'r gorau i fewnrwyd Cascade a sicrhau y cydymffurfir â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff y Sector Cyhoeddus (Rhif 2)(Gwefannau a Rhaglenni Symudol) 2018.
- Cefnogaeth i'r cynlluniau cyfathrebu cenedlaethol ar gyfer y gaeaf gan gynnwys Ein Helpu Ni i'ch Helpu Chi a brechlyn y ffliw tymhorol.
- Cefnogi datblygu a chyflwyno'r Achos Busnes ar gyfer rhaglen Llesiant Gogledd Powys a model newydd integredig o iechyd a lles.
- Ymgysylltu parhaus ynglŷn â newidiadau gwasanaeth dros dro, interim a pharhaus ar gyfer ein darparwyr gwasanaethau ein hunain a'r rheini a gomisiynir oddi wrth fyrddau iechyd cyfagos (e.e. gwasanaethau fasgwlaidd De Ddwyrain Cymru, meddygaeth niwclear Gogledd Cymru).




- Parhau i gynnal sesiynau briffio wythnosol â'r Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) gyda threfniadau pwyllgorau ffurfiol gan gynnwys Pwyllgor Cynllunio Gwasanaethau CIC nawr wedi'i ailsefydlu.
- Cyflenwi cynnig ymgysylltu "Cymru Iachach" a gweithio i gynnal ac ailsefydlu dull ymgysylltu parhaus BIAP o weithredu gyda ffocws ar amrywiaeth a chynhwysiant i hybu anghydraddoldebau iechyd.




## Cydraddoldebau a'r Iaith Gymraeg

Cyflwynodd BIAP Gynllun Gwaith Blynyddol yr iaith Gymraeg a Chydraddoldeb ar gyfer 2020-2021, gan adeiladu ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Cyflawniadau allweddol:

- Rhwydwaith Niwroamrywiaeth ar y cyd rhwng BIAP a Chyngor Sir Powys i ddarparu cefnogaeth i staff ag anghenion dysgu ychwanegol amrywiol.
- Rhwydwaith Rhanddeiliaid Rhywedd i godi ymwybyddiaeth o hunaniaeth o ran rhywedd; buddsoddi mewn therapi llais arbenigol i bobl draws.
- Rhoi'r Polisi Menopos a'r Caffis Menopos Rhithwir ar waith.
- Creu cysylltiadau â'r Grŵp Rhanddeiliaid Sipsiwn, Roma a Theithwyr; Swyddogion Tros Gynnal Plant Cymru a staff allweddol yn Adran Tai Cyngor Sir Powys.
- Grŵp rhithwir uwch reolwyr i ystyried Adroddiad Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol COVID-19 Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) Llywodraeth Cymru a chymryd camau gan gynnwys creu cysylltiadau â

grŵp staff BAME, hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff, hybu'r Offeryn Asesu Risg COVID-19, a recriwtio Gwirfoddolwyr Allanol PAVO (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys) BAME.
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau Ar-lein Pride Cymru ac LGBT (Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol) Cymru; hybu Diwrnod 'Dod Allan' ym mis Hydref 2020.
- Hybu Mis Ymwybyddiaeth Colli Synhwyrau ym mis Tachwedd 2020; buddsoddi mewn seinchwyddwyr personol ar gyfer cleifion; cyflwyno gwasanaethau trwsio a chyfnewid cymhorthion clyw ar yr un diwrnod i gleifion mewnol; cynnydd mewn addasu cymhorthion clyw o bell gyda chymorth Action on Hearing Loss; gwella gwasanaethau Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid i gefnogi'r rheini sydd wedi colli golwg o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.
- Cynllun gweithredu 'Gadael Neb Ar Ôl' fel rhan o rhaglen Frechu COVID-19 i leihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae gwelliannau sylweddol hefyd wedi'u gwneud i gynyddu ein capasiti i gyflenwi gwasanaethau dwyieithog i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n siaradwyr Cymraeg:

- Gweithdrefnau recriwtio dwyieithog
- Cyflwyno cynlluniau gweithredu adrannol yn ymwneud â'r Gymraeg
- Monitro a chefnogi cydymffurfiad gwasanaethau â'r safonau
- Datblygu polisi ac offeryn asesu effaith newydd
- Adnoddau Cymraeg i staff, Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant ar y Safonau a 'Chynnig Rhagweithiol'.
- Rhwydwaith staff sy'n siaradwyr Cymraeg; gweithio ar baru cleifion sy'n siaradwyr Cymraeg â chlinigwyr sy'n siaradwyr Cymraeg.
- Arwain ffrwd gwaith ddwyieithog ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Ymrwymo i'r rhaglen 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog'

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol ar gyfer Cydraddoldeb a'r Gymraeg sydd ar gael yma: https://biap.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol/cydraddoldeb-ar-iaith-gymraeg/

## Y Gweithlu




Roedd cynllunio, adleoli a recriwtio a hyfforddiant i'r gweithlu'n hanfodol i'r ymateb i COVID-19 a gofal iechyd hanfodol yng nghyfnod cyntaf y pandemig ac wedyn ar gyfer sefydlu'r rhaglenni Profi, Olrhain a Diogelu a Brechu.

Roedd cydweithredu a phartneriaethau'n ganolog i gynllunio a chyflenwi llwyddiannus y gweithlu yn 2020-21, gyda mwy o weithgarwch a gweithgarwch newydd mewn meysydd allweddol, gan gynnwys rhaglen sylweddol o wirfoddoli, cytundebau partneriaethau ac ymgysylltu ag undebau llafur. Roedd yna weithio agos â Chyngor Sir Powys, y Lluoedd Arfog, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a

Gorllewin Cymru a chynrychiolwyr ochr y staff.

Cynigiwyd Arolwg Staff GIG 2020 i'r holl staff a'r bwrdd iechyd gafodd y gyfradd ymateb uchaf ledled y byrddau iechyd yng Nghymru, sef 29%, a'r sgôr ymgysylltu uchaf. Roedd y canlyniadau'n bositif ar y cyfan, gyda gwelliannau sylweddol mewn meysydd fel ymgysylltu a chymhelliant, er y cydnabyddir bod angen ffocws parhaus ar ddiwylliant, cyfathrebu, rheoli a gweithio mewn tîm. Tynnwyd sylw at yr angen i gymryd hoe fach i fyfyrio, cael eich gwynt atoch a meithrin perthnasoedd gweithio.

Cymhelliant a brwdfrydedd staff

- Roedd 93% o staff yn hapus i fynd yr ail filltir
- Dywedodd 80% eu bod yn frwdfrydig ynglŷn â'u rôl, sy'n welliant o 7%
- Dywedodd 63.3% eu bod yn edrych ymlaen at fynd i'r gwaith
- Bu gostyngiad o 8.1% yn y rheini sy'n teimlo'u bod yn gallu newid pethau, o 77% yn 2018 i 68.9%
- Mae 59.9% yn cymryd hoe fach i fyfyrio a dysgu, sef gostyngiad o 3.1% ers 2018

Argymhelliad ffrindiau a theulu

- Roedd ymatebwyr 4.2% yn llai hapus â safon y gofal a gynigiwyd i ffrind neu berthynas – o 63% yn 2018 i 59.9%

Bwlio ac aflonyddu

- Dywedodd 91.4% o staff nad oedd eu rheolwr llinell wedi'u bwlio, eu cam-drin neu aflonyddu arnynt, sef gwelliant o 8.4% o 2018
- Dywedodd 90% nad oedd aelod o'r cyhoedd wedi'u bwlio, eu cam-drin neu aflonyddu arnynt

Fodd bynnag, dim ond 45.6% o staff oedd o'r farn bod y sefydliad yn rheoli bwlio, aflonyddu neu gam-drin yn effeithiol

Effeithiwyd ar nifer y rheini a gydymffurfiodd â gofynion o ran dilyn Hyfforddiant Gorfodol a Statudol, adolygiadau ac arfarniadau personol ac absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i'r newidiadau oherwydd COVID-19. Mae gwaith ar y gweill i ddychwelyd bob yn dipyn i lefelau perfformiad cyn COVID-19 yn ystod chwarteri cyntaf 2021.

| Rhif | Enw Mesur Talfyredig | Targed | Y diwedd-araf | 12 mis cyn hynny | Cyfnod cyn hynny | Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 53 | Arfarnu Perfformiad (PADR) | 85% | **Maw -21** | 79% | 65% | 65% |
| 55 | Hyfforddiant Sgiliau Craidd Gorfodol | 85% | **Maw -21** | 86% | 77% | 79% |
| 57 | Absenoldeb Salwch R12 | 12mis< | **Maw -21** | 4.91% | 4.99% | 4.93% |

Daeth gwell cynnig llesiant i staff yn flaenoriaeth allweddol yn 2020-21, gyda chamau wedi'u targedu mewn ymateb i'r gwerthusiad o'r Dulliau Newydd o Weithio, canlyniadau'r Arolwg Staff ac ymgysylltiad staff gan gynnwys ymgysylltu ag Ochr y Staff.

Gyda datblygu porth llesiant staff penodol, roedd gweithdai llesiant a oedd yn cynnig cyngor ar ddeiet a rheoli straen ar gael i staff, yn ogystal â gwell mynediad at ein gwasanaeth Cwnsela penodol.

Mae gweithio mewn partneriaeth â'r Undebau Llafur a'n Pwyllgor Cronfeydd Elusennol wedi caniatáu i ni greu hybiau Llesiant ar bob un o'n safleoedd, yn cynnig lluniaeth am ddim a sgriniau arddangos digidol, i staff allu gweld newyddion y sefydliad, y wybodaeth ddiweddaraf, cyhoeddiadau Powys a negeseuon.




Er y bu'n rhaid i ddigwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb â staff ddod i ben, galluogodd y gallu digidol cynyddol ni i gynnal digwyddiadau fel sesiynau briffio byw oddi wrth y Prif Weithredwr a grŵp Facebook y staff, yn ogystal â'r cylchlythyr, Twitter a ffyrdd rhithiol eraill i staff rannu eu gwaith a'u barn.

Mae partneriaeth â'r Undebau Llafur hefyd wedi bod yn gryf, gan gydweithio ar y mentrau llesiant ac adborth staff a sianeli cyfathrebu. Darparodd y Fforwm Partneriaeth Lleol grŵp cynghori ffurfiol gan sicrhau bod camau'n cael eu hystyried ac yn cael eu cymryd mewn ymateb i adborth. Mae hyn wedi cynnwys materion iechyd a diogelwch a datblygiad y blaenoriaethau o ran adfer ac adnewyddu fel rhan o gynllunio'r sefydliad ar gyfer y dyfodol.



Rhoddwyd sylw i ymgyrch flaenllaw'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yr Academi Iechyd a Gofal ar gyfer Powys yn 2020/21 a fydd yn golygu y daw addysg, hyfforddiant a datblygu ar gael yn fwy rhwydd ledled y sector iechyd a gofal cymdeithasol.



Gan weithredu fel model 'prif ganolfan a lloerennau', bydd yn cynnig cyfleoedd dysgu ymarferol, academaidd a digidol o'r radd flaenaf gydag adeilad Hyb Academaidd yn cynnig amgylchedd dysgu modern, prentisiaethau helaethach a lansiad y Cynllun Kick Start.

Datblygwyd y model fel dull partneriaeth o weithredu gyda'n Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, partneriaid yn yr Awdurdod Lleol a'r trydydd sector ac mae wedi'i alinio â "Cymru Iachach" a'n strategaeth Iechyd a Gofal "Powys Iach a Gofalgar".

Bydd yn cynnig rhaglenni ar gyfer pob ardal 'ysgol' a brand hawdd ei adnabod fel esiampl o addysg iechyd a gofal clinigol a phroffesiynol, gwledig.



**Llwyddiannau Prentisiaid**

Fe ddechreuodd Shannon a Kirsty pan ddechreuwyd cymryd Prentisiaid Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd gyntaf yn ysbyty Aberhonddu ac mae'r ddwy wedi llwyddo i gael rolau amser llawn wrth weithio i orffen eu cymwysterau. Daeth Callum a Lisa yn Brentisiaid Gweinyddu Busnes yn adran y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Gydol y pandemig, cafodd y ddau eu secondio i helpu â Phrofi, Olrhain, Diogelu, gan weithredu ar lefel uwch na'u rôl. Mae'r ddau bellach wedi cael rolau parhaol; Lisa yn y tîm gweinyddol a Callum fel goruchwyliwr yng Nghanolfan Brechu Torfol Bronllys.



"Dwi'n mwynhau'r rhaglen brentisiaeth yn fawr; bob dydd, dwi'n dysgu sgiliau newydd yn ogystal â chyfarfod â llawer o bobl newydd"

"Mae Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn yrfa am oes; gallwch chi symud ymlaen ac adeiladu ar eich sgiliau trwy'r rhaglen brentisiaethau"

## Digidol




Roedd materion digidol yn bwysig iawn eleni, yng nghyd-destun ymateb i'r pandemig. Mewn llawer o achosion, roeddent wedi galluogi parhad gofal hanfodol.

Nid oeddent heb eu heriau ond roedd cyflymu'r broses o gyflwyno'r ddarpariaeth ddigidol yn gwbl sylfaenol i waith y bwrdd iechyd eleni ac mae'n parhau i fod yn ffocws sylweddol.

Ar adeg pan roedd gwasanaethau i gleifion Powys yn cael eu cwtogi neu eu hatal oherwydd COVID-19, roedd darpariaeth ddigidol yn ganolog i ofal a chymorth i gleifion.

Roedd meysydd gwaith allweddol yn cynnwys:

Erbyn hyn mae 250 o ymgynghoriadau'n cael eu cynnal bob wythnos trwy Attend Anywhere

Cynhaliwyd 2500 o ymgynghoriadau rhwng mis Mehefin 2020 a mis Rhagfyr 2020.

O'r rhain, roedd 42% yn Therapïau, 34% yn achosion Iechyd Meddwl, 13% yn Fenywod a Phlant, 5% yn Ofal Eilaidd, 3% yn Rheoli Poen a Blinder, 1% yn Wardiau Rhithwir, 1% yn ymwneud ag Iechyd y Cyhoedd, a < 1% yn Ddeintyddiaeth Gymunedol.

Rhoddwyd Attend Anywhere (offeryn ar gyfer apwyntiadau ar-lein) ar waith gydag adborth cadarnhaol o safbwynt profiad cleifion ac ymarferwyr clinigol fel ei gilydd.

Er nad oedd yn addas ar gyfer pob math o gyswllt, darparodd ddull newydd o gefnogi rhai cleifion a ddywedodd, er enghraifft, y gallai galwadau fideo eu helpu i deimlo'n fwy cysylltiedig, mae'n eu galluogi i deimlo'n llai beirniadol ac yn fwy cyfforddus, yn ogystal â llawer mwy cyfleus na theithio i apwyntiadau.

Mae yna heriau hefyd i unrhyw ddull digidol o ddarparu ac ni fydd pob claf, defnyddiwr a gofalwr mor ffafriol o ofal digidol nac yn gallu cael gafael arno. Mae'n amlwg bod angen adeiladu'r seilwaith, y capasiti a'r offer i ddatblygu yn y maes hwn yn ogystal ag angen parhaus i ymgysylltu â'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaethau i ddeall eu profiad a'u canlyniadau.

Aeth y bwrdd iechyd yn fyw gyda Consultant Connect fis Mai 2020 (offeryn i glinigwyr gysylltu'n rhithwir i gael cyngor a chymorth) ac mae hyn wedi bod yn uchel ei barch yn yr ardaloedd lle sefydlwyd ef.

Mae wedi helpu i leihau derbyniadau i ysbytai ac atgyfeiriadau heb eu trefnu,

gan alluogi cleifion i gael cymorth cyn gynted â phosibl, gyda mynediad cyflymach at gyngor arbenigol.

Mae wedi helpu i bontio’r gagendor, sydd wedi bod yn lledu o ganlyniad i’r pandemig, rhwng y meddyg teulu a llwybr y claf i’r ymgynghorydd.

Enghreifftiau eraill o ddarpariaeth ddigidol leol:




- Ehangu’r cynnig Therapi Gwybyddol Ymddygiadol (CBT) SilverCloud ar-lein i breswylwyr a staff gynnig hunangyfeirio.
- Cyflwyno ap hunanreoli newydd (My mHealth) i gefnogi pobl â chyflyrau hirdymor.
- Cynnig apiau MyDiabetes a MyHeart i gleifion ar lwythi achosion nyrsys arbenigol diabetes a chyflyrau cardiaidd, i gael mynediad at raglenni adsefydlu / ymarfer corff / deiet ochr yn ochr â chymorth gan eu clinigwr.
- Gellir cael gafael ar yr apiau hyn ar bron unrhyw ddyfais sy’n cysylltu â’r rhyngrwyd, gan gynnwys ffonau clyfar, gliniaduron, llechi a setiau teledu.
- Mae cyflymu cymorth ar-lein wedi dangos y gall rhai mathau newydd o gymorth gynnig mwy o fanteision o ran hunanreoli.
- Mae’n offeryn defnyddiol ar gyfer hunanofal, yn enwedig o ran deall ac olrhain symptomau; galluogi ymateb amser real mwy gweithredol i helpu i atal cyflyrau rhag gwaethygu.

Roedd angen rhaglen waith dechnegol eang i ategu’r seilwaith ar gyfer cyflymu darpariaeth ddigidol, gan gynnwys:

- Cynnydd enfawr mewn gweithio ystwyth gan alluogi ffyrdd newydd o weithio i gefnogi’r gwaith o ddarparu gofal iechyd.
- Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno Office 365 (O365) gyda chymorth a hyfforddiant i ddefnyddwyr ei fabwysiadu, a throsglwyddo gwybodaeth dechnegol, a mudo gyriannau a rennir a gyriannau personol i yrru rhannu ffeiliau ystwyth a chyfeiriaduron.
- Cyflwyno’r strategaeth gweithio gartref gan gynnwys polisi Dod â’ch Dyfais Eich Hun, mudo post a llwyfannau cynadledda rhithwir.
- Hwyluso systemau gwybodaeth glinigol i’w defnyddio, gan gynnwys cyflenwi WCCIS (System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru), profion rhyddhau a gweithredu Porth Clinigol Cymru (WCP); Porth Cyfathrebu Clinigol Cymru (WCCG) a chaledwedd cysylltiedig; rhaglen ddigideiddio offthalmoleg.

- Dilyniant gwaith partneriaeth i gefnogi cysylltedd yng nghefn gwlad Powys i gyd-fynd â Chynllun Cenedlaethol Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
- Roedd partneriaeth gref rhwng y bwrdd iechyd a'r Cyngor Sir yn sail i'r trawsnewid mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Bu timau'n gweithio gyda'i gilydd ar gymorth TG a thrin galwadau ar gyfer rhaglenni, gan gynnwys Profi, Olrhain a Diogelu a Brechu COVID-19.

Ceir gwerthusiad parhaus er mwyn dysgu o gynigion gwasanaethau rhithwir a sicrhau bod dealltwriaeth o'r manteision a'r heriau i ddefnyddwyr, gofalwyr a sefydliadau.

| **Dysgu o Ymgynghoriadau Rhithwir** |
|---|
| • Ddim yn addas ar gyfer rhai mathau penodol o apwyntiadau; yn cyfyngu ar archwilio clinigol a rhyngweithio; ystyriaethau o ran anawsterau gwybyddol ac anableddau eraill |
| • Ddim llawer o bobl yn manteisio ar apwyntiadau yn y cnawd wrth i ymgynghoriadau dros y ffôn eu disodli |
| • Cyfraddau uchel o bobl yn methu â mynychu oherwydd bod gan gleifion broblemau technegol a phroblemau â chysylltedd |
| • Ansawdd sain gwael a/ neu eglurder sgrin gwael |
| • Mae angen apwyntiadau wyneb yn wyneb ar rai cleifion oherwydd materion yn ymwneud â gwybyddiaeth |
| • Mae angen platfform o ansawdd gwell |
| • Anghenion hyfforddi, gan gynnwys mewn meddalwedd/ cofnodi manylion ar system newydd |
| • Yr amser mae'n ei gymryd i esbonio i gleifion sut y mae'r system yn gweithio |
| • Mathau newydd o ryngwyneb yn arwain at anawsterau cyfathrebu os yw cleifion yn galw o'u gwyliau/ o'r gwely |
| • Problemau posibl o ran diogelu os yw cleientiaid yn teimlo nad ydynt yn gallu datgelu gwybodaeth o gartref |
| • Mae datblygiad pellach i ymarferoldeb y dylid ei ystyried yn cynnwys y gallu i redeg grwpiau neu is-grwpiau a'r gallu i allforio sesiwn fel cofnod clinigol |

Mae dadansoddiad pellach o'r dysgu, yr heriau a'r cyfleoedd mewn perthynas â'r broses o gyflwyno darpariaeth ddigidol wedi'u cynnwys yng Nghynllun Blynyddol BIAP 2021/22.

## Amgylcheddau Arloesol




Roedd angen cyflymiad enfawr mewn amgylcheddau ffisegol yn ystod 2020 i ymateb i'r pandemig. Mae amgylcheddau arloesol yn ymwneud â'r gofod ffisegol a'r gofod meddwl ac mae cynnydd mawr wedi'i wneud o ran gweithio ystwyth ac amgylcheddau gofal, gyda gwasanaethau'n cael eu darparu o sgriniau gliniaduron, drwy ffenestr y car ac unedau symudol.



Bu Gwasanaeth Lymffoedema Powys yn gweithio gyda Tenovus i ddarparu clinig symudol, er mwyn darparu asesiadau a therapi. Fe helpodd hyn i sicrhau bod asesu'n parhau, sy'n bwysig i helpu i atal llid yr isgroen a chynnal annibyniaeth, a hefyd i gwtogi ar nifer y cleifion sy'n gorfod mynd i mewn i'r ysbyty. Mae'r tîm hefyd wedi sefydlu gwasanaeth ar-lein, gan ddefnyddio Anytime, Anywhere fel dewis amgen i ymgynghoriadau dros y ffôn.

Gwnaeth y therapydd lymffoedema cymunedol, Portia Wilson, hefyd ennill cystadleuaeth Adroddiad Achos yng Nghynhadledd Flynyddol 2020 Cymdeithas Lymffoleg Prydain. Cafodd ei herthygl: "Ymgysylltu â chleifion i wneud ymarfer corff a symudiad yn fwy ystyrlon: adroddiad achos" ei chyhoeddi yn y British Journal of Community Nursing Chronic Oedema Supplement, Hydref 2020.

Cyflawnwyd cerrig milltir sylweddol mewn datblygiadau cyfalaf yn ogystal â gwelliannau i ystadau, y cyflenwad peiriannau anadlu ac ocsigen, arwyddion, marciau a chyfeirbwyntiau i gefnogi ffyrdd newydd a diogel o gael mynediad i safleoedd ffisegol.

Roedd y Rhaglen **Cyfalaf Dewisol** yn cefnogi pryniannau a phrosiectau TG ac offer i wella gofod clinigol a chydymffurfio'n well.

**Prosiect Llesiant Machynlleth:** Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn.

Symudodd **Academi Iechyd a Gofal Bronllys** ymlaen yn 2020/21 gyda'r cam cyntaf wedi'i gwblhau yn Chwarter 1 2021/22.

**Maes Parcio Aberhonddu:** Achos Cyfiawnhau Busnes wedi'i gyflwyno.

**Rhaglen Llesiant Gogledd Powys:** Ail-lunio yn ystod 2020 mewn partneriaeth; Achos Busnes Strategol ac Amlinellol wedi'i drefnu ar gyfer 2021/22.

**Ysbyty Llandrindod: £11M** Cyflwynwyd Achos Busnes y Rhaglen ar gyfer Cam 2 i Lywodraeth Cymru.

Ymateb i COVID-19: Cyflenwad ocsigen i wardiau, peiriannau anadlu mecanyddol, cyfleusterau cawod a newid, systemau un ffordd ar gyfer clinigau 'poeth', trosi lleoedd a gosod offer ar gyfer profi a brechu.

Dechreuodd BIAP weithio ar Fframwaith Strategol Amgylcheddau Arloesol yn 2020/21 sy'n ystyried momentwm a dysgu o COVID-19, gan lunio a disgrifio

sut y mae amgylcheddau arloesol yn cefnogi adferiad trwy fodel gofal integredig cyfannol. Bydd gwaith cenedlaethol i ddatblygu Strategaeth Ystadau Gofal Sylfaenol hefyd yn cael ei ymgorffori.

## Cynaliadwyedd a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol

Er nad yw adroddiad cynaliadwyedd yn orfodol ar gyfer 2020-21, mae'n flaenoriaeth uchel i'r bwrdd iechyd a darperir gwybodaeth yn yr adran hon lle'r oedd ar gael.

Mae'r bwrdd iechyd yn cydnabod gwerth cynaliadwyedd fel egwyddor drefnu ganolog o fewn Llywodraeth Cymru a chyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae hefyd yn cydnabod angen dybryd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd trwy leihau allyriadau $CO2_e$ a sicrhau bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i addasu'r amgylchedd newidiol.

Atgyfnerthodd datganiad Llywodraeth Cymru ar 'yr argyfwng hinsawdd' ar 29 Ebrill 2019 y rheidrwydd am newid.

Y prif ysgogwr deddfwriaethol dros newid o fewn y bwrdd iechyd o ran yr amgylchedd yw:

- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Dan Ddeddf yr Amgylchedd, mae dau brif darged wedi'u gosod ar gyfer y sector cyhoeddus, sef:

1) Dim Gwastraff i Safleoedd Tirlenwi (targed i'w gyflawni: 2050)
2) Datgarboneiddio'r sector cyhoeddus (targed i'w gyflawni: 2030)

Mae'r bwrdd iechyd wedi sefydlu Grŵp yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd i ddarparu cyfeiriad strategol, cysondeb a thryloywder wrth reoli materion amgylcheddol a gweithredu dull strwythuredig o ymdrin â chynaliadwyedd. Mae hyn yn cwmpasu:

- Ynni a Dŵr
- Gwastraff
- Trafnidiaeth Gynaliadwy
- Adeiladau a Bioamrywiaeth
- Caffael

Mae'r grŵp hefyd yn gweithio i leihau effaith y bwrdd iechyd ar yr amgylchedd a chydymffurfio â deddfwriaeth trwy weithredu Polisi'r Amgylchedd a Systemau Rheoli'r Amgylchedd. Mae hyn yn cyflawni yn erbyn tair egwyddor allweddol Datblygu Cynaliadwy:

1) Yr amgylchedd
2) Economaidd
3) Cymdeithasol

Mae gan y bwrdd iechyd y safleoedd, yr ôl troed a'r ardal tir a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Safleoedd cyfanredol, yn cynnwys Clinigau: | 9 |
| Safleoedd ysbyty: | 9 |
| Cyfanswm Ôl Troed Safleoedd yr Ystâd | 40,108 m² |
| Cyfanswm Arwynebedd Tir Safleoedd yr Ystâd | 7525 Hectar |
| Cyfanswm Staff cyfwerth ag amser llawn a Gyflogwyd | 1979 |

Cynlluniau Cyflenwi

Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, cynhyrchwyd cynlluniau cyflenwi ar gyfer cynnal a chadw Trafnidiaeth Gynaliadwy, Cyfathrebu a chynnal a chadw Tiroedd, sy'n bwrw ymlaen â'r amcanion rheoli amgylcheddol a datblygu cynaliadwy. Yn ogystal â hyn, dyma'r flwyddyn gyntaf o adrodd ar hynt Adran 6 y Cynllun Bioamrywiaeth ac mae'r adran ystadau wedi datblygu cynllun cyflenwi Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ymgorffori arferion mwy cynaliadwy fel treial cyn ei gyflwyno i'r sefydliad. Mae'r bwrdd iechyd wedi parhau i ddatblygu ei ISO14001 (2015), system rheoli amgylcheddol a monitro.

Datgarboneiddio

Yn 2021, cyhoeddodd Cydwasanaethau GIG Cymru *Gynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2020-2030* sydd â 53 pwynt ac sy'n ymrwymo i leihau allyriadau carbon o 34%. Drafftiodd BIAP fframwaith yr Amgylchedd a Datgarboneiddio yn ystod 2020 sydd hefyd yn ystyried gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys a'i Strategaeth Datgarboneiddio Powys.

Cyflawniadau allweddol yn ystod 2020-21:

- Cadw achrediad ISO14001
- Cynlluniau cyfalaf mawr, gan gynnwys buddsoddiad sylweddol mewn effeithlonrwydd ynni, technolegau adnewyddadwy a dulliau lliniaru colli bioamrywiaeth
- Ailflaenoriaethu Grŵp yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd i gynnwys pob rhan o'r sefydliad yn cael ei chynrychioli gan staff uwch
- Grŵp amgylcheddol ochr y staff (Gwenyn Gwyrdd)
- Datblygu Fframwaith yr Amgylchedd a Datgarboneiddio
- Cynllun cyflenwi a chynllun peilot Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cyfraniadau sylweddol at ysgrifennu achos busnes i sicrhau newid sylweddol tuag at fodel gofal sy'n amgylcheddol gynaliadwy
- Manyleb safonol ar gyfer cynhyrchion a deunyddiau i sicrhau y defnyddir y nwyddau gorau sy'n effeithio llai ar yr amgylchedd
- Cefnogaeth barhaus i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chwarae rhan weithredol yng ngwaith datblygu 'Strategaeth Powys Carbon Bositif'
- Adolygu'r fflyd argraffyddion/ sganwyr a gwneud argymhellion i leihau'r effaith ar yr amgylchedd

Mentrau a chamau gweithredu pellach:

Mae Grŵp yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn parhau i gefnogi mentrau i leihau allyriadau $CO_2e$, gan gynnwys dargyfeirio mwy o wastraff o safleoedd

tirlenwi; gwella bioamrywiaeth yr ystâd; cynlluniau cyfalaf mawr gyda mentrau lleihau carbon sylweddol a mesurau amgylcheddol drwy gydol prosiectau; datblygu gweithdrefnau caffael; cwblhau a chyflawni'r Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy; sicrhau bod systemau'n cyd-fynd ag adrodd ar allyriadau carbon a datblygu mesurau gwrthbwyso; cyflwyno dull Cynllun Cyflenwi Cenedlaethau'r Dyfodol ar draws timau pellach.

Sylwadau ar allyriadau nwyon tŷ gwydr

Mae allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yn un o'r dangosyddion perfformiad cynaliadwyedd y mae rhanddeiliaid yn gofyn amdanynt fwyaf. Fe osododd y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr y feincnod ar gyfer adrodd ar Nwyon Tŷ Gwydr ac fe sefydlodd dri chategori allyriadau (Sgôp 1, Sgôp 2 a Sgôp 3).

**Sgôp 1 Nwyon Tŷ Gwydr Uniongyrchol**. Y diffiniad yw 'allyriadau o ffynonellau y mae'r sefydliad yn berchen arnynt neu'n eu rheoli', fel llosgi tanwyddau ffosil ar safleoedd a llosgi tanwyddau o ffynonellau symudol trwy drafnidiaeth

**Sgôp 2 Nwyon Tŷ Gwydr Ynni Anuniongyrchol.** Y diffiniad yw 'allyriadau o ddefnyddio trydan, stêm neu ffynonellau ynni eraill sydd wedi'u prynu'.

**Sgôp 3 y cyfeirir atynt hefyd fel Nwyon Tŷ Gwydr Anuniongyrchol Eraill**. Y diffiniad yw 'allyriadau sydd o ganlyniad i weithrediadau sefydliad, ond nad yw'r sefydliad yn berchen arnynt neu'n eu rheoli'n uniongyrchol', gan gynnwys gweithwyr yn cymudo, teithiau busnes, dosbarthu a logisteg trydydd parti, cynhyrchu o nwyddau wedi'u prynu ac allyriadau o ddefnyddio cynhyrchion wedi'u gwerthu.

Mae'r holl ffigyrau nwy, trydan a dŵr yn dod o gofnodion go iawn ac maent wedi'u dilysu trwy systemau mewnol. Mae unrhyw gyfrif nad yw'n cwmpasu blwyddyn lawn ar adeg yr adroddiad wedi'i roi pro rata a chaiff hwn ei ddiweddaru a'i gyhoeddi os yw ffigurau'r flwyddyn gyfan yn wahanol iawn, yn unol â chanllawiau'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer eleni.

| Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr | | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol (1,000 tCO2e) | Cyfanswm Allyriadau Gros | **4.611** | **4.174** | **4.271** |
| | Cyfanswm Allyriadau Net | 4.611 | 4.174 | 4.271 |
| | Allyriadau Gros Sgôp 1 (uniongyrchol) | Nwy: 2.539<br>Olew: 0.182 | Nwy 2.300<br>Olew 0.200 | Nwy 2.794<br>Olew 0.217 |
| | Allyriadau Gros Sgôp 2 a 3 (anuniongyrchol) | Trydan 0.987<br>Teithio busnes 0.903 | Trydan 0.932<br>Teithio busnes 0.742 | Trydan 0.797<br>Teithio busnes 0.463 |
| Defnydd Ynni Cysylltiedig (miliwn KWh) | Trydan: Anadnewyddadwy | 3.468 | 3.653 | 3.417 |
| | Trydan: Adnewyddadwy | 0.200 | 0.200 | Dim data |
| | Nwy | 13.965 | 12.509 | 13.714 |
| | LPG | Amh. | Amh. | Amh. |
| | Arall | Olew 0.669 | Olew 0.641 | Olew 0.698 |
| Dangosyddion Ariannol (£miliwn) | Gwariant ar Ynni | Trydan 0.527<br>Nwy 0.457<br>Olew tanwydd 0.040<br>Cyfanswm 1.024 | Trydan 0.690<br>Nwy 0.410<br>Olew tanwydd 0.034<br>Cyfanswm 1.134 | Trydan 0.609<br>Nwy 0.330<br>Olew tanwydd 0.000<br>Cyfanswm 0.000 |
| | Gwariant ar Drwydded Ymrwymiad Lleihau Carbon (2010 ymlaen)** | Amh. | Amh. | Amh. |
| | Gwariant ar wrthbwysiadau achrededig (e.e. Cronfa Gwrthbwyso Carbon y Llywodraeth)** | Amh. | Amh. | Amh. |
| | Gwariant ar deithiau busnes swyddogol | 1.061 | 1.089 | 1.089 |

Mae'r bwrdd iechyd yn mudo cyfrifon trydan i gyflenwr sy'n gwarantu trydan gwyrdd (ardystiedig gan REGO). Nid yw trydan yn cael ei gofnodi fel dim allyriadau gan fod y cymysgedd trydan a gyflenwir i'r DU yn cynnwys trydan adnewyddadwy felly byddai'n cael ei ystyried yn gyfrif dwbl pe byddem yn gwneud hynny.

Nid oes unrhyw wrthbwyso carbon wedi'i wneud na'i gaffael yn ystod 2020-21. Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn parhau i ddod â gwasanaethau yn ôl i'r sefydliad a bydd y rhain, yn y tymor canolig a hir, yn effeithio ar niferoedd cleifion a'r galw am ynni.

Mae allyriadau o drafnidiaeth yn cynnwys milltiroedd busnes yr holl gerbydau y mae'r GIG yn berchen arnynt a cherbydau preifat ac nid ydynt yn cynnwys teithiau preifat yn cymudo o'r cartref i'r gwaith. Mae ffigurau milltiroedd Ambiwlans Cymru ar ran BIAP hefyd wedi'u cynnwys. Gwelwyd gostyngiad sylweddol ar gyfer trafnidiaeth yn ogystal â defnydd o nwy a thrydan, sy'n debygol o fod o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19.

Mae Ffactorau Trosi Nwyon Tŷ Gwydr Llywodraeth y DU ar gyfer Adrodd Cwmnïau wedi'u defnyddio ar gyfer pob cyfrifiad trosi $CO_2$e.

Sylwadau ar wastraff

| Gwastraff | | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| **Dangos-yddion Anariannol (tunelli)** | **Cyfanswm Gwastraff** | **371.61** | **374.27** | **Dim data** |
| | Tirlenwi | Gwastraff cyffredinol 165.55<br>Meddygol 000.00<br>Cyfanswm 165.55 | Gwastraff cyffredinol 140.83<br>Meddygol 022.36<br>Cyfanswm 163.19 | Dim data |
| | Ailddefnyddio / Ailgylchu | Cyffredinol 096.33<br>Meddygol 000.00<br>Cyfanswm 096.33 | Cyffredinol 118.04<br>Meddygol 023.79<br>Cyfanswm 141.83 | Dim data |
| | Compostio | Bwyd 010.79 | Food 011.24 | Dim data |
| | Llosgi gan adfer ynni | Cyffredinol 000.00<br>Meddygol 098.94<br>Cyfanswm 098.94 | Cyffredinol 000.00<br>Meddygol 034.42<br>Cyfanswm 034.42 | Dim data |
| | Llosgi heb adfer ynni | 0.0 | 0.0 | Dim data |
| **Dangos-yddion Ariannol (£miliwn)** | Cyfanswm cost gwaredu | **£0.132** | **£0.186** | **Dim data** |
| | Tirlenwi | Cyffredinol 0.065<br>Meddygol 0.000<br>Cyfanswm 0.065 | Cyffredinol 0.067<br>Meddygol 0.022<br>Cyfanswm 0.076 | Dim data |
| | Ailddefnyddio / Ailgylchu | Cyffredinol 0.014<br>Meddygol 0.000<br>Cyfanswm 0.014 | Cyffredinol 0.039<br>Meddygol 0.013<br>Cyfanswm 0.039 | Dim data |
| | Compostio | Bwyd 0.003 | Bwyd 0.003 | Dim data |
| | Llosgi gan adfer ynni | Cyffredinol 0.000<br>Meddygol 0.050<br>Cyfanswm 0.050 | Cyffredinol 0.000<br>Meddygol 0.063<br>Cyfanswm 0.063 | Dim data |
| | Llosgi heb adfer ynni | Amh. | Amh. | Dim data |

Sylwadau ar y defnydd o ddŵr

Mae cadwraeth dŵr yn cael ei gydbwyso yn erbyn diogelwch dŵr.

Mae'r ffigurau isod yn seiliedig ar gyfrifon pro-rata sydd ar gael adeg yr adroddiad. Yn ogystal â hyn, mae nifer o gyfrifon yn gyfrifon y gellir eu graddio ac nid ydynt yn adlewyrchiad cywir o'r dŵr a ddefnyddir.

Eleni, nodwyd problem cynnal a chadw sylweddol gydag offer trydydd partïon yn achosi dŵr wedi'i wastraffu ac mae wrthi'n cael ei ddatrys. Mae canlyniad hyn a'r defnydd o ddŵr o bosibl ar gyfer golchi dwylo'n amlach yn sgil COVID, yn esbonio'r cynnydd o 2019-20 sydd o fewn yr amrywiadau disgwyliedig oherwydd newid amgylcheddol a gwasanaeth.

| **Defnyddio Adnoddau y Mae Pen Draw Iddynt** | | | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dangos-yddion Anariannol | Dŵr a Ddefnyddiwyd (Ystâd | Wedi'i gyflenwi | 43.410 | 33.458 | 41.206 |
| | | Carthffosiaeth | 30.900 | 25.404 | 30.756 |
| | | Wedi'i dynnu | Amh. | Amh. | Amh. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (000m3) | Swyddfeydd) | Fesul FTE | 0.025 | 0.018 | 0.020 |
| | Dŵr a Ddefnyddiwyd (Ystâd Heblaw am Swyddfeydd) | Wedi'i gyflenwi | Ddim ar gael | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| | | Wedi'i dynnu | Ddim ar gael | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Dangos-yddion Ariannol (£miliwn) | Costau Cyflenwi Dŵr (Ystâd Swyddfeydd) | | 0.071 | 0.051 | 0.066 |
| | Costau Cyflenwi Carthffosiaeth (Ystâd Swyddfeydd) | | 0.064 | 0.056 | 0.053 |
| | Costau Cyflenwi Dŵr (Ystâd Heblaw am Swyddfeydd) | | Amh. | Amh. | Amh. |

## Partneriaeth

Mae gan Bowys set gymhleth o ryngddibyniaethau ledled Cymru a Lloegr a adlewyrchir yn ei fframwaith cynllunio a chyflenwi yn ystod 2020/2021 ac sy'n parhau i fod yn ystyriaeth allweddol yng Nghynllun Blynyddol Drafft 2021/22.




Adolygwyd y partneriaethau allweddol a'r rhaglenni trawsnewid yn ail hanner y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar ymdrechion adfer ac adnewyddu yn y Sir yng nghyd-destun y pandemig.

Ailsefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys a Chyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru yn raddol o haf a hydref 2020.

Mae blaenoriaethau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys yn parhau i gael eu llunio o amgylch dull cwrs bywyd gyda Themâu Trawsbynciol a chanlyniadau strategol yn cynnwys:

- Rhaglen Llesiant Gogledd Powys – wedi'i hail-lunio yn erbyn tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg. Mae dadansoddiad Strategol o'r Galw a'r Capasiti yn parhau i chwarter cyntaf 2021/22 a bydd yn llywio gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r bwrdd iechyd.
- Dyfodol y Gweithlu ac Academi Iechyd a Gofal Powys.
- Datblygiad Gofal Ychwanegol, Aberhonddu.
- Dechrau Da – Parth Plant i deuluoedd ag anghenion cymhleth (y Drenewydd); Plant ar Gyrion Gofal, y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig; Iechyd a llesiant emosiynol gan gynnwys cymorth Canol Coll; Llety mwy diogel i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.
- Byw'n Dda – Cysylltwyr Cymunedol; Cymorth Cartref; Trin Dementia yn y Cartref; Cymorth Mynediad (Anabledd Powys).
- Heneiddio'n Dda – Cyfeillio; Gofal Cymdeithasol Digidol; Datblygu Microfusnesau; Broceriaeth Well; Pecynnau Gofal o'r Maint Iawn; Arfer Comisiynu Integredig.

- Trawsbynciol – Gofalwyr; Technoleg Gynorthwyol; Fforwm Gwerth Cymdeithasol; y Gymraeg; y Gweithlu; Ymgysylltu â PAVO; Rhaglen Gweithrediadau/Datblygu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Bu BIAP a Chyngor Sir Powys yn gweithio gyda PAVO (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys), drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys, i sefydlu Tîm Ymateb i Argyfwng y Sector Cymunedol (C-SERT).

- Daeth hyn â sefydliadau sirol ynghyd sy'n cynnig cymorth i wirfoddolwyr a gwasanaethau ymateb brys ochr yn ochr â phartneriaid o Gyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.
- Drwy C-SERT, cydlynodd gwasanaeth Cysylltydd Cymunedol PAVO dri ar ddeg o rwydweithiau cymorth cymunedol ledled Powys, recriwtio gwirfoddolwyr i gynnal gwasanaethau hanfodol i bobl sy'n agored i niwed ac yn ynysig, megis gwasanaeth dosbarthu presgripsiynau; a darparu gwybodaeth i'r sector gwirfoddol, gan gynnwys cymorth a chyngor ar gyllid a grantiau yn ystod COVID-19.
- Helpodd hyn i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl am y cynnydd sylweddol mewn gwirfoddoli a chymorth cymunedol ledled Powys, gyda dealltwriaeth newydd o rôl a gwerth gwirfoddolwyr.
- Mae gwaith yn parhau i adeiladu ar y cydweithio hwn, er enghraifft treialu'r defnydd o 'Anchor Buddies' yn y tîm iechyd meddwl cymunedol yn Aberhonddu, gyda gwirfoddolwyr sy'n gallu helpu defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl sydd wedi mynegi pryder ynghylch ailymuno â sefyllfaoedd cymdeithasol.

Sefydlwyd cyswllt amlach â Chyngor Iechyd Cymuned Powys fel y nodwyd yn yr adran flaenorol ar Gyfathrebu ac Ymgysylltu.

Parhaodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd â'r 12 cam llesiant y cytunwyd arnynt yn ei Gynllun Llesiant 'Tuag at 2040' gyda rhagor o bwyslais ar dri cham allweddol: Seilwaith digidol; Datgarboneiddio; Amgylcheddau cynaliadwy.

Mae Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru yn ddull rhanbarthol o weithredu sy'n dwyn Byrddau Iechyd Canolbarth Cymru ynghyd, mewn cydweithrediad â sefydliadau trawsffiniol yn enwedig yn Swydd Amwythig/ Telford a Swydd Henffordd/ Swydd Gaerwrangon. Ar gyfer 2021/22, mae'r meysydd blaenoriaeth wedi'u hadolygu gyda chyngor gan Grŵp Cynghori Clinigol Canolbarth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys offthalmoleg, wroleg, canser, cyflyrau anadlol, deintyddol, adsefydlu, digidol, gofal mewn ysbytai a gweithlu trawsffiniol.

Cafodd y rhaglenni BIAP ar gyfer Mynd i'r Afael â'r Pedwar Mawr (sef y pedwar prif beth sy'n achosi afiechyd ym Mhowys) gan gynnwys Anadlu'n Dda, Canser, Cylchrediad y Gwaed ac Iechyd Meddwl hefyd eu hadolygu'n raddol a'u hailgyflwyno i gynllunio a chyflenwi chwarterol yn ystod rhan olaf y flwyddyn ac maent wedi darparu sail ar gyfer Cynllun Blynyddol Drafft 2021/22.

Lansiwyd gwasanaeth sbirometreg drwy ffenest y car fis Chwefror 2021, i gwtogi'r ôl-groniad o bobl yn aros am ddiagnosis neu adolygiad anadlol. Darparodd Cyngor Sir Powys y maes parcio yn eu pencadlys yng nghanol y Sir a lansiwyd y gwasanaeth fis Chwefror 2021. Mae cleifion yn cyrraedd mewn car a chymerir hanes clinigol llawn a phrawf sbirometreg ar y safle. Rhennir y canlyniadau wedyn â'u meddyg teulu. Mae'r clinigau hefyd yn rhoi cyfle i hyfforddi ffisiolegwyr yn y dyfodol, gyda lleoliadau'n darparu sgiliau arsylwadol ac ymarferol uniongyrchol.




## Rhagolwg 2021/22

Gan edrych i'r dyfodol, mae'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021 - 2022 wedi'i ddrafftio ar sail ystyriaeth drylwyr o sail dysgu, myfyrdodau a thystiolaeth mewn perthynas ag anghenion poblogaeth Powys a'r heriau a'r cyfleoedd sydd ar ddod. Fe'i datblygwyd gan ddilyn proses chwe cham:

**CAM 1: Asesu'r dysgu a'r myfyrdodau** ar hynt y pandemig a sut yr ymatebodd y bwrdd iechyd a'r partneriaethau iddo

**CAM 2: Deall y dystiolaeth ddiweddaraf** am effaith y pandemig (uniongyrchol ac anuniongyrchol) ar y boblogaeth, gan ystyried sganio'r gorwel/ tystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol

**CAM 3: Asesu'r sefyllfa** o ran mynediad at wasanaethau iechyd, gan gynnwys yr amseroedd aros estynedig a ddaw i ran nifer sylweddol o gleifion

**CAM 4: Nodi blaenoriaethau a chanlyniadau critigol** ar gyfer 2021/22 ac o bosibl y tu hwnt i hynny

**CAM 5: Datblygu cynigion** i gyflawni'r canlyniadau hynny, gan gydnabod efallai y bydd angen buddsoddi

**CAM 6: Llunio Cynllun Blynyddol** ar gyfer 2021/22

Roedd yn ofynnol cyflwyno Cynlluniau Blynyddol ar gyfer 2021/22 ar ffurf Drafft ddiwedd mis Mawrth 2021, i gydnabod bod gwaith pellach i'w wneud yn chwarter cyntaf 2021/22 i gytgordio'r cynlluniau yn genedlaethol ac yn rhanbarthol ac i ystyried y dyraniadau ariannol y bydd Llywodraeth Cymru'n eu pennu yn Chwarter 1.

Mae maint yr her mewn perthynas â phobl sy'n aros am ddiagnosteg, triniaeth a gofal a'r ôl-groniad a grëwyd gan newidiadau i wasanaethau mewn ymateb i'r pandemig yn ddimensiwn newydd hanfodol a bydd yn llywio'r holl raglenni a blaenoriaethau trawsnewid yn y dyfodol.

Mae hon yn her na fydd y dulliau presennol a'r adnoddau sy'n bodoli eisoes yn ei hateb. Bydd angen atebion newydd radical, yn genedlaethol, yn rhanbarthol

ac yn lleol. Mae'r bwrdd iechyd wedi dechrau gwaith pwysig dan arweiniad Swyddogion Gweithredol Clinigol fel rhan o'r Cynllun Blynyddol ar flaenoriaethau adnewyddu. Bydd y dysgu a'r dystiolaeth sy'n esblygu'n darparu sail ar gyfer y rhain a'r nod yw ymateb nid yn unig i broblemau uniongyrchol amseroedd aros sy'n amlwg yn hwy ac ôl-groniadau mewn gofal iechyd, ond hefyd i ddeall y profiad i bobl sy'n aros am ofal, yng nghyd-destun bywydau sydd wedi newid yn sylfaenol nawr ac yn y dyfodol.

Bydd y rhain yn cael eu datblygu fel rhan o'r adferiad o effeithiau'r pandemig ar draws cymdeithas, ar gymunedau ac unigolion Powys ac ar ofal iechyd ei hun.

Mae Cynllun Blynyddol Drafft 2021/2022 hefyd yn rhoi rhagor o fanylion am y broses barhaus o ddarparu gofal COVID-19 a gofal heblaw am COVID-19, gan gynnwys gofal iechyd hanfodol – gwelwch drosodd ar gyfer y Cynllun Drafft ar Dudalen.

# Adroddiad Blynyddol 2021/2022
# ‘Cynllun ar Dudalen’ Fframwaith Strategol

Datblygu Sefydliadol ⟷ Llesiant Staff





















## Ymateb i Covid

**Atal ac Ymateb i Covid**

Profi, Olrhain a Diogelu

Rheoli Brigiadau a Digwyddiadau a lleoliadau risg uchel

Data a Gwyliadwriaeth

Trefniadau cydnerthedd rhanbarthol

Cyfathrebu

**Rhaglen Frechu Covid**

Cyflenwi yn unol â modelu a chyflenwi Cenedlaethol mewn Canolfannau Brechu Torfol, Gofal Sylfaenol ac amgylcheddau, yn ôl y galw

Model Clinigol, Cyflenwi Clinigol a Thrin a Thrafod lleol

Archebu a Gweinyddiaeth

## Gofal Iechyd Hanfodol

**Llesiant ac Atal**

Gwella a Hybu Iechyd; Imiwneiddiadau Plant a’r Ffliw; Sgrinio; y Trydydd Sector

**Sylfaenol a Chymunedol**

- Gofal Iechyd Hanfodol
- Gofal Cynlluniedig a Rheolaidd
- Gofal Brys ac Argyfwng
- Cynlluniau Clystyrau a Gofal Sylfaenol

**Ysbytai Cyffredin Dosbarth Rhanbarthol ac Arbenigwyr**

- Alinio â Chynlluniau Systemau/ Darparwyr Cyfagos
- Alinio â Fframweithiau Clinigol a Chynllunio Adferiad GIG Cymru ac GIG Lloegr

Model Eiddilwch a Chymunedol

Cyflyrau Tymor Hir a Llesiant

Diagnosteg, triniaeth ddydd a gofal cynlluniedig

Cyngor, cefnogaeth a rhagsefydlu

Plant a Phobl Ifanc

Mynd i’r Afael â’r Pedwar Mawr


- Adnewyddu’r Strategaeth Iechyd a Gofal
- Ffocws newydd ar gyfer heriau newydd sylweddol
- Dull holistaidd o weithredu o ran mynediad amserol at ofal cynlluniedig a dewisol
- Bwrw ymlaen â phennu cwmpas yn Ch1, gan gynnwys cyfleoedd i fuddsoddi

## Galluogwyr












**Mae'r holl staff wedi dangos ymrwymiad hynod eleni – mae'r 'galw enwau' Tystysgrifau Gwerthfawrogi Staff hwn wedi'i gynnwys i ddangos rhai enghreifftiau o unigolion a thimau – diolch i bawb:**

**Jo Hughes** am ei rôl hollbwysig yn y Ganolfan Cydlynu Argyfwng Iechyd

**Alex Oakey** am gefnogaeth ragorol ag Office 365, straeon cleifion a thechnolegau

**Catherine Arnold** am ei harweinyddiaeth tîm ardderchog

**Sue Cox** am ei charedigrwydd, ei thosturi a'i chefnogaeth i'r tîm

**Clare Evans** am ei chefnogaeth i'r tîm yn ystod yr amseroedd heriol hyn

**Rhian Price Evans** am ei hymrwymiad i ddiogelwch a chefnogaeth i gleifion

**Amy Prosser** am bob amser fynd uwchlaw a thu hwnt ar gyfer cleifion

**Claire Powell** am ei gwaith di-ffael i sefydlu canolfannau brechu

**Donna Bale** am ei hymrwymiad digyffro, proffesiynol trwy gydol y pandemig

**Fiona Jones** am ei gwasanaeth rhagorol i gleifion a staff

**Adrian Osborne** am fod yn llais y bwrdd iechyd yn y grŵp Cadw'n Iach ar Facebook

**Jane Butler** am ei hanhunanoldeb a'i hymrwymiad i gleifion, teuluoedd a chymheiriaid

**Kerry Crosfield** am gefnogi gwirfoddolwyr a phrofiad cleifion yn ein canolfannau brechu torfol

**Alwen Lewis** am gefnogi teuluoedd a'r rheini â phlant ag ymddygiadau heriol

**Lynn Williams** am ei hagwedd 'galla i wneud', siriol a hawdd mynd ati mewn rôl gymhleth iawn

**Sue Pearce** am fod yn eiriolwr diwyd ar ran cleifion, gan arwain gwelliannau mawr mewn gofal

**Sue Pardoe Bouchard** am gefnogi fel goruchwyliwr clinigol a gwneud sifftiau ychwanegol dros nos a thros y penwythnos

**Rachel Carton** am ei charedigrwydd a'i gallu i'w chleifion, yn enwedig trwy'r amseroedd anodd hyn

**Samantha Gibbs** am ei phresenoldeb sy'n rhoi tawelwch meddwl, bob amser yn mynd uwchlaw a thu hwnt ar gyfer ei chleifion

**Anna Marie Price** am ei chefnogaeth ysgogiadol gwych i holl gynorthwywyr personol gweithredwyr

**Kim Lewis** am ei hagwedd greadigol, frwdfrydig a 'galla i wneud' a gwasanaeth sbirometreg drwy ffenest y car

**Vic Deakins** am ei chefnogaeth bersonol a bod yn gydweithiwr anhygoel i weithio â hi

**Sarah Williams** am bob amser fynd cam ymhellach ac am ei chefnogaeth i'r rheini mewn profedigaeth

**Louise Vavere** am fod yn bwynt cyswllt hanfodol i staff, rhieni, teuluoedd, gofalwyr, ysgolion a'r tîm

**Mandy Mills** am ei hymrwymiad wrth sefydlu canolfannau brechu torfol

**Jenny Spreafico** am arweinyddiaeth ffantastig â'r dasg anferthol o sicrhau cymwyseddau brechwyr

**Claire Hughes** am gefnogaeth aruthrol â'r dasg o gadarnhau cymwyseddau brechwyr

**Gaz Davies** am gefnogaeth ragorol, gan gynnwys storio silindrau ocsigen

**Geraint Davies** sy'n dweud "mae'n rhyfeddol beth y mae tîm bach yn gallu ei gyflawni dan yr arweinyddiaeth iawn"

**Anne-Marie Mason** am ei hagwedd hyblyg a bodlon tuag at y rhaglen brentisiaeth a recriwtio a hyfforddi brechwyr

**Treena Davies** am ei hagwedd hyblyg yn ystod COVID-19, gan gynnwys sefydlu'r hybiau llesiant

**Jessica Hughes** am ei chefnogaeth a'i harweinyddiaeth i wasanaethau mamolaeth ym Mhowys

**Linda Aldridge** am ei hagwedd a bod yn rhagweithiol yn y frwydr yn erbyn y feirws hwn, sydd wedi bod yn anhygoel

**Suzanne Cox** sy'n mynd uwchlaw a thu hwnt ac sy'n gwneud gwahaniaeth anferthol

**Lucie Dingwall** am weithio'n hynod onest a phroffesiynol o fewn y tîm gwybodaeth

**Claudia O'Shea** i gydnabod ei holl waith caled ar ofal heb ei drefnu a'i hagwedd 'galla i wneud'

**Suzanne Pardoe Bouchard** am ei huwch reolaeth werthfawr o wasanaethau menywod a phlant

**Zara Abberley** am ddarparu cymorth busnes ymatebol ac effeithiol i'r tîm menywod a phlant

**Emma Mc Gowan** am ei hagwedd 'galla i wneud' a phroffesiynol

**Helen Covington** am ei hymrwymiad, ei hyblygrwydd, ei hymddygiadau a'i gwerthoedd

**Rachel Bartley-Morris** am ei hymrwymiad i'w rôl yn y tîm bydwreigiaeth

**Shelly Higgins** am wneud cyfraniad neilltuol i wasanaethau Mamolaeth Powys

**Jane Price**, Nyrs clefyd Parkinson am fod mor ymroddedig i'w rôl ac am fod yn gydweithiwr tosturiol



## ‘Galw Enwau’ Gwerthfawrogi Staff

**Tystysgrifau Gwerthfawrogi Timau**

**Tîm Arlwyo Bronllys** am baratoi digonedd o fwyd wedi’i weini â chynhesrwydd, gwên fawr a diffuantrwydd

**Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Tŷ Illtud** am gefnogi ei gilydd a meddwl y tu allan i’r bocs

**Tîm Llawdriniaethau Dydd ac Endosgopi Powys** am eu hagwedd hyblyg wrth gael eu hadleoli a’u gwaith caled i ailgychwyn gwasanaethau diogel

**Tîm Desg Gymorth Ystadau** (Jane a Bernie) am eu gwasanaeth digyffro, cwrtais, llyfn ac effeithlon, yn enwedig wrth ddelio â chynnydd sylweddol mewn galwadau

**Tîm Uned Twymyn** am eu cefnogaeth aruthrol i’w gilydd ac i’w cleifion

Ein **gwirfoddolwyr dangos-y-ffordd** am roi o’u hamser eu hunain i ddarparu cefnogaeth mor aruthrol

Y **Tîm Ansawdd a Diogelwch – Atal a Rheoli Haint** am ddod at ei gilydd fel tîm newydd i gefnogi safonau uchel

**Owen Hughes, Michelle Price, Jeremy Tuck, John Morgan a Lucie Cornish** am ddod at ei gilydd i ddylunio, gweithredu a rhedeg gwasanaeth adfer yn sgil COVID ar gyfer Powys

**Gwasanaeth Deintyddol Cymuned Powys yng Nghlinig Stryd y Parc yn y Drenewydd** am eu gwaith rhagorol i gynnal gwasanaeth deintyddol brys diogel trwy gydol COVID

**Tîm y Ganolfan Gyswllt** am eu cefnogaeth broffesiynol a hyblyg i’r gwasanaeth deieteg a phodiatreg ac, yn ogystal â hynny, i’r gwasanaeth ffisiotherapi cyhyrysgerbydol yn ystod COVID

**Tîm Nyrsys Ardal Llanfair-ym-muallt** am eu cydnerthedd a’u penderfynoldeb siriol

Y **Tîm Addysg Glinigol** am ymdrechion neilltuol ar y rhaglen hyfforddi ar gyfer brechu

Y **Tîm Gwaith Ystadau** am eu holl ymdrechion a’u rôl hollbwysig mewn sefydlu canolfannau brechu

Y **Tîm Adnoddau ar gyfer Brechu Torfol** am raglen recriwtio anferthol

**Hyb Archebu COVID-19** am eu hyblygrwydd, eu hymrwymiad a’u parodrwydd i greu gwasanaeth sy’n delio â miloedd o apwyntiadau bob wythnos

**Tîm Adnoddau a Hyfforddiant y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol** am gefnogi gwaith datblygu modelau cyflenwi brechu torfol, dod o hyd i adnoddau ar eu cyfer a’u cefnogi ar gyflymder na welwyd mo’i fath o’r blaen

**Tîm Iechyd a Llesiant y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol** am fentrau iechyd a llesiant

Y **Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd o’r Clinig Clefyd Parkinson** am eu hymroddiad

**Y Tîm Ansawdd a Diogelwch** am eu gwaith ar ofal diogel, effeithiol a thosturiol

**Tim Nyrsys Ardal Llandrindod** am eu gofal lliniarol anhygoel ar gyfer cleifion cymhleth

**Y Tîm Rheoli Meddyginiaethau** am gyfraniad ac ymrwymiad neilltuol

**Y Tîm Gofal Iechyd Parhaus** am fynd uwchlaw a thu hwnt wrth ddarparu cymorth y tu allan i oriau

**Tîm Iechyd Rhywiol Powys** am fod yn hyblyg ac yn ymatebol ac am gofleidio’r cyfleoedd

**Nyrsys Ardal Trefyclo a Llanandras** am eu hymroddiad i gleifion ac aelodau’r tîm

**Gwobrau Gwasanaeth Hir**

Shirley Ann Whitney, Rachel Jane Price, Stephen Hawker, Rebecca Mary Burns, Melanie Suzanne Dooley, Gaynor Jones, Alison Margeret Lewis, Marion Morris, Enid Mair Stephens, Debra Jones, Joanna Jane Love, Denise Watkins, Virginia Jones, Peter Charles Carver, June Jeanette Harley, Gethin Evans, Julie Diane Richards, Dr David Anian Pal, Helen Margaret Rees- Harris, Elaine Jane Taylor, Sarah Jane Wheeler, Nikki Smith, Debbie Lewis, Lynnette Watkins, Desmond Kitto, Rowena Clegg


Dear NHS
you are amazing

# ADRAN DAU: YR ADRODDIAD ATEBOLRWYDD

# ADRODDIAD ATEBOLRWYDD: 2020-21




**LLOFNODWYD GAN:** **DYDDIAD: 10 MEHEFIN 21**

**CAROL SHILLABEER**

**[PRIF WEITHREDWR]**

# CYFLWYNIAD I'R ADRODDIAD AR ATEBOLRWYDD

Mae'n ofynnol bod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yr un fath â phob corff GIG Cymru. Mae copïau o adroddiadau blynyddoedd blaenorol ar gael o wefan y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Adroddiad ar Atebolrwydd yn rhan allweddol o'r Adroddiad Blynyddol. Mae gofynion yr Adroddiad Atebolrwydd wedi'u seilio ar y materion y mae gofyn delio â nhw mewn Adroddiad Cyfarwyddwr, yn unol â Phennod 5 o Ran 15 Deddf Cwmnïau 2006 ac Atodlen 7 SI 2008 Rhif 410, ac mewn Adroddiad ar Daliadau, yn unol â Phennod 6 Deddf Cwmnïau 2006 ac Atodlen 8 SI 2008 Rhif 410.

Mae gofynion Deddf Cwmnïau 2006 wedi'u haddasu ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus a does dim ond angen i endidau nad ydynt yn gwmnïau eu dilyn i'r graddau eu bod wedi'u hymgorffori yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) gan y Trysorlys ac wedi'u nodi yn Llawlyfr 2020-21 GIG Cymru ar gyfer Cyfrifon, sydd wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n ofynnol i'r Adroddiad Atebolrwydd gael tair adran:

- Adroddiad ar Lywodraethu Corfforaethol
- Adroddiad ar Daliadau a Staff
- Adroddiad ar Atebolrwydd ac Archwiliad Seneddol

Rhoddir trosolwg o gynnwys pob un o'r tair adran hyn isod.

## Yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Atebolrwydd yn rhoi trosolwg o'r trefniadau a'r strwythurau llywodraethu a oedd ar waith ar draws Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ystod 2020-21. Mae hefyd yn esbonio sut bu'r trefniadau llywodraethu hyn yn cefnogi cyflawni nodau craidd y Bwrdd Iechyd ac yn galluogi amcanion llesiant.

Mae Ysgrifennydd y Bwrdd wedi llunio'r adroddiad, a'r brif ddogfen yw'r Datganiad ar Lywodraethu Blynyddol. Mae adolygiad o waith y bu'r Bwrdd a'i Bwyllgorau'n bwrw ymlaen ag ef dros y 12 mis diwethaf wedi darparu sail ar gyfer yr adran hon o'r adroddiad, ac mae'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Atebol, Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd wedi cyfrannu ati.

Yn unol â'r gofynion y manylir arnynt yn Neddf Cwmnïau 2006, mae'r Adroddiad ar Lywodraethu Corfforaethol yn cynnwys:

- Yr Adroddiad Cyfarwyddwr
- Datganiad o Gyfrifoldebau Swyddogion Atebol
- Y Datganiad ar Lywodraethu Blynyddol

## Adroddiad ar Daliadau a Staff

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am daliadau i uwch reolwyr; cymarebau tâl teg; a, chyfraddau absenoldeb salwch; ac mae wedi'i lunio gan y Gyfarwyddiaeth Gyllid a Chyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.

## Adroddiad ar Atebolrwydd ac Archwiliad Seneddol

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys amrywiaeth o ddatgeliadau ynglŷn â rheoleidd-dra gwariant, ffioedd a symiau a godir, cydymffurfiad â gofynion dyrannu a chodi costau y manylir arnynt yng nghanllawiau Trysorlys EM, rhwymedigaethau digwyddiadol materol sy'n annhebygol o ddigwydd a thystysgrif archwiliad ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

# RHAN A: ADRODDIAD AR LYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae'r adran hon o'r Adroddiad ar Atebolrwydd yn rhoi trosolwg o'r trefniadau a'r strwythurau llywodraethu a oedd ar waith ar draws Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ystod 2020-21.

1. Adroddiad Cyfarwyddwr
2. Datganiad o Gyfrifoldebau Swyddogion Atebol
3. Datganiad o Gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr o Ran y Cyfrifon
4. Y Datganiad ar Lywodraethu Blynyddol

# 1. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR AR GYFER 2020-21

## Cyfansoddiad y Bwrdd a'i Aelodaeth

Mae Rhan 2 o Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 yn manylu ar aelodaeth ofynnol Byrddau Byrddau Iechyd Lleol, gofynion penodi a chymhwyster aelodau, cyfnodau aelodau nad ydynt yn swyddogion ac aelodau cyswllt yn y swydd. Yn unol â'r Rheoliadau hyn, mae aelodau Bwrdd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cynnwys:

- cadeirydd;
- is-gadeirydd;
- aelodau sy'n swyddogion; ac
- aelodau nad ydynt yn swyddogion.

"Y Bwrdd" neu "Aelodau'r Bwrdd" yw'r enw a roddir ar aelodau'r Bwrdd ar y cyd; cyfeirir at yr aelodau sy'n swyddogion fel Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r rheini nad ydynt yn swyddogion (sy'n cynnwys y Cadeirydd) fel Aelodau Annibynnol. Mae gan bob aelod hawliau pleidleisio llawn.
Hefyd, gall Gweinidogion Cymru benodi hyd at dri aelod cyswllt. Nid oes gan aelodau cyswllt hawliau pleidleisio.
Cyn y gellir penodi unigolyn yn aelod neu'n aelod cyswllt, mae'n rhaid iddynt fodloni'r gofynion cymhwyster perthnasol, y manylir arnynt yn Atodlen 2 Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau)(Cymru) 2009, ac mae'n rhaid iddynt barhau i fodloni'r gofynion perthnasol gydol yr amser y maent yn eu swydd.
Gellir cyrchu'r Rheoliadau trwy wefan deddfwriaeth y Llywodraeth. http://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/779/contents/made

## Aelodau o'r Bwrdd â Phleidlais yn ystod 2020-21

Yn ystod 2020-21, roedd yr unigolion a ganlyn yn aelodau o Fwrdd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a oedd â phleidlais:

| Aelod Annibynnol (AA) | | |
|---|---|---|
| Vivienne Harpwood | Cadeirydd | Blwyddyn lawn |
| Melanie Davies | Is-gadeirydd | Blwyddyn lawn |
| Anthony Thomas | AA (Cyllid) | Blwyddyn lawn |
| Matthew Dorrance | AA (Awdurdod Lleol) | Blwyddyn lawn |
| Owen James | AA (Cymuned) | Hyd 04/09/2020 |
| Trish Buchan | AA (Y Trydydd Sector) | Blwyddyn lawn |
| Frances Gerrard | AA (Prifysgol) | Blwyddyn lawn |
| Ian Phillips | AA (TGCh) | Blwyddyn lawn |
| Susan Newport | AA (Ochr yr Undeb Llafur) | Blwyddyn lawn |
| Mark Taylor | AA (Cyfalaf ac Ystadau) | Blwyddyn lawn |
| Rhobert Lewis | AA (Cyffredinol) | O 22/02/2021 |
| **Cyfarwyddwyr Gweithredol** | | |
| Carol Shillabeer | Prif Weithredwr | Blwyddyn lawn |
| Julie Rowles | Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol | Blwyddyn lawn |
| Pete Hopgood | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a TG | Blwyddyn lawn |
| Hayley Thomas | Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad | Blwyddyn lawn |
| Wyn Parry | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (yn cynnwys Swyddog Cyfrifol) | Hyd 31/07/2020 |
| Paul Buss | Cyfarwyddwr Meddygol Interim (rhan-amser 3 diwrnod/yr wythnos) | 01/08/2020 - 31/01/2021 |
| Dr Catherine Woodward | Cyfarwyddwr Cyfrifol Interim (rhan-amser 2 diwrnod/yr wythnos) | 01/08/2020 – 31/03/2021 |
| Kate Wright | Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol | 15/02/2021 |
| Stuart Bourne | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus | Blwyddyn lawn |
| Alison Davies | Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth Gweithredol | Blwyddyn lawn |
| Claire Madsen | Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd | Blwyddyn lawn |
| Jamie Marchant | Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaeth Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl | Blwyddyn lawn |

Yn ystod 2020/21, roedd swyddi gwag yn y Bwrdd yn cynnwys:

| Aelod Annibynnol | Cyfarwyddwr Gweithredol |
|---|---|
| • Aelod Annibynnol (Cyffredinol) o 01/04/2019 hyd 22/02/2021<br>• Aelod Annibynnol (Cyffredinol) o 05/09/2020 hyd 31/03/2021 | • Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol o 01/02/2021 hyd 14/02/2021 (bu'r Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol yn gwneud y dyletswyddau yn ystod yr amser hwn) |

Er bod rhai rolau ar y Bwrdd yn wag, daeth aelodau eraill o'r Bwrdd yn gyfrifol am yr agweddau hyn i sicrhau parhad busnes a threfniadau llywodraethu effeithiol. Mynychodd Aelodau Annibynnol gyfarfodydd

Pwyllgorau'r Bwrdd lle bo angen i sicrhau bod gan gyfarfodydd gworwm ac y gellid cyflawni dyletswyddau'r Bwrdd.

Ar 1 Ebrill 2020, roedd y gohirio gan Lywodraeth Cymru â holl Benodiadau Cyhoeddus gan Weinidogion, a gyflwynwyd ar 19 Mawrth 2020 o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, dal ar waith a pharhaodd hyn tan fis Medi 2020. Fis Ebrill 2020, roedd gan y Bwrdd Iechyd swydd wag ar gyfer un Aelod Annibynnol a daeth rôl bellach yn wag ar 5 Medi 2020. Dechreuodd yr ymgyrchu ar gyfer y ddwy rôl hyn yn nhymor yr hydref yn 2020 a chadarnhawyd un penodiad ym mis Chwefror 2021. Roedd angen i'r ail benodedig gwblhau cyfnod rhybudd ac ni fyddai'n dechrau tan fis Mehefin 2021. Yn ystod y cyfnod hwn o ohirio ymgyrchu, cadarnhawyd tymor pellach i'r Aelodau Annibynnol TGCh ac estyniad COVID-19 i ail Aelod Annibynnol (Undeb Llafur) ac, yn nhymor y gwanwyn 2021, gwnaed trefniadau i sicrhau ail dymor ar gyfer dau Aelod Annibynnol arall (Prifysgol ac Ystadau) ymlaen llaw i'r gohirio gweithgarwch yn y swyddfa Penodiadau Cyhoeddus yn y cyfnod cyn ac yn union ar ôl etholiadau'r Senedd.

## AELODAU O'R BWRDD HEB BLEIDLAIS YN YSTOD 2020-21

Yn ystod 2020/21, roedd yr Aelod Cyswllt a ganlyn mewn swydd fel aelod heb bleidlais:

- Alison Bulman, Cyfarwyddwr Corfforaethol (Plant ac Oedolion), Cyngor Sir Powys – 01/04/2020 - 18/09/2020.

Roedd y swyddi a ganlyn ar gyfer Aelodau Cyswllt ar y Bwrdd yn wag yn ystod 2020/21):

- Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (un o Grwpiau Cynghori'r Bwrdd). Ni gyfarfu'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn 2020/21 ac nid yw Cadeirydd wedi'i benodi hyd yma.
- .Cadeirydd y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol (un o Grwpiau Cynghori'r Bwrdd)
  Nid yw'r Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol wedi'i sefydlu eto.
- Cyfarwyddwr Corfforaethol (Plant ac Oedolion) Cyngor Sir Powys (o 119/09/2020).

Mae mwy o fanylion yn ymwneud â rôl a chyfansoddiad y Bwrdd i'w gweld ar dudalen 76 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hefyd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am Weithgarwch y Bwrdd a'i Bwyllgorau.

## Y PWYLLGOR ARCHWILIO, RISG A SICRWYDD

Yn ystod 2020-21, roedd yr unigolion a ganlyn yn aelodau o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd:

| | | |
|---|---|---|
| **Aelod Annibynnol (AA)** | | |
| Anthony Thomas | Cadeirydd y Pwyllgor – AA (Cyllid) | Blwyddyn lawn |
| Mark Taylor | Is-gadeirydd y Pwyllgor – AA (Cyfalaf ac Ystadau) | Blwyddyn lawn |
| Ian Phillips | AA (TGCh) | Blwyddyn lawn |
| Matthew Dorrance | AA (Awdurdod Lleol) | Blwyddyn lawn |
| **Cyfarwyddwyr Gweithredol trwy Fynychu yn Unig** | | |
| Carol Shillabeer | Prif Weithredwr | Blwyddyn lawn |
| Pete Hopgood | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a TG | Blwyddyn lawn |

## DATGANIAD O FUDDIANNAU

Caiff manylion swyddi cyfarwyddwyr cwmnïau, a buddiannau eraill arwyddocaol y mae aelodau'r Bwrdd yn eu dal a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau, eu cynnal a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae Cofrestr Buddiannau ar gael ar wefan y bwrdd iechyd, neu gellir cael copi caled oddi wrth Ysgrifennydd y Bwrdd ar gais.

## MATERION AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A CHYMUNEDOL

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r effaith y gallai ffordd y Bwrdd Iechyd o weithredu ei chael ar yr amgylchedd, ac mae wedi ymrwymo, lle bo'n bosibl, i:

- Sicrhau y cydymffurfir â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a Chyfarwyddebau Llywodraeth Cymru;
- gweithio mewn modd sy'n diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol trwy sicrhau yr ystyrir materion amgylcheddol tymor hir a thymor byr; ac
- atal llygredd a lleihau'r effaith bosibl ar yr amgylchedd.

Mae adran Adroddiad ar Berfformiad y Bwrdd yn yr Adroddiad Blynyddol yn rhoi mwy o fanylion ynglŷn â'r materion amgylcheddol, cymdeithasol a chymunedol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd.

## COVID-19, PANDEMIG BYD-EANG

Datganodd Sefydliad Iechyd y Byd fod COVID-19 yn bandemig ar 11 Mawrth 2020. Yn sgil hyn, roedd angen i sefydliadau'r GIG, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ganolbwyntio ar baratoadau a chynlluniau ar gyfer ymateb i'r pandemig. Trwy gydol 2020/21, roedd natur a graddfa'r ymateb yn newid byth a hefyd ac yn galw am ymateb ystwyth.

Yn ystod yr amser hwn, ni wnaeth rôl a diben sylfaenol y Bwrdd newid. Parhaodd y Bwrdd i fynnu a derbyn sicrwydd parhaus, o ran parodrwydd ac ymateb y gwasanaeth a hefyd o ran arweinyddiaeth glinigol, ymgysylltiad a pherchnogaeth o gynlluniau a oedd yn datblygu ynglŷn ag: iechyd a llesiant staff; cyfathrebu rhagweithiol, ystyrlon ac effeithiol â staff ar bob lefel; a pharodrwydd y system iechyd a gofal.

Manylir ymhellach ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn ystod yr amser hwn yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## DIGWYDDIADAU YN YMWNEUD Â DATA PERSONOL

Manylir ar wybodaeth am ddigwyddiadau yn ymwneud â data personol y rhoddwyd gwybod amdanynt yn ffurfiol i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a "digwyddiadau anffafriol difrifol" lle collwyd data neu cafwyd tramgwydd o ran cyfrinachedd, ar dudalen 136 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## DATGANIAD DEILIAID GWYBODAETH Y SECTOR CYHOEDDUS

Fel Swyddog Atebol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac yn unol â'r gofynion y mae Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM wedi'u gosod o ran datgelu, rwy'n cadarnhau bod y Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â'r gofynion dyrannu a chodi costau y manylwyd arnynt yng nghanllawiau Trysorlys EM yn ystod y flwyddyn.

**LLOFNODWYD GAN:** **DYDDIAD: 10 MEHEFIN 21**



**CAROL SHILLABEER [PRIF WEITHREDWR]**

# 2. DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG ATEBOL: 2020-21

## DATGANIAD O FY NGHYFRIFOLDEBAU PRIF WEITHREDWR FEL SWYDDOG ATEBOL BWRDD IECHYD ADDYSGU POWYS

Yn ôl cyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru fe ddylwn i, fel y Prif Weithredwr, fod yn Swyddog Atebol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Manylir ar gyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y maent yn atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol, yn y Memorandwm Swyddog Atebol sydd wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau y manylir arnynt yn y llythyr yn fy mhenodi fel Swyddog Atebol.

Rwyf hefyd yn cadarnhau:

- Nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol y mae archwilwyr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn anymwybodol ohoni, hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ymwybodol o'r wybodaeth honno;
- Bod Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar y cyfan yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. Rwy'n cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r barnu sy'n ofynnol i gadarnhau eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

**LLOFNODWYD GAN:** **DYDDIAD: 10 MEHEFIN 21**



**CAROL SHILLABEER [PRIF WEITHREDWR]**

# 3. DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU CYFARWYDDWYR O RAN Y CYFRIFON AR GYFER 2020-21

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU CYFARWYDDWYR O RAN Y CYFRIFON AR GYFER 2020-21

Mae'n ofynnol dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 bod Cyfarwyddwyr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn paratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Yn ôl cyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru, y mae'r Trysorlys wedi'u cymeradwyo, rhaid i'r cyfrifon hyn roi darlun gwir a theg o amgylchiadau'r Bwrdd Iechyd ac o incwm a gwariant y Bwrdd Iechyd ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae gofyn i'r Cyfarwyddwyr:

- Ddefnyddio'n gyson egwyddorion cyfrifyddu sydd wedi'u gosod gan Weinidogion Cymru, y mae'r Trysorlys wedi'u cymeradwyo;
- Barnu a llunio amcangyfrifon sy'n gyfrifol ac yn ochelgar; a
- Datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, oni ddatgelir ac esbonnir unrhyw ymadawiadau perthnasol yn y cyfrifon.

Ar ran Cyfarwyddwyr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, rydym yn cadarnhau:

- Ein bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi cyfrifon 2020-21; ac
- Ein bod yn glir ynglŷn â'n cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu'n rhesymol fanwl gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr awdurdod, a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddiadau o du Gweinidogion Cymru y sonnir amdanynt uchod.

**Yn unol â gorchymyn y Bwrdd**

**LLOFNODWYD GAN:** V Harpwood **DYDDIAD: 10 MEHEFIN 21**

**YR ATHRO VIVIENNE HARPWOOD [CADEIRYDD]**

**LLOFNODWYD GAN:** Carol Shillabeer **DYDDIAD: 10 MEHEFIN 21**

**CAROL SHILLABEER [PRIF WEITHREDWR]**

**LLOFNODWYD GAN:** Pete Hopgood **DYDDIAD: 10 MEHEFIN 21**

**PETE HOPGOOD [CYFARWYDDWR GWEITHREDOL CYLLID A TGCh]**

# 4. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

## CWMPAS CYFRIFOLDEB

Mae'r Bwrdd yn atebol am Lywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol. Fel Prif Weithredwr y Bwrdd, rwyf yn gyfrifol am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol yn ogystal â system rheolaeth gadarn sy'n cefnogi'r sefydliad i gyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion, ac sy'n diogelu cronfeydd cyhoeddus ac asedau'r sefydliad hwn yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt. Caiff y rhain eu cyflawni yn unol â'r cyfrifoldebau a gaiff eu haseinio gan Swyddog Atebol GIG Cymru.

Mae Bwrdd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys BIAP yn atebol am lywodraethu da, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Fel Prif Weithredwr a Swyddog Atebol BIAP, mae gennyf gyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n eglur yn y Memorandwm Swyddog Atebol a'r llythyr yn fy mhenodi. Mae a wnelo'r cyfrifoldebau hyn â chynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol, yn ogystal â system rheolaeth gadarn sy'n cefnogi'r sefydliad i gyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion, ac sy'n diogelu cronfeydd cyhoeddus ac asedau'r sefydliad hwn yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt. Caiff y dyletswyddau hyn eu cyflawni yn unol â'r cyfrifoldebau y mae Swyddog Atebol GIG Cymru yn eu haseinio.

Mae Cadeirydd y Bwrdd Iechyd a Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r GIG yng Nghymru yn fy ngalw i gyfrif am fy mherfformiad. Rwyf yn cael cyfarfodydd perfformiad ffurfiol â Chadeirydd a Phrif Weithredwr GIG Cymru. Hefyd, mae Tîm Gweithredol y Bwrdd Iechyd yn cyfarfod ag uwch arweinwyr yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rheolaidd.

Ar adeg paratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, mae'r Bwrdd Iechyd a'r GIG yng Nghymru'n parhau i wynebu pwysau sylweddol na welwyd mo'u bath o'r blaen wrth gynllunio ac ymateb i COVID-19 ei hun yn ogystal â chynllunio i adfer yn sgil effeithiau'r pandemig. Mae ymateb y sefydliad i COVID-19 yn 2020/21 yn rhan allweddol o adran yr Adroddiad ar Berfformiad yn yr Adroddiad Blynyddol.


Cytunodd y Bwrdd ar drefniadau i sicrhau y parhawyd i lywodraethu'n dda yn ystod cyfnod y pandemig. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys gohirio rhai o'r Pwyllgorau yn ystod rhan gynnar y cyfnod ond sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch a'r Fforwm Partneriaeth Lleol yn parhau i gyfarfod. Er mwyn sicrhau bod Aelodau Annibynnol yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf, rhoddwyd Sesiynau Briffio COVID-19 y Bwrdd hefyd ar waith. Darperir manylion pellach am barhau i lywodraethu'n dda yn ystod y pandemig yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

## Ein Fframweithiau Llywodraethu a Sicrwydd

Mae gan BIAP bwrpas clir y mae ei nodau a'i amcanion strategol wedi'u datblygu ohono. Ein gweledigaeth yw galluogi 'Powys Iach a Gofalgar'. Mae'r Bwrdd yn atebol am osod cyfeiriad strategol y sefydliad, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu a rheoli risg effeithiol ar waith a gan alw Cyfarwyddwyr Gweithredol i gyfrif am gyflawni ei flaenoriaethau strategol yn effeithiol.

Mae ***Ffigur 1*** yn rhoi trosolwg o'r fframwaith llywodraethu a oedd ar waith yn ystod 2020/21:

### Ffigur 1: Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys




## Y BWRDD

Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn cydymffurfio â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009. Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel corff penderfynu corfforaethol, gan fod ei Gyfarwyddwyr Gweithredol a'i Aelodau Annibynnol yn aelodau llawn a chyfartal ac maent yn rhannu cyfrifoldeb corfforaethol am holl

benderfyniadau'r Bwrdd. Mae manylion y rheiny sy'n eistedd ar y Bwrdd wedi'u cyhoeddi ar wefan y bwrdd iechyd. Mae Adroddiad y Cyfarwyddwyr hefyd yn rhoi rhagor o wybodaeth ar dudalen 75.

Y Bwrdd sydd ar frig systemau llywodraethu a sicrwydd y sefydliad. Ei brif rôl yw ymarfer arweinyddiaeth effeithiol, darparu cyfeiriad strategol a rheolaeth. Mae'r Bwrdd yn atebol am lywodraethu a rheolaeth fewnol y sefydliad ac rwyf i, fel y Prif Weithredwr a Swyddog Atebol, yn gyfrifol am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol. I grynhoi, mae'r Bwrdd:

- Yn gosod cyfeiriad strategol y sefydliad o fewn polisïau a blaenoriaethau cyffredinol Llywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru;
- Yn sefydlu ac yn cynnal safonau llywodraethu corfforaethol uchel;
- Sicrhau y caiff nodau ac amcanion y sefydliad eu cyflawni trwy herio a chraffu ar berfformiad yn effeithiol ym mhob maes cyfrifoldeb;
- Yn monitro cynnydd o safbwynt cyflawni amcanion strategol a blynyddol; ac
- Yn sicrhau stiwardiaeth ariannol effeithiol trwy weinyddu adnoddau'n effeithiol a'u defnyddio'n ddarbodus.

## PWYLLGORAU'R BWRDD

Mae gan Adran 3 o Reolau Sefydlog Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ddarpariaeth sy'n nodi "*Gall y Bwrdd benodi Pwyllgorau'r Bwrdd Iechyd, a lle bo Llywodraeth Cymru yn gorchymyn hynny mae'n rhaid iddo eu penodi, naill ai i ymgymryd â swyddogaethau penodol ar ran y Bwrdd neu i ddarparu cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd wrth iddo ymarfer ei swyddogaethau.*" Yn unol â'r gofynion hyn, mae'r Bwrdd wedi sefydlu strwythur Pwyllgorau sefydlog y mae wedi penderfynu sy'n diwallu anghenion y Bwrdd Iechyd orau, tra'i fod yn ystyried unrhyw ofynion rheoleiddiol neu ofynion Llywodraeth Cymru. Mae Aelod Annibynnol o'r Bwrdd yn cadeirio pob Pwyllgor, ac mae eu cyfansoddiad yn cydymffurfio â Chanllaw Arfer Da Llywodraeth Cymru ar Bwyllgorau Bwrdd Effeithiol. Mae'r holl Bwyllgorau'n adolygu eu Cylch Gorchwyl a'u Cynlluniau Gwaith yn rheolaidd, i gefnogi busnes y Bwrdd. Mae Pwyllgorau hefyd yn cydweithio ar ran y Bwrdd i sicrhau bod gwaith yn cael ei gynllunio'n gydlynol ac yn canolbwyntio ar faterion sydd â'r risg fwyaf a fyddai'n atal y Bwrdd Iechyd rhag cyflawni nodau ac amcanion ein cenhadaeth. Yn ystod 2020/21, sefydlodd y Bwrdd y Pwyllgorau a ganlyn:

- Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd
- Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
- Y Pwyllgor Gweithredol
- Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch
- Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
- Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth
- Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio

Gellir gweld Cylchoedd Gorchwyl manwl, agendâu a phapurau ar gyfer pob

un o'r Pwyllgorau hyn ar wefan y Bwrdd Iechyd.

Mae Cadeirydd pob Pwyllgor yn adrodd yn rheolaidd i'r bwrdd ar weithgareddau'r pwyllgorau.  Mae hyn yn cyfrannu at asesiad y bwrdd o risg, lefel sicrwydd a gwaith craffu i weld a yw amcanion yn cael eu cyflawni. Hefyd, ac yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mae'n ofynnol bod pob pwyllgor yn cynhyrchu adroddiad blynyddol.

Mae *Ffigur 2* isod yn rhoi trosolwg o rolau a chyfrifoldebau Pwyllgorau'r Bwrdd, fel y manylir arnynt yng Nghylch Gorchwyl pob un.

**Ffigur 2: Rolau a Chyfrifoldebau Pwyllgorau'r Bwrdd**

# Board

## Audit, Risk and Assurance Committee

- Corporate Governance
- Risk Management
- Audit Recommendations
- Counter Fraud
- Post Payment Verification
- Anti-Fraud Policies
- Internal Audit
- External Audit
- Probity
- Annual Accountability Report
- Accounting Policies
- Board Assurance Framework
- Regulatory Compliance

## Charitable Funds Committee

- Charitable Funds Income and Expenditure
- Charitable Funds Applications
- Probity Regulatory Compliance

## Experience, Quality and Safety Committee

- Improving population health and well-being
- Improving staff health and well-being
- Experience of patients, citizens, carers and staff
- The provision of high quality, safe and effective healthcare
- Compliance with Health and Safety Regulations and Standards
- Compliance with mental health legislation
- Improvement and Innovation
- Safeguarding information
- Equality & Diversity
- Welsh Language Standards

## Performance and Resources Committee

- Financial management and financial performance
- Performance management and accountability of directly provided and commissioned services
- Information Management
- Performance management of:
  - Capital
  - Workforce
  - Digital and information management and technology (IM&T) systems
  - Compliance with statutory and legislative requirements
  - Plans and services developed and delivered in partnership

## Remuneration and Terms of Service Committee

- Pay, Terms and Conditions of Service for Chief Executive, Executive Directors and very senior members of staff not covered by Agenda for Change
- Objectives and performance monitoring and Executive Directors
- Performance management system for those mentioned above and its application
- Approvals of applications under Voluntary Release Scheme and redundancies
- Additional Payments to consultants
- Corporate policies related to remuneration and terms of service

## Strategy and Planning Committee

- Planning Framework, including Engagement
- Development of plans such as IMTP, Annual Plan, Capital Programme and enabling plans
- Strategic Change (Internal and External)
- Population Health Needs Assessment
- Business Continuity Planning
- Joint Committee and Partnership Planning
- Whole-system pathway development

## PARHAU I LYWODRAETHU'N DDA

O ganlyniad i'r pwysau ar gyrff GIG wrth reoli effaith y pandemig yn ystod 2020/21, roedd angen addasu trefniadau llywodraethu. Felly cytunodd Llywodraeth Cymru â Grŵp Ysgrifenyddion Byrddau Cymru Gyfan ar set o Egwyddorion Llywodraethu, â'r nod o helpu i roi ffocws i ystyriaethau materion llywodraethu yn ystod y pandemig. Sef:

- **Budd y cyhoedd a diogelwch cleifion** – Byddwn bob tro'n gweithredu er budd pennaf poblogaeth Cymru, ac yn sicrhau bod pob penderfyniad a wnawn yn cadw at yr egwyddor hon, gan ystyried yr argyfwng iechyd cyhoeddus cenedlaethol a ddaeth yn sgil COVID-19
- **Lles a gwaith staff** – byddwn yn amddiffyn ac yn cefnogi ein staff yn y ffyrdd gorau posibl. Byddwn yn defnyddio ein gwybodaeth a'n hasedau lle y mae eu hangen fwyaf.
- **Llywodraethu da a rheoli risg** – byddwn yn cadw at yr egwyddorion o lywodraethu da a rheoli risg, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud a chamau'n cael eu cymryd er budd pennaf y cyhoedd, ein staff a'n rhanddeiliaid, gan sicrhau bod risg ac effaith yn cael eu hystyried mewn modd priodol.
- **Dirprwyaeth ac Uwchgyfeirio** – caiff unrhyw newidiadau i'n fframweithiau dirprwyaeth ac uwchgyfeirio eu gwneud gan ddefnyddio'r egwyddorion hyn, eu cofnodi ar gyfer y dyfodol a'u hadolygu'n barhaus wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Bydd Byrddau a dulliau llywodraethu eraill yn parhau i gael eu defnyddio i oruchwylio'n briodol, gan gydnabod efallai y bydd angen cael trefniadau gwahanol yn eu lle ar gyfer swyddogion dynodedig, dirprwyon a phenderfyniadau.
- **Gwyro** – pan y bydd angen gwyro oddi wrth safonau, polisïau neu arferion presennol i wneud penderfyniadau cyflym ac effeithiol - caiff y penderfyniadau hyn eu nodi'n briodol. Mae'n bosibl iawn y bydd gwyro fel hyn yn digwydd mewn meysydd fel rheolau sefydlog (er enghraifft sut y mae'r Bwrdd yn gweithredu), Cynllun Dirprwyo'r Bwrdd, ymgynghoriadau, recriwtio, hyfforddiant a chaffael, archwilio ac ail-ddilysu, ond ni fydd yn cael ei gyfyngu i'r meysydd hyn yn unig.
- **Cymru'n Un** - byddwn yn gweithredu er budd pennaf Cymru gyfan gan sicrhau lle y bo'n bosibl, ein bod yn manteisio i'r eithaf ar adnoddau a phartneriaethau, ac yn sicrhau cysondeb lle y bo hynny'n briodol. Byddwn yn cefnogi ein sefydliad ein hunain a'r GIG ehangach i adfer cyn gynted â phosibl o'r argyfwng iechyd cyhoeddus cenedlaethol a ddaeth yn sgil COVID-19, gan ddychwelyd i fusnes fel arfer cyn gynted ag y bo hynny'n ddiogel.
- **Cyfathrebu a thryloywder** – byddwn wastad yn cyfathrebu'n agored ac yn dryloyw gan wneud hynny er budd y cyhoedd bob tro, a derbyn y bydd angen i'n trefniadau arferol gael eu haddasu o bosibl, er enghraifft cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd a gynhelir yn gyhoeddus.

Trwy gydol 2020/21, o ystyried natur a graddau'r ymateb, roedd gofyn cael ymateb ystwyth i lywodraethu.

Yn ystod yr amser hwn, ni wnaeth rôl a diben sylfaenol y Bwrdd newid. Parhaodd y Bwrdd i fynnu a derbyn sicrwydd parhaus, o ran parodrwydd ac ymateb y gwasanaeth a hefyd o ran arweinyddiaeth glinigol, ymgysylltiad a pherchnogaeth o gynlluniau a oedd yn datblygu ynglŷn ag: iechyd a llesiant staff; cyfathrebu rhagweithiol, ystyrlon ac effeithiol â staff ar bob lefel; a pharodrwydd y system iechyd a gofal.

## CYNNAL BUSNES YN AGORED A THRYLOYW

Cydnabyddir, yn yr amseroedd hyn na welwyd mo'u bath o'r blaen, mae yna gyfyngiadau ar allu Byrddau a Phwyllgorau i gyfarfod yn y cnawd lle nad yw hyn yn angenrheidiol a gellir cyflawni hyn trwy ddulliau eraill. Yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, mae'n ofynnol bod y sefydliad yn cyfarfod yn gyhoeddus. O ganlyniad i'r risg i iechyd cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r pandemig, bu cyfyngiadau ar gynulliadau cyhoeddus ac, felly, ni fu'n bosibl caniatáu i'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd ein bwrdd a'n pwyllgorau o fis Mawrth 2020. Er mwyn sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mor agored a thryloyw â phosibl yn ystod yr amser hwn, cymerwyd y camau a ganlyn: -

- Cyhoeddi pecynnau agendâu holl gyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau ar wefan y Bwrdd Iechyd cyn cyfarfodydd;
- Cynhyrchu a chyhoeddi cofnodion cryno ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau ar wefan y Bwrdd Iechyd cyn pen pum niwrnod ar ôl y cyfarfod.
- Cofnodi a chyhoeddi cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2020 ar wefan y Bwrdd Iechyd;
- Ffrydio holl gyfarfodydd y Bwrdd yn fyw ers mis Medi 2020.

Mae'r Bwrdd yn cyflymu cynlluniau i sicrhau bod cyfarfodydd ei Bwyllgorau ar gael i'r cyhoedd trwy ffrydio byw. Yn y cyfamser, cyhoeddwyd agendâu cyfarfodydd yn ystod 2020/21 gyda datganiad yn rhoi gwybod i'r cyhoedd, pe baent eisiau gwylio cyfarfod pwyllgor rhithwir, yna y gallent gysylltu ag Ysgrifennydd y Bwrdd cyn y cyfarfod fel bod modd ystyried ceisiadau fesul un. Roedd y datganiad hwn hefyd ar gael i aelodau'r cyhoedd ar wefan y Bwrdd Iechyd.

## AMLDER CYFARFODYDD Y BWRDD A'I BWYLLGORAU

Bu'r Bwrdd yn adolygu ei drefniadau llywodraethu yn ei gyfarfodydd a gynhaliwyd ar 27 Mai 2020 a 25 Tachwedd 2020.

Fis Mai 2020, adolygodd y Bwrdd ei drefniadau llywodraethu i adlewyrchu Cyfnod 2 Cynllun Ymateb y sefydliad. Cytunodd y Bwrdd y byddai, yn unol

â Rheolau Sefydlog, yn parhau i gyfarfod yn ffurfiol bob deufis, ar ei amserlen arferol. Hefyd, cytunwyd y byddai Sesiynau Briffio'r Bwrdd yn cael eu cynnal o leiaf bob mis ac fel arall, fel y mae'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn ei ystyried yn angenrheidiol. Byddem yn bwrw ymlaen â Datblygiad y Bwrdd, yn unol â Chynllun Datblygu'r Bwrdd wedi'i ailflaenoriaethu, gan ganolbwyntio ar yr agweddau hynny y gellid eu cyflawni trwy sesiynau briffio misol y bwrdd ac yn unigol, gan gydnabod y bydd angen bwrw ymlaen â rhai agweddau ar y cyd unwaith y caiff mesurau cadw pellter cymdeithasol eu diddymu.

Mabwysiadwyd y cylchredau a ganlyn ar gyfer y Pwyllgorau:
Yn unol â'r amlder a amlinellir yn y Cylch Gorchwyl:

- **Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch** bob 2 fis
- **Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd** bob 2 fis
- **Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth** bob 3 mis
- **Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio** bob 3 mis
- **Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol** bob 3 mis

Amlder wedi'i ddiwygio o'r hyn a amlinellir yn y Cylch Gorchwyl:

- **Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau** bob 3 mis (wedi'i ddiwygio o gyfarfod bob deufis fel a amlinellir yn y Cylch Gorchwyl).
- **Y Pwyllgor Gweithredol** i gyfarfod o leiaf bob mis ond, fel arall, fel y mae'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn ei ystyried yn angenrheidiol (wedi'i ddiwygio o gyfarfod bob dwy wythnos fel a amlinellir yn y Cylch Gorchwyl).

Cytunwyd y byddai cyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau'n dilyn agenda fyrrach, gryno gan ganolbwyntio ar faterion hanfodol ac wedi'u cynnal yn rhithiol i sicrhau y cydymffurfir â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol.

Ar 25 Tachwedd 2020, ystyriodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am barhau i lywodraethu'n dda lle amlinellwyd parhau â'r trefniadau ar gyfer y Bwrdd ynghyd â dychwelyd cyfarfodydd Pwyllgorau i'r amserlen a amlinellir yn eu Cylch Gorchwyl, heblaw am y Pwyllgor Gweithredol (i gyfarfod o leiaf bob mis) a'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth (i gyfarfod yn ôl y galw) – dau bwyllgor yr oedd eu trefniadau'n gwyro o Gylchoedd Gorchwyl y pwyllgorau hyn.

Wrth i'r pandemig barhau trwy gydol 2020/21, roedd yna nifer o newidiadau i'r amserlenni y cytunwyd arnynt yn wreiddiol ar gyfer y pwyllgorau, fel a amlinellir isod.

- Gohiriwyd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd o 27 Ebrill 2020 toi 18 Mai 2020.
- Canslwyd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ar 6 Ebrill 2020.
- Gohiriwyd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol o 2 Mehefin 2020 i 1 Gorffennaf 2020.
- Canslwyd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ar 17 Medi 2020.

- Gohiriwyd y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch o 2 Ebrill i 16 Ebrill.
- Canslwyd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 29 Ebrill 2020.
- Gohiriwyd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau o 7 Medi 2020 i 6 Hydref 2020.
- Canslwyd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 27 Hydref 2020.
- Canslwyd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 14 Rhagfyr 2020.
- Canslwyd y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio ar 23 Ebrill 2020.
- Gohiriwyd y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio o 28 Ionawr 2021 i 23 Chwefror 2021.

Er mwyn sicrhau bod Aelodau'r Bwrdd yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r pandemig ddatblygu, sefydlwyd cyfres o Sesiynau Briffio COVID-19 y Bwrdd.  Cynhaliwyd y rhain ar y dyddiadau a ganlyn:

- 9 Ebrill 20
- 23 Ebrill 20
- 7 Mai 20
- 18 Mehefin 20
- 2 Gorffennaf 20
- 14 Rhagfyr 20
- 8 Ionawr 21
- 22 Ionawr 21
- 10 Chwefror 21
- 23 Chwefror 21
- 18 Mawrth21

Mae *Ffigur 3* isod yn rhoi trosolwg o gyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau a gynhaliwyd yn 2020-21.

**Ffigur 3: Cyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod 2020-21**

| | Dyddiadau |
|---|---|

| Bwrdd/ Pwyllgor | Ebr | Mai | Meh | Gor | Aws | Med | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Maw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Bwrdd** | | 27 | 29 | 29 | | 30 | 22 | 25 | 21 | 27 | | 31 |
| **Archwilio, Risg a Sicrwydd** | | 18 | 25 | 20 | | 08 | | 03 | | 26 | | 09 |
| **Cronfeydd Elusennol** | | | | 01 | | | | | 03 | | | 04 |
| **Profiad, Ansawdd a Diogelwch** | 16 | | 04 | 02 & 03 | | | 01 | 06 | 03 | | 04 | |
| **Perfformiad ac Adnoddau** | | | 30 | | | | 06 | | 14 | | 22 | |
| **Taliadau and Terms of service** | | 20 | | 28 | | | | | | 27 | | |
| **Strategaeth a Chynllunio** | | | | 09 | | | | 06 | | | 23 | |
| **COVID-19 Board Briefing** | 09 & 23 | 07 | 18 | 02 | | | | | 14 | 08 & 22 | 10 & 23 | 18 |

Mae manylion Aelodau o'r Bwrdd a manylion am eu presenoldeb ar y Bwrdd i'w gweld yn **Atodiad 1**.

## RHEOLAU SEFYDLOG A CHYNLLUN CADW A DIRPRWYO

Mae trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd wedi'u halinio â'r gofynion y manylir arnynt yn yr Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd ac e-lawlyfr Llywodraethu Llywodraeth Cymru. Cymerwyd gofal i sicrhau bod trefniadau llywodraethu hefyd yn adlewyrchu'r gofynion y manylir arnynt yn 'Corporate Governance in Central Government Departments: Code of good practice 2011'.

Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo Rheolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes. Maent wedi'u cynllunio i drosi'r gofynion statudol y manylir arnynt yn Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 yn arfer gweithredu o ddydd i ddydd. Ynghyd â mabwysiadu cynllun materion sydd wedi'u neilltuo i'r Bwrdd, sef cynllun manwl dirprwyo i swyddogion a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, maent yn darparu'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer sut y dylai'r bwrdd iechyd ymgymryd â'i fusnes, ac yn diffinio'i 'ffyrdd o weithio'. Mabwysiadodd y Bwrdd y Rheolau Sefydlog a oedd ar waith yn 2020-21 ar 27 Tachwedd 2019 ac maent ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd, yn amodol ar unrhyw gyfarwyddiadau y gallai Gweinidogion Cymru eu rhoi, wneud trefniadau i rai swyddogaethau penodol gael eu gwneud ar ei ran fel ei bod yn bosibl cynnal busnes y Bwrdd Iechyd o ddydd i ddydd yn effeithiol, ac mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn cyflawni nodau ac amcanion y sefydliad. Er mwyn cyflawni'r gofyniad hwn, yn gyflin ag adolygu Rheolau Sefydlog a chylch gorchwyl Pwyllgorau, mae Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau'r Bwrdd wedi'i adolygu'n fanwl. Gellir gweld y ddogfen, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 27 Tachwedd 2019, ar wefan y bwrdd iechyd.

Yn ystod 2020/21, cymeradwyodd y Bwrdd newidiadau dros dro i Reolau Sefydlog o ran cyfnodau Aelodau Annibynnol mewn swydd a gohirio'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol o ganlyniad i'r pandemig. Ni fu gofyn gwneud unrhyw addasiadau i'r Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau.

Yn ystod 2020/21, parhaodd Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd mewn bod ac yn gymwys yn ystod yr amser hwn. Hefyd, sefydlwyd Gweithdrefnau Rheolaeth Ariannol Interim ar gyfer COVID-19 (a gymeradwywyd gan Bwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd y Bwrdd), i ddisgrifio sut y cyflawnir ac y gweithredir cyfrifoldebau rheoli ariannol y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid o fewn BIAP, gan gynnwys y gwasanaethau hynny y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu lletya, o ganlyniad i COVID-19.

## SAFONAU YMDDYGIAD

Mae *Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd* Llywodraeth Cymru'n berthnasol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r egwyddorion hyn yn integreiddio pob agwedd ar lywodraethu ac yn ymgorffori'r gwerthoedd a'r safonau ymddygiad a ddisgwylir o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar bob lefel.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo'n gryf i sicrhau mai gwerthoedd sy'n gyrru'r Bwrdd Iechyd, gydag egwyddorion 'Nolan' a safonau ymddygiad a bywyd cyhoeddus wedi'u gwreiddio, gan gynnwys didwylledd, safonau gwasanaeth cwsmeriaid, amrywiaeth ac arweinyddiaeth ymgysylltiedig. Mae gan y Bwrdd Bolisi Safonau Ymddygiad ar waith sy'n manylu ar ddisgwyliadau'r Bwrdd ac yn rhoi cyfarwyddyd fel bod unigolion yn cael eu cefnogi i gyflawni'r gofyniad hwnnw.

Mae'r Polisi Safonau Ymddygiad yn ailddatgan ac yn adeiladu ar ddarpariaethau Adran 7, Gwerthoedd a Safonau Ymddygiad, Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd. Mae'n ailbwysleisio ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i sicrhau ei fod yn gweithredu i'r safonau uchaf, rolau a chyfrifoldebau'r rheini y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cyflogi, a'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod modd gwneud datganiadau o fuddiannau, anrhegion, lletygarwch a nawdd. Mae gan y polisi nod hefyd o gasglu gwybodaeth am sut y mae'r cyhoedd yn derbyn ymddygiadau'r rheini sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus, fel bod modd gweld y Bwrdd Iechyd fel sefydliad sydd ag arfer rhagorol yn hyn o beth.

Mae manylion am Bolisi Safonau Ymddygiad y Bwrdd, gan gynnwys Datganiadau o Fuddiannau, Anrhegion, Lletygarwch a Nawdd, ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd.

## EITEMAU Y BU'R BWRDD YN EU HYSTYRIED YN 2020-21

Yn ystod 2020-2021, cynhaliodd y Bwrdd:

- naw cyfarfod, pob un yn rhithiol a recordiwyd un ohonynt a'i lawrlwytho ar ôl y digwyddiad tra bo chwech wedi'u ffrydio'n fyw;
- tri sesiwn Gweithredu'r Cadeirydd;
- tair sesiwn ddatblygu;
- un ar ddeg Sesiwn Briffio COVID-19 y Bwrdd.

Roedd gan bob un o gyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn 2020/21 gyfansoddiad priodol a oedd yn bodloni'r cworwm gofynnol.

## Ymateb i COVID-19

Fis Mai 2020, cymeradwyodd y Bwrdd ei Adolygiad o ymateb BIAP i'r pandemig COVID-19. Roedd hwn yn cynnwys manylion y mesurau a

roddwyd ar waith i gynllunio, paratoi a gweithredu (lle bo angen) cynlluniau, ynghyd â threfniadau gwneud penderfyniadau (gan gynnwys ar lefel y Bwrdd a'r Grŵp Aur) yn ogystal â threfniadau sicrwydd trwy'r Pwyllgorau a sesiynau briffio'r Bwrdd. Ystyriwyd nodi risgiau, gan gynnwys cyfarpar diogelu personol, profion, data, lleoliadau caeedig a'r effaith ar amcanion ehangach y sefydliad.
Yn yr un cyfarfod, cymeradwywyd Cyfnod 2 y Cynllun Ymateb, gan amlinelli trefniadau o ran Profi, Olrhain a Diogelu ochr yn ochr â'r pedwar niwed: niwed o COVID-19; niwed o system GIG a gofal cymdeithasol wedi'i gorlethu; niwed o leihad mewn gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â COVID-19; a niwed o gyfyngiadau symud neu gamau cymdeithasol ehangach.

## Cynllun Blynyddol Wedi'i ailflaenoriaethu

Fis Mai 2020, ystyriodd a chymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Blynyddol wedi'i ailflaenoriaethu, yr oedd ei angen o ganlyniad i'r pandemig.

## Cynllun Gweithredol Chwarter 2 BIAP

Mae'r cynllun hwn wedi'i baratoi i fynd i'r afael â'r camau gweithredu sy'n ofynnol fel rhan o'r ymateb i COVID-19 a chafodd ei gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2020.

## Cynllun Diogelu'r Gaeaf Ch3/4

Roedd hwn yn amlinellu trefniadau ar gyfer ail ran y flwyddyn a daeth yn sgil y cynllun ymateb i COVID-19 a Chynllun Gweithredol Chwarter 2. Cytunwyd ar hwn ym mis Tachwedd 2020.

## Cynllun Brechu COVID-19

Amlinellwyd cynnydd â Chynllun Brechu COVID-19 a chymeradwywyd cyflenwi Cyfnod 2 y cynllun.

## Cynllunio Strategol 2021/22

Nododd y Bwrdd adroddiad ar Ffyrdd Newydd o Weithio a chymeradwyodd y blaenoriaethau strategol drafft ar gyfer 2021/22.

## Polisïau

Cymeradwywyd y polisïau a ganlyn:
- Polisi Digwyddiadau Difrifol (Mai 2020)
- Polisi Hawliadau (Mai 2020)

Yn ystod 2020/2020, ystyriodd a chymeradwyodd y Bwrdd hefyd:

- **Ganlyniad Ymgysylltu Gwasanaeth Podiatreg BIAP**
  Cymeradwyodd y Bwrdd newidiadau i'r Gwasanaeth Podiatreg i wneud y gwasanaeth yn fwy cynaliadwy.
- **Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi**
  Fis Medi 2020, cymeradwyodd y Bwrdd yr Achos Busnes Llawn ar gyfer Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi.
- **Cymorth Anadlu Mecanyddol**
  Fis Medi 2020, cymeradwyodd y Bwrdd (a gadarnhawyd mewn sesiwn Gweithredu'r Cadeirydd) gyllid ar gyfer gosod systemau cymorth anadlu yn Ysbytai Aberhonddu, Llandrindod a'r Trallwng.
- **Rhaglen Llesiant Gogledd Powys**
  Roedd Rhaglen Llesiant Gogledd Powys wedi'i hatal dros dro ar ddechrau'n pandemig ond roedd wedi ailddechrau gyda chymeradwyaeth y Bwrdd o Achos Busnes y Rhaglen. Byddai gofyn cael cymeradwyaeth partneriaid y rhaglen hefyd, gan gynnwys Cyngor Sir Powys.
- **Ysbyty Coffa Llandrindod:**
  Cymeradwyodd y Bwrdd gyflwyno Achos Busnes Cyfnod 2 y Rhaglen.
- **Academi Iechyd a Gofal**
  Cymeradwywyd y glasbrint ar gyfer Academi Iechyd a Gofal Powys, gyda'r sail ffisegol gyntaf yn Neuadd Basil Webb, Bronllys.
- **Canolfan Ategol Radiotherapi yn Ysbyty Nevill Hall**
  Cymeradwywyd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer datblygu Canolfan Ategol Radiotherapi yn ysbyty Nevill Hall.
- **Ymgysylltu ynglŷn â Gwasanaethau Fasgwlaidd yn Ne Ddwyrain Cymru**
  Cymeradwywyd cynigion i ddechrau ymgysylltu ynglŷn â newidiadau arfaethedig i wasanaethau fasgwlaidd yn ne ddwyrain Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, gwnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cadarnhau penderfyniadau a wnaed yn y Pwyllgor Gweithredol o ran Adroddiad i Rhoi'r Wybodaeth Ddiweddaraf am Safonau'r Iaith Gymraeg.
- Cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024.
- Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Panel Ceisiadau Fferyllol.
- Cymeradwyo Cynllun Adnoddau Ariannol 2020/21.
- Adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn rheolaidd.
- Cytuno ar Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol a'r Llythyr Cynrychiolaeth.
- Cymeradwyo Adroddiad Atebolrwydd Blynyddol 2019/20.
- Cymeradwyo Cynlluniau Gwaith Blynyddol ar gyfer y Bwrdd a'i Bwyllgorau ac ar gyfer Datblygu'r Bwrdd.

- Derbyn briffiau ar drefniadau o ran Gadael yr Undeb Ewropeaidd.
- Cymeradwyo'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol (trwy gadarnhau gweithredu'r Cadeirydd).
- Derbyn y Datganiad Ansawdd Blynyddol cyn ei gyhoeddi ar 30ain Medi 2020.
- Nodi Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg.
- Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Llwybrau De Cymru (agor Ysbyty'r Faenor yn gynnar).
- Derbyn sicrwydd o ran trefniadau ar gyfer monitro Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru).
- Cymeradwyo Cynllun Gofal Heb ei Drefnu'r Gaeaf.
- Cymeradwyo Cyfrifon Blynyddol y Cronfeydd Elusennol 2019-20.
- Cymeradwyo dirprwyo unrhyw benderfyniadau ynglŷn â blaenoriaethu gweithgareddau hanfodol i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.
- Cymeradwyo'r Rhaglen Cyfalaf Dewisol ddrafft.
- Cymeradwyo'r Asesiad diwygiedig o Effaith ar Gydraddoldeb mewn cysylltiad â gofynion y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.
- Cymeradwyo'r fethodoleg ar gyfer gosod y Gyfradd Gofal Nyrsio a Ariennir ar gyfer 2021/22.
- Derbyn, ystyried a thrafod perfformiad ariannol a'r risgiau cysylltiedig y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu rheoli;
- Ystyried perfformiad y Bwrdd fel mater o drefn, o ran targedau cenedlaethol a lleol allweddol, a chytuno ar gamau lliniarol i'w cymryd mewn ymateb, er mwyn gwella perfformiad lle bo'n briodol;
- Derbyn adroddiadau sicrwydd fel mater o drefn oddi wrth Bwyllgorau a Grwpiau Cynghori'r Bwrdd.
- Derbyn adroddiadau fel mater o drefn oddi wrth y Cyngor Iechyd Cymuned.

## EITEMAU Y BU PWYLLGORAU'R BWRDD YN EU HYSTYRIED

Yn ystod 2020-21, bu Pwyllgorau'r Bwrdd yn ystyried ac yn craffu ar amrywiaeth o adroddiadau a materion sy'n berthnasol i feysydd y mae'r Bwrdd wedi'u dirprwyo iddynt. Ymhlith yr adroddiadau y bu'r pwyllgorau'n eu hystyried oedd amrywiaeth o adroddiadau archwilio mewnol, adroddiadau archwilio allanol ac adroddiadau oddi wrth gyrff adolygu a rheoleiddio eraill, fel Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Fel roedd yr achos mewn blynyddoedd blaenorol, mae gwaith y Pwyllgorau wrth ystyried a dadansoddi gwybodaeth o'r fath wedi chwarae rhan allweddol yn fy asesiad o effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, trefniadau rheoli risg a mecanweithiau sicrwydd.

Bu’r Pwyllgorau hefyd yn ystyried ac yn cynghori ar feysydd datblygu strategol lleol a chenedlaethol a meysydd polisi newydd. Mae Aelodau’r Bwrdd hefyd yn chwarae rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau eraill ar ran y Bwrdd, fel sesiynau Datblygu’r Bwrdd, sesiynau Briffio’r Bwrdd ar COVID-19, mynychu cyfarfodydd partneriaeth, cysgodi ac amrywiaeth o gyfarfodydd mewnol ac allanol eraill.

Ceir trosolwg o’r meysydd allweddol ar gyfer pwyllgorau’r Bwrdd yn Ffigur 4 sy’n dilyn.

### Ffigur 4: Meysydd Ffocws Allweddol Pwyllgorau'r Bwrdd

| | |
|---|---|
| **Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd** | ▪ Cadarnhau cymeradwyo Hawlildio Tendrau Sengl.<br>▪ Cadarnhau Gweithdrefn Rheolaeth Ariannol COVID-19.<br>▪ Derbyn Adroddiad a Barn Archwiliad Mewnol Blynyddol 2019-20.<br>▪ Derbyn Adroddiadau Archwiliadau Mewnol ac Allanol ac olrhain rhoi argymhellion archwilio ar waith.<br>▪ Cadw trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrwydd a rheoli risg dan sylw.<br>▪ Adolygu a cheisio sicrwydd o ran manwl gywirdeb y Cyfrifon Blynyddol a'r Datganiad Atebolrwydd Blynyddol.<br>▪ Adolygu a cheisio sicrwydd o ran manwl gywirdeb cyfrifon blynyddol. |
| **Y Pwyllgor Gweithredol** | ▪ Bwrw ymlaen â chynlluniau gweithredu yn sgil yr Adroddiad Perfformiad Integredig a rheoli perfformiad wrth gyflawni'r cynlluniau gweithredu hynny.<br>▪ Cadw effeithiolrwydd gweithredol polisïau a gweithdrefnau dan sylw.<br>▪ Craffu ar strategaethau ac adroddiadau allweddol cyn eu cyflwyno i Bwyllgorau eraill y Bwrdd a/ neu i'r Bwrdd i sicrhau eu manwl gywirdeb a'u hansawdd.<br>▪ Darparu agwedd strategol ar faterion sy'n achosi pryder, gan sicrhau cydlyniad rhwng cyfarwyddiaethau.<br>▪ Rhoi cyngor i Bwyllgorau'r Bwrdd a/ neu i'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud ag ansawdd, diogelwch, cynllunio, comisiynu, cytundebau lefel gwasanaeth a mentrau rheoli newid.<br>▪ Sicrhau bod staff yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n effeithio ar y Bwrdd Iechyd cyfan.<br>▪ Gweithredu fel y fforwm y gall Cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr ei ddefnyddio i godi pryderon a materion i'w trafod yn ffurfiol, gan benderfynu ynglŷn â'r materion hyn. |
| **Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol** | ▪ Craffu ar geisiadau am gronfeydd elusennol.<br>▪ Cadw llygad ar incwm a gwariant cronfeydd elusennol. |
| **Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch** | ▪ Craffu ar y Penderfynu Clinigol o ran COVID-19 ymlaen llaw i'r Grŵp Aur yn gwneud penderfyniad.<br>▪ Craffu ar y Fframwaith Ansawdd Clinigol.<br>▪ Archwilio'r asesiad risg ar gyfer trosglwyddiad COVID-19 yn y gweithle.<br>▪ Archwilio'r gefnogaeth a ddarparwyd i gartrefi gofal yn ystod COVID-19<br>▪ Craffu ar drefniadau ar gyfer adrodd ar farwolaethau a'u monitro.<br>▪ Cymeradwyo trefniadau ar gyfer defnyddio cyfarpar |

| | |
|---|---|
| | diogelu personol ar gyfer dadebru cardio-anadlol a mewnosod tiwbiau nasogastrig.<br>▪ Craffu ar drefniadau o ran Rhaglen Llwybrau De Powys.<br>▪ Derbyn Adroddiad Diddordeb Arbennig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac olrhain yr ymateb iddo.<br>▪ Adolygu perfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion.<br>▪ Ceisio sicrwydd o ran ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol a gwasanaethau a gomisiynir.<br>▪ Monitro dull y Bwrdd Iechyd o drin cwynion a phryderon.<br>▪ Ceisio sicrwydd o ran materion penodol, er enghraifft, Ymddiriedolaeth GIG Amwythig a Telford.<br>▪ Cadw llygad ar ddatblygu'r Datganiad Ansawdd Blynyddol.<br>▪ Derbyn adroddiadau ar faterion fel Atal a Rheoli Haint, Llesiant yn y Gwaith, Diogelu ac Iechyd a Diogelwch.<br>▪ Monitro gofynion yr Iaith Gymraeg, cydraddoldeb ac amrywiaeth; a chydymffurfiad â deddfwriaeth iechyd meddwl.<br>▪ Monitro effeithiolrwydd trefniadau sydd ar waith i gefnogi Gwella ac Arloesi.<br>▪ Ystyried diogelu gwybodaeth a threfniadau llywodraethu cysylltiedig.<br>▪ Ceisio sicrwydd o ran gweithredu rheoliadau Gweithio i Wella a gwersi a ddysgwyd. |
| **Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau** | ▪ Ceisio sicrwydd ynglŷn â rheolaeth ariannol a pherfformiad ariannol.<br>▪ Cadw llygad ar gyflawni perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol, y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r Cynllun Blynyddol cysylltiedig, a chanlyniadau lleol allweddol.<br>▪ Ceisio sicrwydd ynglŷn â threfniadau ar gyfer rheoli perfformiad ac atebolrwydd gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol a gwasanaethau a gomisiynir.<br>▪ Monitro fframweithiau a chynlluniau'r gweithlu a datblygu sefydliadol; a monitro metrigau gweithlu allweddol.<br>▪ Monitro gofynion GDPR a Rhyddid Gwybodaeth. |
| **Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio** | ▪ Craffu ar drefniadau o ran Rhaglen Llwybrau De Cymru.<br>▪ Craffu ar gynigion ar gyfer Gwasanaethau Podiatreg BIAP.<br>▪ Monitro cynnydd Rhaglen Llesiant Gogledd Powys.<br>▪ Cadw llygad ar ddatblygiad Rhaglen Cyfalaf Dewisol ac Achosion Busnes Cyfalaf y Bwrdd. |

| | |
|---|---|
| | ▪ Derbyn adroddiadau ar faterion fel Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd, gan gynnwys y Cynllun Ariannol a Chynllun y Gweithlu a Chynllun Blynyddol y Bwrdd, wedi'u halinio â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.<br>▪ Ystyried a chadw'r canlynol dan sylw:<br>  ▪ Unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i strategaethau a chynlluniau'r Bwrdd Iechyd.<br>  ▪ Goblygiadau ar gyfer cynllunio gwasanaeth sy'n codi yn sgil datblygu strategaethau a chynlluniau'r Bwrdd Iechyd a rhai ei randdeiliaid a'i bartneriaid.<br>  ▪ Cynllun Argyfyngau Sifil Posibl a Chynllun Parhad Busnes y Bwrdd Iechyd. |

## DATBLYGU'R BWRDD

Fis Gorffennaf 2020, cymeradwyodd y Bwrdd ei Gynllun Datblygu Bwrdd ar gyfer 2020/21 – 2021/2022. Pwrpas y Cynllun yw amlinellu cydrannau allweddol Bwrdd effeithiol, meysydd i'w datblygu ymhellach fel a nodir trwy broses hunanasesu a myfyrio (cynhaliwyd Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd ym mis Medi 2020) a chadarnhau Cynllun Datblygu'r Bwrdd i'w gyflawni gydol 2020/21 a 2021/22.

Yn ystod y flwyddyn, cymerodd y Bwrdd ran mewn nifer o sesiynau datblygu a briffio yn edrych ar bynciau'n cynnwys Rhaglen De Powys, Diogelu, Trais Domestig a Hawliau Plant, Cynllunio i'r Dyfodol, y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, Papur Gwyn Gofal Cymdeithasol a Chynllunio Adnewyddu ac Adfer ar gyfer 2021/22.

Cynhaliodd y Bwrdd ei sesiwn hunanasesu a myfyrio flynyddol ar 27ain Ebrill 2021, gyda ffocws penodol ar effeithiolrwydd ei bwyllgorau. Ymhlith y meysydd y nododd y Bwrdd i'w gwella oedd:

- Yr angen i sicrhau bod datblygu strategol yn parhau i fod yn gyfrifoldeb ar lefel y bwrdd ac felly byddai dirprwyo hyn i'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio'n cael ei adolygu;
- Yr angen am ddull wedi'i gryfhau o fynd ati i ddefnyddio gwybodaeth, dada a dadansoddiad i gefnogi gwneud penderfyniadau; perfformiad a phrosesau sicrwydd;
- Yr angen i sicrhau bod cynlluniau gwaith pwyllgorau wedi'u halinio ond nad ydynt yn dyblygu trafodaeth ac ymdrech;
- Yr angen i sicrhau bod cynlluniau gwaith pwyllgorau wedi'u seilio ar risg, gyda ffocws ar fylchau mewn sicrwydd a rheolaeth, wedi'i gydbwyso â chefnogi cyflawni blaenoriaethau strategol y Bwrdd;
- Ystyried potensial dod â chadeiryddion pwyllgorau at ei gilydd i drafod effeithiolrwydd ac arfer da pwyllgorau gydol y flwyddyn;
- Byddai diwylliant ac arfer cyfarfodydd yn cael sylw trwy Gynllun Datblygu'r Bwrdd i gefnogi gwaith datblygu her iach ac atebolrwydd.

Bydd y Bwrdd yn ystyried strwythur ei bwyllgorau ym mis Mehefin 2021, i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben. Caiff y cyfleoedd uchod ar gyfer effeithiolrwydd wedi'i gryfhau eu hystyried mewn unrhyw ddiwygiadau arfaethedig.

## GRWPIAU CYNGHORI

Mae'n ofynnol dan Reolau Sefydlog BIAP bod y bwrdd yn sefydlu tri grŵp cynghori. Mae'r rhain yn caniatáu i'r Bwrdd geisio cyngor oddi wrth ei staff a'i randdeiliaid ac ymgynghori â nhw. Sef:

- Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
- Fforwm Partneriaeth Lleol
- Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol

Mae gwybodaeth ynglŷn â rôl a chylch gorchwyl pob Grŵp Cynghori i'w gweld yn Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd, ac mae'r rhain i'w gweld ar wefan y Bwrdd Iechyd.
Mae'r Fforwm Partneriaeth Lleol nawr wedi'i hen sefydlu. Mae gwaith wedi parhau yn ystod 2020-21 i gryfhau trefniadau gweithredu'r Fforwm a datblygu ei rôl i ddarparu cyngor i'r Bwrdd i'r eithaf. Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020, newidiwyd trefniadau gyda sesiynau briffio misol yn disodli cyfarfodydd bob yn ail mis y Fforwm Partneriaeth Lleol. Ailddechreuodd cyfarfodydd y Fforwm Partneriaeth Lleol ym mis Gorffennaf 2020 a chytunwyd i gynnal cyfarfodydd y Fforwm Partneriaeth Lleol a sesiynau briffio Partneriaeth Leol bob yn ail mis.

Ni chyfarfu'r Grŵp Rhanddeiliaid yn ystod 2020/21 ac, oherwydd pwysau'r pandemig, ni adolygwyd aelodaeth y grŵp hwn ac mae'n dal i fod yn fwriad adolygu trefniadau ar gyfer y grŵp hwn yn 2021/22.

Nid oes gan y Bwrdd ei Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol ar waith. Mae pwysau'r pandemig wedi golygu na wnaed unrhyw waith i lunio cyfansoddiad y grŵp hwn yn ystod 2020/21.
Gan nad yw'r Grŵp hwn yn bodoli, mae'r Bwrdd yn cyfeirio at weithwyr clinigol proffesiynol trwy ei gyfarwyddwyr clinigol (y Cyfarwyddwr Meddygol, y Cyfarwyddwr Nyrsio, y Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd a'r Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus) a grwpiau rheoli fel Penaethiaid y Grŵp Nyrsio a Bydwreigiaeth a Phenaethiaid Therapïau. Mae'r Bwrdd hefyd yn cyfeirio at Feddygon Teulu trwy ei drefniadau clystyrau.
Y bwriad yw bwrw ymlaen â threfniadau ar gyfer y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol yn 2021/22.

## CYD-BWYLLGORAU

Mae'r Prif Weithredwr yn darparu adroddiadau rheolaidd ar waith y Cyd-bwyllgorau i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod, a gellir gweld y rhain ar wefan y Bwrdd Iechyd.

## Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a Phwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys yn gyd-bwyllgorau Iechyd Cymru, a sefydlwyd dan Gyfarwyddiadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (Cymru) 2009 (2009/35) a 2014 (2014/9 (w.9)) a Chyfarwyddiadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (Cymru) 2014 (2014/8 (W.8)).

## GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH AC AR Y CYD

Mae'r Prif Weithredwr yn darparu adroddiadau rheolaidd ar waith y Byrddau Partneriaeth i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod, a gellir gweld y rhain ar wefan y Bwrdd Iechyd.

## Cyngor Sir Powys

Mae gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys (CSP) gyfres o gytundebau Adran 33 cyffredin ac mae'r sefydliadau'n rheoli cyd-drefniadau ar gyfer Cartrefi Gofal, y Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol, Glan Irfon, gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), Gwasanaethau Ailalluogi a Chamddefnyddio Sylweddau trwy'r cytundebau hyn. Yn ogystal â chytundebau Adran 33, mae yna Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith ynglŷn â gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr ac mae yna nifer o feysydd allweddol lle ceir gweithio integredig, gan gynnwys: Gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu, pobl hŷn a phlant. Caiff trefniadau Adran 33 eu goruchwylio gan Gyd-fwrdd Partneriaeth, a amlinellir isod.

## Cyd-fwrdd Partneriaeth

Gwnaed Powys yn rhanbarth yn ei rhinwedd ei hun dan Ran 9 o Ddeddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn sgil hyn, ynghyd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, a'r cyd-ymgyrch tuag at fwy o integreiddio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Sir, fe sefydlodd BIAP a CSP Gyd-fwrdd Partneriaeth ym mis Chwefror 2016. Mae hyn yn dod ag arweinwyr strategol enwebedig o CSP a'r Bwrdd Iechyd at ei gilydd i sicrhau gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ar draws y sefydliadau o fewn y sir er budd pobl Powys. Mae'r Cyd-fwrdd Partneriaeth yn gyfrifol am gadw llygad ar yr agenda integreiddio. Rhoddwyd Cylch Gorchwyl ffurfiol ar waith ac arwyddwyd cytundeb ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a CSP.

## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys

Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw'r corff statudol a sefydlwyd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n dwyn cyrff cyhoeddus ym Mhowys ynghyd i ddiwallu anghenion dinasyddion Powys, heddiw ac yfory. Nod y grŵp yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Powys. Gan weithio'n unol â'r pum dull o weithio, mae'r Bwrdd wedi cyhoeddi ei Asesiad Llesiant a'i Gynllun Llesiant. Mae'r Cynllun Llesiant, sydd wedi'i ddatblygu trwy ymgysylltu helaeth, yn gosod pedwar amcan lleol ar gyfer y Powys rydyn eisiau eu gweld erbyn 2040. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion hyn trwy gyflenwi'r strategaeth iechyd a gofal a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI). Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gosod 12 cam llesiant yn ei Gynllun Llesiant ac fe fyddwn yn canolbwyntio ar y rhain yn ystod 2018-21 i gyfrannu at gyflawni'r amcanion. Y camau hyn yw'r rheini lle gellir gwneud y gwahaniaeth mwyaf trwy ddatblygu atebion gyda'n gilydd.

## Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys

Sefydlwyd Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys ym mis Medi 2018 fel cyd-bwyllgor â chynrychiolwyr o'r sefydliadau sy'n eistedd ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys. Cyfarfu'r Pwyllgor hwn yn ystod y flwyddyn i graffu ar gynnydd â chamau 11 a 12 y Cynllun Llesiant.

## Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys yw'r corff cyfreithiol statudol a sefydlwyd ym mis Ebrill 2016 yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ei rôl allweddol yw nodi meysydd gwelliant allweddol ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth ym Mhowys. Mae'r dasg o nodi cyfleoedd i integreiddio rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd hefyd wedi'i gosod yn gyfreithiol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cyflawnwyd hyn trwy adeiladu ar y blynyddoedd o gydweithio a thrwy ddatblygu'r strategaeth iechyd a gofal sydd wedi nodi blaenoriaethau allweddol. Ceir amlinelliad o'r cyfleoedd allweddol ar gyfer gweithio integredig sydd wedi'u nodi a'r camau i'w cymryd i'w cefnogi yn y Cynllun Ardal, gan ganolbwyntio ar 'Wireddu'r Weledigaeth'. Y blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yw Canolbwyntio ar Lesiant, Mynd i'r Afael â'r 4 Mawr (Canser, Clefydau cardiofasgwlaidd, Clefydau anadlol ac Iechyd meddwl), Help a Chefnogaeth Gynnar a Gofal Cydgysylltiedig. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wrthi ar hyn o bryd yn goruchwylio prosiect integredig mawr yng Ngogledd Powys sy'n darparu model gofal newydd ar y cyd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ac yn ehangu i gynnwys llety â chymorth ac addysg gynradd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dosbarthu Cronfa Gofal Integredig ledled Cymru i'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru. Nod y gronfa yw ysgogi a galluogi gweithio integredig rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a darparwyr annibynnol i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy. Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys yn

gyfrifol am oruchwylio a rheoli'r defnydd o'r gronfa ym Mhowys.

## Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth Cymru

Ar ôl i Lywodraeth Cymru gydnabod canolbarth Cymru yn ffurfiol fel ardal gynllunio ddynodedig, daeth Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth yn Gyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth Cymru ym mis Mawrth 2018. Mae cynllun tymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, sef 'Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol', yn manylu ar weledigaeth hirdymor i'r dyfodol o 'drefn system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol' sy'n canolbwyntio ar iechyd, llesiant ac atal salwch. Mae Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru'n cefnogi'r cyfeiriad teithio hwn ac mae ei Fwriad Strategol yn manylu ar yr hyn y byddwn yn ei wneud i sicrhau bod yna ddull cydgysylltiedig o fynd ati i gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal ledled Canolbarth Cymru dros y tair blynedd nesaf.

## Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Mae Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi'i sefydlu dan Ymddiriedolaeth GIG Felindre sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau cydwasanaethau, gan gynnwys rheoli a darparu Cydwasanaethau i'r GIG yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth am drefniadau llywodraethu a lletya'r pwyllgorau hyn i'w gweld yn Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd ar wefan y Bwrdd Iechyd.

## Swyddogaethau y mae BIAP yn eu lletya

Er mwyn cydymffurfio â cheisiadau o du Gweinidogion Cymru, mae BIAP yn lletya'r swyddogaethau a ganlyn:

- **Y saith Cyngor Iechyd Cymuned sy'n gweithredu ledled Cymru, a'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru:** Mae'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn gweithredu ledled Cymru ac yn rhoi help a chyngor os oes gan ddinasyddion broblemau â gwasanaethau'r GIG, neu gwynion amdanynt. Maent yn sicrhau bod safbwyntiau ac anghenion dinasyddion yn dylanwadu ar y polisïau a'r cynlluniau y mae darparwyr iechyd yn eu hardal yn eu rhoi ar waith. Maent yn monitro ansawdd gwasanaethau'r GIG o safbwynt dinesydd ac yn darparu gwybodaeth am sut i gael gafael mewn gwasanaethau GIG. Sefydlwyd Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru ym mis Ebrill 2004 â'r nod o gynghori, cynorthwyo a monitro Cynghorau Iechyd Cymuned o ran perfformio eu swyddogaethau a hefyd cynrychioli eu safbwyntiau a'u buddion ar y cyd i Weinidogion Cymru. Yn 2015, diwygiwyd y rheoliadau a datganwyd yn glir bod

gan y Bwrdd gyfrifoldeb am osod safonau a monitro perfformiad y Cynghorau Iechyd Cymuned, ymddygiad aelodau a pherfformiad swyddogion, yn ogystal â gweithredu Gweithdrefn Gwyno.

- **Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW):** Rhith-sefydliad cenedlaethol, amlweddog yw HCRW ac mae'n cael ei ariannu a'i oruchwylio gan Is-adran Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Llywodraeth Cymru. Mae'n darparu seilwaith i gefnogi a chynyddu capasiti ym maes ymchwil a datblygu, yn rhedeg nifer o gynlluniau ariannu ac yn rheoli gwaith dyrannu cyllid ymchwil a datblygu'r GIG yng Nghymru. Ei nod yw cynhyrchu a chefnogi ymchwil ragorol i wella iechyd a gofal pobl yng Nghymru ar draws amrywiaeth o gyflyrau ac amgylcheddau.

Nid yw Bwrdd BIAP yn gyfrifol am gyflawni amcanion y swyddogaethau hyn nac am eu rheoli o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae'n gyfrifol am sicrhau bod y swyddogaethau'n cael eu staffio gan ddefnyddio mecanweithiau recriwtio priodol, a'u bod yn cydymffurfio â Chyfarwyddiadau ariannol sefydlog BIAP a'i bolisïau Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.
Mae'r Bwrdd Iechyd wedi enwebu ei Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol fel y Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer y Cynghorau Iechyd Cymuned a'i Gyfarwyddwr Meddygol fel y Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae swyddogion allweddol o dimau cyllid a'r gweithlu wedi'u nodi i gefnogi'r swyddogaethau, fel bo'n briodol.
Yn ystod 2020-21, gwnaethom ni barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gryfhau trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer y swyddogaethau rydym yn eu lletya.

Bydd angen datblygu fframweithiau atebolrwydd cadarn, ar y cyd â Llywodraeth Cymru a'r cyrff a letyir, i ganiatáu i bob swyddogaeth gyflawni ei gyfrifoldebau.

## PWRPAS Y SYSTEM RHEOLAETH FEWNOL

Fel rwyf wedi adrodd mewn Datganiadau Llywodraethu Blynyddol blaenorol, mae'r system rheolaeth fewnol sydd ar waith ar draws Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na chael gwared â phob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig, ac nid llwyr, o effeithiolrwydd. Seiliwyd y system rheolaeth fewnol ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Bwrdd Iechyd, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.
Gallaf gadarnhau bod y system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yn y Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Fodd bynnag, addaswyd neu gohiriwyd rhai elfennau o'r system rheolaeth fewnol yn ystod 2020-21 i gefnogi ymateb y Bwrdd Iechyd i COVID-19, yn benodol:

- Canslwyd un o gyfarfodydd Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio'r Bwrdd a thri o gyfarfodydd Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Bwrdd yn ystod 2020-21, gyda'r Bwrdd yn amsugno unrhyw fusnes brys;
- Mabwysiadwyd dull wedi'i ailflaenoriaethu o fynd ati i roi Argymhellion Archwiliadau ar waith, er mwyn gallu canolbwyntio ar feysydd risg uchel;
- Gohiriwyd tri adolygiad Archwilio Mewnol i 2021/22;
- Dim ond unwaith y gwnaeth y Grŵp Risg a Sicrwydd gyfarfod yn ystod y flwyddyn, er bod rheoli risg wedi parhau i fod yn gyfrifoldeb rheolwyr, fel y manylwyd arno yn y Fframwaith Rheoli Risg;
- Sefydlwyd Model Gorchymyn a Rheoli i arwain y cynllunio a'r ymateb i COVID-19. Adolygwyd y system rheolaeth fewnol yn barhaus a'i mireinio trwy bob un o gyfnodau ymateb y Bwrdd Iechyd i COVID-19.

## Y GALLU I YMDRIN Â RISGIAU AC AGWEDDAU ALLWEDDOL AR Y FFRAMWAITH RHEOLI

Fel Swyddog Atebol, rwyf yn gyffredinol gyfrifol am reoli risg ac adrodd i'r Bwrdd ar effeithiolrwydd rheoli risg yn y Bwrdd Iechyd drwyddo draw. Mae fy nghyngor i'r Bwrdd wedi'i seilio ar wybodaeth oddi wrth swyddogion gweithredol ac adborth a dderbyniwyd oddi wrth Bwyllgorau'r Bwrdd, yn enwedig y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch.

Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol (Pwyllgor y Bwrdd, fel y gwelir ar dudalen 88) yn rhoi cyfle i gyfarwyddwyr gweithredol ystyried, gwerthuso a mynd i'r afael â risg a mynd ati i ymgysylltu â'r Bwrdd a'i bwyllgorau ac adrodd iddynt ar broffil risgiau'r sefydliad. Hefyd, mae'r Grŵp Risg a Sicrwydd, sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Cynorthwyol ac Uwch Reolwyr i gadw llygad ar waith rheoli risgiau gweithredol, yn adrodd i'r Pwyllgor Gweithredol.

Ysgrifennydd y Bwrdd yw arweinydd y Bwrdd Iechyd ar gyfer risg, ac mae'n gyfrifol am sefydlu'r fframwaith polisi a systemau a phrosesau sydd eu hangen i reoli risgiau yn y sefydliad. Gan ddibynnu ar natur risg, fe fydd Cyfarwyddwyr eraill yn cymryd y llyw, er enghraifft, daw risgiau i ddiogelwch cleifion o fewn cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Meddygol, y Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd.

## Y FFRAMWAITH RHEOLI RISG

Mae'r Bwrdd o'r farn bod rheoli risg yn gadarn yn rhan hanfodol o reoli da a'r nod yw sicrhau ei fod yn rhan hanfodol o ddiwylliant y Bwrdd Iechyd. Mae'n elfen gynyddol bwysig o gynllunio'r Bwrdd Iechyd, gosod y gyllideb a phrosesau perfformiad.

Mae Fframwaith Rheoli Risg y Bwrdd yn manylu ar brosesau a mecanweithiau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer nodi, asesu ac uwchgyfeirio risgiau. Mae wedi'i ddatblygu i greu diwylliant rheoli risg cadarn yn y Bwrdd Iechyd drwyddo draw trwy fanylu ar y dull a'r mecanweithiau y bydd y Bwrdd Iechyd yn eu defnyddio i:

- Sicrhau bod yr egwyddorion, y prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer arfer gorau wrth reoli risg yn gyson yn y Bwrdd Iechyd drwyddo draw, ac yn addas i'r pwrpas;
- Sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u rheoli trwy Fframwaith Sicrwydd sefydliadol cadarn a bod Cofrestrau Risgiau Corfforaethol a Risgiau Cyfarwyddiaethau yn cyd-fynd ag ef;
- Gwreiddio gweithdrefnau rheoli risg a gweithdrefnau adrodd ar risgiau lleol wedi'u sefydlu i sicrhau proses reoli integredig effeithiol yng ngweithgareddau'r Bwrdd Iechyd drwyddynt draw;
- Sicrhau bod dealltwriaeth o risgiau'r sefydliad a'u heffaith debygol yn darparu sail ar gyfer penderfyniadau strategol a gweithredol;
- Sicrhau bod risgiau i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd yn cael eu dileu, eu trosglwyddo neu eu rheoli'n rhagweithiol;
- Rheoli'r risgiau clinigol ac anghlinigol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd mewn ffordd gydgysylltiedig; a
- Sicrhau bod y Bwrdd a'i Bwyllgorau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am risgiau arwyddocaol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd ac am y cynlluniau cysylltiedig i drin y risg.

Mae'r Fframwaith Rheoli Risg yn manylu ar broses adrodd aml-haen, sy'n cynnwys y Fframwaith Sicrwydd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, Cofrestrau Risgiau Cyfarwyddiaethau, Cofrestrau Risgiau Lleol a Chofrestrau Risgiau Prosiectau. Mae wedi'i ddatblygu i helpu i feithrin a chynnal diwylliant sefydliadol sy'n annog cymryd risg yn briodol, rheoli perfformiad yn effeithiol a dysgu sefydliadol er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir yn barhaus.

Mae'r Fframwaith Rheoli Risg yn manylu ar y ffyrdd y caiff risgiau eu nodi a'u hasesu. Mae nifer o bolisïau sy'n ymwneud â rheoli risg wrth ei wraidd, gan gynnwys adrodd ar ddigwyddiadau, llywodraethu gwybodaeth, hyfforddiant, iechyd a diogelwch, trais ac ymddygiad ymosodol, cwynion, rheoli haint, chwythu'r chwiban, adnoddau dynol, cydsynio, codi a chario a diogelwch eiddo.

Mae'r Fframwaith Rheoli Risg ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd.

Parhaodd hyfforddiant Rheoli Risg ar sail ad-hoc yn ystod 2020, i raddau helaeth oherwydd effaith COVID-19. Cyflenwyd hwn ar gais grwpiau a thimau gwasanaeth. Yn ystod 2021-22, datblygir dadansoddiad o anghenion hyfforddiant mewn rheoli risg i ddatblygu cynllun hyfforddi cadarn o ran risg i'r Bwrdd Iechyd.

Mae Meddygon Teulu, Fferyllwyr, Ymarferwyr Deintyddol, Optometryddion, Cartrefi Gofal Nyrsio, Mudiadau Gwirfoddol a'r rheini y mae gennym

berthynas partneriaeth â nhw i ddarparu gwasanaeth, e.e. Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd eraill, yn gyfrifol am nodi a rheoli eu risgiau eu hunain trwy'r prosesau contractiol sydd ar waith.

Mae cynrychiolwyr Cynghorau Iechyd Cymuned yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd lle trafodir risg. Lle bo gwaith yn cael ei gyflenwi mewn partneriaeth â phartneriaid strategol, er enghraifft trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y sefydliad lletyol sy'n arwain y trefniadau rheoli risg. Mae'r trefniadau rheoli risg hyn yn asio â Fframwaith Rheoli Risg y Bwrdd Iechyd, er mwyn bwydo i Cofrestrau Risgiau Cyfarwyddiaethau a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol perthnasol, lle bo angen.

## Rheoli Risgiau yn Ystod 2020/21

Risgiau Strategol

Risgiau strategol yw'r risgiau hynny sy'n bygwth cyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd neu ei fodolaeth barhaus.

Cofnodir risgiau strategol yng Nghofrestr Risgiau Corfforaethol y Bwrdd, sy'n darparu crynodeb sefydliad-eang o risgiau sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd. Dyma'r meini prawf ar gyfer cynnwys risg yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol:

- Rhaid i'r risg gynrychioli mater a allai atal cyflawni un neu fwy o amcanion strategol y Bwrdd Iechyd;
- Ni ellir rhoi sylw i'r risg ar lefel cyfarwyddiaethau;
- Mae angen mesurau rheoli i leihau neu ddileu'r risg;
- Mae angen mewnbynnu cryn dipyn o adnoddau i drin y risg (cyllid, pobl, amser ac ati).

O ystyried y pandemig COVID-19, roedd angen i ddull y Bwrdd o drin rheolaeth risg yn ystod 2020-21 fod yn gytbwys ac yn gymesur er mwyn sicrhau trefniadau rheoli risg effeithiol ac, ar yr un pryd, sicrhau y byddai capasiti ar gael i gynllunio ar gyfer COVID-10 ac ymateb iddo. Bydd angen i'r dull o fynd ati i ryddhau capasiti a phennu blaenoriaethau (yn gysylltiedig â COVID-19 a 'busnes fel arfer') yn ystod y cyfnod hwn gael ei bennu trwy asesiad risg.

Yn ystod 2020-21, parhaodd y Bwrdd i adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol er mwyn:

- Ystyried a fyddai angen diweddaru unrhyw risgiau sy'n bodoli eisoes i adlewyrchu effaith COVID-19 arnynt pe gallai hynny leihau/ cynyddu'r sgôr risg o ran tebygolrwydd a/ neu effaith;
- Ystyried a oes yna risgiau newydd yn codi o effaith COVID-19 ar gyflawni amcanion strategol y bwrdd;

- Asesu a gwneud argymhellion i’r Bwrdd ynghylch y risgiau hynny lle gallai fod angen addasu goddefiant a’r archwaeth am risg er mwyn cydnabod effaith COVID-19 ar y sefydliad.

Risgiau i Ymateb i COVID-19
Yng ngoleuni’r pandemig COVID-19, sefydlodd y Prif Swyddog Gweithredol strwythur gorchymyn a rheoli fel rhan o drefniadau Cynllunio Parhad Busnes, dan arweiniad y Grŵp Strategol (Aur). Mae’r Grŵp Aur wedi bod yn gyfrifol am bennu’r strategaeth a’r polisi cydgysylltiedig ar gyfer rheolaeth gyffredinol ar ymateb y Bwrdd Iechyd i COVID-19, er mwyn amddiffyn enw da’r sefydliad a sicrhau cyflenwad gofal sy’n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddiogel ar gyfer poblogaeth Powys.

Wrth asesu gallu’r Bwrdd Iechyd i ymateb i COVID-19, mae’r Grŵp Aur wedi nodi’r prif risgiau y mae gofyn eu lliniaru a’u monitro, a datblygwyd Cofrestr Risgiau COVID-19. Mae a wnelo’r risgiau a geir yng Nghofrestr Risgiau COVID-19 dim ond â threfniadau ymateb y Bwrdd Iechyd i COVID-19, ac nid ydynt yn cynnwys y risgiau sy’n gysylltiedig â COVID-19 sy’n berthnasol i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd (a gofnodir trwy’r Gofrestr Risgiau Corfforaethol) neu’r risgiau hynny sy’n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaeth (a gofnodir trwy’r Cofrestrau Risgiau Cyfarwyddiaethau).

Mae’r Grŵp (Aur) Strategol yn adolygu Cofrestr Risgiau COVID-19 yn rheolaidd, ac adroddodd ar hyn i’r Bwrdd ochr yn ochr â’r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ystod 2020-21.

## PROFFIL RISG Y BWRDD IECHYD

Fel y gellir gweld o’r Map Gwres yn Ffigur 5, ar ddiwedd mis Mawrth 2021, roedd nifer o risgiau allweddol i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd wedi’u nodi. Gellir gweld manylion llawn y rheolaethau sydd ar waith a’r camau a gymerwyd i fynd i’r afael â’r risgiau hyn yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar wefan y bwrdd iechyd.

**Ffigur 5: Map Gwres Risg Strategol**

| Impact | | | 1 Rare | 2 Unlikely | 3 Possible | 4 Likely | 5 Almost Certain |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Catastrophic | 5 | | | | | |
| | Major | 4 | | ▪ The health board does not meet its statutory duty to achieve a breakeven position in 2020/21 | ▪ ICT systems are not robust or stable enough to support safe, effective and up to date care<br>▪ The health board is unable to attract, recruit and retain staff to some medical and clinical roles, principally registered nurses and doctors<br>▪ Effective governance arrangements are not embedded across all parts of the health board<br>▪ Resources (financial and other) are not fully aligned to the health board's priorities | ▪ The care provided in some areas is compromised due to the health board's estate being non-compliant and not fit for purpose<br>▪ Fragmented and unsustainable service models as a result of population changing need and service reconfiguration of neighbouring NHS bodies and the response of multiple providers / systems to the COVID-19 pandemic<br>▪ Potential adverse impact on business continuity and service delivery arising from a pandemic outbreak of an infectious disease (COVID-19)<br>▪ The Health Board fails is non-compliant with legal obligations in respect of Health and Safety due to a lack of identification and management of health and safety related risks across the organisation<br>▪ A fire incident occurring within health board premises is not effectively managed | ▪ Some commissioned services are not sustainable or safe, and do not meet national targets |
| | Moderate | 3 | | | | ▪ The health board does not comply with the Welsh Language standards, as outlined in the compliance notice<br>▪ Services provided are fragile, not sustainable, and impact on PTHB ability to achieve National Outcome Framework measures | |
| | Minor | 2 | | | | | |
| | Negligible | 1 | | | | | |
| | | | Likelihood | | | | |

Mae trosolwg o'r risgiau allweddol (h.y. y rheini yn adran goch y Map Gwres), a'r camau sydd wedi'u cymryd, i'w gweld yn Ffigur 6.

### Ffigur 6: Risgiau Allweddol a Rheolaethau

| DISGRIFIAD O'R RISG | MESURAU RHEOLI AR WAITH, CAMAU A GYMERWYD A CHAMAU GWELLA |
|---|---|
| Mae'r ffaith nad yw ystâd y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio a'i bod yn anaddas i'w diben yn cyfaddawdu'r gofal a ddarperir mewn rhai meysydd | **MESURAU RHEOLI AR WAITH/CAMAU A GYMERWYD:**<br>**<u>YSTADAU</u>**<br>▪ Is-grwpiau arbenigol ar gyfer pob disgyblaeth cydymffurfio.<br>▪ Cyflwyno cynlluniau gwella seiliedig ar risgiau.<br>▪ Nodi arweinwyr arbenigol.<br>▪ Sefydlu Grŵp Cydymffurfio Ystadau a Grŵp Rheoli Cyfalaf.<br>▪ Grŵp Nwyon Meddygol; Grŵp Diogelwch Tân; Grŵp Diogelwch Dŵr; Grŵp Iechyd a Diogelwch ar waith. Sefydlu Grŵp Diogelwch Cymorth Anadlu newydd.<br>▪ Datblygu Rhaglen Gyfalaf ar gyfer cydymffurfio a'i chymeradwyo.<br>▪ Gosod Cyfalaf ac Ystadau fel Blaenoriaeth Sefydliadol penodol yng Nghynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd.<br>▪ Rhoi sylw (yn barhaus) i faterion yn ymwneud â chynnal a chadw a chydymffurfio.<br>▪ Mynd i'r afael â gwelliannau o ran cynnal a chadw a chydymffurfio i sicrhau bod amgylchedd y claf yn ddiogel, yn briodol ac yn unol â safonau.<br>**<u>CYFALAF</u>**<br>▪ Gweithdrefnau Cyfalaf ar gyfer gweithgareddau prosiect.<br>▪ Goruchwylio/ cyfarfod â staff caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG fel mater o drefn.<br>▪ Cyngor a chefnogaeth arbenigol oddi wrth Wasanaethau Ystadau Arbenigol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG.<br>▪ Adolygiadau archwilio gan staff Archwilio a Sicrwydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG. |

| | |
|---|---|
| | ▪ Cyswllt agos â Swyddogaeth Cyfalaf Llywodraeth Cymru.<br>▪ Adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.<br>▪ Datblygu Rhaglen Gyfalaf a'i chymeradwyo.<br>▪ Manylu ar Achosion Busnes Strategol, Amlinellol a Llawn gan ddiffinio risg.<br>▪ Gosod Cyfalaf ac Ystadau fel Blaenoriaeth Sefydliadol penodol.<br>**<u>YR AMGYLCHEDD</u>**<br>▪ Archwiliad allanol arferol ISO 14001 i gadw achrediad.<br>▪ Grŵp yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd.<br>▪ Cefnogaeth a goruchwyliaeth Gwasanaethau Ystadau Arbenigol (Yr Amgylchedd) Partneriaeth Cydwasanaethau GIG.<br>▪ Cymorth a chyngor Llywodraeth Cymru i nodi ac ariannu mentrau prosiectau datgarboneiddio. |
| | **CAMAU GWELLA I BARHAU Â NHW YN 2021-22:** |
| | ▪ Gweithredu'r Rhaglen Gyfalaf a datblygu'r rhaglen gyfalaf hirdymor.<br>▪ Parhau i geisio parhad cyllid rhaglen piblinell Cyfalaf Llywodraeth Cymru.<br>▪ Datblygu gallu ac effeithiolrwydd y swyddogaeth Ystadau a Chyfalaf.<br>▪ Adolygu strwythur presennol yr adran cyfalaf ac ystadau – gwelliannau i strwythur Tîm Rheolwyr ac Uwch Reolwyr Ystadau ar waith. Ail haen adolygu strwythur wedi'i oedi oherwydd gweithgarwch COVID-19. |
| Modelau gwasanaeth tameidiog ac anghynaliadwy o ganlyniad i'r newid yn angen y boblogaeth ac ad-drefnu cyrff GIG cyfagos ac ymateb nifer o ddarparwyr/ systemau i'r pandemig COVID-19 | **MESURAU RHEOLI AR WAITH/CAMAU A GYMERWYD:** |
| | Mae nifer o bwyntiau rheoli critigol yn dal i fod ar waith, ond mae rhai wedi'u hatal dros dro o ganlyniad i Gynllunio/ Gweithredu COVID-19 ar draws GIG Cymru a GIG Lloegr. Caiff y rhain eu hadfer fesul cam, gan ddibynnu ar flaenoriaethau adleoli ar gyfer y timau cynllunio a chomisiynu a Thîm Rhaglen Llesiant Gogledd Powys.<br><br>Mae pwyntiau rheoli critigol yn dal i fod ar waith:<br>▪ Sesiynau Briffio'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad gyda CIC; Pwyllgor Cynllunio Gwasanaethau CIC wedi'i adfer o fis Gorffennaf 2020, Pwyllgorau Lleol wedi'u hadfer.<br>▪ Cyfarfodydd y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Cynllunio.<br>▪ Mae datblygu'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021/2022 ar y gweill a chaiff ei gyflwyno i Fwrdd BIAP a Llywodraeth Cymru ar 30 Mehefin 2021; cynllun a fydd yn pennu cyfeiriad fydd hwn, gan adlewyrchu'r cymhlethdod a'r ansicrwydd sylweddol yn yr amgylchedd cynllunio ac ymateb i ofyniad Llywodraeth Cymru am ddull mwy llyfn ac addasol o weithredu. Bydd yn cynnwys arfarniad o ddysgu a thystiolaeth a set o flaenoriaethau hanfodol ar gyfer 21/22 yng nghyd-destun atal ac ymateb parhaus i COVID-19 a chyflenwi gwasanaeth gweithredol hanfodol, yn ogystal â chynllun tymor hir ar draws y system gyfan i ymateb i anghenion trigolion Powys o ystyried effaith y pandemig. Mae hyn wedi'i osod yng nghyd-destun gweithio mewn partneriaeth ar gyfer 'Powys Iach a Gofalgar', a blaenoriaethau gweinidogol/ deddfwriaeth. |

| | |
|---|---|
| | ▪ Mae cylchred cynllunio chwarterol wedi bod ar waith trwy gydol 2020 a'r disgwyl yw y bydd yn parhau yn 2021 i ymateb i ofynion Llywodraeth Cymru o ran cynllunio chwarterol – mae hyn yn cynnwys adolygu cynlluniau darparwyr cyfagos ar ôl eu cyflwyno.<br>▪ Mae Cynllun Diogelu'r Gaeaf ar gyfer Ch3/Ch4 wedi'i gwblhau ac mae'n adlewyrchu Blaenoriaethau Strategol BIAP; mae cynllun gweithredol y gaeaf hefyd wedi'i gwblhau mewn partneriaeth â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol; mae Fframwaith Opsiynau Gwasanaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu'n cael ei ddefnyddio i gefnogi gwaith cynllunio gweithredol.<br>▪ Rhaglen Llesiant Gogledd Powys – mae grid craffu Llywodraeth Cymru ar Achos Busnes y rhaglen wedi'i dderbyn ac ymatebwyd iddo yn ystod mis Chwefror 21. Dechreuwyd trafodaethau ynglŷn â chaffael i gefnogi Achosion Amlinellu Strategol o ran iechyd, gofal a byw â chymorth a'r Seilwaith. Penodwyd ARCHUS i gefnogi â gwaith modelu'r galw, y capasiti a'r cyllid. Cymeradwywyd y mwyafrif o achosion busnes prosiectau cyflymu newid ac mae prosiectau naill ai wedi dechrau neu maent wrthi'n cael eu sefydlu. Mae gwaith ar y gweill ar gynllun buddion i gytuno ar ddangosyddion a chasglu data sylfaen. Mae Bwrdd Rhaglen De Powys eisoes ar waith i weithredu'r ymateb i Raglen De Cymru ac agor Ysbyty Prifysgol y Faenor yn nhymor y gwanwyn 2021. Mae'r cwmpas wedi'i ddiwygio i alluogi llwybr carlam ar gyfer llwybrau De Powys erbyn canol mis Tachwedd 2020. Cyflawnwyd cyfnod cyntaf y rhaglen hyd at agor Ysbyty Prifysgol y Faenor; mae ail gyfnod y rhaglen ar y gweill.<br>▪ Mae mecanweithiau partneriaeth ar waith mewn meysydd gwaith allweddol, gan gynnwys cydoruchwylio a chydarwain rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu, Cartrefi Gofal, Gofal Heb Ei Drefnu a Pharodrwydd ar gyfer y Gaeaf. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u hailsefydlu ac maent wedi dechrau cynllunio adferiad.<br>▪ Mae Cynlluniau Ymgynghori Powys ac adroddiadau sefyllfa wedi'u datblygu ar gyfer pob ymgynghoriad byw i sicrhau bod ymatebion BIAP yn ystyried yr effaith ar drigolion Powys.<br><br>Mesurau rheoli a fydd yn cael eu hailystyried, eu haddasu neu eu hadfer pan fydd yn ddiogel ac yn briodol adleoli gweithwyr yn ôl i gynllunio newid strategol, yn lle cynllunio ar gyfer COVID-19: |
| | ▪ Proses Cymryd Stoc o Newid Strategol a ddisodlwyd gan y prosesau a ddatblygwyd yn ystod 2020 fel rhan o'r ymateb i COVID-19 – mae'n debygol y bydd hyn yn parhau i fod yn angenrheidiol ar gyfer 20/21 gyda'r broses Fframwaith Sicrwydd Comisiynu ddiwygiedig yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ac yn monitro newid gwasanaethau cyfagos.<br>▪ Proses Asesu Effaith ar waith ar gyfer dadansoddi rhaglenni newid strategol byw yn fanwl. |

| | |
|---|---|
| | ▪ Cymryd rhan mewn mecanweithiau Rhaglenni allanol fel bo'n briodol ar gyfer rhaglenni byw allweddol, naill ai â briff gwylio / i dderbyn gwybodaeth neu fel rhywun sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni yn ymwneud â 'Future Fit' y GIG. |
| | **CAMAU GWELLA I BARHAU Â NHW YN 2021-22:** |
| | ▪ Darparu rheolaeth gadarn ac ymateb i Raglen 'Future Fit' yn Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford.<br>▪ Monitro effaith yn barhaus wrth i Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol BIP Hywel Dda gael ei rhoi ar waith.<br>▪ Darparu rheolaeth gadarn o'r ymgysylltu a'r ymateb i Gynllun Cynaliadwyedd a Thrawsnewid a rhaglen Strôc Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon.<br>▪ Darparu rheolaeth gadarn o'r ymgysylltu a'r ymateb i'r rhaglen Dyfodol Clinigol yn BIP Aneurin Bevan.<br>▪ Rheoli'n gadarn yr ymateb â'r ymgysylltu â rhaglenni a datblygiadau newid gwasanaethau allanol wrth iddynt godi yn ystod y flwyddyn.<br>▪ Fel aelod o Gyd-Bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal, cefnogi cyflawni'r Cynllun Gweithredu cytunedig.<br>▪ Ffocws allweddol ar gyfer rhaglen gogledd Powys:<br>• Model gofal a llesiant integredig tymor byr:<br>o Pob prosiect cyflymu newid i fod â llinellau sylfaen, dangosyddion, cerrig milltir a chytuno ar gynlluniau cyllid ar eu cyfer ym mis Ebrill 21.<br>o Achos busnes wedi'i ddatblygu ar gyfer Offthalmoleg Dirywiad Macwlaidd Gwlyb sy'n Gysylltiedig ag Oedran. Cadarnhau buddsoddiad yn y tîm anadlu amlddisgyblaeth. Cytuno ar ffocws ac arweinyddiaeth ar gyfer rhagsefydlu. Gwneud dadansoddiad bylchau o wasanaeth cymunedol, edrych ar fodelau newydd ar gyfer y dyfodol a chytuno ar gynllun gweithredu.<br>o Parhau i gyflwyno rhaglenni Powys Gyda'n Gilydd (Plant yn Gyntaf), Bach a Iach, dod â phlant sy'n derbyn gofal yn ôl i Bowys.<br>• Gweithio i gefnogi model gofal a llesiant integredig tymor hir:<br>o Lansio model gofal a llesiant integredig ar ddiwedd y gwanwyn.<br>o Modelu'r galw, y capasiti a'r cyllid i gefnogi model gofal newydd – asesu cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.<br>o Gwneud gwaith cynllunio gwasanaeth manwl i gynnwys cynllun penodol i wasanaethau ar gyfer RRC/CWH ac adolygu a datblygu llwybrau i gefnogi'r achos busnes.<br>o Achosion Amlinellu Strategol ar gyfer Iechyd a Gofal, Seilwaith, Tai a Chymuned. |
| Effaith niweidiol bosibl ar barhad busnes a chyflenwi gwasanaeth yn sgil y brigiad yn achosion y pandemig a chlefyd | **MESURAU RHEOLI AR WAITH/CAMAU A GYMERWYD:** |
| | ▪ Rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu ar waith:<br>• Profion RT-PCR ar gael i boblogaeth Powys trwy borth ar-lein y DU.<br>• Gwasanaeth olrhain cysylltiadau yn gweithredu. |

| | |
|---|---|
| heintus (COVID-19) o ganlyniad i hyn | • Cell ymateb ranbarthol ar waith ar gyfer achosion a chlystyrau uwch.<br>▪ Trefniadau cydreoli a chydoruchwylio ar waith gyda Chyngor Sir Powys, gan gynnwys cyd-Grŵp Atal ac Ymateb.<br>▪ Gweithio fel rhan o'r system ehangach yng Nghymru trwy gymryd rhan mewn trefniadau cynllunio ac ymateb rhanbarthol a chenedlaethol.<br>▪ Cynllun Atal ac Ymateb Powys ar waith.<br>▪ Rhaglen brechu torfol wedi dechrau. |
| | **CAMAU GWELLA I BARHAU Â NHW YN 2021-22:** |
| | ▪ Gweithredu mesurau Atal ac Ymateb i COVID-19 yn barhaus, gan gynnwys:<br>  ▪ Profi, Olrhain a Diogelu<br>  ▪ Rheoli Brigiadau a Digwyddiadau a lleoliadau risg uchel<br>  ▪ Data a Gwyliadwriaeth<br>  ▪ Trefniadau cydnerthedd rhanbarthol<br>▪ Gweithredu Rhaglen Frechu COVID-19 yn barhaus, gan gynnwys:<br>  ▪ Cyflenwi yn unol â modelu a chyflenwi Cenedlaethol mewn Canolfannau Brechu Torfol, Gofal Sylfaenol ac amgylcheddau, yn ôl y galw<br>  ▪ Model Clinigol, Cyflenwi Clinigol a Thrin a Thrafod lleol<br>  ▪ Archebu a Gweinyddiaeth |
| Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol o ran Iechyd a Diogelwch oherwydd diffyg nodi a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch ledled y sefydliad | **MESURAU RHEOLI AR WAITH/CAMAU A GYMERWYD:** |
| | ▪ Ymgymryd â gweithdy Iechyd a Diogelwch.<br>▪ Nodi rhaglen waith asesu risgiau gwaith Iechyd a Diogelwch.<br>▪ Cyflenwi sesiynau asesu risg 'Awr Pŵer' trwy gydol 2021.<br>▪ Cefnogaeth broffesiynol arbenigol Uwch Swyddog Iechyd a Diogelwch.<br>▪ Sefydlu is-grwpiau arbenigol e.e. diogelwch tân, diogelwch dŵr, nwyon meddygol, cydymffurfiad ystadau, asbestos, pelydredd.<br>▪ Eitem sefydlog Grŵp Iechyd a Diogelwch ar risg.<br>▪ Ymateb i faterion y mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'u nodi.<br>▪ Ymateb i faterion y mae Archwiliad Mewnol wedi'u nodi.<br>▪ Fframwaith Rheoli Risg.<br>▪ Pecyn Cymorth a Thempled Asesu Risg.<br>▪ Polisïau Iechyd a Diogelwch.<br>▪ Cyflenwi hyfforddiant 'Gweithio'n Ddiogel' undydd IOSH ar gyfer Rheolwyr.<br>▪ Datblygu a dosbarthu fframwaith i wasanaethau ar gyfer y boblogaeth i nodi a rheoli risgiau Iechyd a Diogelwch. |
| | **CAMAU GWELLA I BARHAU Â NHW YN 2021-22:** |
| | ▪ Cwblhau ymarfer pen-bwrdd i nodi pa wasanaethau sy'n dilyn rhaglen o asesiadau risg.<br>▪ Darparu cefnogaeth a chymorth â ffocws i wasanaethau i'w galluogi i nodi a rheoli eu risgiau.<br>▪ Parhau i gyflwyno hyfforddiant 'Gweithio'n Ddiogel' undydd IOSH ar gyfer Rheolwyr. |
| Nid oes rheolaeth | **MESURAU RHEOLI AR WAITH/CAMAU A GYMERWYD:** |

| | |
|---|---|
| effeithiol pan geir tân ar safle'r Bwrdd Iechyd | ▪ Arolygiadau'r Gwasanaeth Tân – dogfennu cyfres o arolygiadau.<br>▪ Hyfforddiant Tân – rhaglen hyfforddi ar waith.<br>▪ Adrannu – cwblhau arolygon i nodi unrhyw ddiffygion, rhaglen barhaus o waith unioni yn ei lle, a gwell mesurau rheoli gweithgareddau gwaith yn eu lle.<br>▪ Drysau Tân – archwiliadau drysau tân ar amserlen Cynnal a Chadw Ataliol Cynlluniedig Ystadau ar gyfer staff mewnol.<br>▪ System Larwm Tân – asesu risg systemau a chytuno ar raglen i osod rhai newydd. Cynnal rhestr o asedau a'u cael wedi'u gwasanaethu i nodi methiannau mewn systemau.<br>▪ Goleuadau Argyfwng – gwirio goleuadau fel rhan o Raglen Ataliol Cynlluniedig Ystadau, a rhaglen waith ar gyfer gosod goleuadau newydd.<br>▪ Pobl Gyfrifol / Driliau Tân – cynghorwyr ar ddiogelwch tân yn gweithio gyda phob safle i ddiweddaru driliau tân ac adrodd ar gynnydd i'r Grŵp Diogelwch Tân.<br>▪ Cyfansoddion Gwastraff – risgiau wedi'u nodi a Gwasanaethau Cymorth yn rhoi gwelliannau ar waith. |
| | **CAMAU GWELLA I BARHAU Â NHW YN 2021-22:** |
| | ▪ Gwella dogfennaeth a chynlluniau ar gyfer pibellwaith awyru a gwlychwyr tân.<br>▪ Raglen gynlluniedig ar gyfer gosod Systemau Larwm newydd pan fo'r risg yn uchel y bydd hen rai yn meddu.<br>▪ Cytuno ar gyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru i gael Rhaglen lawn i osod Drysau Tân newydd. Nodi setiau drysau addas eu cadernid i fodloni safonau tân ac i alluogi ymgorffori mesurau gwrth-glymu.<br>▪ Gweithredu'r fframwaith pobl gyfrifol i sicrhau bod rolau wedi'u hyfforddi ar waith i redeg y broses driliau tân.<br>▪ Cytuno â Gwasanaethau Cymorth ac ar draws y sefydliad ar weithdrefn weithredu safonol ar gyfer storio gwastraff ac eitemau ailgylchu o amgylch pob safle.<br>▪ Adolygu hyfforddiant tân i ailganolbwyntio a mynd i'r afael ag unrhyw faterion yn ymwneud â chydnerthedd.<br>▪ Diweddaru pob Llawlyfr Diogelwch Tân.<br>▪ BIAP yn edrych ar opsiynau hyfforddi ar gyfer Drysau Tân fel bod modd achredu staff yn ffurfiol. Mae yna nifer o opsiynau hyfforddi wedi'u seilio ar y gwaith sydd i'w wneud. Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, bydd staff BIAP yn derbyn achrediad ffurfiol i fynd ati i wneud gwiriadau Cynnal a Chadw Ataliol Cynlluniedig a mân atgyweiriadau, a defnyddir arbenigwyr allanol ar gyfer atgyweiriadau sylweddol.<br>▪ Rhoi gwaith adrannu a nodwyd mewn arolygon blaenorol ar waith.<br>▪ Offer Diffodd Tân – contract cynnal a chadw offer diffodd tân yn destun sgorio ansawdd ar hyn o bryd, â'r nod o ddyfarnu contract erbyn mis Mehefin 2021. |
| Nid yw rhai gwasanaethau a gomisiynir yn gynaliadwy neu'n ddiogel, ac nid ydynt | **MESURAU RHEOLI AR WAITH/CAMAU A GYMERWYD:** |
| | ▪ Gweithredu'r Fframwaith Comisiynu Strategol (ar gyfer comisiynu system gyfan).<br>▪ Gwreiddio proses uwchgyfeirio'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu. |

| | |
|---|---|
| yn cyrraedd targedau cenedlaethol | ▪ Grŵp Comisiynu a Newid Strategol y Pwyllgor Gweithredol (gan gynnwys ystyried gwasanaethau bregus – ar hyn o bryd wedi'i ddisodli gan Gofnod Ysbytai Cyffredinol Dosbarth sy'n mapio newidiadau i lwybrau ar draws nifer o ddarparwyr ledled Cymru a Lloegr oherwydd y pandemig COVID-19).<br>▪ Adolygu rheolaidd mewn Cyfarfodydd Cyflenwi a Pherfformiad.<br>▪ Gwaith craffu gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.<br>▪ Gwaith craffu gan y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch.<br>▪ Archwiliadau mewnol.<br>▪ Cyfarfodydd Adolygu Ansawdd a Pherfformiad Contractau ar gyfer y 15 Darparwr GIG a darparwyr allweddol yn y sector preifat.<br>▪ Panel a Pholisi Ceisiadau am Gyllid Cleifion Unigol.<br>▪ Cyd-bwyllgor a Grŵp Rheoli PGIAC.<br>▪ Cytuno ar Lwybr Gofal Integredig PGIAC o fewn Cynllun Blynyddol BIAP ar gyfer 2021/22.<br>▪ Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys.<br>▪ Cytundebau Fframwaith Cydwasanaethau.<br>▪ Cytundebau Adran 33.<br>▪ Rheoliadau Comisiynwyr Cyfrifol ar gyfer Plant Agored i Niwed Sydd Wedi'i Lleoli Oddi Cartref.<br>▪ Manylu ar Amcanion Cyflawni Sefydliadol penodol yng Nghynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021-22.<br>▪ Cyfrannu yn y Rhwydwaith Trawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr (Datganiad o Werthoedd ac Egwyddorion rhwng Cymru a Lloegr).<br>▪ Manylu ar Fwriadau Comisiynu yn y CTCI (nid yw'r ymateb i'r pandemig sy'n cael ei weithredu ar hyn o bryd yn fwriad comisiynu).<br>▪ Cyflwyno Trosolwg o Gytundebau Tymor Hir a Chytundebau Lefel Gwasanaeth y GIG i'r Pwyllgor Gweithredol (a'r broses gymeradwyo).<br>▪ Y Pwyllgor Gweithredol wedi cymeradwyo naratif Cytundebau Tymor Hir a Chytundebau Lefel Gwasanaeth (sy'n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn).<br>▪ Y Prif Swyddog Gweithredol wedi llofnodi Cytundebau Tymor Hir a Chytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer gofal iechyd.<br>▪ Datblygu Fframwaith Sicrwydd Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol.<br>▪ Datblygu Fframwaith Sicrwydd Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol.<br>▪ Recriwtio Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus i helpu i gryfhau gwybodaeth ar gyfer comisiynu (wedi'i drosglwyddo ar hyn o bryd i ddyletswyddau'n ymwneud â COVID-19).<br>▪ Polisi cymeradwyo ymlaen llaw ar waith.<br>▪ [Ar ôl gadael yr UE nid yw'r polisi AEE mwyach yn berthnasol].<br>▪ Polisi Ymyriadau Na Wneir Fel Arfer ar waith.<br>▪ Rheolwr cronfa gyfun ar gyfer Gofal Preswyl Adran 33.<br>▪ Cynghrair Gwella SaTH gyda BIP ar waith.<br>▪ Arweinwyr Trawsnewid Gwasanaethau Cyflyrau Anadlu a Chyflyrau Cylchrediad y Gwaed ar waith (ond dargyfeiriwyd cymorth cyflyrau cylchrediad y gwaed dros dro i helpu i reoli |

| | |
|---|---|
| | newidiadau i lifau cleifion brys). Swydd canser dros dro i helpu i sicrhau llwybrau priodol ar gyfer cleifion â chanser.<br>▪ Ffrwd Gwaith Ysbytai Cyffredinol Dosbarth a Gwaith Arbenigol o fewn cynllun ymateb i COVID-19 BIAP.<br>▪ Prif Swyddog Gweithredol BIAP yn arwain Bwrdd Rhaglenni sy'n cynnwys 3 Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.<br>▪ Cymryd rhan mewn strwythurau gorchymyn a rheoli trawsffiniol.<br>▪ Gweithredu Fframwaith Gwasanaethau Hanfodol ar y gweill.<br>▪ Grŵp Cartref Plant BIAP mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. |
| | **CAMAU GWELLA I BARHAU Â NHW YN 2021-22:** |
| | ▪ Gwreiddio gwaith comisiynu system gyfan trwy weithredu'r Fframwaith Comisiynu Strategol.<br>▪ Gwreiddio'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu a sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith.<br>▪ Rhoi bwriadau comisiynu ar gyfer 2021-22 ar waith.<br>▪ Rheoli'n gadarn perfformiad pob darparwr gwasanaethau gofal cynlluniedig ar gyfer pobl Powys trwy'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu.<br>▪ Rhaglen waith i gryfhau prosesau effeithiol i ddatblygu a rheoli cynlluniau cyflyrau penodol a chynlluniau gwasanaeth.<br>▪ Cryfhau'r wybodaeth am gomisiynu yn unol â'r CTCI.<br>▪ Adolygu llif cleifion a gweithgarwch i mewn i wasanaethau arbenigol i sicrhau llwybrau diogel a phriodol.<br>▪ Cryfhau capasiti, gallu a phrosesau llywodraethu'r sefydliad ar gyfer comisiynu – gan gynnwys rhyngwyneb â gwasanaethau arbenigol.<br>▪ Fel aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys, cefnogi gwaith cyflawni Cynllun Ardal Powys sy'n cynnwys comisiynu opsiynau llety priodol, effeithiol ac effeithlon ar gyfer pobl hŷn, plant unigol a phlant sy'n derbyn gofal.<br>▪ Trwy'r Cyd-fwrdd Partneriaeth, parhau i ddatblygu cyfleoedd i gronni gwaith a gomisiynir oddi wrth y Trydydd Sector.<br>▪ Cryfhau'r dull system gyfan o fynd i'r afael â'r 4 Mawr. |

Yn ystod 2020-21, cytunodd y Bwrdd i leihau'r tebygolrwydd y byddai nifer o'r risgiau sydd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn digwydd, oherwydd effaith y camau lliniarol sy'n cael eu rhoi ar waith neu newid yn yr amgylchiadau. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys:

- Risg nad yw adnoddau (ariannol ac eraill) wedi'u halinio'n llawn â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd;
- Risg nad yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb yn 2020/21.

Yn ystod 2020-21, cytunodd y Bwrdd i gynyddu'r tebygolrwydd y byddai nifer o'r risgiau sydd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn digwydd, oherwydd effaith pandemig COVID-19.


- Risg nad yw rhai gwasanaethau a gomisiynir yn gynaliadwy neu'n ddiogel, ac nad ydynt yn cyrraedd targedau cenedlaethol;

- Risg y bydd modelau gwasanaeth tameidiog ac anghynaliadwy o ganlyniad i'r newid yn angen y boblogaeth ac ad-drefnu gwasanaethau cyrff GIG cyfagos.

Yn ystod 2020-21, cytunodd y Bwrdd y byddai'n gostwng lefel nifer o risgiau o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol i'r Gofrestr Risgiau Cyfarwyddiaethau, oherwydd effaith rhoi camau lliniaru ar waith neu oherwydd effaith newid mewn amgylchiadau. Yn eu plith oedd:

- Risg y bydd Gofal Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol y Tu Allan i Oriau yn methu;
- Risg y bydd senario y DU/ yr UE 'heb gytundeb' yn effeithio'n niweidiol ar systemau a gwasanaethau BIAP, a sectorau allweddol o fewn economi Powys;
- Risg nad yw rhagdybiaethau cynllunio a gweithgarwch De Powys i lywio trefniadau ymateb i lifau/ ymateb gweithredol yn gadarn, a allai arwain at niwed sylweddol i gleifion.

Ar ôl i'r Bwrdd gymeradwyo'r blaenoriaethau strategol ar gyfer 2021/22, trwy'r Cynllun Blynyddol (Mehefin 2021), cynhelir adolygiad llawn o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol i sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu nodi a'u hasesu a bod camau gweithredu i'w lliniaru'n cael eu sefydlu. Mae'r risgiau sy'n dod i'r amlwg ar hyn o bryd yn cynnwys:



## ARCHWAETH AM RISG

Mae Datganiad Archwaeth am Risg y Bwrdd yn manylu ar ddull strategol y Bwrdd o drin cymryd risg trwy ddiffinio'i drothwyon archwaeth am risg. Mae'n ddogfen 'fyw' a fydd yn cael ei diwygio a'i haddasu'n rheolaidd, er mwyn adlewyrchu'n briodol unrhyw newidiadau i strategaethau'r sefydliad, ei amcanion neu ei allu i reoli risg.

Wrth ddiweddaru a chymeradwyo'i Ddatganiad Archwaeth am Risg, ystyriodd y Bwrdd gapasiti a gallu'r Bwrdd Iechyd i reoli risg.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod risg yn rhan reddfol o ddarparu a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd ac felly bod angen dull diffiniedig o weithredu i gyfleu cyd-destun risg, gan sicrhau bod y sefydliad yn deall ac yn ymwybodol o'r risgiau y mae'n fodlon eu derbyn wrth fynd ar drywydd ei nodau a'i amcanion.

Datblygwyd y Datganiad Archwaeth am Risg i adlewyrchu'r archwaeth cynyddol o ran risgiau arloesol ac ariannol, a allai fod yn angenrheidiol i gefnogi cyflawni strategaeth deng mlynedd y Bwrdd, sef 'Powys Iach a Gofalgar'. Wrth gydnabod y risgiau sy'n rhan reddfol o wasanaethau gofal iechyd, mae'r datganiad archwaeth am risg yn dechrau ar sail archwaeth isel.

Mae'r Datganiad Archwaeth am Risg yn cadarnhau nad yw'r Bwrdd yn agored i risgiau sy'n effeithio'n sylweddol ar ansawdd neu ddiogelwch gwasanaethau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu darparu neu'n eu comisiynu; na risgiau a allai arwain at y sefydliad yn methu â chydymffurfio â chyfraith y DU, deddfwriaeth gofal iechyd, neu unrhyw rai o'r fframweithiau rheoleiddio perthnasol rydym yn eu gweithredu. Archwaeth mwyaf y Bwrdd am risg yw mynd ar drywydd arloesi a herio arferion gweithio; a risgiau ariannol o ran ei barodrwydd i fanteisio ar gyfleoedd lle y gellir rhagweld y gallai fod ar ei ennill yn bositif, o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd rheoleiddiol.

Mae'r lefelau archwaeth am risg a ganlyn, ar sail gwybodaeth o'r Sefydliad Llywodraethu Da, wedi'u cynnwys ac wedi'u defnyddio fel sylfaen i bennu lefelau'r archwaeth y manylir arnynt yn y Datganiad:

| **Lefel Archwaeth am Risg** | **Aeddfed-rwydd y Risg** | **Disgrifiad o'r Archwaeth am Risg** |
|---|---|---|
| ISEL<br>(Sgôr Risg 1-6) | Minimol | Yn ffafrio opsiynau cyflenwi tra diogel, wedi'u hen sefydlu/ seiliedig ar dystiolaeth sydd â graddau risg isel. |
| CYMEDROL<br>(Sgôr Risg 8-10) | Pwyllog | Yn ffafrio opsiynau cyflenwi diogel sydd hefyd yn cael eu defnyddio gan sefydliadau eraill ac sydd â rhywfaint o risg hysbys ond gyda'r budd posibl yn gwrthbwyso hyn. |
| UCHEL<br>(Sgôr Risg 12-15) | Yn agored | Yn fodlon ystyried pob opsiwn cyflenwi posibl, yn rhai sydd wedi'u hen sefydlu ac yn rhai newydd, ac yn gwneud dewis sydd hefyd yn dderbyniol debygol o dalu ar ei ganfed. |

| | | |
|---|---|---|
| SYLWEDDOL (Sgôr Risg 16-25) | Yn ceisio | Yn awyddus i fod yn arloesol a dewis opsiynau sy'n cynnig o bosibl talu mwy ar eu canfed er gwaethaf risg a allai fod yn fwy. |
| | Aeddfed | Yn hyderus wrth osod lefelau archwaeth am risg uwch oherwydd bod rheolaethau, systemau sganio ymlaen a systemau ymatebolrwydd yn gadarn. |

Darperir y trothwyon a roddir gyda'r Datganiad o Archwaeth am Risg isod:

| **Categori Risg** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| **ARCHWAETH AM RISG: Isel (Sgôr Risg 1-6)** | |
| **Ansawdd a Diogelwch Gwasan-aethau** | Mae darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn hollbwysig i'r Bwrdd Iechyd ac mae gennym archwaeth pwyllog am risg sy'n effeithio'n niweidiol ar ansawdd gofal.<br><br>Rydym o'r farn bod diogelwch cleifion a staff o'r pwys mwyaf ac wrth wraidd ein gallu i weithredu a chynnal gweithgareddau'r sefydliad o ddydd i ddydd. Mae ein harchwaeth yn isel am risgiau sy'n arwain at, neu sy'n achosi digwyddiadau o niwed osgoadwy i'n cleifion neu ein staff.<br><br>Mae hyn yn golygu nad ydym yn agored i risgiau a allai arwain at ofal neu asesiad risg glinigol o ansawdd gwael, at beidio â chydymffurfio â safonau arfer clinigol neu broffesiynol, deilliannau anfwriadol neu ymyriadau clinigol gwael.<br><br>Ni fyddwn yn derbyn risgiau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad amhroffesiynol, tanberfformiad, bwlio neu gymhwysedd unigolyn i berfformio rolau neu dasgau yn ddiogel, nac unrhyw ddigwyddiadau neu amgylchiadau a allai beryglu diogelwch unrhyw grŵp neu aelod o staff. |
| **Rheoleiddio a Chydym-ffurfio** | Ni fyddwn yn derbyn risgiau a allai arwain at y sefydliad yn methu â chydymffurfio â chyfraith y DU neu ddeddfwriaeth gofal iechyd, neu unrhyw fframweithiau rheoleiddio perthnasol rydym yn gweithredu yn unol â nhw. |
| **ARCHWAETH AM RISG: Cymedrol (Sgôr Risg 8-10)** | |
| **Enw Da a Hyder y Cyhoedd** | Byddwn yn cynnal safonau ymddygiad, moeseg a phroffesiynoldeb uchel bob amser, gan arddel ein Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad, ac ni fyddwn yn derbyn risgiau neu amgylchiadau a allai ddifetha hyder y cyhoedd yn y sefydliad.<br><br>Ni ddylid peryglu ein henw da am uniondeb a chymhwysedd â phobl Powys, partneriaid, rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae gennym archwaeth cymedrol am risgiau a allai effeithio ar enw da y Bwrdd Iechyd pan fo'r rhain yn codi o ganlyniad i'r Bwrdd Iechyd yn manteisio ar gyfleoedd i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau, o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd rheoleiddiol. |
| **Cyllid** | Mae cronfeydd cyhoeddus wedi'u rhoi yn ein gofal ac mae'n rhaid i ni |

| | |
|---|---|
| | barhau i fod yn ariannol hyfyw. Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau i'r eithaf ar gyfer cleifion a staff. Ni ystyrir risgiau sy'n gysylltiedig â buddsoddi neu wario mwy oni bai bod y rhain wedi'u cysylltu â chefnogi arloesedd a newid strategol.<br><br>Ni fyddwn yn derbyn risgiau sy'n ein cadw'n agored i dwyll neu i dorri ein Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. |
| **ARCHWAETH AM RISG: Uchel (Sgôr Risg 12-15)** | |
| **Arloesi a Newid Strategol** | Rydym eisiau manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddatblygu a thyfu ein gwasanaethau trwy annog gweithgarwch entrepreneuraidd a thrwy fod yn greadigol ac yn rhagweithiol wrth geisio mentrau newydd, sy'n gyson â'r cyfeiriad strategol y manylir arno yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac, ar yr un pryd, yn parchu ac yn glynu at ein rhwymedigaethau statudol.<br><br>Byddwn yn ystyried risgiau sy'n gysylltiedig ag arloesi, ymchwilio a datblygu i alluogi integreiddio gofal, datblygu modelau gofal newydd a gwelliannau mewn arfer clinigol a allai gefnogi cyflawni ein gwerthoedd a'n dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar y person a'r claf.<br><br>Ni fyddwn yn cymryd risgiau oni bai bod y capasiti a'r gallu gennym i'w rheoli, a'n bod yn hyderus na fydd yna unrhyw effaith niweidiol ar ddiogelwch ac ansawdd y gwasanaethau rydym yn eu darparu neu'n eu comisiynu. |

## GWREIDDIO DULL EFFEITHIOL O REOLI RISG

Mae gwreiddio dull effeithiol o reoli risg yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd gan ei fod yn hanfodol i'n galluogi i gyflawni ein hamcanion, yn rhai strategol a gweithredol ac, yn anad dim, i ddarparu gwasanaethau diogel, o ansawdd uchel.

Fis Mawrth 2020, aeth yr Archwilwyr Mewnol ati i adolygu trefniadau Rheoli Risg a Sicrwydd y Bwrdd, gan ganolbwyntio ar sut y mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Fframwaith Rheoli Risg yn cael eu rhoi ar waith a'u diweddaru yn unol â CTCI diwygiedig. Rhoddwyd sicrwydd cyfyngedig i'r Bwrdd o ran yr adolygiad hwn.

Cadarnhaodd yr Archwiliad Mewnol fod y Bwrdd wedi mabwysiadu dull strwythuredig o fynd ati i reoli risg, lle bo risgiau'n cael eu nodi, eu hasesu a'u rheoli a, lle bo'n briodol, eu huwchgyfeirio neu eu hisgyfeirio trwy fecanweithiau llywodraethu'r sefydliad. Hefyd, mae Fframwaith Rheoli Risg y Bwrdd Iechyd yn nodi'r unigolion hynny sy'n gyfrifol am reoli risg ac yn manylu ar strwythurau a phrosesau rheoli risg allweddol y Bwrdd Iechyd.

Er bod yr Archwiliad Mewnol yn cydnabod y cynnydd a wnaed ar lefel sefydliadol a strategol i osod y fframwaith a ddefnyddir i nodi a rheoli risg, gwnaeth yr Archwiliad Mewnol nifer o argymhellion lle gellid gwneud gwelliannau wrth wreiddio risg i mewn i waith rheoli gweithredol y sefydliad. Yn ystod 2021-22, byddwn yn parhau i fwrw ymlaen ag argymhellion yr Archwiliad Mewnol fel blaenoriaeth.

Rwyf yn cydnabod y sicrwydd cyfyngedig roedd yr Archwiliad Mewnol yn gallu ei ddarparu o ystyried y gwendidau a nodwyd o ran y rheoli gweithredol. Rydw i'n fodlon bod y Bwrdd wedi parhau i dderbyn ac adolygu ei gofrestr risgiau corfforaethol i sicrhau bod risgiau strategol yn cael eu rheoli. Hefyd, nododd Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2020 fod system rheoli risg y Bwrdd Iechyd yn sicrhau ei fod mewn sefyllfa dda i ymateb i risgiau'n gysylltiedig â COVID-19. Cydnabu'r adolygiad fod gan y Bwrdd Iechyd system rheoli risg sy'n aeddfedu.

## AGWEDDAU ALLWEDDOL AR Y FFRAMWAITH RHEOLI

Yn ogystal â threfniadau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau sydd wedi'u disgrifio'n gynharach yn y ddogfen hon, rwyf wedi bod yn gweithio dros y 12 mis diwethaf i gryfhau fframwaith rheoli'r Bwrdd Iechyd ymhellach. Mae elfennau allweddol o hyn yn cynnwys:

### Strwythur Llywodraethu Ansawdd

Rydym wedi parhau i lywodraethu ansawdd yn ystod 2020-2021, er gwaethaf y ffaith ein bod yng nghanol effaith y pandemig. Bu ffocws mwy ar ansawdd a diogelwch pobl sy'n derbyn gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd a'r staff sy'n eu darparu, gan gydnabod yr angen i sicrhau eu diogelwch a

lliniaru risg yn ystod y pandemig COVID-19.

Mae’r strwythur llywodraethu ansawdd sy’n bodoli wedi’i gynnal. Parhaodd y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch i dderbyn adroddiadau ar sicrwydd a risgiau a uwchgyfeiriwyd a oedd â chysylltiad ag ansawdd, diogelwch a phrofiad y claf. Mae’r Grŵp Llywodraethu Ansawdd (fel is-grŵp o’r Pwyllgor Gweithredol) wedi cynnal ei ffocws ar hybu systemau a phrosesau llywodraethu a rheoli cadarn, gan adrodd trwy’r Pwyllgor Gweithredol i’r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch ar faterion yn ymwneud â risg neu ag uwchgyfeirio. Mae’r flwyddyn gyntaf wedi gweld symud ymlaen â rhoi ‘Gwella Ansawdd Clinigol: Fframwaith Gweithredu Bwrdd Iechyd Addysgu Powys 2020-2023’ ar waith yn y rhan fwyaf o feysydd ac adroddir ar hyn yn rheolaidd o fewn y strwythur llywodraethu.

Bu ffocws parhaus ar weithredu polisi Gweithio i Wella, â’r nod o sefydlu strwythurau clir a phrosesau llywodraethu cadarn ymhellach, fel corfforaeth a hefyd fel grwpiau gwasanaeth. Mae dysgu sefydliadol wedi datblygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan ystyried yr angen i ddysgu’n gyflym ac yn effeithiol yn ystod cyfnod y pandemig, a sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gwrando ac yn dysgu o brofiadau cleifion a staff. Mae’r Grŵp Dysgu o Brofiad sydd newydd ei lunio wedi creu’r cyfle i drafod a thriongli materion yn ymwneud ag ansawdd, ac mae’n cefnogi’r sefydliad i estyn y dysgu ar draws pob gwasanaeth ac yn genedlaethol. Mae adfywio fframwaith profiad y claf yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol ac mae wedi canolbwyntio ar ddeall y gweithgarwch presennol i lywio’r cyfeiriad strategol, gan gadw ffocws cryf ar ddarparu gofal sy’n canolbwyntio ar y person ac ar ddeilliannau i helpu i ddarparu sail ar gyfer gwneud penderfyniadau o ran cynllunio, dylunio, cyflenwi a gwerthuso gwasanaeth.

## Safonau Iechyd a Gofal

Mae’r Safonau Iechyd a Gofal sydd mewn bod yn parhau i ddarparu sail ar gyfer ansawdd gwasanaethau a ddarperir mewn lleoliadau cleifion mewnol. Croesgyfeirir i’r Safonau Iechyd a Gofal fel rhan o waith adrodd Pwyllgorau, gan godi’r risgiau cysylltiedig ac unrhyw uwchgyfeirio. Mae gwiriadau ansawdd adolygiadau gan gymheiriaid ar draws gwasanaethau’n adlewyrchu’r Safonau Iechyd a Gofal, er y cwtogwyd y rhaglen yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae’n darparu sail ar gyfer gwella a datblygu gofal a thriniaeth, gyda pholisïau a gweithdrefnau sydd wedi’u hadnewyddu’n cefnogi hyn.

## Iechyd a Diogelwch

Yn ystod y pandemig COVID-19, mae’r swyddogaeth Iechyd a Diogelwch wedi bod yn arwain rhaglen fanwl o waith yn ymwneud â Chadw Pellter Cymdeithasol a’r meysydd allweddol a ganlyn:

- Arwyddion a gwybodaeth am gadw pellter cymdeithasol ar gyfer pob adeilad.
- Asesiadau o'r nifer fwyaf o bobl sy'n gallu bod mewn ystafelloedd.
- Cyngor, cyfarwyddwyd a chefnogaeth mewn ardaloedd gweithredol wrth iddynt gael eu had-drefnu i reoli galwadau disgwyliedig COVID-19.
- Polisi Gweithio Ystwyth newydd i gefnogi staff i allu gweithio mewn ffordd fwy hyblyg.

Mae'r meysydd a ganlyn wedi canolbwyntio ar welliannau Iechyd a Diogelwch yn ystod 2020/21:

- Darpariaeth wedi'i hatgyfnerthu o hyfforddiant iechyd a diogelwch, trwy gyflenwi sesiynau ar gyfer Rheolwyr Gweithredol, fel rhan o'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr a sesiwn ddatblygu'n edrych yn benodol ar ddynladdiad corfforaethol gyda'r Bwrdd;
- swyddogaeth Iechyd a Diogelwch wedi'i hailalinio;
- datblygu rhaglen waith y Grŵp Iechyd a Diogelwch ac atgyfnerthu llinellau atebolrwydd trwodd i'r Bwrdd;
- rhaglen ddysgu hyfforddiant codi a chario wedi'i hadolygu a'i mireinio.

Mae sesiwn yn benodol ar iechyd, diogelwch a llesiant nawr yn rhan o'r diwrnod Cynefino Corfforaethol ar gyfer yr holl staff. Mae'r Bwrdd Iechyd, am y tro cyntaf erioed, wedi derbyn achrediad IOSH i gyflenwi cyrsiau hyfforddi ffurfiol IOSH. Mae nifer ohonynt wedi'u cyflenwi yn ystod y pandemig trwy sesiynau ystafell ddosbarth rithwir ac mae BIAP wedi derbyn adborth positif oddi wrth IOSH, ar ôl eu harchwiliad sicrhau a dilysu ansawdd cyntaf.

Mae adolygiad o'r holl bolisïau Iechyd a Diogelwch wedi'i gwblhau. Mae gwaith wedi dechrau ar gefnogi gwasanaethau â nodi a datblygu Asesiadau Risg, trwy Fframwaith Asesu Risg cytunedig. Mae cyfres o Asesiadau Risg 'Oriau Pŵer' wedi'u datblygu a pharheir i'w cyflenwi'n fisol i Reolwyr trwy sesiwn Teams. Mae'r risg o ran gallu BIAP i nodi a rheoli risg, trwy'r broses asesu risg, yn dal i fod ar y gofrestr risgiau Corfforaethol.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ymweld â BIAP i adolygu dull y sefydliad o weithredu o ran Rheoli Cryndod Llaw a Braich ac, ar ddiwedd y flwyddyn, derbyniodd BIAP ddau Hysbysiad Gwella ynglŷn â rheoli a hyfforddi rheolwyr a staff sy'n gweithio ag offer dirgrynol. Bydd y Bwrdd yn parhau i oruchwylio rhoi'r camau gweithredu sy'n ofynnol i ymateb i'r Hysbysiadau hyn ar waith.

## Fframweithiau Datblygu a Sicrwydd Comisiynu

Mae Powys yn wahanol i Fyrddau Iechyd eraill yng Nghymru oherwydd bod rhyw 75% o'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi iddo'n cael ei wario ar sicrhau gofal iechyd oddi wrth ddarparwyr nad yw'n eu rheoli'n uniongyrchol. Mae ein gwaith comisiynu yn rhychwantu'r continwwm, gan ei fod yn cynnwys hybu iechyd, gofal sylfaenol, gofal eilaidd, gwasanaethau arbenigol,

comisiynu ar gyfer cleifion unigol, gofal iechyd parhaus, comisiynu mewn partneriaeth a chyd-gomisiynu â'r awdurdod lleol.

Gan mai ardal hynod wledig yw hon, heb unrhyw Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, darperir rhyw 90% o ofal cleifion a dderbynnir i ysbyty, ac 80% o ofal eilaidd cleifion allanol, y tu hwnt i'w ffiniau. Mae'n gryn her sicrhau bod ansawdd a diogelwch y gwasanaethau y mae ein trigolion yn eu derbyn ar draws pum economi iechyd, yng Nghymru a Lloegr, mewn hyd at ddeg ar hugain o wahanol arbenigeddau, yn briodol.

Roedd 2020/21 yn arbennig o heriol o ran gwasanaethau a gomisiynir oherwydd: nifer o newidiadau i lwybrau a ddigwyddodd mewn ymateb i'r pandemig; gohirio gwasanaethau dewisol dianghenraid; sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn parhau i fod ar gael, yn ogystal â sicrhau bod Ysbytai Cyffredinol Dosbarth cyfagos ar gael i bobl Powys â COVID-19 yr oedd angen eu trin; capasiti llai mewn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth er mwyn cydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol; roedd angen newidiadau i lwybrau brys yn Ne Powys oherwydd bod angen agor Ysbyty Prifysgol y Faenor yn gynnar mewn ymateb i COVID-19 yn y gaeaf; ac, roedd angen paratoi ar gyfer gadael yr UE.

Mae Fframwaith Sicrwydd Comisiynu BIAP yn helpu i nodi ac uwchgyfeirio patrymau perfformiad gwael a risg i wasanaethau iechyd y mae cleifion Powys yn eu defnyddio. Mae'n ystyried profiad y claf, ansawdd, diogelwch, mynediad, gweithgarwch, llywodraethu ariannol a newid strategol. Mae'n broses barhaus, yn ystyried gwybodaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys "gwybodaeth feddal gredadwy".

Nid oedd y trefniadau comisiynu arferol ar waith yn ystod 2020/21 oherwydd y pandemig. Roedd rhanbarthau cyfagos yn Lloegr yn gweithio mewn systemau gorchymyn a rheoli mewn ymateb i COVID-19, ac roedd gan BIAP gynrychiolaeth yn y rhain. Cafodd y Fframwaith Sicrwydd Comisiynu ei atal dros dro yn ystod anterth cyntaf COVID-19, ond gwnaed gwaith trwy gydol y flwyddyn i adfer y dull hwn o weithredu fesul cam. Nid oedd yn bosibl sgorio pob parth, er enghraifft, gan nad oedd trefniadau cyllid "bloc" yn adlewyrchu cyllidebau cyn COVID-19 neu Gytundebau Tymor Hir. Ni allai prosesau uwchgyfeirio weithredu yn y ffordd arferol, er enghraifft, o ran oedi â gofal dewisol oherwydd bod gwasanaethau wedi'u gohirio yn ystod y pandemig.

## Archwilio Clinigol

Dan y cynllun newydd ar gyfer archwilio clinigol, lluniwyd cynllun archwilio lleol ar gyfer 2020/21 a oedd yn cwmpasu pynciau a nodwyd o ddigwyddiadau difrifol a phrosesau newydd a gyflwynwyd oherwydd newidiadau i bolisi sefydliadol neu oherwydd bod gwasanaethau newydd wedi'u cyflwyno. Cyflwynwyd adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf

fanwl am gynnydd yn erbyn cynllun archwilio clinigol lleol 2020/21 i gyfarfodydd mis Hydref 2020 a mis Rhagfyr 2020 y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch, gan ddisgrifio’r darganfyddiadau o’r archwiliad, a chymeradwyodd y pwyllgor yr adroddiad hwn.

Cafodd pandemig COVID-19 effaith ddifrifol ar y cynllun Archwilio Clinigol Cenedlaethol. Fodd bynnag, parhaodd staff BIA Powys i fonitro gwasanaethau yn erbyn y safonau y manylwyd arnynt yn yr Archwiliad Epilepsi Cenedlaethol, er i’r archwiliad ei hun gael ei ohirio ar gyfer 2020. Bwriwyd ymlaen fel arfer ag Archwiliadau Cenedlaethol eraill, fel yr Archwiliad Diabetes Gofal Sylfaenol Cenedlaethol, sy’n cael eu cynnal trwy samplo data yn oddefol o systemau cyfrifiadurol meddygfeydd.

## Fframwaith Cwynion a Phryderon

Parhawyd i ganolbwyntio ar gydymffurfio â Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda gwaith dan arweiniad Gweithredwyr a oedd yn canolbwyntio ar wella’r strwythur, trefniadau llywodraethu a rhoi’r Rheoliadau ar waith bob dydd, yn gweld perfformiad gwell o ran rheoli pryderon. Estynnir hyn i’r ffordd o reoli digwyddiadau difrifol, trwy ymchwilio, dysgu a rhannu gwersi. Mae buddsoddi mewn hyfforddiant yn rhan olaf 2020/21 yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad sydd eisoes yn bodoli ledled y Bwrdd Iechyd.

Caiff rhagor o fanylion am gwynion a phryderon eu cyhoeddi yn yr Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella ar gyfer 2020-2021. Mae’r rhain a rhagor o wybodaeth am Weithio i Wella i’w gweld ar wefan y Bwrdd Iechyd.

## Adolygiadau o Farwolaethau

Mae’r pandemig COVID-19 wedi cael effaith difrifol ar y gallu i gynnal adolygiadau marwolaethau lleol gan y cyfyngwyd ar gyfarfodydd wyneb yn wyneb. I fynd i’r afael â’r mater hwn ac i ddarparu rhywfaint o graffu annibynnol, bu uwch banel adolygu, yn cynnwys y Cyfarwyddwr Meddygol, y Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol a’r Pennaeth Nyrsio, yn adolygu’r holl farwolaethau a ddigwyddodd ar wardiau ysbytai Powys rhwng mis Mawrth a mis Awst 2020. Bydd ail adolygiad yn cwmpasu’r cyfnod rhwng mis Medi 2020 a mis Chwefror 2021 yn digwydd ym mis Mai 2021.

Cafodd y pandemig effaith debyg hefyd ar gyflwyno prosiect yr Archwilwyr Meddygol. Er y cafwyd penodiadau, ni fydd y prosiect nawr yn mynd yn fyw cyn mis Ebrill 2022. Bydd yr Archwilwyr Meddygol yn defnyddio’r oedi hwn i weithio ar ffurf cysgodi, gan benderfynu ar ba seilwaith sydd angen iddynt ei roi ar waith a gweithio trwy unrhyw faterion sy’n codi cyn bo angen darparu’r gwasanaeth yn fyw.

## Grŵp Dysgu o Brofiad

Er mwyn helpu i driongli dysgu o Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol a ffynonellau eraill, lluniwyd uwch banel adolygu, sef y grŵp Dysgu o Brofiad yn cynnwys yr holl gyfarwyddwyr clinigol gweithredol a'r Arweinydd Rheoli Meddyginiaethau, i adolygu darganfyddiadau Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol nad ydym yn cymryd rhan ynddynt oherwydd eu natur arbenigol ond sy'n darparu gwybodaeth am ansawdd gofal mewn sefydliadau rydym yn prynu gofal oddi wrthynt ar gyfer ein dinasyddion. Mae'r dysgu o ddigwyddiadau, pryderon ac adolygiadau o farwolaethau hefyd yn cael ei driongli a'i raeadru.

## Portffolios Gweithredwyr

Fis Tachwedd 2019, cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau wedi'i ddiweddaru. Mae'r ddogfen hon yn manylu ar ddirprwyo cyfrifoldeb i Gyfarwyddwyr Gweithredol. Seilir dyraniad cyfrifoldebau ar sicrhau bod yr atebolrwydd a'r awdurdod ym mhortffolio pob Cyfarwyddwr a Chyfarwyddiaeth wedi'u halinio'n briodol, a hefyd ar sicrhau bod y cyfarwyddiaethau'n canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau craidd. Mae'r Cynllun Dirprwyo hefyd yn cefnogi cryfhau arweinyddiaeth glinigol. Ceir trosolwg o bortffolios Cyfarwyddwyr Gweithredol yn ***Ffigur 7***.

## Ffigur 7: Portffolios Gweithredwyr

**Chief Executive**

**Director of Primary, Community Care and Mental Health**

- Delivery of primary and community services
- Primary Care Out of Hours arrangements
- Accreditation of enhanced services
- Operationalisation of continuing healthcare
- Access of RTT targets, and oversight of ambulance service performance
- Delayed transfer of care
- Primary Care contractor performance management
- Integration Agenda
- Primary Care Development, including Clusters
- Removal of violent patients from GMS services
- Operationalisation of Medicines Management

**Medical Director**

- Clinical Leadership and Engagement
- Medicines Management
- Caldicott Guardian
- Clinical Audit
- Medical Legislation & National Policy
- Professional Medical & Dental Workforce Standards, Education, Regulation and Revalidation
- Blood Safety & Quality
- Organ Donation
- Clinical Networks
- NICE compliance
- Library Services
- Individual Patient Commissioning
- Medical Royal College Standards compliance
- Innovation and Service Improvement
- Admission to the performers list
- Human Tissue issues
- Research and Development
- Resuscitation
- Mortality Review

**Director of Nursing**

- Professional leadership of nursing and midwifery, including standards, education, regulation, revalidation and supervision of midwives
- Quality, Patient Experience & Satisfaction Raising Concerns and Putting Things Right
- Patient Safety Alerts
- Decontamination
- Funded nursing care and continuing health care strategy
- Safeguarding Adults and Children
- Nutrition & Hydration
- Deprivation of Liberty Safeguards
- Infection Prevention and Control
- Carers
- Children and Young People Services
- Volunteering

**Director of Finance and Information Technology**

- Statutory Financial duties including annual accounts
- Financial Planning
- Financial management, monitoring and reporting
- Financial systems and controls
- Procurement
- Counter Fraud
- Charitable Funds accounting
- HCRW & CHC financial arrangements
- Delivery of IM&T strategy and services
- Provision of clinical and management information systems, ICT infrastructure and telephony
- Business intelligence, data quality & clinical coding
- Provision of Financial Services to Directorates
- Liaison with External Financial Auditors
- Asset Accounting

**Director of Planning and Performance**

- Planning arrangements
- Commissioning, including performance management of commissioned services & relationship with WHSSC
- Third sector liaison
- Cross-border healthcare
- Performance Management
- Estates including environmental sustainability
- CHC liaison relating to service change
- Professional leadership of planning, performance management, commissioning, capital estates and service change

**Director of Public Health**

- Health Improvement Strategy
- Health Needs Assessment
- Public Health Planning
- Public Health Initiatives
- Public Health Monitoring & Surveillance
- Outbreak Control
- Civil Contingency, Emergency Planning and Business Continuity
- Provision of Public Health Advice
- Armed Forces & Veterans
- Prudent health and care
- Well-being of Future Generations Act
- Professional leadership of public health workforce
- Director of Public Health Annual Report

**Director of Therapies and Health Sciences**

- Professional leadership of therapies and health sciences
- Lead for radiology, radiography, stroke and neurological services
- Medical Devices
- Human Rights
- Equality and Diversity
- Welsh Language provision

**Director of Workforce and Organisational Development & Support Services**

- Employment and staff relations & engagement
- Workforce Planning
- Workforce Policies and Practices
- Employee Health and Well-being including Occupational Health Services
- Trade Union Partnership arrangements
- Workforce Information Management Systems
- Values and Standards of Behaviour Framework
- Raising Concerns
- Disclosure and Barring Arrangements
- Health and Safety
- Fire Safety
- Tackling Violence and Aggression
- Facilities Services
- Employee Record Management

## Staff ac Ymgysylltu â Staff

Mae ymgysylltu â staff a chydweithwyr mewn Undebau Llafur trwy gydol y cyfnod hwn wedi bod yn hanfodol i lwyddiant ymateb y Bwrdd Iechyd i COVID-19. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhan o'r Arolwg Staff Cenedlaethol ehangach, sydd â chyfradd ymateb dda oddi wrth staff, ar 29% (o'i gymharu â chyfradd ymateb Cymru-gyfan o 19%) gan gynnal Sgôr Mynegai Ymgysylltiad tebyg i sgôr 2018 ar 78%, er gwaethaf blwyddyn hynod heriol. Yn ôl ymatebion i gwestiynau unigol, roedd 93% yn hapus i fynd yr ail filltir yn eu gwaith, mae 80% o staff yn frwdfrydig ynglŷn â'u rôl a dywedodd 91.4% nad oedd eu Rheolwr Llinell wedi'u bwlio, eu cam-drin neu aflonyddu arnynt, sef gwelliant o 8% o 2018.

## Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Yn ystod 2020/21, mae ymgysylltu a chyfathrebu'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ganolbwyntio'n drwm ar ymateb i'r pandemig COVID-19. Mae hyn yn sgil gweithgarwch cynyddol mewn ymateb i'r argyfwng iechyd cyhoeddus a ddaeth i'r amlwg yn ystod Ch4 2019/20.

O ystyried cyd-destun COVID-19, prin iawn fu unrhyw weithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori ffurfiol. Estynnwyd cyfnod yr ymgysylltu ffurfiol ynglŷn â siâp gwasanaethau podiatreg yn y dyfodol oherwydd y pandemig, gan symud y dyddiad cau o 29 Mawrth 2020 i 12 Mai 2020 i ganiatáu mwy o amser i ymateb. Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhellion ym mis Gorffennaf 2020 heb fod angen ymgynghoriad ffurfiol.

Yn ystod y flwyddyn, y disgwyl oedd y byddai ymgysylltu wedi parhau ymlaen llaw i newidiadau arfaethedig i Ysbyty Nevill Hall y bwriadwyd eu gwneud yn Ch4. Fodd bynnag, yng nghyd-destun COVID-19, penderfynodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan y byddent yn agor Ysbyty newydd y Faenor yn gynt – gydag effaith ganlyniadol ar Ysbyty Nevill Hall – ym mis Tachwedd 2020. Felly rhoddwyd cyfnod dwys o ymgysylltu, cyfathrebu a gweithgarwch marchnata â rhanddeiliad ar waith i sicrhau bod cleifion a chymunedau'n ymwybodol o'r newidiadau a oedd yn digwydd yn gynt.

Mae ymgysylltu wedi parhau hefyd ynglŷn â Rhaglen Llesiant Gogledd Powys, gan gefnogi datblygu Achos Busnes y Rhaglen i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru a datblygu'r model gofal a llesiant integredig y bwriedir ei lansio yn Ch1 2021/22.

Yn Ch4, dechreuwyd ymgysylltu ffurfiol ynglŷn â chynigion i sefydlu Rhwydwaith Fasgwlaidd yn Ne Ddwyrain Cymru, gan gynnwys newidiadau i'r ddarpariaeth gwasanaethau llawdriniaeth fasgwlaidd. Daeth yr ymgysylltu i ben ym mis Ebrill 2021, a'r disgwyl yw y bydd y Byrddau Iechyd yn ystyried argymhellion yn ddiweddarach eleni.

O ran gweithgarwch cyfathrebu, roedd COVID-19 yn galw am ffocws dwys a pharhaus trwy'r ymateb cychwynnol, yn ystod yr atal ac ymateb parhaus

trwy Brofi, Olrhain a Diogelu ac yna yn ystod gwaith cynllunio a chyflenwi'r rhaglen frechu fwyaf y mae'r wlad erioed wedi'i gweld. Mae rhaglen gydlynol o ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid wedi cefnogi ymateb y Bwrdd Iechyd i COVID-19, gan gynnwys nodi a lliniaru risgiau allweddol. Mae ymgysylltu rheolaidd wedi digwydd gyda rhanddeiliaid allweddol fel y Cyngor Iechyd Cymuned, y Cyngor Sir, Aelodau Senedd Cymru ac Aelodau Senedd y DU, staff, sesiynau briffio cyhoeddus, PAVO a phartneriaid ehangach i helpu i ddarparu sail ar gyfer cynlluniau'r Bwrdd Iechyd ac i gefnogi ac annog pawb i chwarae rhan mewn Cadw Powys yn Ddiogel.

Yn erbyn y gefnlen brysur hon, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi lansio'i wefan newydd yn www.biap.gig.cymru a www.pthb.nhs.wales i ddarparu profiad digidol mwy integredig sy'n cefnogi cydymffurfio â gofynion allweddol fel Rheoliadau'r Iaith Gymraeg a'r Rheoliadau Hygyrchedd.

## Llywodraethu Gwybodaeth

Llywodraethu Gwybodaeth yw'r ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn trin yr holl wybodaeth, yn enwedig gwybodaeth bersonol a sensitif sy'n ymwneud â'n cleifion, ein defnyddwyr gwasanaeth a'n cyflogeion. Mae Llywodraethu Gwybodaeth yn manylu ar y gofynion a'r safonau y mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd eu cyrraedd i sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau i drin gwybodaeth yn ddiogel, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Yn ystod y pandemig COVID-19, daeth y Bwrdd Iechyd i ddibynnu fwyfwy ar Lywodraethu Gwybodaeth wrth i'w wasanaethau gyflwyno technolegau newydd i'w galluogi i rannu gwybodaeth a chyfathrebu â chleifion a staff. Mae rhai o'r newidiadau hyn wedi digwydd ar lefel genedlaethol ac mae Rheolwyr Llywodraethu Gwybodaeth ledled Cymru wedi chwarae rhan mewn sicrhau bod pob sicrwydd angenrheidiol ar waith i fodloni gofynion deddfwriaethol.

Ysgrifennydd y Bwrdd sy'n gyfrifol am Lywodraethu Gwybodaeth yn y Bwrdd Iechyd, a'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yw Swyddog Diogelu Data enwebedig y Bwrdd Iechyd, yn unol â gofynion Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y DU. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Gwybodaeth yn gweithredu fel Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO), a'r Cyfarwyddwr Meddygol yw'r Gwarcheidwad Caldicott enwebedig. Cesglir gwybodaeth am berfformiad yn erbyn deddfwriaeth yn ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth ac adroddir ar hyn i'n Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

Mae dangosyddion perfformiad yn erbyn deddfwriaeth sy'n ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth yn cynnwys y canlynol:

### HYFFORDDIANT LLYWODRAETHU GWYBODAETH

Ar 31 Mawrth 2021, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni cyfradd o 80% ar gyfer hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth gorfodol ar gyfer 2020-21.

Mae hyn yn ostyngiad o'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, bydd hyn yn bennaf oherwydd pwysau'r pandemig COVID-19.

## DIGWYDDIADAU'N YMWNEUD Â DATA PERSONOL (TRAMGWYDDAU)

Sefyllfa pan y mae diogelwch yn cael ei dorri gan arwain at ddifrodi, colli, newid, datgelu heb awdurdod neu fynediad i ddata personol, boed yn ddamweiniol neu'n anghyfreithlon, yw digwyddiad data personol. Yn unol â gofynion GDPR, rhaid adolygu pob digwyddiad data personol yn ddyddiol a, phan ystyrir bod unrhyw ddigwyddiadau'n sylweddol, rhaid rhoi gwybod amdanynt yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o fewn 72 awr. Yn ystod 2020/21, rhoddwyd gwybod yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am bedwar digwyddiad data personol. Roedd y rhain yn cynnwys y Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu; cofnod(ion) meddygol oedd wedi'u dwyn; a chlinigydd yn camddefnyddio Teams. Ni chododd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth unrhyw gosbau ariannol ar y Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt. Fodd bynnag, gwnaeth y Bwrdd Iechyd fabwysiadu argymhellion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn lleol, ac mae'r argymhellion hyn ar fin cael eu hychwanegu at gofrestr argymhellion yr archwilwyr mewnol, ac rydym yn parhau i dderbyn unrhyw wersi a ddysgwyd neu adborth a dderbyniwyd. Adroddir ar ffigyrau sy'n dangos nifer y tramgwyddau sy'n ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth i'n Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch (http://www.powysthb.wales.nhs.uk/experience-quality-and-safety-committee).

## DEDDF RHYDDID GWYBODAETH

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi hawl i'r cyhoedd gael gweld amrywiaeth o gofnodion a gwybodaeth y mae cyrff cyhoeddus yn eu cadw, ac mae'n darparu ymrwymiad i fod yn fwy agored a thryloyw yn y sector cyhoeddus. Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021, derbyniodd y Bwrdd Iechyd gyfanswm o 328 o geisiadau am wybodaeth, ac atebwyd 267 o'r rhain o fewn y ffrâm amser o 20 diwrnod. Derbyniwyd dau gais am adolygiad mewnol ac ymatebwyd i'r rhain, gyda'r sawl a wnaeth y cais yn peidio â chymryd unrhyw gamau pellach. Fel Bwrdd Iechyd, rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth trwy sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd trwy ein Cynllun Cyhoeddi sydd i'w weld ar wefan y Bwrdd Iechyd.

## RHEOLIAD CYFFREDINOL AR DDIOGELU DATA (GDPR) Y DU A DEDDF MYNEDIAD AT GOFNODION IECHYD (AHRA) 1990

Mae GDPR y DU a'r AHRA yn rhoi'r hawl i unigolion ac aelodau'r teulu weld eu data personol eu hunain neu ddata personol rhywun arall. Cais Gwrthrych am Wybodaeth yw'r enw cyffredin ar hyn, ac mae gan y sefydliad ffrâm amser statudol i ymateb o'i mewn. Yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021, ymatebodd y Bwrdd Iechyd i 422 Cais Gwrthrych am Wybodaeth, gan ymateb i 380 o'r rheini o fewn y ffrâm amser statudol.

**PECYN CYMORTH LLYWODRAETHU GWYBODAETH CYMRU**

Offeryn hunanasesu cenedlaethol yw'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth, sy'n galluogi sefydliadau i fesur lefel eu cydymffurfiad yn erbyn Safonau Llywodraethu Gwybodaeth Cenedlaethol a deddfwriaeth diogelu data er mwyn darganfod a yw gwybodaeth yn cael ei thrin a'i diogelu'n briodol. Mae'n disodli'r offeryn asesu blaenorol, sef Rhoi Egwyddorion Caldicott ar Waith (C-PIP). Mae gwaith wedi mynd rhagddo i werthuso sefyllfa'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020/21 ac adroddwyd ar y deilliant, gan gynnwys meysydd i'w gwella a chydymffurfiad, i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Chwefror 2021. Gellir gweld yr adroddiad ar wefan y Bwrdd Iechyd.

Bydd gwaith yn parhau trwy gydol 2021-22 i roi sylw i'r camau gweithredu sy'n ofynnol i wella ein sgôr ar gyfer y tro nesaf y bydd yn cael ei gyflwyno.

## Rheoli Cofnodion

Proses yw Rheoli Cofnodion y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei defnyddio i reoli pob agwedd ar gofnodion, boed wedi'u cynhyrchu'n fewnol neu'n allanol ac mewn unrhyw fformat neu fath o gyfrwng, o'u creu trwy eu cylch oes i'w gwarediad yn y pen draw. Ysgrifennydd y Bwrdd sy'n gyfrifol am hyn. Rhan o'i rôl yw bod yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal arferion rheoli cofnodion o fewn y sefydliad yn gyffredinol, a sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r safonau diweddaraf.

Ers Adolygiad Archwilio Mewnol mis Awst 2019 (Dim Sicrwydd) o reoli cofnodion a mabwysiadu'r Cynllun Gwella Rheoli Cofnodion, mae gwaith wedi parhau i roi sylw i'r gofynion y dygwyd sylw atynt yn y chwe argymhelliad a wnaed ar adeg yr archwiliad. Fodd bynnag, mae effaith COVID-19 sydd, yn ei dro, wedi ychwanegu galwadau ychwanegol ar staff gweithredol allweddol i ateb pwysau'r pandemig, wedi arwain at oedi â chynnydd mewn rhai meysydd. Wrth i ni symud i 2021/22, y disgwyl yw y bydd gwasanaethau gweithredol yn gallu cefnogi rhoi'r camau gweithredu gofynnol hynny ar waith. Hefyd, byddwn yn symud ymlaen ag achos busnes dros ddigido cofnodion.

## Yr Cod Llywodraethu Corfforaethol

Y Cod Llywodraethu Corfforaethol sy'n berthnasol i gyrff y GIG ar hyn o bryd yw 'The Corporate governance code for central government departments: code of good practice' (a gyhoeddwyd ar 21 Ebrill 2017).

Nid yw'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd, fel sefydliadau eraill GIG Cymru, gydymffurfio â phob elfen o'r Cod, ond mae prif egwyddorion y Cod yn ddilys gan eu bod yn berthnasol i bob corff sector cyhoeddus.

Adlewyrchir y Cod Llywodraethu Corfforaethol o fewn polisïau a

gweithdrefnau allweddol. Hefyd, o fewn ein system rheolaeth fewnol, mae yna amrywiaeth o fecanweithiau ar waith sydd wedi'u cynllunio i fonitro ein cydymffurfiad â'r cod. Mae'r rhain yn cynnwys: Hunanasesu; Archwilio Mewnol ac Allanol; ac Adolygiadau Annibynnol.

Mae'r Bwrdd yn glir ei fod yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod a'i fod yn cynnal ei fusnes yn agored ac yn unol â'r Cod, ac na wyrwyd o'r Cod o gwbl fel y mae'n berthnasol i gyrff GIG yng Nghymru.

## DATGELIADAU GORFODOL YCHWANEGOL

## Y Gymraeg

Ar ôl cyflwyno Safonau'r Gymraeg ym mis Mai 2019, cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd ei Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg ym mis Medi 2020. Mae'r adroddiad yn manylu ar i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â'r Safonau ac mae'n cyflwyno gwybodaeth ar y prif gyflawniadau a wnaed trwy gydol 2019/2020. Bydd ail adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2021 yn manylu ar y cynnydd pellach a wnaed trwy gydol 2020/2021.
Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i adeiladu ar y cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud ac mae Arweinwyr Gwasanaethau Cymraeg yn parhau i fonitro rhoi'r Safonau ar waith o fewn eu meysydd gwasanaeth. Tra bo cyfleoedd i weithio gyda thimau a chleifion clinigol wedi bod yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau'r pandemig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ailganolbwyntio'i ymdrechion ar symud ymlaen â'r safonau gweithredol ynghyd â safonau mwy gweinyddol eraill. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- Cyflwyno gweithdrefnau gwerthuso swyddi a recriwtio newydd yn llwyddiannus i sicrhau bod hysbysebion swyddi a swydd-ddisgrifiadau'n cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Mae yna dal mwy o waith i'w wneud a fydd yn canolbwyntio ar adolygu hyfforddiant recriwtio i reolwyr i'w helpu i asesu'r sgiliau Cymraeg gofynnol ar gyfer swyddi newydd a gwag i helpu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn gwasanaethau lle nad oes unrhyw staff sy'n siaradwyr Cymraeg ar gael;
- Ym mis Mawrth 2021, bu BIAP a CSP yn gweithio mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru i ddatblygu a chyflwyno gweminar Gymraeg ar lwybrau gyrfa a chyfleoedd recriwtio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Cyflwynwyd y weminar fyw yn llwyddiannus i ddisgyblion ym mlynyddoedd 9, 10 ac 11 mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ledled Powys a Cheredigion;
- Mae polisi ac offeryn asesu effaith newydd wedi cael ei gymeradwyo sy'n cyflawni gofynion y safonau llunio polisi;
- Ym mis Chwefror 2021, cytunodd BIAP i gymryd rhan yn y rhaglen 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog'. Nod y cwrs 6 mis hwn, y mae Llywodraeth Cymru'n ei gymeradwyo, yw rhoi'r sgiliau i Arweinwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr i farchnata'r iaith fel "brand", i fesur a

meithrin agweddau mwy positif tuag at yr iaith, i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn sgyrsiau bob dydd ac i integreiddio'r iaith yn y gweithle;

- Mae BIAP wedi bod yn arwain ffrwd waith ddwyieithog ranbarthol ar gyfer rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ar waith. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys dadansoddi data am sgiliau staff, asesiadau o anghenion y boblogaeth a datblygiad canllawiau rhanbarthol ar sut i sicrhau bod y rhaglen ranbarthol yn bodloni Gofynion yr Iaith Gymraeg.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Fis Medi 2020, cyhoeddodd BIAP ei Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ar gyfer 2019/2020 a ddarparodd fanylion am y cynnydd a wnaed i gyflawni Amcanion Cydraddoldeb Strategol cyffredinol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-2021. Bydd adroddiad blynyddol arall ar gyfer 2020-2021 yn cael ei gyhoeddi maes o law yn darparu manylion am y cynnydd pellach a wnaed.
Gan adeiladu ar fomentwm y Cynllun Cydraddoldeb Strategol sydd newydd ei ddatblygu, mae'r Bwrdd Iechyd wedi canolbwyntio ar sefydlu a datblygu rhwydweithiau a digwyddiadau rhithwir i gefnogi staff, cleifion a grwpiau anodd i'w cyrraedd a'r rheini y mae'r pandemig presennol o bosibl wedi dwysau eu hanghenion unigol. Mae rhwydweithio â CSP, PAVO, Llywodraeth Cymru a grwpiau a sefydliadau sy'n rhanddeiliaid ehangach wedi bod yn hanfodol er mwyn cynnal a hybu iechyd a llesiant ac mae BIAP wedi rhoi'r camau a'r mentrau a ganlyn ar waith trwy gydol 2020-2021:

- Caffi Menopos Rhithwir ar gyfer staff i gyd-fynd â'r Polisi Menopos Cymru Gyfan newydd;
- Rhwydwaith Niwroamrywiaeth ar y cyd rhwng BIAP a CSP i gefnogi staff ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau dysgu amrywiol fel awtistiaeth a dyslecsia;
- Rhwydwaith Rhanddeiliaid Rhywedd sy'n cynnwys staff, cleifion a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'r grŵp hwn wedi ymgymryd â hyfforddiant penodol i helpu i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â hunaniaeth o ran rhywedd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi buddsoddi mewn hyfforddiant arbenigol ar gyfer aelodau allweddol o'n Tîm Therapi Lleferydd ac Iaith sy'n cynorthwyo meddygon teulu lleol sy'n arbenigo mewn hunaniaeth o ran rhywedd trwy gynnig therapi llais i unigolion trawsryweddol;
- Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid Sipsiwn, Roma a Theithwyr sydd wedi caniatáu i'n Rheolwr Gwella Gwasanaeth ar gyfer Cydraddoldeb sefydlu cysylltiadau â Swyddogion Tros Gynnal Plant Cymru a staff allweddol yn Adran Tai CSP er mwyn sicrhau bod anghenion iechyd cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ym Mhowys wedi cael eu diwallu trwy gydol y pandemig.

- Mae BIAP wedi sefydlu grŵp uwch reolwyr rhithwir mewnol i edrych ar roi argymhellion Adroddiad Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol COVID-19 BAME Llywodraeth Cymru ar waith. Mae camau'n cynnwys sefydlu cysylltiadau â grwpiau staff BAME yn y Byrddau Iechyd cyfagos ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gyrchu unrhyw hyfforddiant ymwybyddiaeth sydd ar gael i staff, hybu Offeryn Asesu Risg COVID-19 i staff a recriwtio Gwirfoddolwyr Allanol PAVO BAME.
- Cymerodd BIAP ran mewn digwyddiadau cenedlaethol Pride Cymru ac LGBTQymru ar-lein yn ystod haf 2020. Hefyd, hybwyd ymhellach Diwrnod 'Dod Allan' ym mis Hydref 2020;
- Cafodd Mis Ymwybyddiaeth Colli Synhwyrau ei hybu i staff a'r cyhoedd trwy gydol mis Tachwedd 2020. Mae cefnogi'r rheini â nam ar y synhwyrau wedi bod yn flaenoriaeth trwy gydol y pandemig ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi prynu seinchwyddwyr personol y mae cleifion yn gallu eu defnyddio wrth dderbyn gofal a thriniaeth. Mae gwasanaethau trwsio a chyfnewid cymhorthion clyw ar yr un diwrnod wedi cael eu cyflwyno i gleifion mewnol ynghyd â chynnydd o ran addasu cymhorthion clyw o bell gyda chymorth Action on Hearing Loss. Hefyd, mae gwasanaethau'r Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid wedi cael eu diwygio a'u gwella i gefnogi'r rheini sydd wedi colli golwg o ganlyniad i'r pandemig COVID-19;
- Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud yn rhoi'r rhaglen brechu torfol ar waith i sicrhau bod anghenion y grwpiau lleiafrifol, agored i newid ac anodd i'w cyrraedd wedi cael eu hystyried a bod unrhyw gamau lliniaru angenrheidiol wedi'u rhoi ar waith. Mae is-grŵp 'Gadael Neb Ar Ôl' wedi'i sefydlu i hwyluso'r broses frechu i'r rheini ag anghenion penodol, i annog pobl i fanteisio ar y brechlyn ac i leihau anghydraddoldebau iechyd i'r rheini sydd o bosibl dan anfantais. Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu a chanllawiau wedi'u rhannu'n eang â staff yn y canolfannau brechu torfol.

## Parodrwydd am Argyfwng ac Argyfyngau Sifil Posibl
## - Paratoi ar gyfer BREXIT 'Heb Gytundeb'
## - Trefniadau Cynllunio ar gyfer COVID-19

Mae BIAP wedi'i ddisgrifio fel ymatebwr Categori 1 dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, ac felly mae gofyn iddo gydymffurfio â'r holl ddyletswyddau deddfwriaethol y manylir arnynt yn y Ddeddf.
Mae'r Ddeddf yn gosod 5 dyletswydd statudol ar ymatebwyr Categori 1, sef:

- asesu risg o argyfyngau;
- bod â chynlluniau argyfwng ar waith;
- sefydlu trefniadau rheoli parhad busnes;
- bod â threfniadau ar waith i rybuddio, hysbysu a chynghori aelodau o'r cyhoedd;

- rhannu gwybodaeth, cydweithredu a chysylltu ag ymatebwyr lleol eraill.

Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfres o gynlluniau ymateb mewn argyfwng sy'n rhoi ystyriaeth lawn i ofynion canllawiau Llywodraeth Cymru i GIG Cymru a'r holl ganllawiau cysylltiedig, i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gallu ymateb i amrywiaeth eang o argyfyngau.
Mae prif ffocws o ran parodrwydd am argyfwng a gweithgareddau ymateb yn ystod 2020/21 wedi bod yn ymwneud ag:

- **Ymateb i'r Pandemig COVID-19**


Roedd yr angen i gynllunio ac ymateb i'r pandemig COVID-19 yn golygu nifer o heriau i'r sefydliad. Nodwyd nifer o risgiau newydd a oedd yn dod i'r amlwg. Tra bo cynllun digwyddiad mawr a pharhad busnes ar waith gan y sefydliad, yn ôl gofynion Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, mae graddfa ac effaith y pandemig wedi bod yn ddigynsail.
Fel y nodwyd yn flaenorol, helpodd Fframwaith Pandemig BIAP i lunio trefniadau ymateb y Bwrdd Iechyd ymlaen llaw i COVID-19. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gynnal trefniadau gorchymyn a rheoli mewnol wedi'u canoli ar grŵp lefel Aur (strategol) a chyfres o grwpiau cyflenwi tactegol a gweithredol. Mae ffocws y gwaith a wnaed trwy'r grwpiau hyn wedi bod o natur pontio, i addasu i'r gwahanol gyfnodau yn ymateb y Bwrdd Iechyd i'r pandemig.
Mae'r prif feysydd cynllunio ac ymateb wedi bod ynglŷn â:

- Chyflenwi Gweithredol;
- Atal ac Ymateb;
- Rhaglen Brechu Torfol.

Cymerwyd camau sylweddol ar lefel genedlaethol a lleol i baratoi ac i ymateb i'r effaith debygol ar y sefydliad a'r boblogaeth. Mae hyn wedi galw am weithio mewn partneriaeth ar yr ymateb amlasiantaeth fel aelod allweddol o'r Grŵp Cydgysylltu Strategol. Mae yna rywfaint o ansicrwydd o hyd ynglŷn â'r effaith gyffredinol y bydd hyn yn ei chael ar gyflenwi gwasanaethau'n uniongyrchol a thymor hir gan y sefydliad, er fy mod yn hyderus bod yr holl gamau priodol yn cael eu cymryd.

Mae'r sefydliad yn parhau i weithio'n agos ag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wrth iddo barhau â'i ymateb a'i gynllunio i'r cyfnod adfer. Bydd angen sicrhau bod trefniadau rheoli risg cadarn wrth wraidd hyn, a'r gallu i nodi, asesu a lliniaru risgiau a fedrai, o bosibl, effeithio ar allu'r sefydliad i gyflawni ei amcan strategol.

O ran COVID-19, mae'r Prif Weithredwr wedi sefydlu'r strwythur hierarchaidd mewnol a ganlyn o'r enw "Gorchymyn a Rheoli":




<u>Grŵp (Aur) Strategol</u>
Y Grŵp (Aur) Strategol, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr, sy'n gyfrifol am bennu'r strategaeth a'r polisi cydgysylltiedig ar gyfer rheolaeth gyffredinol ar ymateb y Bwrdd Iechyd i COVID-19, er mwyn amddiffyn enw da'r sefydliad a sicrhau cyflenwi gofal sy'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddiogel ar gyfer poblogaeth Powys.

Bydd y Grŵp (Aur) Strategol yn:
- Cydlynu gwneud penderfyniadau strategol a defnyddio adnoddau'n effeithiol gydol y cyfnodau asesu, trin ac adfer; gan sicrhau bod sylw i rolau cefnogi allweddol;
- Sicrhau goruchwyliaeth strategol dros yr ymateb i COVID-19 ar gyfer y Bwrdd Iechyd fel cyfanwaith;
- Dirprwyo camau gweithredu i'r Grwpiau (Arian) Tactegol i sicrhau bod cynllun i gyflawni'r nod a'r amcanion strategol yn cael ei roi ar waith.
- Llunio strategaethau trin y cyfryngau a chyfathrebu cyhoeddus, yn ôl y galw;
- Amddiffyn llesiant staff a chleifion o fewn y Bwrdd Iechyd;
- Penderfynu pryd y dylid rhoi'r gorau i'r trefniadau ymateb i'r pandemig a rhoi'r cyfnod adfer ar waith.

Cyfarwyddwyr Gweithredol yw cyfansoddiad y Grŵp (Aur) Strategol gan gynnwys Swyddog Cyswllt Milwrol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Powys (CSP).

Cynhaliwyd cyfarfodydd y Grŵp (Aur) Strategol unwaith yr wythnos a chawsant eu cofnodi'n ffurfiol gan nodi pob penderfyniad.

- **Paratoi ar gyfer Diwedd Cyfnod Pontio'r UE**

Fis Awst 2020, gwnaeth y Bwrdd Iechyd adfywio ac adnewyddu ei weithgareddau paratoi yn ymwneud â chynllunio ar gyfer y cyfnod Pontio o'r UE.
Ar lefel genedlaethol, parhaodd y Bwrdd Iechyd i gael ei gynrychioli ar nifer o grwpiau cynllunio'r cyfnod pontio o'r UE y GIG, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o drefniadau llywodraethu cyffredinol y DU ar

gyfer y Cyfnod Pontio o'r UE. Cynrychiolwyd y Bwrdd Iechyd hefyd ar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed-Powys, gan sicrhau bod cynllunio a chydlynu amlasiantaeth effeithiol ar waith mewn ymateb i effaith bosibl y trafod telerau a oedd ar y gweill rhwng y DU a'r UE.
Ar lefel leol, roedd paratoadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer Cyfnod Pontio o'r UE yn canolbwyntio ar sicrhau parhad ac ansawdd y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd mor barod ag oedd yn rhesymol bosibl i ymateb i'r heriau o adael yr UE. Roedd meysydd allweddol y gwaith hwn yn cynnwys:

- Sicrhau parhad cyflenwadau meddyginiaethau, dyfeisiau meddygol a deunyddiau traul clinigol fel rhan o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud ar lefel genedlaethol;
- Sicrhau bod ein gweithlu'n teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi trwy ddarparu cefnogaeth barhaus i staff yr UE sy'n gweithio ym Mhowys, gan gynnwys hybu'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE;
- Iechyd a llesiant y boblogaeth yn y tymor hir.

Ar 24 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r UE eu bod wedi cytuno ar gytundeb masnach gan fanylu ar y telerau ar gyfer eu perthynas yn y dyfodol o 1 Ionawr 2021. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gynnal y mesurau wrth gefn ychwanegol a roddwyd ar waith cyn i'r Cyfnod Pontio ddod i ben nes bod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau pellach tymor canolig a hir ar gyfer sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Cyfarwyddiadau Gweinidogol a Chylchlythyrau Iechyd Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Offerynnau Anstatudol o'r blaen ac wedi ailgyflwyno Cylchlythyrau Iechyd Cymru yn 2014/15. Mae manylion y rhain a chofnod o unrhyw gyfarwyddiadau gweinidogol a roddir ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae manylion llawn am Gylchlythyrau Iechyd Cymru a ddosbarthwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2020/21 a chamau'r Bwrdd Iechyd wrth ymateb iddynt wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

Ni chyhoeddwyd unrhyw Gyfarwyddiadau Gweinidogol yn 2020/21. Cyhoeddwyd un Cyfarwyddyd Gweinidogol ym mis Rhagfyr 2019, i fynd i'r afael â heriau gweithredol yn codi o ganlyniad i drefniadau treth pensiwn. Mae rhagor o fanylion ynglŷn â hyn wedi'u cynnwys dan adran Rhwymedigaethau Wrth Gefn yn Natganiadau Ariannol 2020/21 (Nodyn 21.1).

## Fframwaith Cynllunio, Cyflenwi a Pherfformiad

Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu ei gynlluniau ar sail asesiad o anghenion y boblogaeth sy'n ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a chymunedol. Gosodwyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) ar gyfer 2019/20 (a ddatblygwyd cyn dechrau'r pandemig COVID-19) yng

nghyd-destun y cyd-Strategaeth Iechyd a Gofal tymor hir ar gyfer Powys, sef 'Powys Iach a Gofalgar', sydd wedi'i seilio ar wybodaeth o Asesiad Llesiant Powys.

Gohiriodd Llywodraeth Cymru yr angen am Gynlluniau Tymor Canolig Integredig wedyn ym mis Mawrth 2020 oherwydd y pandemig COVID-19 a gwneud cynllunio chwarterol yn ofynnol yn lle hynny.

Roedd y cynlluniau chwarterol y gwnaeth y Bwrdd Iechyd eu datblygu a'u rhoi ar waith yn ystod 2020 - 2021 yn canolbwyntio ar yr ymateb i COVID-19 ac ar gynnal gofal iechyd hanfodol, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chanllawiau oddi wrth Sefydliad Iechyd y Byd a chyrff clinigol yn y cyd-destun hwn.

Datblygodd BIAP Fodel Ymateb Clinigol a Model Gwasanaethau Cymorth COVID-19 fel cydrannau craidd ar gyfer y Fframwaith Cynllunio a Chyflenwi yn Chwarter 1 (mis Ebrill i fis Mehefin 2020). Darparodd hwn fodel 'Pum Cam' a sicrhaodd ymateb cadarn i gyfnod cyntaf y pandemig COVID-19, gan gynnwys gweithredu fel unigolion i aros adref ac achub bywydau; hunanofal a chefnogaeth teulu / cymuned; gofal sylfaenol; gofal cymunedol a model ysbytai cymunedol a gofal acíwt ac arbenigol.

Darparodd hwn y sylfaen ar gyfer Cynllun Cyfnod 2 yn Chwarter 2 a oedd, er yn dal i fod yn canolbwyntio ar gyflenwi yn y cyfnod o fis Gorffennaf i fis Medi 2020, hefyd yn cymryd golwg ar bethau yn y tymor hir, gan droi yn ôl at y strategaeth iechyd a gofal tymor hir a oedd yn bodoli eisoes a rennir â phartneriaid ledled Powys.

Yn bwysig iawn, trwy gydol 2020 – 2021, gosodwyd y cynlluniau chwarterol yng nghyd-destun y niweidiau ehangach posibl a oedd yn digwydd yn ystod y pandemig. Lluniodd BIAP ei ddarpariaeth gofal iechyd yn y cyfnod hwn o gwmpas y 'Pedwar Niwed' roedd Llywodraeth Cymru wedi manylu arnynt yng nghyd-destun y pandemig:

- Niwed o COVID-19 ei hun.
- Niwed o leihad mewn gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19.
- Niwed o system iechyd a gofal sydd wedi'i gorlethu.
- Niwed o effaith gymdeithasol ehangach y pandemig.

Sicrhaodd hyn fod y ffocws presennol ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a chymunedol yn null y Bwrdd Iechyd o weithredu wedi parhau i ddarparu sylfaen i waith y Bwrdd Iechyd yn ystod blwyddyn heriol.

Hefyd, galluogodd i ni gynnal adolygiad ac ailwerthusiad blaengar o faterion amgylcheddol, cymdeithasol a chymunedol fel rhan o'r cylchred cynllunio a chyflenwi ac roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth ddatblygu Cynllun Diogelu'r Gaeaf a oedd yn cwmpasu cyfnodau Chwarter 3 a Chwarter 4 o fis Hydref 2020 i ddiwedd mis Mawrth 2021. Mae gan hwn fwy o ffocws ar adfer yn unol â dyhead tymor hir 'Powys Iach a Gofalgar'

Addaswyd hefyd y modd y mesurwyd perfformiad yn 2020/2021 yn unol â'r newidiadau i'r fframwaith cenedlaethol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Daliwyd i weithredu mewn dull integredig ond gyda chydrannau sylweddol newydd i gyflenwi'r wybodaeth ac arolygaeth angenrheidiol a oedd yn ofynnol yn ôl y gorchymyn Aur Strategol newydd a sefydlwyd yn ystod cyfnod cyntaf yr ymateb i'r pandemig. Roedd hwn yn cynnwys Dangosfwrdd wedi'i ddiweddaru'n ddyddiol ac yn wythnosol fel bo'n briodol i ddarparu darlun o sefyllfa'r pandemig COVID-19 ac ymateb y system iechyd a gofal.

Roedd y Gorchymyn Aur Strategol hefyd yn cadw llygad ar y cynnydd yn erbyn y Fframwaith Cynllunio a Chyflenwi, trwy fecanwaith cynllun gweithredu manwl ategol ar gyfer pob chwarter. Roedd hyn yn olrhain y camau gweithredu allweddol ym mhob un o feysydd y 'Pedwar Niwed' a chyflawniad o'r model Pum Cam a'i ffrydiau gwaith allweddol.

Gohiriwyd fframwaith perfformiad GIG Cymru yn Chwarter un ond parhaodd BIAP i roi trosolwg o'r dangosyddion perfformiad allweddol i bwyllgorau allweddol a Bwrdd BIAP, pan roedd y data ar gael. Hefyd, cyflwynwyd elfen newydd o adrodd er mwyn olrhain cyflenwi gofal iechyd hanfodol ar draws y gwasanaethau y mae BIAP yn eu darparu a'r gwasanaethau y mae'n eu comisiynu a, thrwy gydol 2020/2021, cadwyd cofnod o newidiadau mewn gwasanaethau oherwydd y pandemig ac mae'n parhau i gael ei ddefnyddio yn 2021/2022.

Sicrhaodd y dull hwn a oedd wedi'i adfywio yng nghyd-destun y pandemig fod adrodd ar berfformiad ac adolygu'n parhau i ddigwydd ar bob lefel yn y sefydliad gan gynnwys adolygiadau unigol, tîm a Chyfarwyddiaeth. Roedd y system hon o adrodd ac adolygu'n parhau i ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol i Bwyllgorau'r Bwrdd a'r Bwrdd ynglŷn ag ansawdd a diogelwch y gwasanaethau, mynediad at ofal, gwella a chyflawni yn erbyn amcanion strategol y bwrdd, mewn amgylchedd gweithredol cymhleth a newidiol.

Gan edrych i'r dyfodol, mae'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021-2022 hefyd yn dangos y gwerthuso blaengar hwn ac mae wedi'i greu yn seiliedig ar ystyriaeth drylwyr o sail dysgu, myfyrdodau a thystiolaeth mewn perthynas ag anghenion poblogaeth Powys a'r heriau a'r cyfleoedd sydd ar ddod.

Mae rhagor o fanylion am berfformiad a chynnydd yn erbyn cynlluniau yn ystod 2020/2021 a'r rhagolwg ar gyfer 2021/2022 wedi'u cynnwys yn Rhan 1: Trosolwg o Berfformiad.

## ADOLYGIAD O DDEFNYDDIO ADNODDAU'N DDARBODUS, YN EFFEITHLON AC YN EFFEITHIOL

Fe ddiwygiodd Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 ddyletswyddau ariannol Byrddau Iechyd Lleol dan Adran 175 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae'r Ddeddf yn gosod dwy ddyletswydd ariannol ar Fyrddau Iechyd Lleol:

- Dyletswydd dan adran 175 (1) i sicrhau nad yw ei wariant yn fwy na chyfanswm y cyllid a ddyrennir iddo dros gyfnod o dair blynedd ariannol; a
- Dyletswydd dan adran 175 (2A) i baratoi cynllun yn unol â chyfarwyddiadau cynllunio a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd dan Adran 175 (1) tra'i fod yn gwella iechyd y bobl y mae'n gyfrifol amdanynt, a'r ddarpariaeth gofal iechyd i bobl o'r fath, ac i'r cynllun hwnnw gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru iddynt ei gymeradwyo.

Oherwydd y pandemig, cafwyd oedi â'r broses ar gyfer cynllun integredig 2020-23 yn y gwanwyn 2020, a rhoddwyd trefniant cynllunio chwarterol dros dro ar waith ar gyfer 2020-21.

O ganlyniad, mae'r ddyletswydd cynllunio a oedd yn bodoli ar gyfer 2020-21 dal yn golygu ei bod yn ofynnol cyflwyno cynllun integredig 2019-22 a'i gael wedi'i gymeradwyo, fel y manylir arno yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2019-22. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd gynllun integredig 2019-22 yn unol â'r fframwaith cynllunio.

## Cynllun Pensiwn

Gallaf gadarnhau, fel cyflogwr â staff sydd â'r hawl i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG, bod mesurau rheolaeth ar waith i sicrhau y cydymffurfir â'r holl rwymedigaethau cyflogwyr a gynhwysir yn rheoliadau'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau o gyflog, cyfraniadau cyflogwr a thaliadau i mewn i'r Cynllun yn unol â rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion Cynllun Pensiwn yr aelodau'n cael eu diweddaru'n fanwl gywir yn unol â'r amserlen y manylir arni yn y Rheoliadau. Mae nodyn 9.7 y Cyfrifon Blynyddol yn rhoi manylion am y cynllun, sut y mae'n cael ei weithredu a hawl cyflogeion.

## Cynlluniau Cynaliadwyedd a Lleihau Carbon

Mae asesiadau risg ar waith yn unol â gofynion parodrwydd ar gyfer argyfwng ac argyfyngau sifil posibl seiliedig ar ragamcanion tywydd 2009 Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y DU i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â rhwymedigaethau'r sefydliad dan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd a'r gofynion Adrodd ar Addasu. Er mwyn cyrraedd targed 'datgarboneiddio erbyn 2030' Llywodraeth Cymru, mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi datblygu System Reoli Amgylcheddol yn unol ag ISO14001:2005, ac mae'n ei rhoi ar waith. Mae hon yn cynnwys cynllun cyflenwi datgarboneiddio. Mae hyn, ochr yn ochr ag ymarfer ôl troed carbon a gynhaliwyd gan yr Ymddiriedolaeth Garbon, yn gosod yr agenda i ddatblygu 'Strategaeth Carbon Niwtral' trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a bydd yn cefnogi'r Bwrdd Iechyd i weithio ar y cyd ac yn effeithiol â sefydliadau sy'n bartneriaid i gyrraedd targedau 2030.

## Adolygu Effeithiolrwydd y System Rheolaeth Fewnol

Fel Swyddog Atebol, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Fe ddarparodd gwaith yr archwilwyr mewnol a'r swyddogion gweithredol yn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau gan archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio ac adroddiadau eraill, sail i fy adolygiad o'r system rheolaeth fewnol.

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu dull strwythuredig o fynd ati i reoli risg, lle bo risgiau'n cael eu nodi, eu hasesu a'u rheoli a, lle bo'n briodol, eu huwchgyfeirio neu eu hisgyfeirio trwy fecanweithiau llywodraethu'r sefydliad.

Mae gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd rôl allweddol mewn monitro effeithiolrwydd rheolaeth fewnol a'r broses ar gyfer rheoli risg. Bydd gwaith yn parhau yn 2021/22 i gryfhau'r adrodd ar risgiau i Bwyllgorau'r Bwrdd. Byddwn yn sicrhau bod gwaith pob rheoleiddiwr, arolygwr a chorff sicrwydd yn cael ei fapio ac y ceir tystiolaeth o hyn yn ein fframwaith sicrwydd fel bod y Bwrdd yn gwbl ymwybodol o'r gweithgarwch hwn a lefel y sicrwydd y mae'n ei ddarparu. Byddwn hefyd yn blaenoriaethu gwaith i gefnogi cofnodi a monitro argymhellion yn sgil gwaith rheoleiddwyr, arolygwyr ac adolygiadau sicrwydd allweddol eraill.

## Gwirio ar ôl Gwneud Taliadau

Yn unol â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru, mae'r Tîm Gwirio ar ôl Gwneud Taliadau, (sef rôl y mae Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG yn ei gwneud ar ran y Bwrdd Iechyd), o ran Gwasanaethau Ychwanegol Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol wedi cyflawni ei waith dan delerau'r cytundeb lefel gwasanaeth ac yn unol â phrotocolau cytunedig GIG Cymru. Adroddir ar waith y Tîm Gwirio ar ôl Gwneud Taliadau i Bwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd y Bwrdd ac mae papurau ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd.

## Atal Twyll

Yn unol â Safonau Twyll, Llwgrwobrwyaeth a Llygredigaeth NHS Protect ar gyfer Cyrff GIG (Cymru) fe gytunodd yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol a'r Cyfarwyddwr Cyllid ar gynllun gwaith ar gyfer 2020-21 ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd hwn ym mis Mawrth 2020.

Cwblhawyd y cynllun gwaith ar gyfer 2020-21 ac roedd hwn yn rhoi sylw i'r holl ofynion dan gyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru. Mae'r Gwasanaeth Atal Twyll yn rhoi adroddiadau rheolaidd a'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Tîm Gweithredol ac yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.

Fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd, mae'n ofynnol bod sefydliadau GIG

yng Nghymru'n cwblhau hunan-adolygiad o'u cynnydd wrth roi'r Safonau ar waith. O 2021/22, bydd GIG Cymru'n cyflwyno Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth ar Atal Twyll i ddisodli 'Safonau Atal Twyll y GIG (Cymru)' Awdurdod Atal Twyll y GIG. Felly aethpwyd ati i wneud hunanasesiad yn erbyn y Safonau newydd yn 2020/21. Tynnwyd sylw at y meysydd a ganlyn fel rhai yr oedd angen eu gwella fel rhan o'r broses hunanasesu.

- Gofyniad 3 y GIG – Asesiad risg o dwyll llwgrwobrwyo a llygredd. Mae gwaith wedi'i wneud ar hwn yn 2020/21 i baratoi. Mae hwn yn faes sy'n datblygu ledled GIG Cymru a Lloegr. Rhagwelir y bydd yna ganllawiau a chymorth pellach oddi wrth Awdurdod Atal Twyll y GIG yn 2021/22 ar sut i alinio'r gwaith hwn i fethodoleg asesu risg o dwyll Proffesiwn Atal Twyll y Llywodraeth a fydd, yn ei dro, yn cael ei fabwysiadu a'i roi ar waith o fewn y Bwrdd Iechyd.
- Gofyniad 6 y GIG – Metrigau ar sail deilliannau. Bydd cyflwyno dangosyddion perfformiad allweddol ffurfiol â thargedau wedi'u gosod ar ddechrau'r flwyddyn yn ddull newydd o weithredu ac felly bydd cysondeb ledled GIG Cymru'n allweddol bwysig.
- Gofyniad 8 y GIG – Cofnodi Colledion Dynodedig. Bydd system newydd o reoli achosion sy'n cael ei chyflwyno ar 1af Ebrill 2021 yn helpu i fodloni'r safon newydd hon. Cytunwyd ar fformiwlâu cyfrifo i sicrhau cysondeb ledled GIG Cymru i nodi a chofnodi colledion.
- Gofyniad 10 y GIG – Ymgymryd â gweithgaredd datgelu. Er bod gwaith wedi'i gwblhau yn y maes hwn, yn benodol yn ymwneud â dadansoddi a rhannu gwybodaeth am risgiau o dwyll sy'n bodoli ar hyn o bryd ac sydd ar ddod, mae'r cyfuniad o newid mewn ffocws tuag at ddelio â'r pandemig a gostyngiad mewn adnoddau sydd ar gael wedi golygu nad oes digon o waith wedi'i wneud i fynd ati'n rhagweithiol i ddatgelu twyll yn y flwyddyn i gyflawni sgôr Gwyrdd. Mae sgôr Oren yn cynrychioli cynnal sgôr debyg i Safonau cymaradwy'r GIG ar gyfer adolygiad 2020/21. Mae'r cynllun gwaith Atal Twyll ar gyfer 2021/22 yn cynnwys gweithgareddau â'r nod o wella'r sgôr hon. Bydd dychwelyd amser llawn at bartneriaid yn y maes hwn, fel Gwirio ar Ôl Gwneud Taliadau, llwyddo i recriwtio Swyddog Atal Twyll Lleol newydd a 'normaleiddio' rolau'r GIG yn gyffredinol yn helpu i gyflawni a chwblhau'r gweithgaredd cynlluniedig hwn ar gyfer 2021/22.

Mae gweithgareddau gwella ar gyfer y meysydd hyn wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gwaith Atal Twyll 2021/22. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol Atal Twyll ar gyfer 2020-21, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 08 Mehefin 2021.

## Archwilio Mewnol

Mae'r archwiliad mewnol yn darparu llif sicrwydd ynglŷn â'r system rheolaeth fewnol i'r Bwrdd a minnau, fel Swyddog Atebol, trwy'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Rwyf wedi comisiynu rhaglen o waith archwilio


sydd wedi'i chyflawni'n unol â safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cytunir ar gwmpas y gwaith hwn â'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg sylweddol a blaenoriaethau gwella lleol.

Mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn swyddogaethau'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg, ac mae'n cyfrannu at y llun o sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch am welliant parhaus.

Gwnaeth yr angen i ymateb i'r pandemig COVID-19 effeithio ar y rhaglen, gyda rhai archwiliadau wedi'u gohirio, eu canslo neu eu cwtogi wrth i'r sefydliad ymateb i'r pandemig. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon y bu digon o archwilio mewnol yn ystod y cyfnod adrodd i ddarparu Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol. Wrth lunio'r Farn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith yr archwiliadau sydd heb eu cwblhau yn llawn.

## Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2020-21

Manylir ar Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad ar gyfer 2020-21 isod:

| | | |
|---|---|---|
| **Sicrwydd Rhesymol** |  + Melyn | Gall y Bwrdd gymryd **Sicrwydd Rhesymol** bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny dan sylw, wedi'u cynllunio'n addas ac wedi'u rhoi ar waith yn effeithiol. Mae angen i reolwyr roi sylw i rai materion yn ymwneud â chynllunio rheolaeth neu â chydymffurfio, ac fe fydd gan y rhain effaith isel i gymedrol ar risgiau gweddilliol nes y byddant wedi'u datrys. |

Oherwydd effaith sylweddol COVID-19 ar y Bwrdd Iechyd yn 2020-21, roedd angen i'r cynllun archwilio mewnol fod yn ystwyth ac yn ymatebol er mwyn sicrhau ei fod yn cwmpasu'r risgiau allweddol a oedd yn datblygu. O ganlyniad i'r dull hwn o weithredu, a gyda chefnogaeth swyddogion ac aelodau annibynnol ledled y Bwrdd Iechyd, mae'r cynllun wedi cael ei gyflawni'n helaeth yn unol â'r amserlen gytunedig a'r newidiadau gofynnol yn ystod y flwyddyn, fel a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Hefyd, mae adroddiadau cynnydd archwilio wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn rheolaidd. Er bod newidiadau wedi'u gwneud i'r cynllun yn ystod y flwyddyn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cadarnhau eu bod wedi cynnal digon o waith archwilio yn ystod y flwyddyn i allu rhoi barn gyffredinol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Cyflwynwyd y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/21 i'r Pwyllgor

Archwilio, Risg a Sicrwydd gyntaf ym mis Mawrth 2020, ond oherwydd effaith y pandemig cafodd cynllun diwygiedig ei baratoi, a chymeradwywyd y fersiwn derfynol yn y Pwyllgor ym mis Mehefin 2020. Mae'r Farn Flynyddol hon felly wedi'i seilio'n bennaf ar gyflawni fersiwn Mehefin 2020 o'r cynllun blynyddol, gan gynnwys y diweddariadau a wnaed yn ddiweddarach i'r cynllun yr adroddir arnynt i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mhob cyfarfod.

Ar y cyfan, roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn gallu darparu sicrwydd i'r Bwrdd bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol wedi'u cynllunio'n addas ac wedi'u rhoi ar waith yn effeithiol yn y meysydd y manylir arnynt isod:

| **Sicrwydd Sylweddol** | **Sicrwydd Rhesymol** |
|---|---|
| • Camau dilynol Rhyddid Gwybodaeth.<br>• Mynediad i ofal sylfaenol – contract Meddygon Teulu.<br>• Systemau Cyfalaf. | • Camau dilynol Iechyd a Diogelwch.<br>• Camau dilynol cyffredinol adroddiadau sicrwydd 'cyfyngedig'.<br>• Cynnydd yn erbyn cynlluniau rhanbarthol.<br>• Diogelu yn ystod COVID-19.<br>• Datrysiadau digidol.<br>• Pwysau'r gaeaf a rheoli llif.<br>• Polisi cwynion cyflogaeth. |
| **Sicrwydd Cyfyngedig** | **Cynghorol a Dim Barn** |
| • Llywodraethu mewn partneriaeth – rhyngwyneb rhaglenni.<br>• Diogelwch tân.<br>• Prosiect Llandrindod.<br>**Dim Sicrwydd**<br>• Amh. | • Adolygiad Llywodraethu COVID-19.<br>• Datganiad Ansawdd Blynyddol.<br>• Rhaglen brechu torfol.<br>• Technoleg a rheoli gwybodaeth ac asesu risg.<br>• Fframwaith Arfer Uwch.<br>• Cynaliadwyedd amgylcheddol. |

## Adolygiadau Lle Rhoddwyd Sicrwydd Cyfyngedig

Diogelwch Tân

Derbyniodd yr archwiliad Diogelwch Tân, a oedd yn cynnwys adolygiad o statws y cynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt yn flaenorol, sicrwydd cyfyngedig. Roedd yr adolygiad wedi nodi gwendidau rheoli allweddol yn ymwneud â diffyg eglurder ynglŷn â phennu a gweithredu rolau a chyfrifoldebau diogelwch tân allweddol a doedd dim modd rhoi sicrwydd y byddai'r Bwrdd Iechyd â digon o gefnogwyr wedi'u hyfforddi pe bai tân. Hefyd, doedd driliau tân ddim yn cael eu cynnal yn unol â gweithdrefnau ac arfer gorau cyffredinol.

Argymhellodd yr Archwiliad Mewnol y camau gwella a ganlyn a derbyniwyd nhw gan y rheolwyr:

- Dylid diweddaru'r Polisi Diogelwch Tân i:

a. Ddangos cydymffurfiad â'r rheoliadau cyfredol [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 05-01 (2019)].
b. Adlewyrchu'r strwythur rheoli diogelwch tân cyfredol yn y BIA.

- Dylid egluro'r strwythur rheoli diogelwch tân cyfredol, ei ddogfennu a'i gymeradwyo'n ffurfiol yn y fforwm priodol (e.e. Grŵp Diogelwch Tân), gan sicrhau ymroddiad a chefnogaeth oddi wrth y Bwrdd/ Tîm Gweithredol a'r Rheolwyr Gweithredol.
- Dylid dogfennu (e.e. trwy gylch gorchwyl), pennu a derbyn rolau a chyfrifoldebau diogelwch tân unigol yn ffurfiol, gan sicrhau trefniadau rheoli priodol o fewn ardaloedd.
- Bydd y cynlluniau tân sy'n cael eu harddangos yn Ysbyty Coffa Rhyfel Llandrindod yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau diweddar i'r safle.
- Dylai staff safle dderbyn cyfarwyddyd/ hyfforddiant i sicrhau bod ffolderi rheoli tân lleol yn cael eu defnyddio'n briodol a'u llenwi'n fanwl.
- Dylid gwneud gwiriadau sampl yn ystod ymweliadau safle Cynghorydd Diogelwch Tân er mwyn sicrhau bod ffolderi'n cael eu llenwi yn ôl y gofyn.
- Caiff rolau Swyddog Tân a Chydlynydd Digwyddiadau eu cadarnhau i fod mewn grym ar unwaith er mwyn sicrhau bod digon o staff ym mhob lleoliad pe bai tân / pe bai galw gadael yr adeilad.
- Driliau Diogelwch Tân:
  a. Dylid perfformio driliau tân safle yn flynyddol (o leiaf).
  b. Adroddir ar achosion o beidio â chydymffurfio â driliau cynlluniedig i'r Grŵp Diogelwch Tân.
  c. Caiff amserlen y dril tân ei gwella i wahaniaethu rhwng driliau tân cynlluniedig a rhai go iawn.

Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd wedi ystyried y cynllun gweithredu rheoli i ymateb i'r gwendidau a nodwyd a bydd yn monitro cynnydd yn unol â'r amserlenni cytunedig trwy'r Traciwr Argymhellion Archwiliadau. Adroddwyd ar y fersiwn ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 29 Ebrill 2021.

Llywodraethu mewn Partneriaeth – Rhyngwyneb Rhaglenni

Canolbwyntiodd yr adolygiad 'llywodraethu mewn partneriaeth – rhyngwyneb rhaglenni' ar y trefniadau ar waith o fewn y bartneriaeth Byw'n Dda: Iechyd Meddwl. Darparwyd sicrwydd cyfyngedig a nodwyd darganfyddiadau â blaenoriaeth uchel yn ymwneud ag absenoldeb fframwaith llywodraethu, yn diffinio'r gwahanol fathau o drefniadau cydweithio/ partneriaeth a'r trefniadau llywodraethu sydd eu hangen ar gyfer pob un, a'r angen i gryfhau monitro perfformiad a threfniadau adrodd ar sicrwydd.

Argymhellodd yr Archwiliad Mewnol y camau gwella a ganlyn a derbyniwyd nhw gan y rheolwyr:

- Dylai'r bwrdd iechyd ystyried datblygu dogfen gyfarwyddyd ar gyfer llywodraethu mewn partneriaeth yn diffinio'r gwahanol fathau o drefniadau cydweithio/ partneriaeth a'r trefniadau llywodraethu sydd eu hangen ar gyfer pob un. Byddai hyn yn helpu i nodi'r trefniadau mwyaf priodol i ddiwallu'r anghenion a nodir wrth geisio sefydlu partneriaeth newydd. Gellid

defnyddio trefniadau cyffelyb i'r rhai ar gyfer cytundebau Adran 33 sydd ar waith fel man cychwyn. Dylai fod yna fframwaith llywodraethu mewn partneriaeth i gefnogi partneriaethau wrth iddynt fanylu'n glir ar yr amcanion a'r trefniadau llywodraethu. Dylai hyn gynnwys rolau a chyfrifoldebau pob partner, trefniadau monitro perfformiad ac adrodd ar sicrwydd a phrosesau uwchgyfeirio. Dylid cynnal cofnod canolog o bartneriaethau. Dylai hwn nodi'r arweinydd(ion) gweithredol a threfniadau adrodd ar sicrwydd. Dylid cyfeirio at y cofnod wrth ystyried sefydlu partneriaeth newydd, i weld a ellid diwallu gofynion trwy bartneriaeth sydd eisoes yn bodoli er mwyn osgoi'r posibilrwydd o ddyblygu ymdrech.

- Dylid dogfennu a mapio'n ffurfiol y cyfrifoldebau am gyflenwi a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar roi camau penodol ar waith o fewn cynllun cyflenwi Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn y cynllun cyflenwi. Bydd hyn yn galluogi Bwrdd y Bartneriaeth Cynllunio a Chyflenwi Iechyd Meddwl i gynnal trosolwg o ran cyflawni'r cynllun yn gyffredinol ac ennill sicrwydd.
- Dylid dogfennu cylch gorchwyl ar gyfer y Grŵp Swyddogion/ Is-grŵp Perfformiad Iechyd Meddwl sydd wedi'u huno, i adlewyrchu cyfrifoldebau'r grwpiau am fonitro perfformiad yn erbyn cynlluniau cyflenwi Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Dylai'r Grŵp Swyddogion/ Is-grŵp Perfformiad Iechyd Meddwl fonitro cynllun cyflenwi Ennill Calonnau a Meddyliau: Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, gyda diweddariadau clir ar statws y gweithredu ar y camau o'i fewn. Dylid adrodd ar sicrwydd cyflawni'r cynllun i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol trwy'r Bartneriaeth Cynllunio a Datblygu Iechyd Meddwl yn unol â chynllun gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Dylid adolygu aelodaeth o'r Bwrdd Partneriaeth Cynllunio a Datblygu Iechyd Meddwl i sicrhau bod yna gynrychiolaeth briodol o bob un o'r sefydliadau sy'n bartneriaid a dylid diweddaru'r cylch gorchwyl yn unol â hynny.
- Mae angen pennu trefniadau ar gyfer adrodd ar sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd ar effeithiolrwydd y bartneriaeth Byw'n Dda: Iechyd Meddwl.

Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd wedi ystyried y cynllun gweithredu rheoli i ymateb i'r gwendidau a nodwyd a bydd yn monitro cynnydd yn unol â'r amserlenni cytunedig trwy'r Traciwr Argymhellion Archwiliadau. Adroddwyd ar y fersiwn ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 29 Ebrill 2021.

Prosiect Llandrindod

Pwrpas Adolygiad Prosiect Llandrindod oedd asesu pa mor dda y cyflawnwyd y prosiect aml-gyfnod o ryw £6.6M drwodd at ei gwblhau. Y bwriad oedd rhoi ystyriaeth benodol i sut y rheolwyd materion allweddol a oedd wedi effeithio ar gyflawni'r cynllun hyd yn hyn, ynghyd â threfniadau i sicrhau bod risgiau i gyflawni'r prosiect yn cael eu lliniaru/ eu rheoli'n briodol ac yn unol â gofynion contractiol diffiniedig.

Ar adeg paratoi'r Datganiad hwn, roedd yr Adroddiad Archwilio Mewnol yn parhau i fod yn fersiwn ddrafft gyda'r rheolwyr yn ystyried eu hymateb i'r darganfyddiadau. Darparodd darganfyddiadau drafft yr Archwiliad Mewnol sicrwydd cyfyngedig a'r bwriad yw cyflwyno'r darganfyddiadau terfynol i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Gorffennaf 2021.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y gwelliannau a nodir yn yr adroddiad drafft terfynol, ochr yn ochr ag ymateb y rheolwyr. Bydd y camau y cytunwyd i'w rhoi ar waith yn cael eu monitro yn unol ag amserlenni cytunedig trwy'r Traciwr Argymhellion Archwiliadau. Adroddwyd ar y fersiwn ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 29 Ebrill 2021.

## Archwilio Allanol: Darganfyddiadau Asesiadau Strwythuredig

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y Bwrdd Iechyd ac mae Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnal archwiliadau ar ei ran. Ers 1 Ebrill 2020, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gyda'i gilydd yn dwyn yr enw Archwilio Cymru.

Cynlluniwyd y gwaith Asesu Strwythuredig ar gyfer 2020 yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig i sicrhau dull pragmatig addas o weithredu i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol ac, ar yr un pryd, lleihau'r effaith ar gyrff GIG wrth iddynt ymateb i gyfnod nesaf y Pandemig COVID-19. Roedd prif ffocws y gwaith ar y trefniadau corfforaethol ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus. Talodd yr archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol lle bo'r rhain yn ymwneud ag agweddau pwysig o lywodraethu sefydliadol a rheolaeth ariannol, yn enwedig yn yr amgylchiadau sydd ohoni.

Daeth Archwilio Cymru i'r casgliad fod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal trefniadau llywodraethu da ar y cyfan yn ystod y pandemig. Addasodd y Bwrdd ei drefniadau llywodraethu i aros yn agored a thryloyw, i gefnogi gwneud penderfyniadau'n ystwyth ac i sicrhau craffu ac arweinyddiaeth effeithiol yn ystod y pandemig. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i ddefnyddio'r hyn y mae'n ei ddysgu i helpu i siapio trefniadau yn y dyfodol. Sicrhaodd system rheoli risg y Bwrdd Iechyd ei fod mewn sefyllfa dda i ymateb i risgiau'n ymwneud â COVID-19. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei drefniadau sicrhau ansawdd gan gynnwys diweddaru polisïau allweddol ac addasu ei drefniadau sicrwydd comisiynu.

Ni wnaeth Archwilio Cymru unrhyw argymhellion newydd ar sail y gwaith yn 2020, ond nodwyd sawl cyfle i wella yn ymwneud â chynnal busnes yn effeithiol; systemau sicrwydd; a rheoli adnoddau ariannol.

Gellir gweld Asesiad Strwythuredig 2020 Swyddfa Archwilio Cymru ar wefan y Bwrdd Iechyd.

## Casgliad

Fel Swyddog Atebol ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ar sail y broses sicrwydd a amlinellir uchod, rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth berthnasol a'r

sicrwydd o ran rheolaeth fewnol. Gallaf gadarnhau bod y Bwrdd a'i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn ymwybodol o'u hatebolrwyddau o ran rheolaeth fewnol a bod y Bwrdd wedi cael system o ddarparu sicrwydd ar waith yn ystod y flwyddyn, wedi'i halinio ag amcanion corfforaethol i gynorthwyo â nodi a rheoli risg. Rwy'n falch o nodi bod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn dal i fod yn destun monitro 'fel mater o drefn' fel rhan o drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru, o ganlyniad i'n trefniadau rheolaeth fewnol.

Yn ystod 2020-21, aethom ati'n rhagweithiol i nodi meysydd sydd angen eu gwella ac i ofyn bod Archwilwyr Mewnol yn gwneud asesiadau manwl er mwyn rheoli a lliniaru risgiau cysylltiedig. Gwneir mwy o waith yn 2021-22 i sicrhau bod argymhellion sy'n codi o adolygiadau archwilio, yn enwedig lle ceir sicrwydd cyfyngedig, yn cael eu rhoi ar waith. Bydd gwaith yn parhau yn 2021-22 i wreiddio rheoli risg a'r fframwaith sicrwydd ar lefel gorfforaethol. Bydd gweithredu Rhaglen Llywodraethu Blynyddol y Bwrdd yn gweld effeithiolrwydd a system rheoli mewnol y Bwrdd yn cryfhau mwy fyth yn 2021-22.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn cadarnhau bod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi parhau i aeddfedu fel sefydliad ac, er bod yna feysydd i'w cryfhau, nid oes unrhyw faterion sylweddol yn ymwneud â rheolaeth neu lywodraethu wedi'u nodi. Mae'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol wedi bod â system rheolaeth fewnol gadarn ac effeithiol ar waith sy'n rhoi sicrwydd rheolaidd wedi'i alinio ag amcanion strategol a risgiau strategol y sefydliad. Ar y cyd â'r Bwrdd, byddaf yn parhau i hyrwyddo gwelliannau a byddaf yn anelu at roi sicrwydd i'n dinasyddion a'n rhanddeiliaid bod y gwasanaethau rydym yn eu darparu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn briodol, a'u bod wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion a disgwyliadau cleifion.

Fel yr awgrymir yn y datganiad hwn trwyddo draw, mae'r rheidrwydd i gynllunio ac ymateb i'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y sefydliad, y GIG yn ehangach a chymdeithas yn gyffredinol. Mae wedi galw am ymateb dynamig sydd wedi cyflwyno nifer o gyfleoedd yn ogystal â'r risgiau. Bydd yr angen i'r sefydliad a'r gymdeithas ehangach adfer yn sgil y pandemig yn parhau trwy gydol 2021-22 a thu hwnt. Byddaf yn sicrhau bod ein Fframwaith Llywodraethu'n ystyried ac yn ymateb i'r angen hwn.

**LLOFNODWYD GAN:** **DYDDIAD: 10 MEHEFIN 21**

**CAROL SHILLABEER [PRIF WEITHREDWR]**

## Atodiad 1: Aelodau'r Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd a'u Presenoldeb ar y Bwrdd

| Enw | Swydd a Maes Arbenigedd | Aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd | Presenoldeb 2020-21 |
|---|---|---|---|
| **Aelodau Annibynnol** | | | |
| Vivienne Harpwood | Cadeirydd | ▪ Cadeirydd y Bwrdd | 8/9 |
| | | ▪ Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth | 3/3 |
| Melanie Davies | Is-gadeirydd | ▪ Is-gadeirydd y Bwrdd | 7/9 |
| | | ▪ Cadeirydd y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch | 7/7 |
| | | ▪ Is-gadeirydd y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth | 3/3 |
| | | ▪ Aelod o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau | 3/3 |
| Ian Phillips | Aelod Annibynnol [Technoleg Gwybodaeth] | ▪ Aelod o'r Bwrdd | 9/9 |
| | | ▪ Is-gadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio | 2/2 |
| | | ▪ Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd | 7/7 |
| | | ▪ Aelod o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau | 3/3 |
| Trish Buchan | Aelod Annibynnol [Trydydd Sector] | ▪ Aelod o'r Bwrdd | 9/9 |
| | | ▪ Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio | 2/2 |
| | | ▪ Is-gadeirydd y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch | 7/7 |
| | | ▪ Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol | 3/3 |
| Matthew Dorrance | Aelod Annibynnol [Awdurdod Lleol] | ▪ Aelod o'r Bwrdd | 7/9 |
| | | ▪ Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd | 3/7 |
| Owen James | Aelod Annibynnol [Cymuned]<br><br>Ymddiswyddodd 4 Medi 2020 | ▪ Aelod o'r Bwrdd | 3/3 |
| | | ▪ Cadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol | 1/1 |
| | | ▪ Aelod o'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch | 3/3 |
| | | ▪ Aelod o'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio | 1/1 |
| Tony Thomas | Aelod Annibynnol [Cyllid] | ▪ Aelod o'r Bwrdd | 8/9 |
| | | ▪ Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd | 7/7 |
| | | ▪ Is-gadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol | 2/3 |
| | | ▪ Aelod o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau | 3/3 |
| | | ▪ Aelod o'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth | 4/4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mark Taylor | Aelod Annibynnol [Cyfalaf ac Ystadau] | ▪ Aelod o'r Bwrdd | 9/9 |
| | | ▪ Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd | 7/7 |
| | | ▪ Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau | 3/3 |
| | | ▪ Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol | 2/3 |
| | | ▪ Aelod o'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio | 2/2 |
| Susan Newport | Aelod Annibynnol [Undeb Llafur] | ▪ Aelod o'r Bwrdd | 8/9 |
| | | ▪ Aelod o'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch | 6/7 |
| | | ▪ Aelod o'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth | 3/3 |
| Rhobert Lewis | Aelod Annibynnol<br><br>[O 22ain Chwefror 2021] | ▪ Aelod o'r Bwrdd | 1/1 |
| Frances Gerrard | Aelod Annibynnol [Prifysgol] | ▪ Aelod o'r Bwrdd | 7/9 |
| | | ▪ Aelod o'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch | 7/7 |
| **Swyddogion Gweithredol** | | | |
| Carol Shillabeer | Prif Weithredwr | ▪ Aelod o'r Bwrdd | Presenoldeb ar y Bwrdd 9/9 |
| | | ▪ Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys | |
| | | ▪ Aelod o'r Cyd-fwrdd Partneriaeth | |
| | | ▪ Aelod o Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru | |
| | | ▪ Aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys | |
| | | ▪ Aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys | |
| | | ▪ Aelod o Gyd-fwrdd Partneriaeth Powys | |
| | | Mae'n ofynnol iddi fynychu:<br>▪ Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth<br>▪ Fforwm Partneriaeth Lleol<br>▪ Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch<br>▪ Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau | |
| | | <u>Yn mynychu pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl y gofyn</u> | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Jamie Marchant | Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol, ac Iechyd Meddwl<br><br>a Dirprwy Brif Weithredwr [O 1af Mehefin 2020 i 30ain Tachwedd 2020 | ▪ Aelod o'r Bwrdd | Presenoldeb ar y Bwrdd 8/9 |
| | | ▪ Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (pan fo'r Prif Weithredwr yn absennol) | |
| | | ▪ Aelod o'r Cyd-fwrdd Partneriaeth (pan fo'r Prif Weithredwr yn absennol) | |
| | | ▪ Aelod o Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (pan fo'r Prif Weithredwr yn absennol) | |
| | | ▪ Aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys (pan fo'r Prif Weithredwr yn absennol) | |
| | | ▪ Aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys (pan fo'r Prif Weithredwr yn absennol) | |
| | | ▪ Aelod o Gyd-fwrdd Partneriaeth Powys (pan fo'r Prif Weithredwr yn absennol) | |
| | | Mae'n ofynnol iddo fynychu:<br>▪ Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch<br>▪ Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau | |
| | | Yn mynychu pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl y gofyn | |
| Wyn Parry | Cyfarwyddwr Meddygol<br><br>[I 31ain Gorffennaf 2020] | ▪ Aelod o'r Bwrdd | Presenoldeb ar y Bwrdd 3/3 |
| | | Mae'n ofynnol iddo fynychu:<br>▪ Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch | |
| | | Yn mynychu pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl y gofyn | |
| Paul Buss | Cyfarwyddwr Meddygol<br><br>[O 1aft Awst 2020 i 31ain Ionawr 2021] | ▪ Aelod o'r Bwrdd | Presenoldeb ar y Bwrdd 5/5 |
| | | Mae'n ofynnol iddo fynychu:<br>▪ Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch | |
| | | Yn mynychu pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl y gofyn | |
| Kate Wright | Cyfarwyddwr Meddygol<br><br>[O 15fed Chwefror 2021] | ▪ Aelod o'r Bwrdd | Presenoldeb ar y Bwrdd 1/1 |
| | | Mae'n ofynnol iddo fynychu:<br>▪ Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch | |
| | | Yn mynychu pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl y gofyn | |
| Claire | Cyfarwyddwr | ▪ Aelod o'r Bwrdd | Presenoldeb ar |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Madsen | Therapïau a Gwyddorau Iechyd | | y Bwrdd 9/9 |
| | | Mae'n ofynnol iddo fynychu:<br>▪ Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch<br>▪ Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau | |
| | | Yn mynychu pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl y gofyn | |
| Alison Davies | Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth | ▪ Aelod o'r Bwrdd | Presenoldeb ar y Bwrdd 8/9 |
| | | Arweinydd Gweithredol, ac mae'n ofynnol iddo fynychu:<br>▪ Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch | |
| | | Mae'n ofynnol iddo fynychu:<br>▪ Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio<br>▪ Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol | |
| | | Yn mynychu pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl y gofyn | |
| Julie Rowles | Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Sefydliadol | ▪ Aelod o'r Bwrdd | Presenoldeb ar y Bwrdd 8/9 |
| | | Arweinydd Gweithredol, ac mae'n ofynnol iddo fynychu:<br>▪ Taliadau a Thelerau Gwasanaeth | |
| | | Mae'n ofynnol iddo fynychu:<br>▪ Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch<br>▪ Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau<br>▪ Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio<br>▪ Fforwm Partneriaeth Lleol | |
| | | Yn mynychu pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl y gofyn | |
| Hayley Thomas | Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad<br><br>a Dirprwy Brif Weithredwr [O 1af Rhagfyr 2020 i 1af Mehefin 2021 | ▪ Aelod o'r Bwrdd | Presenoldeb ar y Bwrdd 9/9 |
| | | ▪ Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (pan fo'r Prif Weithredwr yn absennol) | |
| | | ▪ Aelod o'r Cyd-fwrdd Partneriaeth (pan fo'r Prif Weithredwr yn absennol) | |
| | | ▪ Aelod o Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (pan fo'r Prif Weithredwr yn absennol)<br>▪ Aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys (pan fo'r Prif Weithredwr yn absennol) | |
| | | ▪ Aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys (pan fo'r Prif Weithredwr yn absennol) | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ▪ Aelod o Gyd-fwrdd Partneriaeth Powys (pan fo'r Prif Weithredwr yn absennol) | |
| | | Arweinydd Gweithredol, ac mae'n ofynnol iddo fynychu:<br>▪ Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio<br>▪ Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau | |
| | | Yn mynychu pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl y gofyn | |
| Stuart Bourne | Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus | ▪ Aelod o'r Bwrdd | Presenoldeb ar y Bwrdd 6/9 |
| | | Mae'n ofynnol iddo fynychu:<br>▪ Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio<br>▪ Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch | |
| | | Yn mynychu pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl y gofyn | |
| Pete Hopgood | Cyfarwyddwr Cyllid a TG | ▪ Aelod o'r Bwrdd | Presenoldeb ar y Bwrdd 8/9 |
| | | Arweinydd Gweithredol, ac mae'n ofynnol iddo fynychu:<br>▪ Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau<br>▪ Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol | |
| | | Mae'n ofynnol iddo fynychu:<br>▪ Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd<br>▪ Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio | |
| | | Yn mynychu pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl y gofyn | |

O 1af Awst 2020 i 31ain Mawrth 2021, roedd Dr Catherine Woodward wedi'i phenodi fel Swyddog Cyfrifol Interim. Nid oedd y rôl hon yn galw am fynychu cyfarfodydd y Bwrdd neu Bwyllgorau.

## Atodiad 2: Cylchlythyrau Iechyd Cymru 2020-21

| Cyfeirnod | Dyddiad Cyhoeddi | Cylchlythyrau Iechyd Cymru | | Statws | Action to demonstrate implementation / response |
|---|---|---|---|---|---|
| 2020-008 | 20/04/2020 | Canllawiau ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG ar ailddefnyddio meddyginiaethau diwedd oes mewn hosbisau a chartrefi gofal | Dylai Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) roi trefniadau ar waith i gefnogi'r ymarfer o ailddefnyddio meddyginiaethau diwedd oes mewn cartrefi gofal a hosbisau, mewn modd cyfyngedig, a hynny mewn amgylchiadau eithriadol.. | Wedi'i gwblhau | Mae'r holl gamau gweithredu sy'n ymwneud â'r Cylchlythyr wedi'u cwblhau. Darparodd aelod o'r Tîm Rheoli Meddyginiaethau hyfforddiant i'r holl staff cartrefi gofal a gwnaed meddygfeydd yn ymwybodol o'r newid mewn arfer. Nid yw'n broblem cael gafael mewn meddyginiaethau diwedd oes ar hyn o bryd ac nid oes angen i ni ailddefnyddio meddyginiaethau fel hyn. |
| 2020-009 | 21/05/2020 | Rhaglen Genedlaethol Imiwneiddio rhag y Ffliw 2020-2021 | Cyfathrebu'r negeseuon allweddol ar gyfer tymor y ffliw 2020-21. | Wedi'i gwblhau | Lledaenwyd gwybodaeth i'r sector Gofal Sylfaenol. Cynhaliwyd cyfarfodydd cynllunio brechiadau'r ffliw tymhorol trwy gydol tymor y ffliw 2020/21. |
| 2020-011 | 09/07/2020 | Diwygiadau Dros Dro i Reolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau – Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, | Diwygiadau Dros Dro – Rheolau Sefydlog Enghreifftiol a threfniadau Cadw a Dirprwyo Pwerau | Wedi'i gwblhau | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru | | | |
| 2020-012 | 04/08/2020 | Asesiadau Clinigol o COVID-19 yn y Gymuned | Asesiadau Clinigol o COVID-19 yn y Gymuned. | Wedi'i gwblhau | Disodlwyd gan WHC 024-020, felly nid oes unrhyw weithredu'n gysylltiedig â hyn. |
| 2020-013 | 14/08/2020 | Y Rhaglen Imiwneiddio Genedlaethol Rhag y Ffliw 2020-21 (2) | Cael cynifer o bobl â phosibl yn y grwpiau blaenoriaeth a nodir yn y Cylchlythyr i fanteisio ar frechlyn y ffliw. | Wedi'i gwblhau | Lledaenwyd gwybodaeth i'r sector Gofal Sylfaenol. Cynhaliwyd cyfarfodydd cynllunio brechiadau'r ffliw tymhorol trwy gydol tymor y ffliw 2020/21. |
| 2020-014 | 29/09/2020 | Rheoli Cwyr Clustiau | Pennu ac adrodd ar y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd ledled Cymru. Datblygu llwybr integredig cenedlaethol ar gyfer rheoli cwyr clustiau yn ddiogel ac yn effeithiol er mwyn sicrhau canlyniadau cyson i gleifion ledled Cymru a sicrhau:<br>• Mynediad teg;<br>• Defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau'r GIG; a hynny yn gost-effeithiol a darbodus;<br>• Rheolaeth ddi-dor gyson ar draws lleoliadau gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd;<br>• Hunanreoli lle bo hynny'n briodol yn glinigol, gan rymuso pobl i reoli eu gofal eu hunain yn well;<br>• Cydymffurfio â chanllawiau NICE a Safonau Ansawdd Awdioleg. https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/safonau-ansawdd-ar-gyfergwasanaethau-adsefydlu-i-oedolion-o-ran-y-clyw.pdf | Wedi'i gwblhau yn rhannol | Bwriedir cyflwyno papur i'r gweithredwyr yn ystod mis Mehefin 2021. |
| 2020-015 | 14/09/2020 | Polisi ar laryngosgopau untro ac amldro | Rhaid i sefydliadau sicrhau bod dyfeisiau o'r fath (handlenni a llafnau) naill ai:<br>Yn rhai a ddefnyddir unwaith yn unig neu'n rhai sy'n cael eu dihalogi'n briodol rhwng pob defnydd ar gleifion. | Wedi'i gwblhau yn rhannol | |
| 2020-016 | 10/12/2020 | Y weithdrefn ar gyfer Rheoli Perfformiad, Diswyddo neu Atal Cadeiryddion y | Tynnu sylw holl aelodau'r Bwrdd, gan gyfeirio'n benodol at yr Is-gadeiryddion, yr Aelodau Annibynnol, y Cyfarwyddwyr Anweithredol a'r Aelodau Cyswllt a sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer arfarnu ac adolygu perfformiad aelodau nad ydynt yn swyddogion. | Wedi'i gwblhau | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | GIG, Is-gadeiryddion ac Aelodau Annibynnol/Cyfarwyddwyr Anweithredol, gan gynnwys Aelodau Cyswllt | | | |
| 2020-018 | 01/10/2020 | Y Partner Olaf Un | Fel rhan o'r Contract GMS ar gyfer 2019-20, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu canllawiau yn amlinellu'r disgwyliad ar Fyrddau Iechyd i ystyried cymorth mewn achos LPS ynghylch adeiladau Datblygwyr Trydydd Parti (3PD) yng Nghymru, lle mae byrddau iechyd wedi bod yn rhan o'r gwaith datblygu o'r cychwyn cyntaf (yn hytrach na'r adeiladau hynny lle mae unrhyw elfen o berchnogaeth wedi'i throsglwyddo). | Wedi'i gwblhau | Nid oes unrhyw weithredu'n syth heblaw am fod yn ymwybodol. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn cysylltu ag ystadau Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn hyn o beth ac un practis sydd eisiau rhoi hyn ar waith (nid ydym ni yn awyddus). Fe laniodd ddoe ac mae'r Bartneriaeth yn adolygu hyn ar ein rhan gyda'r achos hwnnw mewn golwg. |
| 2020-019 | 30/10/2020 | Yr hyn y disgwylir i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG ei wneud i sicrhau iechyd a lles y gweithlu yn ystod y pandemig Covid-19 | Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r ddogfen cwestiynau cyffredin ymhlith staff a rheolwyr a sicrhau bod y dulliau cytûn a nodir yn y dogfennau hyn yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws eich sefydliad. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o adnodd Asesu Risg Gweithlu Covid-19 o fewn eich strwythurau trefniadaeth a rheoli; Gofyn i staff gwblhau'r Asesiad Risg drwy'r ESR os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny; Ar gyfer staff yn y categori risg uchel ac uchel iawn, ailadrodd pwysigrwydd trafodaethau gyda rheolwyr llinell ynghylch camau lliniaru; Monitro ac adrodd ar gyfraddau cwblhau fel rhan o ffurflenni Chwarter 3 a 4 Fframwaith Gweithredu GIG Cymru. Cynnal y tudalennau gwe lleol diweddaraf ar iechyd a lles staff; a Hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith staff a rheolwyr o'r adnoddau cenedlaethol a lleol sydd ar gael a'u hannog i'w defnyddio. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Cynllun Yswiriant Bywyd ymhlith staff a rheolwyr yn eich sefydliad a darparu dolen at dudalen we Cynllun y BSA ar dudalennau mewnrwyd eich sefydliad eich hun; ac Adnabod a hysbysu buddiolwyr | Wedi'i gwblhau | Gwaith parhaus gyda staff a chydweithwyr ochr y staff i gefnogi llesiant staff. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cymwys staff rheng flaen pe baent yn marw yn y gwasanaeth o ganlyniad i gael eu heffeithio gan Covid-19. | | |
| 2020-022 | 14/12/2020 | Fframwaith Cynllunio Blynyddol GIG Cymru 2021-22 | Rhaid i bod Bwrdd Iechyd ac ymddiriedolaeth gyflawni ymrwymiadau eu cynllun. Gall sefydliadau ddisgwyl i Lywodraeth Cymru fonitro, rheoli perfformiad a'u galw i gyfrif trwy amrywiaeth o gyfarfodydd a chamau gweithredu gydol y flwyddyn. | Wedi'i gwblhau | Cymeradwyodd Bwrdd BIAP Gynllun Blynyddol (Drafft) 2021-22 a chyflwynwyd ef i Lywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2021, yn unol â'r gofynion ac yn unol â Fframwaith Cynllunio Blynyddol GIG Cymru 2021-22 a gohebiaeth ddilynol. Cynhwyswyd Atodlen o Ofynion yn erbyn y fframwaith yn y Wybodaeth Atodol a gyflwynwyd gyda dogfen y Cynllun. Mae hon yn manylu ar sut y mae BIAP wedi ymateb i bob gofyniad yn Fframwaith Cynllunio Blynyddol GIG Cymru ac yn cyfeirio'r darllenwr i adran berthnasol Cynllun Blynyddol Drafft BIAP. |
| 2020-023 | 22/12/2020 | Ymadael â'r UE – Parhad Cyflenwad Meddyginiaethau ar Ddiwedd y Cyfnod Pontio | Darparu i gyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru fanylion y mesurau sy'n cael eu cymryd i sicrhau parhad cyflenwad meddyginiaethau fel rhan o baratoadau wrth gefn Llywodraeth y DU ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE). | Wedi'i gwblhau | Mae hyn wedi'i ledaenu. Mae'r cyfnod pontio drosodd ac mae lefelau caffael a stoc normal yn eu lle (h.y. dim swmp-gyflenwadau dros lefelau angenrheidiol). |
| 2020-024 | 22/12/2020 | Asesiad Clinigol o COVID-19 yn y Gymuned (diweddariad) | Mae'r datblygiadau allweddol yn y Canllaw diweddaraf yn cynnwys:<br>• Defnyddio profion COVID-19 yn helaeth yn y gymuned, sy'n golygu bod clinigwyr gofal sylfaenol yn gweld mwy o gleifion sydd wedi cael diagnosis a gadarnhawyd gan brawf.<br>• Y gallu i rannu cleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19, neu sydd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19, yn dri chategori risg yr argymhellir cymryd camau gweithredu gwahanol mewn perthynas â nhw. | Wedi'i gwblhau | Anfonwyd hwn (copi dyblyg) at Feddygon y Tu Allan i Oriau a Meddygfeydd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Y posibilrwydd o ddefnyddio ocsimetreg pwls i helpu cleifion, y mae risg gymedrol y gallant ddioddef cymhlethdodau, i fonitro eu hunain gartref.<br>• Darparu trothwyon clir ar gyfer derbyn cleifion i'r ysbyty neu benderfynu y dylent aros gartref gyda chyngor i sicrhau eu diogelwch.<br>• Y posibilrwydd o ddarparu profion pwynt gofal ar gyfer COVID-19 yn y gymuned cyn derbyn claf i'r ysbyty, er mwyn ffrydio cleifion a lleihau'r perygl o drosglwyddo'r feirws. | | |
| 2021-001 | 14/01/2021 | Canllawiau ar gyfer Rheoli Cleifion ar Lwybr Canser a Amheuir | Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau'n ymwneud â rheoli cleifion ar lwybr lle'r amheuir canser ac adrodd ar berfformiad yn erbyn y targed canser.<br>• Cyflwyno rheolau newydd ynghylch rheoli cleifion ar lwybr canser a amheuir.<br>• Nodi'r targedau ar gyfer y llwybr canser.<br>• Dileu unrhyw addasiadau ac ataliadau o lwybr claf.<br>• Caniatáu i lwybr claf gael ei gau a dechrau un newydd ar ôl diffyg argaeledd meddygol neu gymdeithasol am gyfnod o ddau fis neu fwy.<br>• Cyflwyno canllawiau ynghylch trin canserau dilynol y croen.<br>• Cynnwys adrodd am gleifion sy'n cael eu trin y tu allan i GIG Cymru pan gânt eu hatgyfeirio o ofal eilaidd yn GIG Cymru. | Wedi'i gwblhau | Fel darparwr, rydym yn cydymffurfio'n llwyr â rheolau amseroedd aros Canser mis Medi 2019, ac yn adrodd yn unol â gofynion y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Mae BIAP yn darparu gofal/ cefnogaeth canser ar ffurf gwasanaeth cleifion allanol mynediad cynnar, gwasanaeth diagnostig a gofal lliniarol, gan ddibynnu ar y lleoliad a'r arbenigedd. Darperir gofal canser acíwt Powys mewn Gwasanaethau a Gomisiynir, sy'n glynu at naill ai Rheolau Amseroedd Aros Canser Cymru neu reolau cyfwerth Lloegr. |
| 2021-003 | 10/03/2021 | Etholiad Senedd 2021 | Cynhelir yr etholiad i'r Senedd ar 6 Mai 2021. Diben y canllawiau hyn yw rhoi gwybod i staff am y trefniadau ar gyfer ymdrin â busnes y llywodraeth yn ystod y cyfnod cyn-etholiadol er mwyn osgoi unrhyw ganfyddiad eu bod yn dylanwadu ar ymgyrch yr etholiad mewn unrhyw ffordd, er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth Sifil yn parhau'n ddiduedd, ac er mwyn osgoi'r feirniadaeth fod adnoddau swyddogol wedi'u defnyddio'n amhriodol. Mae'r ymateb i bandemig y coronafeirws wedi creu sefyllfa unigryw, a dylid darllen y canllawiau yn y cyd-destun hwnnw. | Wedi'i gwblhau | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2021-004 | 19/02/2021 | Archebu brechlynnau'r ffliw ar gyfer tymor 2021-22 | Dylai byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd archebu digon o frechlyn i'w chwistrellu ar gyfer staff sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â chleifion fel a ganlyn. Y brechlynnau a argymhellir yw:<br>• brechlyn meithriniad celloedd ffliw pedwarfalent (QIVc)<br>• brechlyn ffliw pedwarfalent a seilir ar wyau (QIVe) os nad yw QIVc ar gael<br>• brechlyn ffliw pedwarfalent sy'n cynnwys cyffur ategol (aQIV) ar gyfer staff 65 oed a throsodd | Wedi'i gwblhau | Y Cylchlythyr wedi'i ddosbarthu o fewn y bwrdd iechyd. |
| 2021-006 | 11/03/2021 | Etholiad Senedd 2021 - Canllawiau ar gyfer GIG Cymru | Mae'r llythyr hwn a'r canllawiau cysylltiedig yn egluro'r effaith y bydd y cyfnod cyn yr etholiad yn ei chael ar Fyrddau Iechyd Lleol a gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth o ddechrau'r cyfnod cyn yr etholiad sy'n dechrau ar 25 Mawrth hyd at a chan gynnwys y diwrnod pleidleisio ar 6 Mai. | Wedi'i gwblhau | |
| 2021-007 | 11/03/2021 | Rhaglen Plant Iach Cymru – Y cysylltiad ar gyfer archwiliad corfforol ôl-enedigol 6 wythnos o blentyn gan feddyg teulu | Mae'r Ymwelydd Iechyd yn cynnal ymweliad cyswllt annibynnol pan fydd y plentyn yn 8 wythnos oed. Rhaid cyflwyno ffurflen casglu data 6 wythnos yn ogystal â ffurflen 8 wythnos yr Ymwelydd Iechyd. | Wedi'i gwblhau | Cadarnhad o gyfathrebu â Meddygon Teulu. Mewn grym o 1af Ebrill 2021, mae pob un o'r 16 practis ym Mhowys yn ymgymryd â'r elfen ychwanegol hon o'r contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ac mae'r gweithgarwch hwn yn cael ei fonitro. |
| 2021-009 | 25/03/2021 | Llwybr Sgrinio'r Clyw i Blant Ifanc yn yr Ysgol | Dylai Byrddau Iechyd ddechrau gweithredu'r llwybr newydd cyn gynted â phosibl a cheisio ei roi ar waith yn llawn erbyn mis Ebrill 2022. Mae Llywodraeth Cymru am i fyrddau iechyd ddilyn yr argymhellion isod a gallu darparu diweddariadau bob tri mis o fis Ebrill 2021.<br>Bydd Byrddau Iechyd yn ymwybodol bod dwy garfan o blant y bydd angen dal i fyny â hwy oherwydd pandemig Covid-19. Bydd cyfathrebu ynghylch sut y caiff hyn ei reoli yn dilyn gyda'r "Weithdrefn Weithredu Safonol" a'r dogfennau cysylltiedig. | Wedi'i gwblhau yn rhannol | Dan arweiniad Pennaeth Awdioleg BIAP, ar y cyd â'r gwasanaeth Nyrsys Ysgol, mae Powys eisoes wedi gwneud cynnydd â rhai elfennau allweddol. Disgwylir derbyn y wybodaeth chwarterol ddiweddaraf cyn ei roi ar waith yn llawn erbyn mis Ebrill 2022 fan bellaf. |

# PART B: ADRODDIAD AR DALIADAU A STAFF

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am daliadau i uwch reolwyr, cymarebau tâl teg, cyfraddau absenoldeb salwch at ati, ac mae wedi'i lunio gan y Gyfarwyddiaeth Gyllid a Chyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.

## CEFNDIR

Mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG baratoi Adroddiad ar Daliadau, gan ddarparu gwybodaeth dan y penawdau yn SI 2008 Rhif 410, i'r graddau eu bod yn berthnasol. Mae'r Adroddiad ar Daliadau'n cynnwys gwybodaeth am daliadau i uwch reolwyr. Y diffiniad o 'Uwch Reolwr' yw:

*"y bobl hynny sydd mewn swyddi uwch sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau corff y GIG. Golyga hyn y rheiny sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r sefydliad cyfan yn hytrach na phenderfyniadau cyfarwyddiaethau neu adrannau unigol."*

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Atebolrwydd yn bodloni'r gofynion hyn.

## Y PWYLLGOR TALIADAU A THELERAU GWASANAETH

Cytunir ar dâl a thelerau gwasanaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Prif Weithredwr, ac mae'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth yn cadw llygad ar y rhain. Mae'r Pwyllgor hefyd yn monitro ac yn gwerthuso perfformiad blynyddol y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr unigol (gyda'r Prif Weithredwr yn eu cynghori yn achos y Cyfarwyddwyr).
Yn 2020/21, Cadeirydd y Bwrdd Iechyd, Vivienne Harpwood, oedd yn cadeirio'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth, ac mae'r aelodaeth yn cynnwys yr Aelodau a ganlyn:

- Melanie Davies, Is-gadeirydd y Bwrdd;
- Tony Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd;
- Susan Newport, Aelod Annibynnol (Undeb Llafur).

Cedwir cofnodion o gyfarfodydd a chofnodir penderfyniadau'n llawn.

## TALIADAU AELODAU ANNIBYNNOL

Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu ar daliadau i Aelodau Annibynnol, a'r Llywodraeth sydd hefyd yn pennu pa mor hir y bydd penodiad yn para.

## TALIADAU CYFARWYDDWYR AC AELODAU ANNIBYNNOL

Ceir manylion am daliadau Cyfarwyddwyr ac Aelodau Annibynnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, ynghyd â chymaryddion, yn y Tablau isod.
Y peth arferol yw i Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr gael codiad cyflog yn unol â chanran chwyddiant arferol i gyflogau y mae Llywodraeth Cymru'n ei nodi. Yn 2020-21, derbyniodd Cyfarwyddwyr Gweithredol godiad chwyddiant i gyflogau, yn unol â Fframwaith Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu amcanion sydd wedi'u gosod ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol ac yn asesu perfformiad yn ôl yr amcanion hynny wrth ystyried argymhellion sy'n ymwneud â chodiadau cyflog blynyddol.
Dylid nodi nad yw Cyfarwyddwyr Gweithredol ar unrhyw ffurf ar dâl cysylltiedig â pherfformiad. Mae pob contract yn barhaol, lle mae'n rhaid rhoi rhybudd o dri mis. Gosododd Llywodraeth Cymru amodau fel rhan o Raglen Diwygio'r

GIG yn 2009.  Fodd bynnag, am ran o'r flwyddyn roedd yna Gyfarwyddwyr interim mewn swydd; Cyfarwyddwr Meddygol Interim a Cyfarwyddwr Nyrsio Interim.

# TABL DATGELU CYFLOGAU A PHENSIYNAU: CYFLOGAU A LWFANSAU (WEDI'U HARCHWILIO)

| | 2020 - 21 | | | | | | 2019-20 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Salary | Bonus Payments | Benefits in Kind | Pension Benefits | Single Total Remuneration | Other Remuneration | Salary Restated ****** | Bonus Payments | Benefits in Kind | Pension Benefits Restated ***** | Single Total remuneration Restated ****** | Other Remuneration |
| **Name and title** | (bands of £5,000) £000 | (bands of £5,000) £000 | (to nearest £100) £00 | (to nearest £1000) £000 | (bands of £5,000) £000 | (bands of £5,000) £000 | (bands of £5,000) £000 | (bands of £5,000) £000 | (to nearest £100) £00 | (to nearest £1000) £000 | (bands of £5,000) £000 | (bands of £5,000) £000 |
| **Executive directors** | | | | | | | | | | | | |
| Carol Shillabeer - Chief Executive | 170 - 175 | 0 | 0 | 48 | 215 - 220 | 0 | 165 - 170 | 0 | 0 | 43 | 210 - 215 | 0 |
| Julie Rowles - Director of Workforce and OD & Support Services ** | 115 - 120 | 0 | 51 | 0 | 120 - 125 | 0 | 115 - 120 | 0 | 59 | 103 | 225 - 230 | 0 |
| Hayley Thomas - Director of Planning and Performance - Deputy Chief Executive (From 1st December 2020) ** | 115 - 120 | 0 | 67 | 16 | 140 - 145 | 0 | 115 - 120 | 0 | 65 | 73 | 195 - 200 | 0 |
| Rhiannon Jones - Director of Nursing and Interim Director of Therapies & Health Science (To 14th July 2019 ) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 35 - 40 | 0 | 20 | 43 | 80 - 85 | 0 |
| Eifion Williams - Interim Director of Finance (To 30th July 2019) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30 - 35 | 0 | 0 | 0 | 30 - 35 | 0 |
| Stuart Bourne - Director of Public Health | 105 -110 | 0 | 0 | 27 | 130 - 135 | 0 | 105 - 110 | 0 | 0 | 15 | 115 - 120 | 0 |
| Patsy Roseblade - Interim Director of Primary, Community Care and Mental Health (From 15th October 2018 to 14th April 2019) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 |
| Wyn Parry - Medical Director (To 31st July 2020) | 70 - 75 | 0 | 0 | 0 | 70 - 75 | 0 | 130 - 135 | 0 | 0 | 142 | 270 - 275 | 0 |
| Pete Hopgood - Director of Finance and ICT (from 26th May 2020 - Interim 1st July 2019 - 25th May 2020) | 110 - 115 | 0 | 0 | 82 | 190 - 195 | 0 | 80 - 85 | 0 | 0 | 131 | 210 - 215 | 0 |
| Jamie Marchant - Director of Primary, Community Care and Mental Health Services (From 11th June 2019)- Deputy Chief Executive (From 1st June 2020 to 30th November 2020)***** | 120 - 125 | 0 | 0 | 55 | 175 - 180 | 0 | 90 - 95 | 0 | 0 | 13 | 100 - 105 | 0 |
| Katrina Rowlands - Interim Director of Nursing (From 15th July 2019 to 19th January 2020) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50 - 55 | 0 | 0 | 133 | 185 - 190 | 0 |
| Rani Mallison - Board Secretary***** | 90 - 95 | 0 | 0 | 56 | 145 - 150 | 0 | 75 - 80 | 0 | 0 | 106 | 180 - 185 | 0 |
| Claire Madsen - Director of Therapies and Health Science (From 7th January 2020) | 95 - 100 | 0 | 0 | 148 | 245 - 250 | 0 | 20 - 25 | 0 | 0 | 9 | 30 - 35 | 0 |
| Alison Davies - Director of Nursing and Midwifery (From 20th January 2020) | 110 - 115 | 0 | 0 | 300 | 410 - 415 | 0 | 15 - 20 | 0 | 0 | 14 | 30 - 35 | 0 |
| Paul Buss - Interim Medical Director (From 1st August 2020 to 31st January 2021)*** | 40 - 45 | 0 | 0 | 0 | 40 - 45 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Catherine Woodward - Interim Medical Director (Interim Responsible Officer) (From 1st August 2020 to 31st March 2021)***&**** | 15 - 20 | 0 | 0 | 0 | 15 - 20 | 10 - 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Kate Wright - Medical Director (From 15th February 2021) | 15 - 20 | 0 | 0 | 3 | 15 - 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

# TABL DATGELU CYFLOGAU A PHENSIYNAU: CYFLOGAU A LWFANSAU (WEDI'U HARCHWILIO)

| | 2020 - 21 | | | | | | 2019-20 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Salary | Bonus Payments | Benefits in Kind | Pension Benefits | Single Total Remuneration | Other Remuneration | Salary Restated ****** | Bonus Payments | Benefits in Kind | Pension Benefits Restated ***** | Single Total remuneration Restated ****** | Other Remuneration |
| Name and title | (bands of £5,000) £000 | (bands of £5,000) £000 | (to nearest £100) £00 | (to nearest £1000) £000 | (bands of £5,000) £000 | (bands of £5,000) £000 | (bands of £5,000) £000 | (bands of £5,000) £000 | (to nearest £100) £00 | (to nearest £1000) £000 | (bands of £5,000) £000 | (bands of £5,000) £000 |
| **Associate Members** | | | | | | | | | | | | |
| Alison Bulman, Corporate Director (Children & Adults), Powys County Council (From 1st April 2020 to 18th September 2020) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Chair of Healthcare Professionals Forum (TBC) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Chair of Stakeholder Reference Group (TBC) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Non-Officer Members** | | | | | | | | | | | | |
| Professor Vivienne Harpwood - Chair * | 40 - 45 | 0 | 0 | 0 | 40 - 45 | 0 | 40 - 45 | 0 | 0 | 0 | 40 - 45 | 0 |
| Melanie Davies - Vice Chair | 30 - 35 | 0 | 0 | 0 | 30 - 35 | 0 | 30 - 35 | 0 | 0 | 0 | 30 - 35 | 0 |
| Matthew Dorrance - Independent Member (Local Authority ) | 5 - 10 | 0 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 | 5 - 10 | 0 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 |
| Patricia Buchan - Independent Member (Third Sector ) | 5 - 10 | 0 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 | 5 - 10 | 0 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 |
| Owen James - Independent Member (Community to 6th September 2020) | 0 - 5 | 0 | 0 | 0 | 0 - 5 | 0 | 5 - 10 | 0 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 |
| Anthony Thomas - Independent Member (Finance) | 5 - 10 | 0 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 | 5 - 10 | 0 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 |
| Frances Gerrard - Independent Member (University held post relating to health) | 5 - 10 | 0 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 | 5 - 10 | 0 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 |
| Ian Phillips - Independent Member (ICT) | 5 - 10 | 0 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 | 5 - 10 | 0 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 |
| Susan Newport - Independent Member (Trade Union) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mark Taylor - Independent Member (Capital and Estates from 3rd July 2019) | 5 - 10 | 0 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 | 5 - 10 | 0 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 |
| Duncan Forbes - Independent Member (Legal - to 7th August 2019) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 - 5 | 0 | 0 | 0 | 0 - 5 | 0 |
| Rhobert Lewis - Independent Member (General from 22nd February 2021) | 0 - 5 | 0 | 0 | 0 | 0 - 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

* Sylwch fod yr Athro Vivienne Harpwood hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (PGIAC) tan 30ain Medi 2020, a BIA Powys sy’n talu costau’r rôl hon ac yna’n ailgodi amdanynt ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Nid yw’r costau hyn wedi’u cynnwys yn y cyfrifiadau uchod ond derbyniodd yr Athro Harpwood gyflog wedi’i fandio am rôl PGIAC o £10,000 i £15,000 yn 2020/21 sy’n rhoi cyfanswm cyflog wedi’i fandio o £55,000 - £60,000 (Yn 2019/20 roedd cyflog wedi’i fandio am rôl PGIAC o £25,000 i £30,000 yn rhoi cyfanswm cyflog wedi’i fandio o £65,000 - £70,000)
** Sylwch fod ffigur y cyflog ar gyfer 2019-20 yn cynnwys ôl-daliadau’n berthynol i 2018-19
*** Sylwch nad yw Mr Paul Buss a Dr Catherine Woodward yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG
**** Sylwch fod Dr Catherine Woodward hefyd wedi cyflawni rôl Cyfarwyddwr Rhaglen Brexit ar yr un pryd â’i rôl fel Cyfarwyddwr Meddygol Interim (Swyddog Cyfrifol Interim) a dangosir y wybodaeth hon am gyflog ar gyfer y rôl hon yn y golofn taliadau eraill
***** Sylwch fod y cyflog ar gyfer Jamie Marchant yn cynnwys £11,000 wedi’i aberthu’n ymwneud â char ar brydles (yn 2019-20, £8,000 oedd y ffigur) a bod y cyflog ar gyfer Rani Mallison yn cynnwys £1,000 wedi’i aberthu’n ymwneud â char ar brydles ar gyfer 2020/21
****** Sylwch fod rhywfaint o’r wybodaeth gymharol wedi’i hailddatgan i gywiro gwallau

Nid yw bonws cynllun cydnabyddiaeth ariannol y GIG a gofal cymdeithasol o dalu £735 i wobrwyo staff cymwys y GIG wedi’i gynnwys yng nghyfrifiadau Adroddiad ar Daliadau’r GIG. Nid yw’r tâl bonws hwn yn dâl dan gontract, ond yn hytrach yn dâl unwaith ac am byth i wobrwyo staff cymwys am eu hymrwymiad a’u hymdrechion diwyd yn yr amgylchiadau mwyaf heriol.

Cyfrifir gwerthoedd buddion pensiwn fel a ganlyn: (gwir gynnydd mewn pensiwn* x20) + (gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) – (cyfraniadau gan yr aelod)
*heb gynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd hawliau trosglwyddo pensiwn

Nid yw’r Ffigur Cyfanswm Taliad Sengl yn swm y mae’r BIA wedi’i dalu i unigolyn yn ystod y flwyddyn; yn hytrach, cyfrifiad ydyw sy’n defnyddio gwybodaeth o’r tabl buddion pensiwn. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigyrau hyn e.e. newidiadau i gyflog rhywun, p’un a ydynt yn dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i’r cynllun pensiwn o’u tâl ai peidio, a ffactorau prisio eraill sy’n effeithio ar y cynllun pensiwn fel cyfanwaith.

## PERTHYNAS TALIADAU (WEDI'U HARCHWILIO)

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad. £170,000 i £175,000 oedd tâl wedi'i fandio y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yn BIAP ym mlwyddyn ariannol 2020-21 (2019-20, £165,000 i £170,000). Roedd hyn 5.71 gwaith (2019-20, 5.61 gwaith) tâl canolrifol y gweithlu, sef £30,223 (2019-20, £29,763).

Yn 2020-21, derbyniodd 3 (2019-20, 1) chyflogai dâl a oedd yn uwch na'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf. Roedd taliadau i staff yn amrywio o £18,185 i £192,989 (2019-20 £17,652 i £169,422).

| | **2020-21** | **2019-20** |
|---|---|---|
| Band Cyfanswm Tâl y Cyfarwyddwyr ar y Cyflog Uchaf £000 | 170 – 175 | 165 – 170 |
| Cyfanswm Tâl Canolrifol £000 | 30 | 30 |
| Cymhareb | 5.7 | 5.6 |

Mae cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, tâl cysylltiedig â pherfformiad ar wahân, a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau'r cyflogwr at bensiwn a gwerthoedd trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod. Cynhwysir taliadau goramser wrth gyfrifo'r ddwy elfen o'r berthynas.

# TABL DATGELU CYFLOGAU A PHENSIYNAU: BUDDION PENSIWN (WEDI'U HARCHWILIO)

Pension Benefits

| Name and title | Real increase in pension at age 60 (bands of £2,500) £000 | Real increase in pension lump sum at age 60 (bands of £2,500) £000 | Total accrued pension at age 60 at 31 Mar 2021 (bands of £5,000) £000 | Lump sum at age 60 related to accrued pension at 31st Mar 2021 (bands of £5,000) £000 | Cash Equivalent transfer value at 31 Mar 2021 £000 | Cash Equivalent transfer value at 31 Mar 2020 Restated £000 | Real increase in Cash Equivalent transfer value £000 | Employer's contribution to stakeholder pension £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carol Shillabeer - Chief Executive | 2.5 - 5.0 | 0.0 - 2.5 | 60 - 65 | 145 - 150 | 1,161 | 1,070 | 47 | 0 |
| Julie Rowles - Director of Workforce and OD & Support Services | 0 - 2.5 | (2.5) - (5.0) | 55 - 60 | 140 - 145 | 1,213 | 1,169 | 7 | 0 |
| Hayley Thomas - Director of Planning and Performance - Deputy Chief Executive (From 1st December 2020) | 0 - 2.5 | 0.0 - (2.5) | 35 - 40 | 70 - 75 | 589 | 552 | 10 | 0 |
| Stuart Bourne - Director of Public Health | 0 - 2.5 | 0 - 2.5 | 35 - 40 | 70 -75 | 633 | 584 | 25 | 0 |
| Wyn Parry - Medical Director (To 31th July 2020)* | (2.5) - (5.0) | (7.5) - (10.0) | 45 - 50 | 135 - 140 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pete Hopgood - Director of Finance and ICT (from 26th May 2020 - Interim 1st July 2019 - 25th May 2020) | 2.5 - 5.0 | 5.0 - 7.5 | 40 - 45 | 90 - 95 | 731 | 632 | 73 | 0 |
| Jamie Marchant - Director of Primary, Community Care and Mental Health Services (From 11th June 2019)- Deputy Chief Executive (From 1st June 2020 to 30th November 2020) | 2.5 - 5.0 | 2.5 - 5.0 | 30 - 35 | 50 - 55 | 533 | 463 | 46 | 0 |
| Rani Mallison - Board Secretary | 2.5 - 5.0 | 2.5 - 5.0 | 15 - 20 | 30 - 35 | 228 | 183 | 30 | 0 |
| Claire Madsen - Director of Therapies and Health Science (From 7th January 2020) | 5.0 - 7.5 | 20.0 - 22.5 | 30 - 35 | 95 - 100 | 724 | 549 | 153 | 0 |
| Alison Davies - Director of Nursing and Midwifery (From 20th January 2020) | 12.5 - 15.0 | 40.0 - 42.5 | 45 - 50 | 140 - 145 | 1,091 | 748 | 315 | 0 |
| Kate Wright - Medical Director (From 15th February 2021) | 0 - 2.5 | 0.0 - (2.5) | 25 - 30 | 40 - 45 | 512 | 473 | 2 | 0 |

Mae'r cyfrifiadau uchod wedi'u darparu gan Asiantaeth Pensiynau'r GIG ac maent wedi'u seilio ar yr oedran pensiynadwy safonol, sef 60 oed.

Yn achos Cyfarwyddwyr â * wrthynt:
* mae'r aelod yn hŷn nag oedran ymddeol arferol yn ei gynllun presennol, felly nid yw cyfrifiadau CETV yn berthnasol

Gan nad yw aelodau nad ydynt yn swyddogion yn derbyn tâl pensiynadwy, ni fydd unrhyw gofnodion o ran pensiynau aelodau anweithredol.

## GWERTHOEDD TROSGLWYDDO SY'N GYFWERTH AG ARIAN PAROD (CETV)

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf wedi'i asesu gan actiwari o fuddion y cynllun pensiwn sydd wedi'i gronni gan aelod ar unrhyw amser penodol. Y buddion y rhoddir gwerth iddynt yw buddion cronnus yr aelod, ac unrhyw bensiwn priod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad a wneir gan gynllun pensiwn yw CETV, neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn arall neu drefniant pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyflawn o'r cynllun pensiwn, nid yn unig ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigyrau CETV a'r manylion pensiwn eraill yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol sydd wedi'u cronni i'r aelod o ganlyniad iddo brynu blynyddoedd pensiwn ychwanegol yn y cynllun ar ei gost ei hun. Cyfrifir Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod o fewn y canllawiau a fframwaith a ragnodir gan Athrofa a Chyfadran yr Actiwarïaid.

## GWIR GYNNYDD YN Y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV a ariennir gan y cyflogwr i bob diben. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronnus oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## MANYLION STAFFIO

## Proffil Staff (WEDI'I ARCHWILIO)

Ar 31 Mawrth 2021, roedd y Bwrdd Iechyd yn cyflogi cyfanswm o 1829.30 o staff a oedd yn gyfwerth â swyddi amser cyflawn (WTE). Mae'r tabl isod yn manylu ar y grwpiau staff rydym yn eu cyflogi, heb gynnwys gwasanaethau rydym yn eu lletya, fel y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

| Grŵp Staff | WTE Wythnosol ar Gyfartaledd 19/20 | WTE Wythnosol ar Gyfartaledd 20/21 |
|---|---|---|
| **Gweithwyr Gwyddonol a Thechnegol Proffesiynol Ychwanegol** | 59.83 | 71.51 |
| **Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol** | 327.56 | 344.57 |
| **Gweinyddol a Chlercaidd** | 413.28 | 442.43 |
| **Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd** | 123.81 | 132.60 |
| **Ystadau ac Ategol** | 161.82 | 164.68 |
| **Gwyddonwyr Gofal Iechyd** | 2.43 | 3.67 |
| **Meddygol a Deintyddol** | 36.55 | 34.54 |
| **Nyrsys a Bydwragedd Cofrestredig** | 541.80 | 558.04 |
| **Myfyrwyr** | 0.00 | 9.15 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **1668.09** | **1761.19** |

## Cyfansoddiad y Staff

Ar 31 Mawrth 2021, roedd cyfansoddiad y staff fel a ganlyn:

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr** | 8* | 5* |
| **Cyflogeion** | 1,928 | 315 |

*Mae hyn yn adlewyrchu newidiadau gydol y flwyddyn.

Gwelodd y Bwrdd Iechyd alw na welwyd mo'i fath o'r blaen ar draws nifer o wasanaethau yn 2020/21, oherwydd effaith COVID-19. Bu gwasanaethau'n gwneud gwaith manwl i nodi ac ymateb i'r meysydd mwyaf heriol i ni o ran staffio, a oedd yn cynnwys datblygu cynlluniau datblygu'r gweithlu ar gyfer y galw a ragwelir ac adleoli staff dros dro mewn rolau eraill.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau recriwtio i nifer o rolau

clinigol, gyda rolau Nyrsys Cofrestredig a Meddygol yn parhau i fod yn gryn her. Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Chwefror 2021, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i weld cynnydd yn nifer y staff clinigol a gyflogir. O ganlyniad i weithgaredd recriwtio helaeth a pharhaus, mae lefelau swyddi gwag Nyrsys Cofrestredig ar y wardiau wedi lleihau, gyda diffyg cyffredinol o ran swyddi gwag (ar wahân i absenoldeb) o 28% ym mis Ebrill 2020, yn gostwng i 18.5% ym mis Mawrth 2021.

Er gwaethaf y llwyddiant hwn, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â nifer o swyddi gwag sydd ar hyn o bryd yn cael eu llenwi gan staff Banc neu Asiantaeth, er mwyn cynnal lefelau staffio diogel. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi parhau i gynyddu ein lefelau Staff Banc, gyda chynnydd o 17% mewn gweithwyr Banc ers 31 Mawrth 2020:

| | Cyfrif Pennau fesul Mis | |
|---|---|---|
| **Grŵp Staff** | **2020 / 03** | **2021 / 03** |
| Gweithwyr Gwyddonol a Thechnegol Proffesiynol Ychwanegol | 19 | 17 |
| Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol | 164 | 193 |
| Gweinyddol a Chlercaidd | 65 | 65 |
| Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd | 26 | 23 |
| Ystadau ac Ategol | 97 | 126 |
| Meddygol a Deintyddol | 9 | 9 |
| Nyrsys a Bydwragedd Cofrestredig | 101 | 132 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **481** | **565** |

## Absenoldeb Salwch

Mae gwybodaeth 2020-21 am absenoldeb oherwydd salwch i'w gweld yn y tabl isod:

| | **2019/2020** | **2020/21** |
|---|---|---|
| Diwrnodau a Gollwyd Tymor Hir | 22,149.23 | 24,773.61 |
| Diwrnodau a Gollwyd Tymor Byr | 7,534.01 | 6,897.86 |
| **Cyfanswm Diwrnodau a Gollwyd** | **29,683.24** | **31,671.47** |
| **Cyfanswm Blynyddoedd Staff** | **81.32** | **86.77** |
| Diwrnodau Gweithio a Gollwyd ar Gyfartaledd | 17.98 | 18.15 |
| Cyfanswm Staff a Gyflogwyd yn y Cyfnod (Cyfrif Pennau) | 2128 | 2251 |
| Cyfanswm Staff a Gyflogwyd yn y Cyfnod heb unrhyw absenoldeb (Cyfrif Pennau) | 1092 | 1161 |
| **Canran y Staff heb unrhyw Absenoldeb Oherwydd Salwch** | **51.32%** | **51.58%** |

Mae'r cynnydd mewn absenoldeb staff yn adlewyrchu cyfnod anodd a heriol

iawn 2020-21. Mae hefyd yn cydnabod y bu twf yn nifer y staff. Bach iawn oedd y cynnydd yng nghanran y staff fu ar absenoldeb salwch yn ystod yr amser hwn.

## Polisïau Staff

Mae gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys amrywiaeth o bolisïau staff ar waith. Cymhwysir y polisi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb trwy gydol y flwyddyn ariannol;

- i roi ystyriaeth lawn a theg i geisiadau pobl anabl am waith, gan ystyried eu doniau a'u galluoedd penodol;
- i barhau i gyflogi, ac i drefnu hyfforddiant priodol ar gyfer cyflogeion sydd wedi dod yn bobl anabl yn ystod y cyfnod roedd y cwmni'n eu cyflogi;
- fel arall, i hyfforddi, datblygu gyrfa a hybu pobl anabl y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cyflogi.

Mae pob polisi staff yn cynnwys gofyniad i ddadansoddi effaith y polisi o ran cydraddoldeb. Ar y cyd â'r dull hwn o weithredu, defnyddiwyd y *Polisi Absenoldeb Oherwydd Salwch* a'r *Polisi Recriwtio a Dethol* i sicrhau bod ceisiadau pobl anabl am waith yn cael ystyriaeth deg, ac i gefnogi eu cyflogaeth barhaus.

## Sicrwydd Treth y Rheini Sy'n Cael eu Penodi ond Nad Ydynt ar y Gyflogres

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos pawb a oedd wedi'u penodi ond nad oeddent ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2020, am fwy na £245 y dydd, ac a barhaodd yn hirach na chwe mis:

| | |
|---|---|
| ▪ Cyfanswm nifer y penodiadau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2020; | 0 |
| ▪ Nifer y rhai a oedd wedi bodoli am lai na blwyddyn ar adeg adrodd; | 0 |
| ▪ Nifer y rhai a oedd wedi bodoli am rhwng un a dwy flynedd ar adeg adrodd; | 0 |
| ▪ Nifer y rhai a oedd wedi bodoli am rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd; | 0 |
| ▪ Nifer y rhai a oedd wedi bodoli am rhwng tair a phedair blynedd adeg adrodd; | 0 |
| ▪ Nifer y rhai a oedd wedi bodoli am bedair neu fwy o flynyddoedd ar adeg adrodd. | 0 |

Ni fu unrhyw benodiadau newydd, neu'r rheini a gyrhaeddodd chwe mis o

hyd yn ystod 2020-21.

Ni fu unrhyw benodiadau nad oeddent ar y gyflogres ymhlith aelodau'r bwrdd a/ neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021.

## Pecynnau Ymadael a Thaliadau Diswyddo (WEDI'U HARCHWILIO)

Mae'r datgeliad hwn yn adrodd ar nifer a gwerth y pecynnau ymadael a gymerwyd gan staff a adawodd yn ystod y flwyddyn. Mae'r datgeliad hwn yn ofynnol i atgyfnerthu atebolrwydd o ystyried pryder y cyhoedd a Senedd y DU ynglŷn ag amlder a chost y taliadau hyn.

| Band costau pecynnau ymadael (gan gynnwys unrhyw elfen taliad arbennig) | Nifer y diswydd-iadau gorfodol | Cost y diswydd-iadau gorfodol | Nifer yr ymadaw-iadau eraill | Cost yr ymadaw-iadau eraill | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | Cyfanswm cost y pecynnau ymadael | Nifer yr ymadawiadau lle gwnaed taliadau arbennig | Cost elfen arbennig a gynhwyswyd mewn pecynnau ymadael |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Band costau pecynnau ymadael | Cyfanrifau yn unig | £oedd | Cyfanrifau yn unig | £oedd | Cyfanrifau yn unig | £oedd | Cyfanrifau yn unig | £oedd |
| llai na £10,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £10,000 i £25,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £25,000 i £50,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £50,000 i £100,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £100,000 i £150,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £150,000 i £200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| mwy na £200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Byddai costau diswyddiadau a chostau ymadael eraill, os y'u talwyd, wedi'u talu'n unol â darpariaethau Telerau ac Amodau Agenda ar gyfer Newid y GIG a Chynllun Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol y GIG (VERS).
Gwneir cyfrif llawn am gostau ymadael yn y nodyn hwn yn y flwyddyn ymadael ar sail arian parod, yn unol ag EPN 380 Atodiad 13C. Lle bo'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, BIAP fyddai wedi talu am y costau ychwanegol yn hytrach na chynllun pensiwn y GIG. Cynllun pensiwn y GIG sy'n talu am gostau ymddeol oherwydd iechyd gwael, ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

# RHAN C: ADRODDIAD ATEBOLRWYDD AC ARCHWILIO SENEDDOL

Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys amrywiaeth o ddatgeliadau ynglŷn â rheoleidd-dra gwariant, ffioedd a symiau a godir, cydymffurfiad â gofynion dyrannu a chodi costau y manylir arnynt yng nghanllawiau Trysorlys EM, rhwymedigaethau digwyddiadol materol sy’n annhebygol o ddigwydd, tueddiadau gwariant tymor hir, a thystysgrif ac adroddiad yr archwiliad.

# ADRODDIAD ATEBOLRWYDD AC ARCHWILIO SENEDDOL

## Rheoleidd-dra Gwariant

Mae rheoleidd-dra'n ofynnol ar gyfer pob eitem gwariant a derbyniadau i'w trin yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n eu hawdurdodi, unrhyw awdurdod dirprwyedig perthnasol a rheolau Cyfrifyddu Llywodraeth.

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn sicrhau bod y cyllid y mae Gweinidogion Cymru'n ei ddarparu wedi'i wario at y dibenion roedd y Gweinidogion yn eu bwriadu, a bod yr adnoddau y mae Gweinidogion Cymru'n eu hawdurdodi i'w defnyddio wedi'u defnyddio at y dibenion yr awdurdodwyd eu defnyddio ar eu cyfer.

Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd yw'r Swyddog Atebol ac mae'n sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â gofynion deddfwriaethol a Llawlyfr Adrodd Ariannol y Trysorlys. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol bod y Prif Weithredwr:

- yn dilyn y cyfarwyddiadau cyfrifon y mae Gweinidogion Cymru'n eu cyhoeddi, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, ac yn defnyddio polisïau cyfrifyddu priodol yn gyson;
- yn barnu ac yn llunio amcangyfrifon ar sail resymol;
- yn datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol ac yn datgelu ac yn esbonio unrhyw amrywiadau perthnasol iddynt; ac
- yn eu paratoi ar sail busnes hyfyw gan ragdybio y bydd gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu.

## Ffioedd a Symiau a Godir

Pan mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgymryd â gweithgareddau nad yw Llywodraeth Cymru'n eu hariannu'n uniongyrchol, mae'r Bwrdd Iechyd yn derbyn incwm i dalu ei gostau a fydd yn gwrthbwyso gwariant yr adroddir arno dan feysydd rhaglenni. Gellir gweld Incwm Amrywiol yn Nodyn 4 (tudalen 30) y Cyfrifon Blynyddol. Wrth godi am y gweithgaredd hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â gofynion o ran dyrannu a chodi am gostau y mae canllawiau Trysorlys EM yn manylu arnynt.

## Rhwymedigaethau Digwyddiadol sy'n Annhebygol o Ddigwydd

Gwneir rhwymedigaethau digwyddiadol sy'n annhebygol o ddigwydd ar gyfer tri chategori, sef indemniadau, llythyrau cysur a gwarantau. £0.00m yw gwerth y rhwymedigaethau digwyddiadol sy'n annhebygol o ddigwydd ar gyfer 2020-21 a datgelir hyn yn nodyn 21.2 (tudalen 56) o Gyfrifon Blynyddol y Bwrdd Iechyd.

# Y DYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD ANNIBYNNOL AR GYFER ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I'R SENEDD

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o'r Llif Arian a'r Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau perthynol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol yn unol â'r ffordd y mae Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM wedi'u dehongli a'u haddasu.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o amgylchiadau Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys ar 31 Mawrth 2021 ac o'i gostau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi yn briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol, yn unol â'r ffordd y mae Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM wedi'u dehongli a'u haddasu; ac
- wedi'u paratoi yn briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed dan y ddeddf honno gan Weinidogion Cymru.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso i'r dibenion y mae'r Senedd wedi'u bwriadu ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail fy marn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA, (UK)) a Nodyn Arfer 10 'Audit of Financial Statements of Public Sector Entities in the United Kingdom'. Ceir disgrifiad pellach o fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y Bwrdd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwy'n credu bod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

## Pwyslais ar Fater

Rwyf yn dwyn sylw at Nodyn 21.1 y datganiadau ariannol, sy'n disgrifio effaith Cyfarwyddyd Gweinidogion a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Nid yw fy marn wedi newid o ran y mater hwn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad ei bod yn briodol defnyddio sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i berfformio, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol o ran digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pennau eu hunain neu gyda'i gilydd, beri amheuaeth arwyddocaol ynglŷn â gallu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o ddyddiad awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr o ran busnes hyfyw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

# Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwyswyd yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad i arnynt fel archwilydd. Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni, oni bai y dywedir yn bendant fel arall yn fy adroddiad. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a sicrheir wrth archwilio neu p'un a yw'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os nodaf anghysonderau sylweddol o'r fath, neu gamddatganiadau sylweddol tebygol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn golygu camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, ar sail y gwaith rwyf wedi'i berfformio, fy mod yn dod i'r casgliad bod yna gamddatganiad sylweddol yn y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith hon.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno yn hyn o beth.

# Adroddiad ar ofynion eraill

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau a Staff i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru dan y ddeddf honno.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac fe baratowyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r rhannau eraill heb eu harchwilio o'r Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad ar Berfformiad a'r rhannau eraill heb eu harchwilio o'r Adroddiad Atebolrwydd wedi'u paratoi yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt fel eithriad

O ystyried gwybodaeth a dealltwriaeth y Bwrdd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad ar Berfformiad, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol neu rannau eraill heb eu harchwilio o'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno o ran y materion a ganlyn, y cyflwynaf adroddiad ichi os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu neu na dderbyniwyd ystadegau digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth ganghennau na fu fy nhîm yn ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan wedi'i harchwilio o'r Adroddiad ar Daliadau a Staff yn gytûn â'r cyfrifon a'r ystadegau cyfrifyddu;
- na ddatgelwyd gwybodaeth y manylwyd arni gan Drysorlys EM neu Weinidogion Cymru o ran taliadau a thrafodion eraill; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

# Cyfrifoldebau

## Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, y manylir arnynt ar dudalennau 82 a 84, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg ac yn gyfrifol am y rheolaeth fewnol o'r fath y mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredu yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am asesu gallu'r bwrdd i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu materion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw fel bo'n berthnasol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes hyfyw oni ystyrir hynny'n amhriodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol ynglŷn â ph'un a yw'r datganiadau ariannol fel cyfanwaith yn rhydd o gamddatganiad sylweddol ai peidio, boed oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn datgelu camddatganiad sylweddol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau ddigwydd trwy dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os, yn unigol neu ar y cyd, y gellid disgwyl iddynt, o fewn rheswm, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghraifft o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwyf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, wedi'u hamlinellu uchod, i ddatgelu camddatganiadau sylweddol o ran afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Cynhwysodd fy ngweithdrefnau y canlynol:

- Holi rheolwyr â'r rheini a oedd yn gyfrifol am lywodraethu ynglŷn â materion yn ymwneud â:
- nodi cyfreithiau a rheoliadau, eu gwerthuso a chydymffurfio â nhw a ph'un a ydynt yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
- datgelu ac ymateb i'r risgiau o dwyll a ph'un a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll go iawn, twyll a amheuir neu dwyll honedig; ac

- y mesurau rheoli mewnol oedd wedi'u sefydlu i liniaru risgiau'n gysylltiedig â thwyll neu â pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a lle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, fe nodais y potensial ar gyfer twyll o ran diystyriaeth rheolwyr, a ystyrir yn risg sylweddol ym mhob corff a archwilir.
- Sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys yn gweithredu o'u mewn, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny ag effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu ag effaith sylfaenol i weithrediadau Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys.

Yn ogystal â'r uchod, gwnaeth fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau dynodedig gynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a rhoi dogfennaeth ategol ar brawf i asesu a oeddent yn cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol, fel y trafodwyd uchod;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, Risg ac Sicrwydd a'r Bwrdd; ac
- wrth roi sylw i'r risg o dwyll trwy ddiystyriaeth rheolwyr o fesurau rheoli, rhoi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill ar brawf; asesu p'un a oedd y crebwyll a ddefnyddiwyd wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu'n dangos unrhyw duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol a oedd yn anarferol neu y tu allan i'r drefn busnes arferol.

Gwnes i hefyd gyfathrebu cyfreithiau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i'r tîm archwilio, gan gadw'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid wrth ddatgelu afreoleidd-dra, effeithiolrwydd mesurau rheoli Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a berfformir oll yn effeithio ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu datgelu afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn llunio rhan o'm hadroddiad fel archwilydd.

### Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae'n ofynnol fy mod i'n cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso i'r dibenion y mae'r Senedd wedi'u bwriadu a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Adroddiad

Gwelwch fy Adroddiad ar dudalennau 186 i 187.

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | 24 Ffordd y Gadeirlan |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | Caerdydd |
| 15 Mehefin 21 | CF11 9LJ |

# Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd

## Cyflwyniad

Dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, rwyf yn gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd ar ddatganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys. Rwyf yn adrodd ar y datganiadau ariannol hyn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 i ddwyn sylw at fater allweddol ar gyfer fy archwiliad. Mae hyn yn ymwneud â goblygiadau cyfarwyddyd gweinidogion ar bensiynau uwch glinigwyr. Nid wyf wedi cadarnhau fy marn 'gwir a theg' yn hyn o beth.

## Cyfarwyddyd gweinidogion ar bensiynau uwch glinigwyr

Nid yw cynllun Pensiwn y GIG a deddfwriaeth treth pensiwn wedi'u datganoli i Gymru. Roedd newidiadau Trysorlys EM i'r trefniadau treth ar gyfraniadau pensiwn mewn blynyddoedd diweddar yn cynnwys lleihau'r terfyn Lwfans Blynyddol o dros £200,000 yn 2011-12 i £40,000 yn 2018-19. O ganlyniad i hyn, mewn achosion lle bo cyfraniadau pensiwn unigolyn yn mynd y tu hwnt i derfynau lwfans cyfraniad pensiwn blynyddol a/neu gydol oes, maent yn cael eu trethu ar gyfradd uwch ar eu cyfraniadau i gyd, gan greu cynnydd sydyn mewn atebolrwydd treth.

Mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 13 Tachwedd 2019, roedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi bod cyrff GIG Cymru: 'yn rhoi gwybod yn rheolaidd nad yw uwch staff clinigol yn fodlon cymryd gwaith a sesiynau ychwanegol oherwydd yr atebolrwydd treth gosbol bosibl'. Mewn rhai amgylchiadau, gallai hyn arwain at ffioedd treth ychwanegol sy'n fwy nag unrhyw incwm ychwanegol a enillir.

Ar 18 Rhagfyr 2019, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru (gan adlewyrchu camau roedd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr wedi'u cymryd) Gyfarwyddyd Gweinidogol i'r Ysgrifennydd Parhaol i fwrw ymlaen â chynlluniau i ymrwymo i wneud taliadau i staff clinigol er mwyn adfer gwerth eu pecynnau buddion pensiwn. Pe bai clinigwyr y GIG yn dewis defnyddio'r cyfleuster 'Y Cynllun yn Talu' i dalu am ffioedd treth lwfans blynyddol yn codi o'u cynilion pensiwn GIG 2019-20 (h.y. talu'r ffi trwy bensiwn blynyddol llai, yn hytrach na gwneud taliad unwaith ac am byth yn syth), yna byddai eu cyflogwyr GIG yn talu am effaith y ffioedd treth hynny ar eu pensiwn pan fyddant yn ymddeol.

Roedd gofyn am y Cyfarwyddyd Gweinidogol gan y gallai CThEM ystyried mai cynllunio trethi ac, o bosibl, osgoi trethi yw hyn, sydd felly'n golygu bod y gwariant yn afreolaidd. Mae Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru (sy'n adlewyrchu'r un Saesneg cyfatebol) yn nodi'n benodol 'Ni ddylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus efadu trethi, osgoi trethi na chynllunio trethi'.

Nid yw'r Cyfarwyddyd Gweinidogol yn gwneud yr hyn a fyddai fel arall yn cael ei ystyried yn afreolaidd yn rheolaidd, ond mae yn symud atebolrwydd am benderfyniadau o'r fath o'r Swyddog Cyfrifyddu i'r Gweinidog sy'n cyhoeddi'r cyfarwyddyd.

Mae'r datrysiad yn berthnasol yn unig i'r ffioedd treth lwfans blynyddol sy'n codi yn sgil cynnydd yn y buddion a gronnir yng Nghynllun Pensiwn y GIG yn ystod y flwyddyn dreth a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2020. Yn achos y flwyddyn dreth a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2021, cynyddodd y Canghellor y trothwyon ar gyfer y lwfans blynyddol graddedig ac, o'r herwydd, rhagwelir bod y risg o ran cyflenwad staff clinigol wedi'i lliniaru.

Nid oes gan y BILl ddigon o wybodaeth ar hyn o bryd i gyfrifo a chydnabod amcangyfrif o gostau posibl digolledu uwch staff clinigol am fuddion pensiwn y byddent, fel arall, wedi'u colli, trwy ddefnyddio'r trefniant 'Y Cynllun yn Talu'. O ganlyniad, ni chydnabyddir unrhyw wariant yn y datganiadau ariannol ond, yn unol â'r gofyn, mae'r BILl wedi datgelu rhwymedigaeth wrth gefn yn nodyn 21 ei ddatganiadau ariannol.

Delir pob corff GIG yn ddiniwed am effaith y Cyfarwyddyd Gweinidogol ond, yn fy marn i, byddai unrhyw drafodion a gynhwysir yn natganiadau ariannol y BILl i gydnabod y rhwymedigaeth hon yn afreolaidd ac yn sylweddol wrth eu natur. Mae hyn oherwydd bod y taliadau'n groes i baragraff 5.6.1 Rheoli Arian Cyhoeddus ac yn golygu eu bod yn ffurf ar gynllunio trethi a fydd yn gadael y Canghellor, ar y cyfan, yn waeth ei fyd. Nid yw'r Cyfarwyddyd Gweinidogol ar ei ben ei hun yn golygu nad yw'r cynllun yn afreolaidd. Hefyd, mae'r trefniadau'n newydd ac yn gynhennus ac fe allent fod yn gosod cynsail.

Nid wyf wedi addasu fy marn ar reoleidd-dra yn hyn o beth eleni oherwydd, fel a nodir uchod, nid yw unrhyw wariant wedi'i gydnabod yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Fodd bynnag, rwyf wedi gosod paragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad archwilio i ddwyn sylw at y mater hwn, ac rwyf wedi paratoi'r adroddiad hwn i ddod â'r trefniant at sylw'r Senedd.

**Adrian Crompton**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**15 Mehefin 21**

# ADRAN TRI: Y DATGANIADAU ARIANNOL

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Powys Teaching Health Board

# DATGANIADAU ARIANNOL: 2020-21




**LLOFNODWYD GAN:** **DYDDIAD: 10 MEHEFIN 21**

**CAROL SHILLABEER**

**[PRIF WEITHREDWR]**

# BWRDD IECHYD LLEOL ADDYSGU POWYS

## RHAGAIR

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi gan y Bwrdd Iechyd Lleol dan atodlen 9 adran 178 Para 3(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (c.42) ar ffurf sy'n unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

**Cefndir statudol**

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys dan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 (S.I. 2003/148 (W.18))

Fel corff statudol y mae Deddfau Seneddol yn ei lywodraethu, mae'r BIA yn gyfrifol am:

- gytuno ar y camau sy'n angenrheidiol i wella iechyd a gofal iechyd poblogaeth Powys;

- cefnogi ac ariannu gwaith prynu gwasanaethau y mae meddygon teulu'n eu harwain sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau cytunedig, gan gynnwys safonau siarter a gwarantau;

- cefnogi ac ariannu'r proffesiynau ar gontract;

- comisiynu gwaith hybu iechyd, cynllunio at argyfwng a thasgau rheoleiddiol eraill;

- stiwardio adnoddau gan gynnwys rheoli perfformiad yn ariannol a monitro perfformiad mewn meysydd hanfodol;

- ennyn ac ymateb i farn pobl a sefydliadau lleol a newid a datblygu gwasanaethau ar gyflymdra ac mewn ffyrdd y byddant yn eu derbyn;

- darparu Gwasanaethau Ysbyty a Gofal Iechyd Cymunedol i drigolion Powys.

Mae BIA Powys yn lletya'r Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru. Hefyd, mae'n gyfrifol am letya swyddogaethau penodol o ran cyfrifon y cyn Awdurdodau Iechyd, ac mae'r mwyaf arwyddocaol o'r rhain yn ymwneud ag esgeulustod clinigol. Mae'r BIA hefyd yn lletya swyddogaethau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW).

**Rheoli Perfformiad a Chanlyniadau Ariannol**

Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC/2016/054 yn disodli WHC/2015/014 'Dyletswyddau Ariannol Statudol a Gweinyddol Ymddiriedolaethau GIG a Byrddau Iechyd Lleol' ac mae'n egluro dyletswyddau ariannol statudol cyrff GIG Cymru ymhellach a daeth i rym ar gyfer 2020-21. Mae'r ddyletswydd ariannol flynyddol wedi'i dirymu ac mae'r ddyletswydd adennill costau statudol wedi dychwelyd i ddyletswydd tair blynedd, gyda'r asesiad cyntaf o'r ddyletswydd hon yn 2016-17.

Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru gydymffurfio'n llwyr â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Trysorlys i'r graddau ei fod yn berthnasol iddynt hwy. O'r herwydd, y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yw'r Prif Ddatganiad o incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn, ac mae hwn yn dangos cost gweithredu net y BILl y mae Llywodraeth Cymru'n ei hariannu. Dyrennir y cyllid hwn pan dderbynnir ef yn uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Dan Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014, mae'r gofyniad blynyddol i fantoli'r gyllideb yn unol â Therfynau Adnoddau wedi'i ddisodli gan ddyletswydd i sicrhau, mewn cyfnod treigl o 3 blynedd, nad yw cyfanswm ei wariant yn fwy na chyfanswm terfyn y cyllid a gymeradwyir.

Daeth y Ddeddf i rym o 1 Ebrill 2014 a dan y Ddeddf fe gynhaliwyd yr asesiad cyntaf o'r ddyletswydd ariannol 3 blynedd dreigl ar ddiwedd 2016-17.

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 2020-21 £'000 | 2019-20 £'000 Wedi'i ailddatgan |
|---|---|---|---|
| Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Sylfaenol | 3.1 | **72,405** | 68,748 |
| Gwariant ar ofal iechyd oddi wrth ddarparwyr eraill | 3.2 | **175,974** | 161,711 |
| Gwariant ar Wasanaethau Ysbyty ac Iechyd Cymunedol | 3.3 | **120,723** | 109,381 |
| | | **369,102** | 339,840 |
| Llai: Incwm Amrywiol | 4 | **(12,601)** | (15,328) |
| **Costau gweithredu net y BILI cyn llog ac enillion a cholledion eraill** | | **356,501** | 324,512 |
| Refeniw Buddsoddi | 5 | **0** | 0 |
| (Enillion) / Colledion eraill | 6 | **0** | 0 |
| Costau cyllid | 7 | **(30)** | 19 |
| **Costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn ariannol** | | **356,471** | **324,531** |

Gwelwch nodyn 2 ar dudalen 26 i gael manylion perfformiad yn erbyn dyraniadau Refeniw a Chyfalaf.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 8 i 73 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Gwariant Net Cynhwysfawr Arall

| | **2020-21** | 2019-20 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Enillion/(colledion) net o ailbrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | **(941)** | (705) |
| Enillion/(colledion) net o ailbrisio pethau anniriaethol | **0** | 0 |
| (Enillion) / colledion ar gronfeydd eraill wrth gefn | **0** | 0 |
| (Enillion)/ colledion net o ailbrisio PPE ac asedau anniriaethol a ddelir i'w gwerthu | **0** | 0 |
| (Enillion)/colledion net o ailbrisio asedau ariannol a ddelir i'w gwerthu | **0** | 0 |
| Amhariadau a gwrthdroadau | **0** | 0 |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | **0** | 0 |
| Trosglwyddo i/(o) gyrff eraill o fewn y Terfyn Cyfrifyddu Adnoddau | **0** | 0 |
| Addasiad ailddosbarthu ar ôl gwaredu asedau ariannol oedd ar gael i'w gwerthu | **0** | 0 |
| Gwariant net cynhwysfawr arall ar gyfer y flwyddyn | **(941)** | (705) |
| **Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | **355,530** | 323,826 |

Mae’r nodiadau ar dudalennau 8 i 73 yn ffurfio rhan o’r cyfrifon hyn.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2021

| | Nodiadau | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 11 | **78,394** | 74,674 |
| Asedau anniriaethol | 12 | **0** | 0 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 15 | **14,403** | 14,791 |
| Asedau ariannol eraill | 16 | **0** | 0 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **92,797** | 89,465 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Stocrestrau | 14 | **159** | 156 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 15 | **12,179** | 9,024 |
| Asedau ariannol eraill | 16 | **0** | 0 |
| Arian parod a chyfwerthoedd arian parod | 17 | **2,627** | 540 |
| | | **14,965** | 9,720 |
| Asedau anghyfredol yn y categori "A Ddelir i'w Gwerthu" | 11 | **0** | 0 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **14,965** | 9,720 |
| **Cyfanswm asedau** | | **107,762** | 99,185 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 18 | **(45,831)** | (35,164) |
| Rhwymedigaethau ariannol eraill | 19 | **0** | 0 |
| Darpariaethau | 20 | **(3,336)** | (2,461) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(49,167)** | (37,625) |
| **Asedau / (rhwymedigaethau) cyfredol net** | | **(34,202)** | (27,905) |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 18 | **0** | 0 |
| Rhwymedigaethau ariannol eraill | 19 | **0** | 0 |
| Darpariaethau | 20 | **(20,074)** | (20,679) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(20,074)** | (20,679) |
| **Cyfanswm asedau a ddefnyddiwyd** | | **38,521** | 40,881 |
| **Cyllidwyd gan :** | | | |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | | **(2,532)** | 768 |
| Cronfa wrth gefn ailbrisio | | **41,053** | 40,113 |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **38,521** | 40,881 |

Cymeradwyodd y Bwrdd y datganiadau ariannol ar dudalennau 2 i 7 ar 10fed Mehefin 2021 a llofnodwyd nhw ar ei ran gan:

Prif Weithredwr a Swyddog Atebol

Dyddiad 10fed Mehefin 2021

Mae'r nodiadau ar dudalennau 8 i 73 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Cronfa Gyffredinol £000oedd | Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio £000oedd | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn £000oedd |
|---|---|---|---|
| **Newidiadau i ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2020-21** | | | |
| **Balans ar 1 Ebrill 2020** | 768 | 40,113 | **40,881** |
| Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | (356,471) | | **(356,471)** |
| Enillion/(colledion) net o ailbrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | 0 | 941 | **941** |
| Enillion/(colledion) net o ailbrisio asedau anniriaethol | 0 | 0 | **0** |
| Enillion/(colledion) net o ailbrisio asedau ariannol | 0 | 0 | **0** |
| Enillion/(colledion) net o ailbrisio asedau a ddelir i'w gwerthu | 0 | 0 | **0** |
| Amhariadau a gwrthdroadau | 0 | 0 | **0** |
| Symudiad arall cronfeydd wrth gefn | 0 | 0 | **0** |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | 0 | 0 | **0** |
| Rhyddhau cronfeydd wrth gefn i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfa | 1 | (1) | **0** |
| Trosglwyddo i / o Fyrddau Iechyd Lleol | 0 | 0 | **0** |
| **Cyfanswm incwm a gwariant cydnabyddedig ar gyfer 2020-21** | (356,470) | 940 | **(355,530)** |
| Cyllid Net Llywodraeth Cymru | 349,409 | | **349,409** |
| Cyllid Tybiannol Llywodraeth Cymru | 3,761 | | **3,761** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | (2,532) | 41,053 | **38,521** |
| | | | |
| Wedi'i gynnwys yng Nghyllid Net Llywodraeth Cymru: | | | |
| Cyllid Cyfalaf Covid 19 Llywodraeth Cymru | 1,990 | | **1,990** |
| Cyllid Refeniw Covid 19 Llywodraeth Cymru | 31,368 | | **31,368** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 8 i 73 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

| | Cronfa Gyffredinol £000oedd | Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio £000oedd | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn £000oedd |
|---|---|---|---|
| **Newidiadau i ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2019-20** | | | |
| **Balans ar 1 Ebrill 2019** | 2,415 | 39,428 | **41,843** |
| Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | (324,531) | | **(324,531)** |
| Enillion/(colledion) net o ailbrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | 0 | 705 | **705** |
| Enillion/(colledion) net o ailbrisio asedau anniriaethol | 0 | 0 | **0** |
| Enillion/(colledion) net o ailbrisio asedau ariannol | 0 | 0 | **0** |
| Enillion/(colledion) net o ailbrisio asedau a ddelir i'w gwerthu | 0 | 0 | **0** |
| Amhariadau a gwrthdroadau | 0 | 0 | **0** |
| Symudiad arall cronfeydd wrth gefn | 0 | 0 | **0** |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | 20 | (20) | **0** |
| Rhyddhau cronfeydd wrth gefn i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfa | 0 | 0 | **0** |
| Trosglwyddo i / o Fyrddau Iechyd Lleol | 0 | 0 | **0** |
| **Cyfanswm incwm a gwariant cydnabyddedig ar gyfer 2019-20** | (324,511) | 685 | **(323,826)** |
| Cyllid Net Llywodraeth Cymru | 319,391 | | **319,391** |
| Cyllid Tybiannol Llywodraeth Cymru | 3,473 | | **3,473** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | 768 | 40,113 | **40,881** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 8 i 73 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o'r Llif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| **Llif Arian o weithgareddau gweithredu** | Nodiadau | | |
| Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn ariannol | | (356,471) | (324,531) |
| Symudiadau mewn Cyfalaf Gweithio | 27 | 8,238 | 3,901 |
| Addasiadau llif arian eraill | 28 | 7,476 | 14,327 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | 20 | (1,494) | (11,612) |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | (342,251) | (317,915) |
| | | | |
| **Llif Arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | | (5,071) | (3,253) |
| Enillion o waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar | | 0 | 0 |
| Prynu asedau anniriaethol | | 0 | 0 |
| Enillion o waredu asedau anniriaethol | | 0 | 0 |
| Talu am asedau ariannol eraill | | 0 | 0 |
| Enillion o waredu asedau ariannol eraill | | 0 | 0 |
| Talu am asedau eraill | | 0 | 0 |
| Enillion o waredu asedau eraill | | 0 | 0 |
| **Mewnlif / (all-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | (5,071) | (3,253) |
| **Mewnlif / (all-lif) arian parod net cyn cyllido** | | (347,322) | (321,168) |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Cyllid Llywodraeth Cymru (yn cynnwys cyfalaf) | | 349,409 | 319,391 |
| Derbyniadau cyfalaf a ildiwyd | | 0 | 0 |
| Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd | | 0 | 0 |
| Elfen cyfalaf taliadau o ran prydlesi cyllid ac ar Gynlluniau PFI i'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol | | 0 | 0 |
| Arian a drosglwyddwyd (i)/ o gyrff eraill y GIG | | 0 | 0 |
| **Cyllido net** | | 349,409 | 319,391 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a chyfwerthoedd arian parod** | | 2,087 | (1,777) |
| **Arian parod a chyfwerthoedd arian parod (a gorddrafftiau banc) ar 1 Ebrill 2020** | | 540 | 2,317 |
| **Arian parod a chyfwerthoedd arian parod (a gorddrafftiau banc) ar 31 Mawrth 2021** | | 2,627 | 540 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 8 i 73 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

**Nodiadau ar gyfer y Cyfrifon**

**1. Polisïau cyfrifyddu**

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gorchymyn bod yn rhaid i ddatganiadau ariannol Byrddau Iechyd Lleol (BILl) yng Nghymru fodloni gofynion cyfrifyddu Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru. O'r herwydd, mae'r datganiadau ariannol a ganlyn wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Cyfrifon 2020-21. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y llawlyfr hwnnw'n dilyn Llawlyfr Adrodd Ariannol (FreM) 2020-21 yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol sy'n cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006, heblaw am Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16 Prydlesi, sydd wedi'i gohirio tan 1 Ebrill 2022; i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r GIG yng Nghymru.

Lle bo'r Llawlyfr Cyfrifon BILl yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol y BILl at ddiben rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y BILl isod. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol o ran y cyfrifon.

**1.1. Confensiwn cyfrifyddu**

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi dan y confensiwn costau hanesyddol, wedi'i addasu i roi cyfrif am ailbrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar, asedau anniriaethol a stocrestrau.

**1.2. Caffaeliadau a gweithrediadau sydd wedi dod i ben**

Ystyrir bod gweithgareddau wedi'u 'caffael' dim ond os y'u derbynnir o'r tu allan i'r sector cyhoeddus. Ystyrir bod gweithgareddau 'wedi dod i ben' dim ond os ydynt yn dod i ben yn llwyr. Ni ystyrir eu bod 'wedi dod i ben' os ydynt yn trosglwyddo o un corff y sector cyhoeddus i un arall.

**1.3. Incwm a chyllid**

Prif ffynhonnell cyllid i'r Byrddau Iechyd Lleol yw dyraniadau (cyllid Llywodraeth Cymru) oddi wrth Lywodraeth Cymru, o fewn terfyn arian parod cymeradwy, a gredydir i Gronfa Gyffredinol y BILl. Cydnabyddir cyllid Llywodraeth Cymru yn y cyfnod ariannol y derbynnir yr arian parod ynddo.

Dyrennir cyllid annewisol sydd y tu allan i'r Terfyn Adnoddau Refeniw i gyfateb i'r gwariant gwirioneddol ar ddarparu gwasanaethau fferyllol neu offthalmig penodol a nodir gan Lywodraeth Cymru. Datgelir gwariant annewisol yn y cyfrifon a'i ddidynnu o gostau gweithredu a godir yn erbyn y Terfyn Adnoddau Refeniw.

Credydir cyllid ar gyfer caffael asedau sefydlog a dderbynnir oddi wrth Lywodraeth Cymru i'r Gronfa Gyffredinol.

Incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r BILl ac nad yw'n cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yw incwm amrywiol. Mae hyn yn cynnwys talu am wasanaethau y mae'r BILl yn eu darparu'n unigryw ar gyfer Llywodraeth Cymru, fel cyllid a ddarperir i asiantaethau a chostau di-weithgaredd y mae'r BILl yn eu talu yn ei rôl fel darparwr. Mae incwm a dderbynnir oddi wrth Fyrddau Iechyd Lleol sydd â thrafodion â Byrddau Iechyd Lleol eraill bob amser yn cael ei drin fel incwm amrywiol.

O 2018-19, mae IFRS 15 Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid wedi'i chymhwyso, fel y'i dehonglwyd a'i haddasu ar gyfer y sector cyhoeddus, yn y FReM. Mae'n disodli safonau blaenorol Gwasanaethau Archwilio Mewnol (IAS) 11 Contractau Adeiladu ac IAS 18 Refeniw a dehongliadau IFRIC a SIC. Mae'r diwygiadau posibl a nodwyd o ganlyniad i fabwysiadu IFRS 15 yn sylweddol is na lefelau perthnasedd.

Rhoddir cyfrif am incwm wrth gymhwyso'r confensiwn croniadau. Cydnabyddir incwm yn y cyfnod y darperir gwasanaethau ynddo. Pan dderbynnir incwm oddi wrth drydydd partïon ar gyfer cyflawni gweithgaredd penodol yn y flwyddyn ariannol ganlynol, gohirir yr incwm hwnnw.

Dim ond incwm y tu allan i'r GIG y gellir ei ohirio.

### 1.4. Buddion cyflogeion

#### 1.4.1. Buddion cyflogeion tymor byr

Cydnabyddir cyflogau a thaliadau cysylltiedig â chyflogaeth yn y cyfnod y derbynnir y gwasanaeth oddi wrth gyflogeion. Cydnabyddir cost absenoldeb a enillir ond nad yw cyflogeion wedi'i gymryd ar ddiwedd y cyfnod yn y datganiadau ariannol i'r graddau y caniateir i gyflogeion gario absenoldeb ymlaen i'r cyfnod canlynol.

#### 1.4.2. Costau budd-daliadau ymddeol

Mae darpariaethau Cynllun Pensiwn y GIG yn berthnasol i gyn gyflogeion a chyflogeion presennol. Mae'r cynllun yn gynllun buddion diffiniedig, heb ei ariannu sy'n berthnasol i gyflogwyr y GIG, Practisau Cyffredinol a chyrff eraill, a ganiateir dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, yng Nghymru a Lloegr. Ni fwriedir i'r cynllun gael ei redeg mewn ffordd a fyddai'n galluogi cyrff y GIG i nodi eu rhan nhw o asedau a rhwymedigaethau isorweddol y cynllun. Felly, rhoddir cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig: cymerir bod y gost i gorff y GIG o gymryd rhan yn y cynllun yn hafal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am y cyfnod cyfrifyddu.

Roedd canlyniadau prisio diweddaraf Cynllun Pensiwn y GIG yn dangos bod angen cynnydd o 6.3% (14.38% i 20.68%) ar gyfer cynnydd mewn budd-daliadau, a rhoddwyd hyn ar waith o 1 Ebrill 2019.

Fel sefydliad o fewn cwmpas cyllido llawn, roedd y trefniant pontio ar y cyd (yn GIG Lloegr a GIG Cymru) ar waith o 2019-20 lle byddai cyflogwyr yn y Cynllun yn parhau i dalu 14.38% o gyfraniadau cyflogwyr dan eu proses talu misol arferol, gyda Llywodraeth Cymru'n ariannu'r 6.3% ychwanegol yng Nghymru yn uniongyrchol i weinyddwr y Cynllun Pensiwn, sef Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (BSA Asiantaeth Pensiynau'r GIG).

Fodd bynnag, mae'n ofynnol bod sefydliadau GIG Cymru'n cyfrif am gyfraniadau cyflogwr ar gyfer **eu staff nhw** o 20.68% yn llawn ac ar sail gros, yn eu cyfrifon blynyddol. Rhoddir cyfrif am y taliadau y mae Llywodraeth Cymru'n eu gwneud ar eu rhan ar sail dybiannol. I gael gwybodaeth fanwl, gwelwch Nodyn Arall yn y cyfrifon hyn.

Ar gyfer ymddeoliadau cynnar, heblaw am y rheini sydd oherwydd afiechyd, nid yw'r cynllun yn ariannu'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol. Codir swm llawn y rhwymedigaeth am y costau ychwanegol ar wariant ar yr adeg y mae'r sefydliad GIG Cymru'n ymrwymo i'r ymddeoliad, waeth beth yw'r dull talu.
Pan fo cyflogeion yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun pensiwn budd diffiniedig, datgelir hyn. Gellir nodi asedau a rhwymedigaethau'r cynllun y gellir eu priodoli i'r cyflogeion hynny ac fe'u cydnabyddir yng nghyfrifon y sefydliad GIG Cymru. Mae'r asedau'n cael eu mesur yn ôl eu gwerth teg a'r rhwymedigaethau ar werth presennol y rhwymedigaethau yn y dyfodol. Mae'r cynnydd yn y rhwymedigaeth sy'n deillio o wasanaeth pensiynadwy a enillwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gydnabod o fewn costau gweithredu. Cydnabyddir enillion a ddisgwylir yn ystod y flwyddyn o asedau'r cynllun o fewn incwm cyllid. Cydnabyddir y gost llog yn ystod y flwyddyn sy'n deillio o ymddatod y gostyngiad ar gyfer rhwymedigaethau'r cynllun o fewn costau cyllid.

### 1.4.3. Cynllun Pensiwn NEST

Rhaid cynnig cynllun pensiwn amgen i gyflogeion nad ydynt yn gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn y GIG. Mae Cynllun Pensiwn NEST (Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol) yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac felly mae'r gost i gorff y GIG o gymryd rhan yn y cynllun yn hafal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am y cyfnod cyfrifyddu.

## 1.5. Treuliau eraill

Cydnabyddir treuliau gweithredu eraill ar gyfer nwyddau neu wasanaethau pan, ac i'r graddau, y derbynnir nhw. Maent yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg y gydnabyddiaeth sy'n daladwy.

## 1.6. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

### 1.6.1. Cydnabyddiaeth

Cyfalefir eiddo, peiriannau a chyfarpar:

● os y'i cedwir i'w ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaethau neu at ddibenion gweinyddol;

● os yw'n debygol y bydd buddion economaidd yn y dyfodol yn llifo i'r sefydliad GIG Cymru, neu y bydd potensial gwasanaeth yn cael ei gyflenwi;

● os oes disgwyl iddo gael ei ddefnyddio am fwy nag un flwyddyn ariannol;

● os gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy; ac

● os yw cost yr eitem yn £5,000 o leiaf; neu

● os yw cost nifer o eitemau gyda'i gilydd yn £5,000 o leiaf a'u bod, yn unigol, wedi costio mwy na £250, pan fo'r asedau'n swyddogaethol gyd-ddibynnol, pan roedd dyddiad eu prynu fwy neu lai yr un pryd, pan y disgwylir y bydd y dyddiad y byddant yn cael eu gwaredu fwy neu lai yr un pryd, a phan eu bod dan un rheolaeth reoli; neu

● os yw eitemau'n rhan o gost gychwynnol paratoi a sefydlu adeilad, ward neu uned newydd, waeth beth fo'u cost unigol neu gyfunol.

Lle bo ased mawr, er enghraifft adeilad, yn cynnwys nifer o gydrannau sydd ag oes sylweddol wahanol fel ased, mae'r cydrannau'n cael eu trin fel asedau ar wahân ac yn cael eu dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol eu hunain.

### 1.6.2. Prisio

Mae'r holl eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cael eu mesur i ddechrau ar gost, gan gynrychioli'r gost y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol i gaffael neu adeiladu'r ased a dod ag ef i'r lleoliad neu'r cyflwr sy'n angenrheidiol iddo allu gweithredu yn y modd y mae'r rheolwyr yn ei fwriadu.

Nodir tir ac adeiladau a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau neu at ddibenion gweinyddol yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol (SoFP) ar eu symiau wedi'u hailbrisio, sef y gwerth teg ar ddyddiad yr ailbrisio llai unrhyw ddibrisiant cronedig dilynol a cholledion oherwydd amhariad. Gwneir yr ailbrisio'n ddigon rheolaidd i sicrhau nad yw symiau cario yn sylweddol wahanol i'r rheini a fyddai'n cael eu pennu ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Pennir gwerthoedd teg fel a ganlyn:

● Tir ac adeiladau anarbenigol – gwerth ar y farchnad ar gyfer y defnydd presennol

● Adeiladau arbenigol – cost amnewid wedi’i dibrisio

Mae Trysorlys EM wedi mabwysiadu dull safonol o brisio cost amnewid wedi’i dibrisio ar sail asedau cyfwerth modern a gellir prisio safle amgen lle y byddai’r safle hwnnw’n bodloni gofynion y gwasanaeth sy’n cael ei ddarparu o ran lleoliad. Mae sefydliadau GIG Cymru wedi cymhwyso’r gofynion newydd hyn o ran pennu gwerth o 1 Ebrill 2009.

Mae eiddo sydd wrthi’n cael ei adeiladu ar gyfer gwasanaeth neu at ddibenion gweinyddol yn cael ei gario ar gost, llai unrhyw golled oherwydd amhariad. Mae’r gost yn cynnwys ffioedd proffesiynol ond nid costau benthyca, a gydnabyddir fel treuliau ar unwaith, fel y mae IAS 23 yn ei ganiatáu ar gyfer asedau a ddelir ar werth teg. Mae asedau’n cael eu hailbrisio ac mae’r dibrisio’n cychwyn pan ddechreuir eu defnyddio.

Yn 2017-18, cymhwyswyd ymarfer ailbrisio ffurfiol i dir ac eiddo. Bydd gwerth cario asedau sy’n bodoli ar y dyddiad hwnnw’n cael ei ddileu dros eu hoes ddefnyddiol sy’n weddill a chaiff gosodiadau a chyfarpar eu cario am gost hanesyddol wedi’i dibrisio gan nad ystyrir bod hyn yn sylweddol wahanol i werth teg.

Mae cynnydd yn sgil ailbrisio’n cael ei symud i’r gronfa wrth gefn ailbrisio ac eithrio pan fydd yn gwrthdroi amhariad ar gyfer yr un ased a gydnabuwyd yn flaenorol mewn gwariant; os felly, mae’n cael ei gredydu i wariant i raddau’r gostyngiad a godwyd yn flaenorol yno. Cydnabyddir gostyngiad yn sgil ailbrisio, nad yw o ganlyniad i golli gwerth economaidd neu botensial gwasanaeth, fel amhariad a godir ar y gronfa wrth gefn ailbrisio i’r graddau bod y gronfa wrth gefn wedi’i mantoli ar gyfer yr ased ac, wedi hynny, ar wariant. Dylid symud colledion oherwydd amhariad i wariant os ydynt yn codi o ddefnydd clir o fudd economaidd.

Mae cyfeiriadau yn IAS 36 at gydnabod trin colled oherwydd amhariad i ased sydd wedi’i ailbrisio fel gostyngiad ailbrisio, i’r graddau nad yw’r amhariad yn fwy na’r swm yn y gwarged ailbrisio ar gyfer yr un ased, yn cael eu haddasu fel mai dim ond y colledion oherwydd amhariad hynny nad ydynt o ganlyniad i ddefnydd clir o fudd economaidd neu leihad ym mhotensial gwasanaeth (gan gynnwys o ganlyniad i golled neu ddifrod yn sgil gweithrediadau busnes arferol) y dylid eu symud i’r gronfa wrth gefn ailbrisio. Dylid symud colledion oherwydd amhariad sy’n codi o ddefnydd clir o fudd economaidd i’r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE).

O 2015-16, rhaid cydymffurfio’n llawn ag IFRS 13 Mesur Gwerth Teg. Fodd bynnag, mae IAS 16 ac IAS 38 wedi’u haddasu ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus, sy’n cyfyngu ar yr amgylchiadau y paratoir y prisiad danynt dan IFRS 13. Dylid mesur asedau a ddelir ar gyfer eu potensial gwasanaeth, ac sy’n cael eu defnyddio, yn ôl eu gwerth cyfredol yn y defnydd presennol ohonynt. Yn achos asedau arbenigol, dylid dehongli eu gwerth cyfredol yn y defnydd presennol ohonynt fel gwerth presennol potensial gwasanaeth yr asedau sy’n weddill, y gellir tybio ei fod o leiaf yn hafal i gost disodli’r potensial gwasanaeth hwnnw. Lle nad oes unrhyw un dosbarth o ased sy’n dod o fewn IFRS 13, dylai datgeliadau fod ar gyfer eitemau hanfodol yn unig.

Yn unol ag addasu IAS 16 yn nhabl 6.2 y FReM, ar gyfer asedau anarbenigol sy’n cael eu defnyddio’n weithredol, dehonglir gwerth cyfredol yn y defnydd presennol ohonynt fel gwerth ar y farchnad ar gyfer y defnydd presennol a ddiffinnir yn Llyfr Coch RICS fel Gwerth Defnydd Presennol (EUV).

Dylid pennu gwerth asedau a ddaliwyd yn fwyaf diweddar ar gyfer eu potensial gwasanaeth, ond sydd dros ben, ar werth cyfredol yn y defnydd presennol ohonynt, os oes yna gyfyngiadau ar y sefydliad GIG neu’r ased a fyddai’n atal mynediad i’r farchnad ar y dyddiad adrodd. Pe gallai’r sefydliad GIG gael mynediad i’r farchnad, yna dylid defnyddio’r ased dros ben ar werth teg gan ddefnyddio IFRS 13. Wrth benderfynu a yw ased o’r fath, nad yw’n cael ei ddefnyddio, yn ased dros ben, dylid asesu a oes yna fwriad clir i ddod â’r ased yn ôl i ddefnydd fel ased gweithredol. Lle bo bwriad clir, nid yw’r ased yn ased dros ben a dylid cynnal y gwerth cyfredol yn y defnydd presennol ohono. Fel arall, dylid asesu’r ased fel un dros ben a phennu gwerth dan IFRS 13.

Dylid pennu gwerth asedau nad ydynt yn cael eu dal ar gyfer eu potensial gwasanaeth yn unol ag

yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau a lle nad oes unrhyw fwriad i ddod ag ef yn ôl i ddefnydd, heb unrhyw gyfyngiadau ar ei werthu, a lle nad yw'n bodloni meini prawf IAS 40 ac IFRS 5, mae'r asedau hyn dros ben a phennir eu gwerth ar sail gwerth teg gan ddefnyddio IFRS 13.

Dylid pennu gwerth asedau nad ydynt yn cael eu dal ar gyfer eu potensial gwasanaeth yn unol ag IFRS 5 neu IAS 40, gan ddibynnu ar p'un a yw'r ased wedi'i ddal i'w werthu ai peidio. Lle nad yw ased yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau a lle nad oes unrhyw fwriad i ddod ag ef yn ôl i ddefnydd, heb unrhyw gyfyngiadau ar ei werthu, a lle nad yw'n bodloni meini prawf IAS 40 ac IFRS 5, mae'r asedau hyn dros ben a phennir eu gwerth ar sail gwerth teg gan ddefnyddio IFRS 13.

### 1.6.3. Gwariant dilynol

Pan fo gwariant dilynol yn gwella ased y tu hwnt i'w fanyleb wreiddiol, mae'r gost y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol yn cael ei chyfalafu. Pan fydd gwariant dilynol yn adfer yr ased i'w fanyleb wreiddiol, mae'r gwariant yn cael ei gyfalafu ac mae unrhyw werth cario'r eitem sy'n cael ei disodli'n cael ei symud a'i godi ar y SoCNE. Fel y dygwyd sylw ato mewn blynyddoedd blaenorol, nid oes gan y GIG yng Nghymru systemau ar waith i sicrhau y gellir adnabod eitemau sy'n cael eu "disodli" ac felly dylid meintioli'r gost dan sylw. Felly mae'r GIG yng Nghymru wedi sefydlu protocol cenedlaethol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safon cyn belled ag y mae'n gallu, a amlinellir ym mhennod cyfrifyddu cyfalaf y Llawlyfr Cyfrifon. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid sicrhau nad yw gwerthoedd cario ased yn cael eu gorddatgan yn sylweddol. Yn achos Cynlluniau Cyfalaf Cymru Gyfan sy'n cael eu cwblhau mewn blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i sefydliadau GIG Cymru gael ailbrisiad yn ystod y flwyddyn (cyn dechrau eu defnyddio) ac mae hefyd angen ailbrisiadau tebyg ar gyfer yr holl Gynlluniau Adeiladu Dewisol a gwblhawyd sydd â gwariant sy'n fwy na £0.5m. Mae'r gostyngiadau mewn gwerth llyfr a nodir fel hyn yna'n cael eu codi ar dreuliau gweithredu.

## 1.7. Asedau anniriaethol

### 1.7.1. Cydnabyddiaeth

Asedau anariannol yw asedau anniriaethol, y gellir eu gwerthu ar wahân i weddill y busnes neu sy'n deillio o hawliau contractiol neu hawliau cyfreithiol eraill. Maent yn cael eu cydnabod dim ond pan fo'n debygol y bydd buddion economaidd yn y dyfodol yn llifo i sefydliad GIG Cymru, neu y darperir potensial gwasanaeth iddo; pan fo'n bosibl mesur cost yr ased yn ddibynadwy, a lle bo'r gost yn £5,000 o leiaf.

Mae asedau anniriaethol a gaffaelir ar wahân yn cael eu cydnabod i ddechrau ar werth teg. Caiff meddalwedd sy'n rhan annatod o weithredu caledwedd, er enghraifft system weithredu, ei chyfalafu fel rhan o'r eitem berthnasol o eiddo, peiriant a chyfarpar. Caiff meddalwedd sydd ddim yn rhan annatod o weithredu caledwedd, er enghraifft meddalwedd cymwysiadau, ei chyfalafu fel ased anniriaethol. Ni chaiff gwariant ar ymchwil ei gyfalafu: cydnabyddir hyn fel traul gweithredu yn y cyfnod y mae'n cael ei wario. Caiff asedau a gynhyrchir yn fewnol eu cydnabod os, a dim ond os, y dangoswyd pob un o'r canlynol:

● dichonoldeb technegol cwblhau'r ased anniriaethol fel y bydd ar gael i'w ddefnyddio.

● bwriad i gwblhau'r ased anniriaethol a'i ddefnyddio.

● y gallu i ddefnyddio'r ased anniriaethol.

● sut y bydd yr ased anniriaethol yn cynhyrchu buddion economaidd tebygol yn y dyfodol.

● argaeledd digon o adnoddau technegol, ariannol ac adnoddau eraill i gwblhau'r ased anniriaethol a'i ddefnyddio.

● y gallu i fesur yn ddibynadwy y gwariant y gellir ei briodoli i'r ased anniriaethol yn ystod ei

**Mesur**

Swm y gwariant a wariwyd o'r dyddiad pan fodlonir y meini prawf uchod gyntaf yw'r swm a gydnabyddir i ddechrau ar gyfer asedau anniriaethol a gynhyrchir yn fewnol. Pan nad yw'n bosib cydnabod unrhyw ased anniriaethol a gynhyrchir yn fewnol, cydnabyddir y gwariant yn y cyfnod y cafodd ei wario.

Yn dilyn cydnabyddiaeth gychwynnol, caiff asedau anniriaethol eu cario ar werth teg trwy gyfeirio at farchnad weithredol neu, lle nad oes marchnad weithredol yn bodoli, ar gost amnewid wedi'i hamorteiddio (ar sail asedau cyfwerth modern), wedi'u mynegrifo ar gyfer codiadau prisiau perthnasol, fel procsi ar gyfer gwerth teg. Delir meddalwedd a ddatblygir yn fewnol ar gost hanesyddol i adlewyrchu effeithiau croes cynnydd mewn costau datblygu a datblygiadau technolegol.

### 1.8. Dibrisio, amorteiddio ac amhariadau

Ni chaiff tir rhydd-ddaliadol, asedau sy'n cael eu hadeiladu ac asedau a ddelir i'w gwerthu eu dibrisio.

Fel arall, codir y dibrisio a'r amorteiddio fel ei fod yn dileu'r costau neu'r prisiad ar gyfer eiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau anghyfredol anniriaethol, llai unrhyw werth gweddilliol, dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig, mewn modd sy'n adlewyrchu'r defnydd o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth yr asedau. Oes ddefnyddiol amcangyfrifedig ased yw'r cyfnod y mae Sefydliad GIG Cymru'n disgwyl cael buddion economaidd neu botensial gwasanaeth o'r ased. Mae hyn yn benodol i sefydliad GIG Cymru a gall fod yn fyrrach nag oes ffisegol yr ased ei hun. Adolygir oes ddefnyddiol amcangyfrifedig a gwerthoedd gweddilliol ar ddiwedd bob blwyddyn, gan gydnabod unrhyw newidiadau ar sail yr hyn a ddisgwylir. Caiff asedau a ddelir dan brydlesi cyllid eu dibrisio dros y byrraf o gyfnodau prydlesu a thros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig.

Ar ddiwedd pob cyfnod adrodd, mae sefydliad GIG Cymru'n gwirio i weld a oes yna unrhyw arwydd y gallai unrhyw rai o'i asedau anghyfredol diriaethol neu anniriaethol fod wedi dioddef unrhyw golled oherwydd amhariad. Os oes arwydd o golled oherwydd amhariad, amcangyfrifir swm adferadwy'r ased i benderfynu a fu colled ai peidio, ac os fu, ei swm. Rhoddir asedau anniriaethol nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio ar brawf bob blwyddyn i weld a fu amhariad.

Caiff colledion oherwydd amhariad nad ydynt yn digwydd yn sgil colli gwerth economaidd neu botensial gwasanaeth eu symud i'r gronfa wrth gefn ailbrisio i'r graddau bod y gronfa wrth gefn wedi'i mantoli ar gyfer yr ased ac, wedi hynny, i'r SoCNE. Dylid symud colledion oherwydd amhariad i'r SoCNE os ydynt yn codi o ddefnydd clir o fudd economaidd. Caiff y balans ar unrhyw gronfa wrth gefn ailbrisio (hyd at lefel yr amhariad) y byddai'r amhariad wedi'i godi arni dan IAS 36 ei drosglwyddo i enillion wrth gefn.

### 1.9. Ymchwil a Datblygu

Codir gwariant ymchwil a datblygu ar gostau gweithredu yn y flwyddyn y mae'n cael ei wario, oni bai ei fod yn ymwneud â phrosiect sydd wedi'i ddiffinio'n glir lle gellir ei wahanu o weithgarwch gofal cleifion ac y gellir ystyried yn rhesymol bod buddion ohono yn sicr. Caiff gwariant sy'n cael ei ohirio fel hyn ei gyfyngu i werth y buddion disgwyliedig yn y dyfodol a chaiff ei amorteiddio trwy'r SoCNE ar sail systematig dros y cyfnod y disgwylir cael budd o'r prosiect.

### 1.10 Asedau anghyfredol a ddelir i'w gwerthu

Ystyrir bod asedau anghyfredol yn cael eu dal i'w gwerthu os bydd eu swm cario'n cael ei adfer yn bennaf trwy ei werthu yn hytrach na thrwy barhau i'w ddefnyddio. Ystyrir bod yr amod hwn wedi'i fodloni pan fo'r gwerthiant yn debygol iawn, pan fo'r ased ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol a phan fo'r rheolwyr wedi ymrwymo i'w werthu, lle disgwylir gallu cydnabod hyn fel

gwerthiant wedi'i gwblhau, o fewn blwyddyn o ddyddiad ei ystyried yn ased a ddelir i'w werthu. Mesurir asedau anghyfredol a ddelir i'w gwerthu ar yr isaf o'u swm cario blaenorol a'u gwerth teg llai costau i'w gwerthu. Eu gwerth ar y farchnad agored, gan gynnwys ffyrdd amgen o'u defnyddio, yw gwerth teg.

Y gwahaniaeth rhwng y swm a dderbynnir o werthu ased a'r swm cario yw'r elw neu'r golled yn sgil gwaredu'r ased, a chydnabyddir hyn yn y SoCNE. Pan werthir yr ased, caiff y balans ar gyfer yr ased ar y gronfa wrth gefn ailbrisio ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

Nid yw eiddo, peiriannau a chyfarpar y bwriedir eu sgrapio neu eu dymchwel yn gymwys i'w cydnabod fel asedau a ddelir i'w gwerthu. Yn hytrach, cedwir nhw fel asedau gweithredol ac addasir eu hoes economaidd. Caiff yr ased ei ddad-gydnabod pan gaiff ei sgrapio neu ei ddymchwel.

### 1.11. Prydlesi

Ystyrir bod prydlesi'n brydlesi cyllid pan drosglwyddir holl risgiau a gwobrau perchnogaeth yn sylweddol i'r lesddeiliad. Ystyrir bod yr holl brydlesi eraill yn brydlesi gweithredu.

#### 1.11.1. Sefydliad GIG Cymru fel lesddeiliad

Cydnabyddir eiddo, peiriannau a chyfarpar a ddelir dan brydlesi cyllid i ddechrau, hynny yw pan gychwynnir y brydles, ar werth teg neu, os yw'n is, ar werth presennol isafswm taliadau prydlesu, gydag atebolrwydd cyfatebol am y rhwymedigaeth prydlesu i'r lesddeiliad. Caiff taliadau prydlesu eu rhannu rhwng taliadau cyllid a lleihad yn y rhwymedigaeth prydlesu er mwyn sicrhau cyfradd llog gyson ar y balans rhwymedigaeth sy'n weddill. Codir taliadau cyllid yn uniongyrchol ar y SoCNE.

Cydnabyddir taliadau prydlesi gweithredu fel traul ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Cydnabyddir cymhellion prydlesi i ddechrau fel rhwymedigaeth ac, wedyn, fel lleihad mewn costau rhentu ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Cydnabyddir costau rhentu achlysurol fel traul yn y cyfnod y maent yn cael eu talu.

Pan fo prydles ar gyfer tir ac adeiladau, caiff y cydrannau tir ac adeiladau eu gwahanu a'u hasesu'n unigol i benderfynu a ydynt yn brydlesi gweithredu neu'n brydlesi cyllid.

#### 1.11.2. Sefydliad GIG Cymru fel leswr

Cofnodir symiau sy'n ddyledus oddi wrth lesddeiliaid dan brydlesi cyllid fel symiau derbyniadwy, ar swm buddsoddiad net y sefydliad GIG Cymru yn y prydlesi. Dyrennir incwm prydlesi cyllid i gyfnodau cyfrifyddu fel eu bod yn adlewyrchu cyfradd enillion gyfnodol gyson o fuddsoddiad net y sefydliad GIG Cymru sy'n ddyledus o ran y prydlesi.

Cydnabyddir incwm rhentu o brydlesi gweithredu ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Caiff costau uniongyrchol cychwynnol a delir wrth drafod telerau a threfnu prydles weithredu eu hychwanegu at swm cario'r ased ar brydles a'u cydnabod ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

### 1.12. Stocrestrau

Er ei bod yn gonfensiwn cyfrifyddu ar gyfer stocrestrau i bennu gwerth stocrestrau ar y gost isaf a'r gwerth realeiddiadwy net, gan ddefnyddio'r fformiwla costau cyfartalog wedi'u pwysoli neu "gyntaf-i-mewn cyntaf-allan", dylid cydnabod bod y GIG yn achos arbennig gan nad yw stocrestrau ar y cyfan yn cael eu dal â'r bwriad o'u hailwerthu ac, yn wir, nid oes yna unrhyw farchnad ar gael yn rhwydd lle gellid gwerthu eitemau o'r fath. Pennir gwerth stocrestrau ar gost ac ystyrir bod hyn yn frasamcan

rhesymol o werth teg oherwydd trosiant uchel stociau. Mae gwaith ar y gweill yn cynnwys nwyddau sydd wrthi'n cael eu cynhyrchu. Ni chyfrifir am gontractau ar gyfer gwasanaethau cleifion sydd wedi'u cwblhau yn rhannol fel gwaith ar y gweill.

**1.13. Arian parod a chyfwerthoedd arian parod**

Arian mewn llaw ac adneuon gydag unrhyw sefydliad ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb ar rybudd o 24 awr ar y mwyaf yw arian parod. Buddsoddiadau sy'n aeddfedu mewn 3 mis neu lai o ddyddiad eu caffael ac sy'n hawdd eu trosi i symiau hysbys o arian parod â risg ddibwys o newid mewn gwerth yw cyfwerthoedd arian parod. Yn y Datganiad o'r Llif Arian (SoCF), dangosir arian parod a chyfwerthoedd arian parod yn glir o orddrafftiau banc sy'n ad-daladwy ar orchymyn ac sy'n rhan annatod o'r gwaith rheoli arian parod.

**1.14. Darpariaethau**

Cydnabyddir darpariaethau pan fydd gan y sefydliad GIG Cymru rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol, pan fo'n debygol y bydd gofyn i'r sefydliad GIG Cymru dalu'r rhwymedigaeth a phan gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth. Yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i dalu'r rhwymedigaeth ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ystyried y risgiau a'r ansicrwydd, yw'r swm a gydnabyddir fel darpariaeth. Pan fesurir darpariaeth gan ddefnyddio'r amcangyfrif o'r llifau arian i dalu'r rhwymedigaeth, gwerth presennol y llifau arian hynny gan ddefnyddio cyfradd y disgownt y mae Trysorlys EM yn ei gyflenwi yw swm cario'r ddarpariaeth.

Pan ddisgwylir adennill rhai neu bob un o'r buddion economaidd sydd eu hangen i dalu am ddarpariaeth oddi wrth drydydd parti, cydnabyddir y swm derbyniadwy fel ased os yw fwy neu lai yn sicr y bydd ad-daliadau'n cael eu derbyn a bod modd mesur y swm derbyniadwy'n ddibynadwy. Cydnabyddir a mesurir rhwymedigaethau presennol dan gontractau rhwymedigaethus fel darpariaeth. Ystyrir bod contract rhwymedigaethus yn bodoli os oes gan y sefydliad GIG Cymru gontract y mae costau diosgoi talu'r rhwymedigaethau dan y contract hwnnw'n fwy na'r buddion economaidd y disgwylir eu derbyn ohono.

Cydnabyddir darpariaeth ailstrwythuro pan fydd y sefydliad GIG Cymru wedi datblygu cynllun ffurfiol manwl ar gyfer yr ailstrwythuro ac wedi codi disgwyliad dilys ymhlith y rheini y bydd yn effeithio arnynt y bydd yn gwneud yr ailstrwythuro trwy ddechrau rhoi'r cynllun ar waith neu'n rhoi gwybod am ei brif nodweddion i'r rheini y bydd yn effeithio arnynt. Mae'r mesur ar gyfer darpariaeth ailstrwythuro'n cynnwys gwariannau uniongyrchol yn codi o'r ailstrwythuro yn unig, sef y symiau hynny a ddaw o reidrwydd o'r ailstrwythuro ac nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw rai o weithgareddau parhaus yr endid.

**1.14.1. Costau esgeulustod clinigol ac anafiadau personol**

Mae Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru (WRPS) yn gweithredu cynllun cronfa risg sy'n cael ei gydariannu gan Lywodraeth Cymru gyda'r opsiwn i fanteisio ar gytundeb rhannu risg sy'n cael ei ariannu gan y cyrff GIG Cymru cyfranogol. Rhoddwyd yr opsiwn rhannu risg ar waith yn 2020-21 ac yn 2019-20. Ymddiriedolaeth GIG Felindre sy'n lletya Cronfa Risg Cymru.

**1.14.2. Cynllun Atebolrwyddau'r Dyfodol (FLS) - Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI)**

Cynllun y mae'r wladwriaeth yn ei gefnogi yw FLS, i ddarparu Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol ar gyfer esgeulustod clinigol i ddarparwyr gwasanaethau Ymarfer Meddygol Cyffredinol yng Nghymru.

Fis Mawrth 2019, cyhoeddodd y Gweinidog Gyfarwyddyd i Ymddiriedolaeth GIG Felindre i alluogi Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg i weithredu'r Cynllun. Mae deddfwriaeth eilaidd newydd, sef Rheoliadau'r GIG (Cynllun Esgeulustod Clinigol) (Cymru) 2019, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2019, yn tanategu'r GMPI.

Nid yw Darparwyr Gwasanaethau Ymarfer Meddygol Cyffredinol yn aelodau uniongyrchol o FLS GMPI; mae eu hatebolrwyddau cymwys yn destun trefniant rhyngddynt hwy a'u BILl perthnasol, sy'n aelod o'r cynllun. Nid yw'r ad-daliadau cymwys i'r BILl yn ddarostyngedig i'r tâl-dros-ben o £25,000.

### 1.15. Offerynnau Ariannol

O 2018/19, mae IFRS 9 Offerynnau Ariannol wedi'i rhoi ar waith, fel y mae wedi'i dehongli a'i haddasu ar gyfer y sector cyhoeddus, yn y FReM. Prif effaith sefydliadau GIG Cymru'n mabwysiadu IFRS 9 oedd newid y sail gyfrifo ar gyfer darpariaethau dyledion drwg, gan newid o sail colled a gafwyd i sail colled credyd disgwyliedig dros eu hoes
Roedd pob endid a ddefnyddiodd y FReM yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng y swm cario blaenorol a'r swm cario ar ddechrau'r cyfnod adrodd blynyddol a oedd yn cynnwys dyddiad ei ddefnyddio gyntaf yn y gronfa gyffredinol agoriadol o fewn ecwiti Threthdalwyr.

### 1.16. Asedau ariannol

Cydnabyddir asedau ariannol ar y SoFP pan ddaw'r sefydliad GIG Cymru yn rhan o'r contract offerynnau ariannol neu, yn achos symiau masnach derbyniadwy, pan fo'r nwyddau neu'r gwasanaethau wedi'u cyflenwi. Dad-gydnabyddir asedau ariannol pan fo'r hawliau contractiol wedi dod i ben neu'r ased wedi'i drosglwyddo.

Mae'r dewis polisi cyfrifyddu a ganiateir dan IFRS 9 ar gyfer symiau masnach derbyniadwy tymor hir, asedau ar gontract nad ydynt yn cynnwys cydran ariannu sylweddol (yn unol ag IFRS 15) a symiau prydlesi derbyniadwy o fewn cwmpas IAS 17, wedi'i dynnu yn ôl a dylai endidau bob amser gydnabod colled ar swm sy'n hafal i Golledion Credyd Disgwyliedig dros oes. Dylai pob endid sy'n defnyddio'r FReM ddefnyddio dull symlach IFRS 9 o drin amhariad ar gyfer asedau perthnasol.

Roedd gofynion IFRS 9 yn golygu bod angen dull diwygiedig o gyfrifo'r ddarpariaeth dyledion drwg, gan gymhwyso egwyddorion colled credyd disgwyliedig a defnyddio'r ffyrdd ymarferol o fewn IFRS 9 i lunio matrics darpariaeth.

#### 1.16.1. Cydnabyddir asedau ariannol i ddechrau ar werth teg

Caiff asedau ariannol eu categoreiddio fel a ganlyn: asedau ariannol 'ar werth teg trwy SoCNE', 'buddsoddiadau a ddelir hyd aeddfedrwydd', asedau ariannol sydd 'ar gael i'w gwerthu' a 'benthyciadau a symiau derbyniadwy'. Mae'r categoreiddio'n dibynnu ar natur a phwrpas yr asedau ariannol a phenderfynir ar hyn ar adeg eu cydnabod gyntaf.

#### 1.16.2. Asedau ariannol ar werth teg trwy SoCNE

Caiff deilliannau corfforedig sydd â gwahanol risgiau a nodweddion i'w contractau lletyol, a chontractau â deilliannau corfforedig nad yw'n bosibl pennu eu gwerth ar wahân, eu trin fel asedau ariannol ar werth teg trwy SoCNE. Maent yn cael eu dal ar werth teg, gan cydnabod unrhyw enillion neu golledion canlyniadol yn y SoCNE. Mae'r enillion neu'r colledion net yn cynnwys unrhyw log a enillir ar yr ased ariannol.

### 1.16.3. Buddsoddiadau a ddelir hyd aeddfedrwydd

Asedau ariannol anneilliannol gyda thaliadau penodedig neu benderfynadwy ac aeddfedrwydd penodedig, gyda'r gallu a'r bwriad positif i'w dal hyd aeddfedrwydd, yw buddsoddiadau a ddelir hyd aeddfedrwydd. Ar ôl eu cydnabod gyntaf, maent yn cael eu dal ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, llai unrhyw amhariad. Cydnabyddir llog gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

### 1.16.4. Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu

Asedau ariannol anneilliannol sydd wedi'u dynodi fel asedau sydd ar gael i'w gwerthu, neu nad ydynt yn dod o fewn unrhyw un o'r tri chategori arall ar gyfer asedau ariannol, yw asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu. Maent yn cael eu mesur ar werth teg gyda newidiadau mewn gwerth yn cael ei symud i'r gronfa wrth gefn ailbrisio, ac eithrio colledion oherwydd amhariad. Caiff enillion neu golledion cronedig eu hailgylchu i'r SoCNE pan ddad-gydnabyddir hwy.

### 1.16.5. Benthyciadau a symiau derbyniadwy

Asedau ariannol anneilliannol heb daliadau penodedig neu benderfynadwy, nad ydynt wedi'u dyfynnu mewn marchnad weithredol, yw benthyciadau a symiau derbyniadwy. Ar ôl eu cydnabod gyntaf, maent yn cael eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, llai unrhyw amhariad. Cydnabyddir llog gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Pennir gwerth teg trwy gyfeirio at brisiau a ddyfynnir yn y farchnad lle bo'n bosibl a, lle nad yw'n bosibl, trwy ddefnyddio technegau prisio.

Y gyfradd sy'n disgowntio'n union derbyniadau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol trwy oes ddisgwyliedig yr ased ariannol i swm cario net yr ased ariannol, yw'r gyfradd llog effeithiol.

Ar ddyddiad SoFP, mae'r sefydliad GIG Cymru'n asesu a oes amhariad ar unrhyw asedau ariannol, ac eithrio'r rheini a ddelir ar 'werth teg trwy elw a cholled'. Ceir amhariad ar asedau ariannol, a chaiff colledion oherwydd amhariad eu cydnabod, os oes yna dystiolaeth wrthrychol o amhariad o ganlyniad i un digwyddiad neu fwy a ddigwyddodd ar ôl cydnabod yr ased gyntaf ac sy'n cael effaith ar lifau arian amcangyfrifedig yr ased yn y dyfodol.

Yn achos asedau ariannol sy'n cael eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio, mesurir swm y golled oherwydd amhariad fel y gwahaniaeth rhwng swm cario'r ased a gwerth presennol y llifau arian diwygiedig yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog effeithiol wreiddiol yr ased. Cydnabyddir y golled yn y SoCNE a chaiff swm cario'r ased ei leihau yn uniongyrchol, neu drwy ddarpariaeth amhariad ar symiau derbyniadwy.

Os bydd swm y golled oherwydd amhariad yn gostwng mewn cyfnod dilynol, a lle nad yw'n bosibl cysylltu'r gostyngiad yn wrthrychol â digwyddiad yn digwydd ar ôl cydnabod yr amhariad, caiff y golled oherwydd amhariad a gydnabuwyd yn flaenorol ei wrthdroi trwy'r SoCNE cyn belled nad yw swm cario'r swm derbyniadwy ar ddyddiad gwrthdroi'r amhariad yn uwch nag y byddai'r gost wedi'i hamorteiddio wedi bod pe bai'r amhariad heb ei gydnabod.

### 1.17. Rhwymedigaethau ariannol

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar y SoFP pan ddaw'r sefydliad GIG Cymru yn rhan o ddarpariaethau contractiol yr offeryn ariannol neu, yn achos symiau masnach derbyniadwy, pan fo'r nwyddau neu'r gwasanaethau wedi'u derbyn. Dad-gydnabyddir rhwymedigaethau ariannol pan fo'r rhwymedigaeth wedi'i chyflawni, hynny yw, pan fo'r rhwymedigaeth wedi'i thalu neu wedi dod i ben.

### 1.17.1. Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol i ddechrau ar werth teg

Ystyrir rhwymedigaethau ariannol yn rhwymedigaethau ariannol ar werth teg trwy'r SoCNE neu'n rhwymedigaethau ariannol eraill.

### 1.17.2. Rhwymedigaethau ariannol ar werth teg trwy SoCNE

Caiff deilliannau corfforedig sydd â gwahanol risgiau a nodweddion i'w contractau lletyol, a chontractau â deilliannau corfforedig nad yw'n bosibl pennu eu gwerth ar wahân, eu trin fel rhwymedigaethau ariannol ar werth teg trwy elw a cholled. Maent yn cael eu dal ar werth teg, gan cydnabod unrhyw enillion neu golledion canlyniadol yn y SoCNE. Mae'r enillion neu'r colledion net yn cynnwys unrhyw log a enillir ar yr ased ariannol.

### 1.17.3. Rhwymedigaethau ariannol eraill

Ar ôl eu cydnabod gyntaf, mesurir yr holl rwymedigaethau ariannol eraill ar gost wedi'i hamorteiddio, gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Y gyfradd sy'n disgowntio'n union taliadau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol trwy oes yr ased i swm cario net y rhwymedigaeth ariannol, yw'r gyfradd llog effeithiol. Cydnabyddir llog gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

## 1.18. Treth ar Werth (TAW)

Mae mwyafrif gweithgareddau y sefydliad GIG Cymru y tu allan i gwmpas TAW ac, ar y cyfan, nid yw TAW wrth werthu'n berthnasol ac nid yw treth ar bryniadau yn adferadwy. Codir TAW anadferadwy ar y categori gwariant perthnasol neu cynhwysir ef yng nghost prynu asedau sefydlog wedi'i chyfalafu. Lle codir treth wrth werthu neu lle bo TAW ar bryniadau yn adferadwy, nodir y symiau yn glir o TAW.

## 1.19. Arian cyfred tramor

Trosir trafodion sydd mewn arian cyfred tramor yn sterling ar y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiadau'r trafodion. Symudir enillion a cholledion o ganlyniad i gyfnewid i'r SoCNE. Ar ddyddiad y SoFP, aildrosir eitemau ariannol mewn arian cyfred tramor ar y cyfraddau sydd mewn grym ar y dyddiad adrodd.

## 1.20. Asedau trydydd parti

Ni chydnabyddir asedau y mae trydydd partïon yn berchen arnynt (megis arian a ddelir ar ran cleifion) yn y cyfrifon gan nad oes gan y sefydliad GIG Cymru unrhyw fudd ohonynt. Rhoddir manylion asedau trydydd parti yn y Nodiadau ar gyfer y cyfrifon.

## 1.21. Colledion a Thaliadau Arbennig

Eitemau na fyddai Llywodraeth Cymru wedi'u hystyried pan gytunodd ar gronfeydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd, neu pan basiodd ddeddfwriaeth, yw colledion a thaliadau arbennig. Yn ôl eu natur, maent yn eitemau na ddylent, yn ddelfrydol, godi. Maent felly'n ddarostyngedig i weithdrefnau rheoli arbennig o'u cymharu â thaliadau yn gyffredinol. Maent yn cael eu rhannu i wahanol gategorïau, sy'n dylanwadu ar y ffordd o drin pob achos unigol.

Codir colledion a thaliadau arbennig dan y pennawd swyddogaethol perthnasol yn y SoCNE ar sail croniadau, gan gynnwys colledion y byddid wedi gwneud iawn amdanynt trwy bolisi yswiriant pe na bai sefydliad GIG Cymru wedi bod yn gyfrifol am ei risgiau ei hun (gyda phremiymau yswiriant yna'n cael eu cynnwys fel gwariant refeniw arferol). Fodd bynnag, llunnir y nodyn ar golledion a thaliadau arbennig yn uniongyrchol o'r gofrestr colledion a baratoir ar sail arian parod.

Mae'r sefydliad GIG Cymru'n cyfrif am yr holl golledion a thaliadau arbennig fel ffigur gros (gan gynnwys cymorth o Gronfa Risg Cymru).

Mae'r sefydliad GIG Cymru'n cronni neu'n darparu ar gyfer yr amcangyfrif gorau o daliadau allan yn y dyfodol am rwymedigaethau penodol ac mae'n datgelu'r holl daliadau posibl eraill fel rhwymedigaethau wrth gefn, oni bai ei bod yn hynod annhebygol y daw'r rhwymedigaethau'n daladwy.

Darperir ar gyfer pob hawliad am golledion a thaliadau arbennig lle bo'r tebygolrwydd dros 50% o dalu hawliad unigol. Lle gellir gwneud amcangyfrifon dibynadwy, darperir yn yr un ffordd ar gyfer achosion o esgeulustod clinigol na dderbyniwyd hawliad amdanynt hyd yma. Cynhwysir ad-daliadau disgwyliedig o Gronfa Risg Cymru yn dyledwyr. Yn achos yr hawliadau hynny lle bo'r tebygolrwydd rhwng 5 a 50% o dalu, datgelir y rhwymedigaeth fel rhwymedigaeth wrth gefn.

### 1.22. Cyllideb gyfun

Mae'r sefydliad GIG Cymru wedi cytuno ar gyllidebau cyfun ag Awdurdodau Lleol. Dan y trefniadau, cyfunir cronfeydd yn unol ag adran 33 Deddf GIG (Cymru) 2006 ar gyfer gweithgareddau penodol a ddiffinnir yn y Nodyn ar Gyllideb gyfun.

Un o sefydliadau GIG Cymru sy'n lletya'r gyllideb gyfun. Cyfrifir am daliadau am wasanaethau a ddarperir fel incwm amrywiol. Mae'r sefydliad GIG Cymru'n cyfrif am ei ran o'r asedau, y rhwymedigaethau, yr incwm a'r gwariant o weithgareddau'r gyllideb gyfun, yn unol â'r trefniant cyllideb gyfun.

### 1.23. Dyfarniadau Cyfrifyddu Critigol a ffynonellau allweddol ansicrwydd amcangyfrif

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu, rhaid i reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â chario symiau o asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill a ystyrir i fod yn berthnasol. Efallai y bydd y gwir ganlyniadau'n wahanol i'r amcangyfrifon hynny. Adolygir yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sylfaenol yn barhaus. Cydnabyddir amcangyfrifon cyfrifyddu yn y cyfnod pan adolygir yr amcangyfrif os yw'r adolygiad yn effeithio ar y cyfnod hwnnw'n unig, neu yng nghyfnod yr adolygiad a chyfnod yn y dyfodol os yw'r adolygiad yn effeithio ar y cyfnod presennol a chyfnod yn y dyfodol.

### 1.24. Ffynonellau allweddol ansicrwydd amcangyfrif

Y canlynol yw'r tybiaethau allweddol ynglŷn â'r dyfodol a ffynonellau allweddol ansicrwydd amcangyfrif eraill ar ddyddiad y SoFP, sydd â risg sylweddol o achosi addasiad sylweddol i symiau cario asedau a rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.

Gwneir amcangyfrifon sylweddol o ran hawliadau esgeulustod clinigol ac anafiadau personol parhaus. Cynghorwyr cyfreithiol annibynnol sy'n darparu tybiaethau ynglŷn â'r deilliant posibl, y rhwymedigaethau posibl ac amseriadau'r hawliadau ymgyfreitha hyn. Gellid adfer unrhyw newidiadau sylweddol mewn rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â'r hawliadau hyn trwy Gronfa Risg Cymru.

Gwneir amcangyfrifon sylweddol hefyd ar gyfer costau gofal parhaus o ganlyniad i hawliadau ar ôl 1 Ebrill 2003. Gwneir asesiad o ddeilliannau tebygol, rhwymedigaethau posibl ac amseriadau'r hawliadau hyn fesul achos. Byddai newidiadau sylweddol sy'n gysylltiedig â'r hawliadau hyn yn cael eu haddasu yn y cyfnod y maent yn cael eu diwygio.

Gwneir amcangyfrifon hefyd ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol ar gontract. Seilir yr amcangyfrifon hyn ar y lefelau taliadau diweddaraf. Addasir y newidiadau sy'n gysylltiedig â'r rhwymedigaethau hyn yn y cyfnod adrodd canlynol.

**1.24.1. Darpariaethau**

Mae'r sefydliad GIG Cymru'n darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol ar gyfer esgeulustod clinigol, anafiadau personol a chostau amddiffyn sydd yn ansicr o ran amseru neu swm ar ddyddiad y fantolen ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i dalu'r rhwymedigaeth.

Ariennir hawliadau trwy Wasanaethau Cronfa Risg Cymru (WRPS) sy'n derbyn dyraniad blynyddol oddi wrth Lywodraeth Cymru i dalu am gost ceisiadau am ad-daliadau a gyflwynir i'r Pwyllgor WRPS sy'n cyfarfod bob yn ail mis. Ar ôl i'r sefydliad GIG Cymru dalu hawlwyr unigol, cydnabyddir y gost lawn yn y flwyddyn a'i chyfateb i incwm (llai tâl-dros-ben o £25K) trwy ddyledwr WRPS, nes bod yr ad-daliad wedi'i dderbyn oddi wrth Bwyllgor WRPS.

**1.24.2. Achosion Tebygol a Sicr – Triniaeth Gyfrifyddu**

Cyfrifir darpariaeth ar gyfer yr achosion hyn yn unol ag IAS 37. Asesir achosion a'u rhannu i bedwar categori, yn unol â'r tebygolrwydd y byddant yn cael eu talu;

| | | |
|---|---|---|
| **Annhebygol iawn** | Tebygolrwydd y Byddant yn Cael eu Talu | 0 – 5% |
| | Triniaeth Gyfrifyddu | Rhwymedigaeth Wrth Gefn |
| **Posibl** | Tebygolrwydd y Byddant yn Cael eu Talu | 6% - 49% |
| | Triniaeth Gyfrifyddu | Ffi Amddiffyn - Darpariaeth |
| | Rhwymedigaeth Wrth Gefn ar gyfer yr amcangyfrif o'r holl wariant arall. | |
| **Tebygol** | Tebygolrwydd y Byddant yn Cael eu Talu | 50% - 94% |
| | Triniaeth Gyfrifyddu | Darpariaeth Lawn |
| **Sicr** | Tebygolrwydd y Byddant yn Cael eu Talu | 95% - 100% |
| | Triniaeth Gyfrifyddu | Darpariaeth Lawn |

Seilir y ddarpariaeth ar gyfer achosion tebygol a sicr ar amcangyfrifon o achosion o hawliadau unigol y rhoddwyd gwybod amdanynt i'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg o fewn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Bydd y cyfreithiwr yn amcangyfrif gwerth yr achos, yn cynnwys ffioedd amddiffyn, gan ddefnyddio crebwyll proffesiynol ac yn unol â chyngor cwnsler. Yna caiff y prisiadau eu disgowntio ar gyfer elfennau'r golled yn y dyfodol gan ddefnyddio disgwyliadau oes unigol a thablau actiwaraidd Adran Actwari'r Llywodraeth (tablau Ogden) a Chyfradd Disgownt Anafiadau Personol o minws 0.75%.

Delir rhwymedigaethau yn y dyfodol ar gyfer achosion sicr a thebygol, sydd â thebygolrwydd o 95%-100% yn achos y rhai sicr a 50%- 94% yn achos y rhai tebygol, fel darpariaeth ar y fantolen. Mae achosion fel rheol yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w setlo, yn enwedig ar gyfer achosion uchel eu gwerth lle bo angen cyfnod datblygu i gadarnhau graddau llawn yr anafiad a achoswyd.

**1.25 Trafodion Menter Cyllid Preifat (PFI)**

Nid oes gan y BILI unrhyw Drafodion Menter Cyllid Preifat

Mae Trysorlys EM wedi penderfynu y dylai cyrff llywodraeth gyfrif am gynlluniau PFI seilwaith, lle bo'r corff llywodraeth yn rheoli'r defnydd o'r seilwaith a'r llog gweddilliol yn y seilwaith ar ddiwedd y trefniant, fel trefniadau consesiwn gwasanaeth, gan ddilyn egwyddorion gofynion IFRIC 12. Mae'r sefydliad GIG Cymru felly'n cydnabod yr ased PFI fel eitem o eiddo, peiriannau a chyfarpar ynghyd â rhwymedigaeth i dalu amdano. Cofnodir y gwasanaethau a dderbynnir dan y contract fel treuliau gweithredu.

Caiff y taliad unedol blynyddol ei wahanu i'r cydrannau a ganlyn, gan ddefnyddio technegau amcangyfrif lle bo angen.

a) Tâl am werth teg gwasanaethau a dderbynnir;

b) Tâl am yr ased PFI, gan gynnwys costau cyllid; a

c) Tâl am amnewid cydrannau'r ased yn ystod cyfnod 'amnewid cylch oes' y contract.

**1.25.1. Gwasanaethau a dderbynnir**

Cofnodir gwerth teg y gwasanaethau a dderbynnir yn y flwyddyn dan y penawdau gwariant perthnasol o fewn 'treuliau gweithredu'.

**1.25.2. Ased PFI**

Cydnabyddir asedau PFI fel eiddo, peiriannau a chyfarpar pan ddechreuir eu defnyddio. Mesurir yr asedau gyntaf ar werth teg yn unol ag egwyddorion IAS 17. Wedi hynny, mesurir yr asedau ar werth teg, a chedwir hyn yn gyfoes yn unol â dull y sefydliad GIG Cymru o drin pob dosbarth perthnasol o ased, yn unol ag egwyddorion IAS 16.

**1.25.2. Rhwymedigaeth PFI**

Cydnabyddir rhwymedigaeth PFI ar yr un pryd ag y cydnabyddir asedau PFI. Caiff ei fesur gyntaf ar yr un swm â gwerth teg yr asedau PFI ac wedyn caiff ei fesur fel rhwymedigaeth prydles cyllid yn unol ag IAS 17.

Cyfrifir cost cyllid flynyddol trwy gymhwyso'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles i'r rhwymedigaeth prydles agoriadol ar gyfer y cyfnod, a chodir hyn dan 'Gostau Cyllid' o fewn y SoCNE.

Caiff yr elfen o'r taliad unedol blynyddol a ddyrennir fel rhent prydlesi cyllid ei chymhwyso i dalu am y gost cyllid flynyddol ac i ad-dalu rhwymedigaeth y brydles dros dymor y contract.

Caiff elfen o'r cynnydd yn y taliad unedol blynyddol oherwydd mynegeio cronnol ei dyrannu i'r brydles cyllid. Yn unol ag IAS 17, ni chynhwysir y swm hwn yn y taliadau prydles isaf, ond yn hytrach mae'n cael ei drin fel rhent wrth gefn a nodir y traul wrth iddo ddigwydd. Yn sylweddol, mae'r swm hwn yn gost cyllid o ran y rhwymedigaeth a chyflwynir y traul fel cost cyllid wrth gefn yn y SoCNE.

### 1.25.3. Amnewid cylch oes

Caiff cydrannau'r ased y mae'r gweithredwr yn eu hamnewid yn ystod y contract ('amnewid cylch oes') eu cyfalafu pan maent yn bodloni meini prawf y sefydliad GIG Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf. Maent yn cael eu cyfalafu ar yr adeg y mae'r gweithredwr yn eu darparu a'u mesur gyntaf ar eu gwerth teg.

Pennir yr elfen o'r taliad unedol blynyddol a ddyrennir i amnewid cylch oes ymlaen llaw ar gyfer pob blwyddyn o'r contract o raglen gynlluniedig y gweithredwr ar gyfer amnewid cylch oes. Lle bo'r gydran cylch oes yn cael ei darparu'n gynharach neu'n hwyrach na'r disgwyl, cydnabyddir naill ai'r rhwymedigaeth prydles cyllid tymor byr yn achos y rhai cynharach neu'r rhagdaliad yn achos y rhai hwyrach.

Lle bo gwerth teg y gydran cylch oes yn llai na'r swm a bennwyd yn y contract, cydnabyddir y gwahaniaeth fel traul pan ddarperir yr amnewidyn. Os yw'r gwerth teg yn fwy na'r swm a bennwyd yn y contract, caiff y gwahaniaeth ei drin fel ased 'rhydd' a chydnabyddir balans incwm gohiriedig. Rhyddheir yr incwm gohiriedig i'r incwm gweithredu dros y cyfnod byrraf o ddau, sef y cyfnod sy'n weddill ar y contract neu oes economaidd defnyddiol y gydran amnewid.

### 1.25.4. Asedau y mae'r sefydliad GIG Cymru'n eu cyfrannu i'r gweithredwr i'w defnyddio yn y cynllun

Mae asedau sy'n cael eu cyfrannu i'w defnyddio yn y cynllun yn parhau i gael eu cydnabod fel eitemau eiddo, peiriannau a chyfarpar yn SoFP yr sefydliad GIG Cymru.

### 1.25.5. Asedau eraill y mae'r sefydliad GIG Cymru'n eu cyfrannu i'r gweithredwr

Caiff asedau y mae'r sefydliad GIG Cymru'n eu cyfrannu (e.e. taliadau arian parod, eiddo dros ben) i'r gweithredwr cyn dechrau defnyddio'r ased, a fwriedir i glirio costau cyfalaf y gweithredwr, eu cydnabod gyntaf fel rhagdaliadau yn ystod cyfnod adeiladu'r contract. Wedi hynny, pan fo'r ased ar gael i'r sefydliad GIG Cymru ei ddefnyddio, caiff y rhagdaliad ei drin fel taliad cychwynnol tuag at y rhwymedigaeth prydles cyllid a gosodir ef yn erbyn gwerth cario'r rhwymedigaeth.

Cydnabyddir rhwymedigaeth PFI ar yr un pryd ag y cydnabyddir asedau PFI. Caiff ei fesur ar werth presennol y taliadau prydles isaf, wedi'u disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg. Wedi hynny, caiff ei fesur fel rhwymedigaeth prydles cyllid yn unol ag IAS 17.

Pan gydnabyddir yr ased gyntaf, cydnabyddir y gwahaniaeth rhwng gwerth teg yr ased a'r rhwymedigaeth gychwynnol fel incwm gohiriedig, gan gynrychioli'r potensial gwasanaeth yn y dyfodol y bydd y sefydliad GIG Cymru'n ei dderbyn trwy roi'r ased ar gael i ddefnyddwyr trydydd parti.

### 1.26. Rhwymedigaethau/ asedau wrth gefn

Rhwymedigaeth bosibl sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac y byddai ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond pan fydd un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol, nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y sefydliad GIG Cymru, yn digwydd neu ddim yn digwydd yw rhwymedigaeth wrth gefn, neu rwymedigaeth bresennol nad yw'n cael ei chydnabod gan nad yw'n debygol y bydd angen talu'r rhwymedigaeth neu lle nad yw'n bosibl mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon dibynadwy.  Datgelir rhwymedigaeth wrth gefn oni bai bod taliad yn annhebygol iawn.

Ased posibl sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau pan fydd un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol, nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y sefydliad GIG Cymru, yn digwydd neu ddim yn digwydd.  Datgelir ased wrth gefn lle bo mewnlif buddion economaidd yn debygol.

Lle bo gwerth amser arian yn sylweddol, datgelir rhwymedigaethau/ asedau wrth gefn ar eu gwerth presennol.

Y rhwymedigaethau hynny sy'n cael eu datgelu dan ofynion adrodd Seneddol ac nid dan IAS 37 a, lle bo'n ymarferol, y mae angen amcangyfrif eu heffaith ariannol, yw rhwymedigaethau wrth gefn sy'n annhebygol iawn o ddigwydd.

### 1.27. Cyfrifyddu amsugno

Cyfrifir am drosglwyddo swyddogaeth naill ai trwy gyfrifyddu uno neu amsugno, gan ddibynnu ar y driniaeth a ragnodir yn y FReM.  Mae cyfrifyddu amsugno'n galw am i endidau gyfrif am eu trafodion yn y cyfnod y gwnaethant ddigwydd heb alw am unrhyw ailddatganiad o berfformiad.

Lle trosglwyddir swyddogaeth rhwng BILlau, cydnabyddir yr enillion neu'r colledion o ganlyniad i drosglwyddo'r asedau a rhwymedigaethau yn y SoCNE a datgelir hyn ar wahân yn y costau gweithredu.

### 1.28. Safonau cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto

Mae'r safonau cyfrifyddu a ganlyn wedi'u cyhoeddi a/ neu eu diwygio gan yr IASB ac IFRIC ond nid ydynt wedi'u mabwysiadu gan nad yw eto'n ofyniad eu mabwysiadu yn y FReM.

IFRS14 Cyfrifon Gohirio Rheoleiddiol
Yn berthnasol i'r rheini sy'n mabwysiadu IFRS am y tro cyntaf ar ôl 1 Ionawr 2016. Felly nid yw'n berthnasol.

Daw IFRS 16 i rym o 1af Ebrill 2022.

IFRS 17 Contractau Yswiriant – Mae'n ofynnol ei chymhwyso ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2021 neu wedi hynny, ond nid yw'r FReM wedi'i mabwysiadu eto: felly ni chaniateir ei mabwysiadu'n gynnar.

### 1.29. Safonau cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi a'u mabwysiadu'n gynnar

Yn ystod 2020-21, ni fu unrhyw safonau cyfrifyddu sydd wedi'u mabwysiadu'n gynnar. Trysorlys EM fydd yn arwain pob achos o fabwysiadu safonau cyfrifyddu'n gynnar.

### 1.30. Elusennau

Yn dilyn cytundeb y Trysorlys i gymhwyso IAS 27 i Elusennau GIG o 1 Ebrill 2013, mae'r sefydliad GIG Cymru wedi cadarnhau, gan mai ef yw ymddiriedolwr corfforaethol Elusen GIG gysylltiedig, sef 'Cronfa Elusennol ac Elusennau Cysylltiedig eraill Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys', yr ystyrir mai ef yw rheolwr 'Cronfa Elusennol ac Elusennau Cysylltiedig eraill Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys' fel is-gorff o ran cydymffurfio â safonau cyfrifyddu ac felly bod gofyn iddo gyfuno canlyniadau 'Cronfa Elusennol ac Elusennau Cysylltiedig eraill Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys' o fewn cyfrifon statudol y sefydliad GIG Cymru.

Mae penderfynu ar reolaeth yn ffordd o roi rheolaeth safon gyfrifyddu ar brawf ac ni fu unrhyw newid i weithrediad 'Cronfa Elusennol ac Elusennau Cysylltiedig eraill Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys' nac i'w hannibyniaeth wrth reoli cronfeydd elusennol.

Fodd bynnag, mae'r sefydliad GIG Cymru, gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, wedi mabwysiadu esemptiad IAS 27 (10) rhag cyfuno. Bydd Llywodraeth Cymru, fel rhiant-gorff y Byrddau Iechyd Lleol, yn datgelu Cyfrifon Elusennol Byrddau Iechyd Lleol yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Cynhwysir manylion y trafodion â'r elusen yn nodiadau'r partïon berthnasol.

## 2. Perfformiad Dyletswyddau Ariannol

Daeth Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 i rym o 1 Ebrill 2014. Roedd y Ddeddf yn diwygio dyletswyddau ariannol Byrddau Iechyd Lleol dan adran 175 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. O 1 Ebrill 2014, mae adran 175 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) yn gosod dwy ddyletswydd ariannol ar Fyrddau Iechyd Lleol:

- Dyletswydd dan adran 175 (1) i sicrhau nad yw ei wariant yn fwy na chyfanswm y cyllid a ddyrennir iddo dros gyfnod o 3 blynedd ariannol.
- Dyletswydd dan adran 175 (2A) i baratoi cynllun yn unol â chyfarwyddiadau cynllunio a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd dan adran 175 (1) tra'i fod yn gwella iechyd y bobl y mae'n gyfrifol amdanynt, a'r ddarpariaeth gofal iechyd i bobl o'r fath, ac i'r cynllun hwnnw gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru iddynt ei gymeradwyo.

Cynhaliwyd yr asesiad cyntaf o berfformiad o'i gymharu â'r ddyletswydd statudol 3 blynedd dan adran 175 (1) ar ddiwedd 2016-17, sef cyfnod asesu'r tair blynedd cyntaf.

Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC/2016/054, 'Dyletswyddau Statudol ac Ariannol Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG' yn egluro dyletswyddau ariannol statudol cyrff GIG Cymru a ddaeth i rym o 2016-17.

### 2.1 Perfformiad Adnoddau Refeniw

| | Perfformiad ariannol blynyddol | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | **Cyfanswm** |
| | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** |
| **Costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn** | 299,184 | 324,531 | 356,471 | **980,186** |
| Llai gwariant gwasanaethau offthalmig cyffredinol a gwariant arall heb derfyn arian paroc | 1,682 | 1,855 | 1,851 | **5,388** |
| Llai canlyniadau refeniw dod â chynlluniau PFI i'r SoFP | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Cyfanswm treuliau gweithredu | 300,866 | 326,386 | 358,322 | **985,574** |
| Dyraniad Adnoddau Refeniw | 300,931 | 326,441 | 358,465 | **985,837** |
| **Tanwariant /(Gorwariant) yn erbyn y Dyraniad** | 65 | 55 | 143 | **263** |

Mae BILI Addysgu Powys wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw dros y 3 blynedd 2018-19 i 2020-21.

### 2.2 Perfformiad Adnoddau Cyfalaf

| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** |
| **Gwariant cyfalaf gros** | 5,372 | 3,373 | 6,366 | **15,111** |
| Ychwanegu: Colledion o waredu asedau rhoddedig | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Llai gwerth net ar bapur eiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau anniriaethol a waredwy | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Llai grantiau cyfalaf a dderbyniwyd | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Llai rhoddion a dderbyniwyd | (276) | (176) | (13) | **(465)** |
| Tâl yn erbyn Dyraniad Adnoddau Cyfalaf | 5,096 | 3,197 | 6,353 | **14,646** |
| Dyraniad Adnoddau Cyfalaf | 5,108 | 3,200 | 6,380 | **14,688** |
| **(Gorwariant) / Tanwariant yn erbyn Dyraniad Adnoddau Cyfalaf** | 12 | 3 | 27 | **42** |

Mae BILI Addysgu Powys **wedi** cyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb yn erbyn ei Derbyn Adnoddau Cyfalaf dros y 3 blynedd 2018-19 i 2020-21.

**2.3 Dyletswydd i baratoi cynllun integredig 3 blynedd**

Oherwydd y pandemig, cafwyd oedi â’r broses ar gyfer cynllun integredig 2020-23 yn y gwanwyn 2020, a rhoddwyd trefniant cynllunio chwarterol dros dro ar waith ar gyfer 2020-21.

O ganlyniad, mae’r ddyletswydd cynllunio a oedd yn bodoli ar gyfer 2020-21 dal yn golygu ei bod yn ofynnol cyflwyno cynllun integredig 2019-22 a’i gael wedi’i gymeradwyo, fel y manylir arno yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2019-22.

Cyflwynodd y BILI gynllun integredig 2019-22 yn unol â’r fframwaith cynllunio.

Cymeradwyaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
a oedd yn bodoli

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Cymeradwywyd** |
| **Dyddiad** | **27/03/2019** |

Mae'r BILI felly **wedi** cyflawni ei ddyletswydd statudol i gael cynllun ariannol wedi'i gymeradwyo

**2.4 Talu credydwyr**

Mae'n ofynnol bod y BILI yn talu 95% o nifer y biliau o'r tu allan i'r GIG o fewn 30 diwrnod o dderbyn y
y nwyddau neu anfoneb ddilys (pa un bynnag yw'r hwyraf). Mae'r BILI wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol:

| | **2020-21** | 2019-20 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y biliau o'r tu allan i'r GIG a dalwyd | **39,764** | 45,593 |
| Cyfanswm nifer y biliau o'r tu allan i'r GIG a dalwyd o fewn y targed | **36,993** | 43,965 |
| Canran y biliau o'r tu allan i'r GIG a dalwyd o fewn y targed | 93.0% | 96.4% |

**Nid** yw Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi cyrraedd y targed i dalu 95% o nifer y biliau o'r tu allan i'r GIG o fewn 30 diwrnod

## 3. Dadansoddiad o gostau gweithredu gros

### 3.1 Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Sylfaenol

| | Â therfyn arian parod | Heb derfyn arian parod | 2020-21 Cyfanswm | 2019-20 Wedi'i ailddatgan |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol | 38,623 | | 38,623 | 37,613 |
| Gwasanaethau Fferyllol | 4,848 | (2,830) | 2,018 | 1,675 |
| Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol | 7,782 | | 7,782 | 8,356 |
| Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol | 0 | 979 | 979 | 1,044 |
| Gwariant Gofal Iechyd Sylfaenol arall | 2,661 | | 2,661 | 785 |
| Cyffuriau a chyfarpar ar bresgripsiwn | 20,342 | | 20,342 | 19,275 |
| **Cyfanswm** | **74,256** | **(1,851)** | **72,405** | 68,748 |

1. Mae gwariant ar Wasanaethau Meddygol Cyffredinol wedi cynyddu i adlewyrchu cynnydd o £0.748M mewn costau Cyffuriau Meddygon Fferyllol, £0.470M mewn costau newydd ar gyfer rhaglen Brechu Torfol Covid a £0.200M ar gyfer Gwasanaeth Ychwanegol y Ffliw. 2. Mae Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn cynnwys £515,348 o gostau cyflogau o ran Practis Meddygon Teulu y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei reoli. 3. Mae balans negyddol heb derfyn arian parod ar wasanaethau Fferyllol yn ymwneud â phresgripsiynau ar gyfer trigolion Powys sy'n cael eu dosbarthu gan fferyllfeydd y tu allan i Bowys. Effaith hyn yw all-lif net i BILI Powys. 4. Gwelodd Gwasanaethau Deintyddol ostyngiad mewn gwariant oherwydd y gostyngiad mewn taliadau contract ar sail afreolaidd, yn rhannol yn gysylltiedig â Covid a hefyd gostyngiad mewn costau Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yn y flwyddyn. 5. Mae'r cynnydd yn y gwariant ar Ofal Iechyd Sylfaenol arall yn ymwneud â chostau Ward Rithwir o £0.9M yn symud o Wasanaethau Meddygol Cyffredinol i Ofal Iechyd Sylfaenol Arall. 6. Mae rhagnodi wedi cynyddu y tu hwnt i chwyddiant sylfaenol sy'n rhannol gysylltiedig â Covid ac felly mae wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r manylion yn Nodyn 34.2.

### 3.2 Gwariant ar ofal iechyd oddi wrth ddarparwyr eraill

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 Wedi'i ailddatgan |
| Nwyddau a gwasanaethau oddi wrth Fyrddau Iechyd eraill GIG Cymru | 40,326 | 38,997 |
| Nwyddau a gwasanaethau oddi wrth Ymddiriedolaethau GIG Cymru | 3,521 | 2,947 |
| Nwyddau a gwasanaethau oddi wrth Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) | 0 | 0 |
| Nwyddau a gwasanaethau oddi wrth gyrff GIG o'r tu allan i Gymru | 63,330 | 61,146 |
| Nwyddau a gwasanaethau oddi wrth PGIAC / EASC | 41,429 | 37,035 |
| Awdurdodau Lleol | 3,729 | 1,954 |
| Mudiadau gwirfoddol | 2,320 | 2,141 |
| Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG | 2,373 | 2,218 |
| Gofal Parhaus | 15,055 | 12,461 |
| Darparwyr preifat | 337 | 379 |
| Prosiectau penodol wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru | 0 | 0 |
| Arall | 3,554 | 2,433 |
| **Cyfanswm** | **175,974** | 161,711 |

Mae'r 7 Bwrdd Iechyd yng Nghymru wedi sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC) sydd, dan reolaeth weithredol Bwrdd Iechyd Brifysgol Cwm Taf Morgannwg, yn sicrhau darpariaeth gofal iechyd hynod arbenigol ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys ariannu gwasanaethau sy'n cael eu gweithredu trwy drefniant rhannu risg. Taliad o £41.429M yw taliad y BILI am drefniadau comisiynu PGIAC/EASC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2021.
Daw'r cynnydd mewn nwyddau a gwasanaethau oddi wrth gyrff GIG o'r tu allan i Gymru yn sgil costau cynyddol yn ymwneud â symud taliadau bloc ar gyfer contractau â darparwyr GIG Lloegr. Gwelir y cynnydd mwyaf sylweddol gydag Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford, sef £1.550M ac Ymddiriedolaeth GIG Dyffryn Gwy, sef £0.488 o'i gymharu â gwariant 2020/21. Cafwyd cynnydd o £0.296M hefyd gydag Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbyty Swydd Gaerloyw, yn bennaf gysylltiedig ag ailgodi am gyffuriau.
Mae'r cynnydd mewn gwariant Awdurdodau Lleol yn ystod 2020/21 yn ymwneud â thaliadau a wnaed ar y cyd i gyflawni ymdrech y sir i gael gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu ar gyfer Covid 19 o £1.632M, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru yn unol â Nodyn 34.2.
Mae'r cynnydd mewn gwariant ar Ofal Iechyd Parhaus yn 2020/21 wedi dod yn sgil cynnydd yn nifer yr achosion a chost fesul achos o'i gymharu â 2019/20. Hefyd, gwnaeth y BILI daliadau dan y gefnogaeth ar gyfer canllawiau Gofal Cymdeithasol Oedolion yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ac a ariannwyd yn unol â'r manylion yn Nodyn 34.2.
Mae Gwariant Arall yn cynnwys gwariant ar y Gronfa Gofal Integredig o £4.065M (2019/20: £4.025M) sydd â'r nod o hyrwyddo a galluogi gweithio integredig a chydweithredol rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol i gefnogi'r egwyddorion sydd wrth wraidd integreiddio ac atal. Mae'r gwariant hwn wedi'i ailddosbarthu yn 2020/21 a rhoddwyd ailddatganiad blwyddyn flaenorol o £4.025M a symudwyd o Nodyn 3.1 Gwariant Gofal Iechyd Sylfaenol Arall i Nodyn 3.2 Arall. Darperir rhagor o fanylion yn Nodyn 34.4.
Mae Gwariant Arall hefyd yn cynnwys balans negyddol sy'n ymwneud ag adfer rhwymedigaethau o'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yr asesir nad ydynt mwyach yn daladwy, sy'n ymwneud â blynyddoedd blaenorol. Mae gwerth symiau a adferwyd yn 2020/21 yn llai o lawer na rhai 2019/20.

**3.3 Gwariant ar Wasanaethau Ysbyty ac Iechyd Cymunedol**

| | **2020-21** | 2019-20 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Costau Cyfarwyddwyr | **1,486** | 1,363 |
| Costau Staff gweithredol | **94,166** | 83,158 |
| Cost Hyfforddeion Staff un cyflogwr arweiniol | **0** | 0 |
| Cost Staff Banc cydweithredol | **0** | 0 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau - clinigol | **6,287** | 4,962 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau - cyffredinol | **1,882** | 1,321 |
| Gwasanaethau Ymgynghorol | **248** | 448 |
| Sefydliad | **1,826** | 2,490 |
| Trafnidiaeth | **1,164** | 1,415 |
| Safleoedd | **6,795** | 5,084 |
| Contractwyr Allanol | **0** | 0 |
| Dibrisiant | **3,921** | 3,734 |
| Amorteiddiad | **0** | 0 |
| Amhariadau a gwrthdroadau asedau sefydlog (Eiddo, peiriannau a chyfarpar) | **(334)** | 4,135 |
| Amhariadau a gwrthdroadau asedau sefydlog (Asedau anniriaethol) | **0** | 0 |
| Amhariadau a gwrthdroadau asedau ariannol | **0** | 0 |
| Amhariadau a gwrthdroadau asedau anghyfredol a ddelir i'w gwerthu | **0** | 0 |
| Ffioedd archwilio | **262** | 263 |
| Tâl 'Archwilwyr Eraill' | **0** | 0 |
| Colledion, taliadau arbennig a dyledion anadferadwy | **20** | 238 |
| Ymchwil a Datblygu | **0** | 0 |
| Treuliau gweithredu eraill | **3,000** | 770 |
| **Cyfanswm** | **120,723** | 109,381 |

**3.4 Colledion, taliadau arbennig a dyledion anadferadwy:**
**a godir ar dreuliau gweithredu**

| | **2020-21** | 2019-20 |
|---|---|---|
| **Cynnydd/ (gostyngiad) yn y ddarpariaeth ar gyfer taliadau yn y dyfodol:** | **£'000** | £'000 |
| Esgeulustod clinigol | | |
| Gofal eilaidd | **(15)** | 1,825 |
| Gofal sylfaenol | **0** | 0 |
| Gwneud Iawn mewn Gofal Eilaidd | **14** | 48 |
| Gwneud Iawn mewn Gofal Sylfaenol | **0** | 0 |
| Anafiadau personol | **1,304** | 557 |
| Yr holl golledion a thaliadau arbennig eraill | **1** | 2 |
| Ffioedd cyfreithiol amddiffyn a chostau gweinyddol eraill | **116** | (2) |
| Cynnydd/(gostyngiad) gros yn y ddarpariaeth ar gyfer taliadau yn y dyfodol | **1,420** | **2,430** |
| Cyfraniad at Gronfa Risg Cymru | **0** | 0 |
| Premiwm ar gyfer trefniadau yswirio eraill | **0** | 0 |
| Dyledion anadferadwy | **(78)** | 84 |
| **Llai:** incwm a dderbynnir/ sy'n ddyledus o Gronfa Risg Cymru | **(1,322)** | (2,276) |
| **Cyfanswm** | **20** | 238 |

| | **2020-21** | 2019-20 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Anafiadau parhaol wedi'u cynnwys mewn anafiadau personol £: | **48,340** | 87,035 |

Mae’r prif gynnydd mewn costau staff yn ymwneud â blwyddyn derfynol y cytundeb A4C, Dyfarniad Tâl Bonws Staff, croniad Gwyliau Blynyddol ac effaith y cynnydd o 6.3% mewn costau pensiynau cyflogwyr o £3.761M yn ystod y flwyddyn o’i gymharu â 2019/20 (£3.473M). Mae manylion llawn y costau pensiynau ychwanegol hyn wedi’u darparu yn nodyn 34.1. Mae’r Bill hefyd wedi gorfod talu costau staff ychwanegol yn ymwneud â’i ymdrech fel ymateb i’r pandemig Covid 19 trwy staff asiantaeth/banc, taliadau chwyddedig, oriau ychwanegol a chyflogi aelodau ychwanegol o staff.

Wedi’i gynnwys yn y ffigur costau staff ar gyfer 2020/21 mae cost y tâl bonws i’w dalu i staff y GIG yn unol â chyhoeddiad Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021. Gwerth yr amcangyfrif o hyn yw £2.421M ar gyfer gwasanaethau ysbyty a swyddogaethau a letyir ac mae cyllid wedi’i dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer hyn. Hefyd wedi’i gynnwys mewn costau staff mae darpariaeth ar gyfer Gwyliau Blynyddol doedd aelodau o staff heb eu cymryd, sy’n dod i gyfanswm o £1.721M, oherwydd effaith Covid 19.

Swm o £0.027M oedd y gwariant Gwneud Iawn Clinigol, yn cynnwys ffioedd amddiffyn, yn ystod y flwyddyn ar gyfer 28 o achosion (2019-20 £0.066M ar gyfer 26 o achosion). Mae hyn yn ymwneud â symudiad yn y ddarpariaeth ar gyfer hawliadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Disgwylir y bydd Cronfa Risg Cymru’n ad-dalu’r rhain yn llawn os gwneir taliadau ar gyfer yr hawliadau hyn. Cynhwysir y ddarpariaeth yn Nodyn 20 y cyfrifon.

Mae yna gysylltiad rhwng y Symudiad mewn Esgeulustod Clinigol, Anafiadau Personol a Ffioedd Amddiffyn a Nodyn 20 y cyfrifon ac mae’n cynnwys y symiau sy’n codi yn y flwyddyn ar y llinellau hyn wedi’u gwrthbwyso gan y symiau gwrthdro heb eu defnyddio o’r ddarpariaeth agoriadol.

Mae’r cynnydd ar linell Cyflenwadau a Gwasanaethau – Clinigol yn ymwneud yn bennaf â’r cyfrifyddu sy’n ofynnol ar gyfer eitemau a dderbynnir oddi wrth Gydwasanaethau GIG Cymru o £1.607M ar gyfer cyfarpar diogelu personol, cyfarpar meddygol a deunyddiau traul yn ymwneud â’r ymateb i’r pandemig Covid 19.

Mae’r cynnydd mewn treuliau gweithredu eraill yn cynnwys cynnydd cyffredinol o £0.629M yn gysylltiedig

## 4. Incwm Amrywiol

| | 2020-21 £'000 | 2019-20 £'000 |
|---|---|---|
| Byrddau Iechyd Lleol | 2,114 | 2,616 |
| Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC)/Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC) | 57 | 0 |
| Ymddiriedolaethau GIG Cymru | 67 | 67 |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) | 586 | 557 |
| Ymddiriedolaethau Sefydledig | 0 | 0 |
| Cyrff GIG Lloegr eraill | 136 | 320 |
| Cyrff GIG eraill | 0 | 0 |
| Awdurdodau lleol | 0 | 0 |
| Llywodraeth Cymru | 4,306 | 5,166 |
| Cyrff Lletyol Llywodraeth Cymru | 0 | 0 |
| Incwm o'r tu allan i'r GIG: | | |
| Incwm o godi am bresgripsiynau | 0 | 0 |
| Incwm o ffioedd deintyddol | 466 | 1,770 |
| Incwm o gleifion preifat | 0 | 0 |
| Incwm o gleifion tramor (anghyfatebol) | 0 | 0 |
| Cynllun Adfer Costau Anafiadau (ICR) | 114 | 63 |
| Incwm arall o weithgareddau | 1,312 | 1,550 |
| Gwasanaethau trafnidiaeth cleifion | 34 | 33 |
| Addysg, hyfforddiant ac ymchwil | 480 | 502 |
| Cyfraniadau elusennol a chyfraniadau eraill at wariant | 0 | 0 |
| Derbyn asedau Covid a brynwyd yn ganolog gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru | 1,607 | 0 |
| Derbyn asedau Covid a brynwyd yn ganolog gan sefydliadau eraill | 0 | 0 |
| Derbyn asedau rhoddedig | 13 | 176 |
| Derbyn asedau gan y Llywodraeth | 16 | 0 |
| Cynlluniau cynhyrchu incwm nad yw'n ymwneud â gofal cleifion | 0 | 0 |
| Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) | 0 | 0 |
| Incwm gohiriedig wedi'i ryddhau i refeniw | 0 | 0 |
| Incwm rhenti wrth gefn o brydlesi cyllid | 0 | 0 |
| Incwm rhenti o brydlesi gweithredu | 60 | 64 |
| Incwm arall: | | |
| Darparu gwasanaethau golchi dillad, patholeg, cyflogres | 0 | 0 |
| Codi am lety ac arlwyo | 91 | 109 |
| Ffioedd marwdy | 22 | 22 |
| Taliadau staff am ddefnyddio ceir | 0 | 0 |
| Yr Uned Fusnes | 0 | 0 |
| Arall | 1,120 | 2,313 |
| **Cyfanswm** | 12,601 | 15,328 |

| | | |
|---|---|---|
| Mae incwm Covid 19 Llywodraeth Cymru wedi'i gynnwys yn y cyfanswm uchod;. | 0 | |

Mae incwm amrywiol Llywodraeth Cymru'n cynnwys cyllid a dderbynnir ar ran swyddogaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru y mae'r BILI yn ei lletya. Mae hwn wedi gostwng i £3.998M o swm o £4.964M a dderbyniwyd yn 19/20.

Mae'r asedau rhoddedig a dderbyniwyd o ganlyniad i ddwy eitem o gyfarpar a ariannwyd gan Gynghrair y Cyfeillion.

Mae'r asedau gan y Llywodraeth a dderbyniwyd yn ymwneud â derbyn nifer fach o eitemau o gyfarpar a drosglwyddwyd i'r BILI o'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, â gwerth o £0.016M.

Mae'r cynnydd yn yr asedau Covid a brynwyd yn ganolog gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn ymwneud â'r cyfrifyddu sy'n ofynnol ar gyfer eitemau a dderbynnir oddi wrth Gydwasanaethau GIG Cymru o £1.607M ar gyfer cyfarpar diogelu personol, cyfarpar meddygol a deunyddiau traul yn ymwneud â'r ymateb i'r pandemig Covid 19.

Mae'r gostyngiad mewn incwm arall yn ymwneud yn bennaf â derbyn arian gwerth £0.498M yn 2019/20 mewn cysylltiad ag achos o dwyll.

Mae Incwm o Ffioedd Deintyddol wedi gostwng o'i gymharu â 2019/20 oherwydd niferoedd cyfyngedig y cleifion a gafodd driniaeth trwy gontract y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol. Cafodd y BILI ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r golled hon mewn incwm, sydd o fewn y cyllid o £31.4M y manylir arno yn nodyn 34.2.

## 5. Refeniw Buddsoddi

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Refeniw rhent:** | | |
| Incwm o brydlesi cyllid PFI | | |
| wedi'i gynllunio | 0 | 0 |
| wrth gefn | 0 | 0 |
| Refeniw arall o brydlesi cyllid | 0 | 0 |
| **Refeniw llog:** | | |
| Cyfrifon banc | 0 | 0 |
| Benthyciadau a symiau derbyniadwy eraill | 0 | 0 |
| Asedau ariannol ag amhariad arnynt | 0 | 0 |
| Asedau ariannol eraill | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | 0 |

## 6. Enillion a cholledion eraill

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Enillion/(colledion) o waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 0 | 0 |
| Enillion/(colledion) o waredu asedau anniriaethol | 0 | 0 |
| Enillion/(colledion) o waredu asedau a ddelir i'w gwerthu | 0 | 0 |
| Enillion/(colledion) o waredu asedau ariannol | 0 | 0 |
| Newid ar y gyfnewidfa dramor | 0 | 0 |
| Newid yng ngwerth teg asedau ariannol ar werth teg trwy SoCNE | 0 | 0 |
| Newid yng ngwerth teg rhwymedigaethau ariannol ar werth teg trwy SoCNE | 0 | 0 |
| Ailgylchu enillion/(colledion) o ecwiti wrth waredu asedau ariannol a ddelir i'w gwert | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | 0 |

## 7. Costau cyllid

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Llog ar fenthyciadau a gorddrafftiau | 0 | 0 |
| Llog ar rwymedigaethau dan brydlesi cyllid | 0 | 0 |
| Llog ar rwymedigaethau dan gontractau PFI | | |
| prif gost cyllid | 0 | 0 |
| cost cyllid wrth gefn | 0 | 0 |
| Llog ar dalu dyled fasnachol yn hwyr | 0 | 0 |
| Treuliau llog eraill | 0 | 0 |
| **Cyfanswm treuliau llog** | **0** | 0 |
| Darpariaethau ymddatod disgownt | (30) | 19 |
| Costau cyllid eraill | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **(30)** | 19 |

## 8. Prydlesi gweithredu

**BILI fel lesddeiliad**

